------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Medi 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 6)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2022

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2022

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 12 Gorffennaf 2022**

(Tudalen 7)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Datganiad o egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol - 14 Gorffennaf 2022**

(Tudalennau 8 - 9)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Cyllid Llywodraeth Cymru - 20 Gorffennaf 2022**

(Tudalennau 10 - 11)

**2.4 PTN 4 - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 - 26 Gorffennaf 2022**

(Tudalennau 12 - 16)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Ymgynghoriad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – 5 Awst 2022**

(Tudalen 17)

**2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar Alldro 2020-21 – 5 Awst 2022**

(Tudalennau 18 – 49)

**2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 / Trefniadau Cyllid yr UE – 22 Awst 2022**

(Tudalennau 50 – 60)

**2.8 PTN 8 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Gwaith ynghylch Safonau Cwynion – 7 Medi 2022**

(Tudalennau 61 – 67)

## 3 Gwrandawiad cyn penodi Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru

(09.30-10.00) (Tudalennau 68 – 103)

Ruth Glazzard, Yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog ar gyfer Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-17-22 P1 – Briff cyn penodi

FIN(6)-17-22 P2 – Cais/CV yr ymgeisydd a ffefrir

FIN(6)-17-22 P3 – Pecyn gwybodaeth yr ymgeisydd

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5, 6, 9, 10 ac 11, ac o ddechrau'r cyfarfod ar 29 Medi 2022

(10.00)

## 5 Gwrandawiad cyn penodi Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru: Trafod y dystiolaeth

(10.00-10.15)

## 6 Trefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r UE: Trafod yr adroddiad drafft

(10.15-11.00) (Tudalennau 104 - 157)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-17-22 P4 - Adroddiad drafft

FIN(6)-17-22 P5 - Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Gwybodaeth Ychwanegol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 30 Mehefin 2022 - 14 Gorffennaf 2022

## Cyhoedd

## 7 Archwilio Cymru - Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22 a Chynllun Blynyddol 2022-23: Sesiwn dystiolaeth

11.00-12.00 (Tudalennau 158 - 407)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Lindsay Foyster, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol

Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio

**Supporting documents**:

FIN(6)-17-22 P6 - Archwilio Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

FIN(6)-17-22 P7 - Archwilio Cymru - Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

FIN(6)-17-22 P8 - Archwilio Cymru - Cynllun Blynyddol 2022-23

FIN(6)-17-22 P9 - Archwilio Cymru: Ymgynghoriad ar Raddau Ffioedd 2023-24

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 8 Archwilio Cymru – Amcangyfrif Atodol 2022-23: Sesiwn dystiolaeth

(12.00-12.30) (Tudalennau 408 – 425)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Lindsay Foyster, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol

Laurie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Busnes

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-17-22 P10 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol – 7 Medi 2022

FIN(6)-17-22 P11 – Amcangyfrif Atodol 2022-23: Memorandwm Esboniadol

### Preifat

## 9 Archwilio Cymru – Amcangyfrif Atodol 2022-23: Trafod y dystiolaeth

(12.30-12.35)

## 10 Archwilio Cymru – Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22 a Chynllun Blynyddol 2022-23: Trafod y dystiolaeth

(12.35-12.45)

## 11 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 – Y Dull o Graffu ar y Gyllideb

(12.45-13.00) (Tudalennau 426 – 436)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-17-22 P12 – Y Dull o Graffu ar y Gyllideb

FIN(6)-17-22 P13 – Llythyr ymgynghori

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mehefin 2022

Amser: 09.30 - 14.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13084

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru<br>Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru<br>Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol<br>Neil Surman, Llywodraeth Cymru<br>Sue Hurrell, Llywodraeth Cymru<br>Jo Salway, Llywodraeth Cymru<br>Simon Hart MP, Swyddfa Cymru<br>Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Avalon Broadway (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Papur i'w Nodi 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch yr amserlen ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 - 20 Mehefin 2022**

**2.2 Papur i'w Nodi 2 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 27 Mehefin 2022**

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaeth Ariannol; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllideb a Busnes y Llywodraeth ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y canlynol:

- Gofyn i'r Gweinidog Addysg roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am gost uned wirioneddol darparu prydau ysgol am ddim.

- Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cyllid a ddyrannwyd i adferiad y GIG sy'n mynd i'r afael â phwysau ar y gweithlu, ac effaith y cyllid a ddyrannwyd ar leihau amseroedd aros y GIG.
- Ysgrifennu at y Pwyllgor ar y cysyniad 'dim niwed' mewn perthynas ag adleoli swyddi'r gwasanaeth sifil i Gymru.
- Gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am 'Llywodraeth Cymru 2025', mewn perthynas â swyddi yn y gwasanaeth sifil.
- Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am gapasiti Llywodraeth Cymru yn ei Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn perthynas â rheoli'r nifer fawr o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5, 7 a 9 y cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2022.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## Egwyl dechnegol (10.45 - 11.00)

## 6 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol; Jo Salway, Cyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg; Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol; a Sue Hurrell, Pennaeth Caffael Gwaith Teg ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

6.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog ar y canlynol:

- Rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt yn ystod y sesiwn, yn ymwneud ag effaith dyletswydd caffael cyhoeddus ar fentrau caffael lleol Llywodraeth Cymru.
- Rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi a helpu awdurdodau contractio, a dadansoddiad o'r hyn y byddai'r canllawiau a'r cymorth yn eu cynnwys.
- Hysbysu'r Pwyllgor pan fydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyhoeddi'r ymgynghoriad ynghylch yr adolygiad o Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a chyrff eraill.

## 7 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## Egwyl (12.10-13.00)

## 8 Trefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r UE: Sesiwn dystiolaeth 4

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru; a David Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar yr ymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r UE.

8.2 Cytunodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- Y ddogfen y cyfeiriwyd ati yn ystod y cyfarfod yn cynnwys gwybodaeth am lefel y cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU.
- Ffigurau'n ymwneud â chyllid amaethyddol.
- Y graff dosbarthiad fesul awdurdod lleol.
- Gwybodaeth mewn perthynas â chyllid ar ôl y rhaglen Horizon yng Nghymru.
- Eglurhad mewn perthynas â thanwariant y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

## 9 Trefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r UE: Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2022

Amser: 09.30 - 11.31

# O bell, Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o gyfarfod heddiw.**

## Cofrestru (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

## 3 Trefniadau ariannu ar ôl yr UE: Trafod y materion o bwys

3.1 Trafododd y Pwyllgor y papur materion o bwys.

## 4 Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru: Dull recriwtio

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar bapurau yn ymwneud â phenodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Y dull craffu

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y papur ar y dull o gynnal y gwaith craffu ar y gyllideb.

## 6 Trafod y flaenraglen waith

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y flaenraglen waith.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU

6.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU a chytunwyd i gyflwyno adroddiad.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

12 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr 17 Mehefin, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Ysgrifenedig** Gweinidogol yn crynhoi'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod.

Fel rhan o'r Datganiad hwnnw, rwyf wedi cadarnhau y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn cael ei gynnal ym mis Medi o dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru, yn unol â'r trefniadau ar gyfer cylchdroi'r sawl sy'n cadeirio. Byddaf yn darparu diweddariad ysgrifenedig ar drefniadau'r cyfarfod nesaf maes o law, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau sy'n debygol o fod ar yr agenda.

Yn sgil eich llythyr dyddiedig 27 Mehefin, bydd copïau o'r ohebiaeth ynghylch cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu hanfon i Bwyllgorau eraill y Senedd, os bydd eitemau ar yr agenda (a diweddariadau cyfarfodydd dilynol) yn debygol o fod yn rhan o'u cylch gwaith. Felly, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.2

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/: RE/736/22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Gorffennaf 2022

Annwyl Peredur,

Er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio blaen-gynlluniau cyllid ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais yn flaenorol i ysgrifennu ar yr adeg hon o'r flwyddyn i nodi amrywiaeth o ffactorau ar gyfer helpu i gynllunio cyllidebau yn y dyfodol, gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd nesaf.

Gan ystyried yn gyntaf sefyllfa gyllidol gyffredinol y DU, roedd y diffyg o £144 biliwn mewn cyllid cyhoeddus yn 2021-22 yn llai na hanner y diffyg a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol, ond roedd yn dal yn uchel yn ôl safonau'r gorffennol. Mae rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos y bydd y diffyg yn gostwng i £99 biliwn yn 2022-23. Fodd bynnag, mae data 2 fis cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol yn awgrymu y gall y rhagolwg hwnnw fod yn rhy isel. Mae'r rhagolygon ar gyfer twf economaidd y DU wedi dirywio ers mis Mawrth, sydd hefyd yn debyg o gael effaith andwyol ar gyllid cyhoeddus.

Nodwyd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn y Gyllideb Derfynol ym mis Mawrth eleni. Diweddarwyd y rhain yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ddiweddar, a oedd yn cynnwys nifer gymharol fach o newidiadau o'i chymharu â chyllidebau atodol y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd cyllid ychwanegol ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru i'r rhyfel yn Wcráin a rhai newidiadau technegol er mwyn adlewyrchu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 ar lesoedd.

Roedd yr adolygiad o wariant dros 3 blynedd a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU yr hydref diwethaf yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cyllideb amlflwyddyn, gan gynnwys cynlluniau dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ochr yn ochr â dyraniadau 2022-23. Mae hyn yn rhoi darlun cliriach o'r rhagolygon cyllidebol tymor byr nag a fu'n bosibl yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn dal i wynebu cryn ansicrwydd dros y blynyddoedd nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Prin yw'r twf yn nhermau arian parod yn y cynlluniau dangosol hynny ar gyfer 2023-24 a 2024-25 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Mae hynny wedi'i lywio gan broffil setliad Llywodraeth Cymru o dan yr adolygiad o wariant. Mae'r twf isel hwnnw wedi'i waethygu ymhellach gan y rhagolygon sy'n dirywio o ran chwyddiant. Ar adeg rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2022, roedd setliad Llywodraeth Cymru eisoes yn werth £600 miliwn yn llai nag yr oedd yn hydref 2021, a hynny oherwydd chwyddiant uwch na'r disgwyl. Mae'n bosibl y bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2023-24 a 2024-25 yn werth llai mewn termau real nag yn y flwyddyn gyfredol.

Mae'r rhagolygon cynyddol lwm ar gyfer chwyddiant a thwf economaidd yn debygol o greu pwysau ychwanegol ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru, a hynny o'r bil cyflogau i gaffael nwyddau a gwasanaethau, ac i'r rhaglen gyfalaf. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud cyhoeddiadau pellach sy'n effeithio ar setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, gallai'r rhain arwain at ostyngiadau yn ogystal â chynnydd. Rydym eisoes wedi gweld gostyngiad o £30 miliwn yn ein setliad cyfalaf eleni er mwyn helpu i ariannu offer milwrol ar gyfer Wcráin.

Gan droi at brisiau a chyflogau, mae rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos y bydd y datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn cynyddu 4.1% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, 2.4% y flwyddyn nesaf, ac yna tua 2% fesul blwyddyn wedi hynny. Disgwylir y bydd cynnydd mwy yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 2022-23, sef 8.0% yn ôl rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. (Mae asesiad diweddaraf Banc Lloegr yn dangos y bydd chwyddiant CPI yn cyrraedd uchafbwynt o tua 11% yn ddiweddarach eleni.) Disgwylir i enillion cyfartalog y DU gynyddu 5.1% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a 2.4% y flwyddyn nesaf. Dylid nodi nad ydym yn disgwyl unrhyw gynnydd yn ein setliad er mwyn ariannu cynnydd yng nghyflogau'r sector cyhoeddus – bydd yn rhaid rheoli'r bil cyflogau â'r adnoddau presennol.

Mae gennym setliad sy'n cwmpasu 3 blynedd, sy'n rhoi darlun cliriach o ragolygon tymor byr Cyllideb Llywodraeth Cymru nag yr ydym wedi arfer ag ef yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hwn yn dangos mai ychydig iawn o dwf y bydd Llywodraeth Cymru yn ei weld mewn adnoddau dros y ddwy flynedd nesaf. Yn ogystal â hynny, mae'r rhagolygon economaidd yn ansicr ac mae'n debyg iddynt ddirywio ers rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Gan gadw hynny mewn cof, ni allwn fod yn sicr y bydd y setliad sydd gennym yn cael ei gynnal, gyda phosibilrwydd y bydd Llywodraeth y DU yn dargyfeirio adnoddau pellach oddi wrth raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 2.3

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/740/22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

20 Gorffennaf 2022

Annwyl Peredur,

Fel bob amser rwy'n ddiolchgar am gyfraniadau'r Pwyllgor Cyllid yn y rôl hanfodol o graffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru. Wrth graffu ar y Gyllideb ddrafft 2022-23, cynigiodd y Pwyllgor Cyllid yr argymhelliad canlynol:

> 'Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am gylch gwaith ac aelodaeth Pwyllgor Cyllid Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd o ganlyniad i'r Cytundeb Cydweithio, ac yn darparu rhagor o fanylion am ei rôl, gan gynnwys ei gylch gwaith, o ran llunio a monitro cyllideb Llywodraeth Cymru.'

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ac rwy'n cydnabod diddordeb y Pwyllgor Cyllid yn rôl, aelodaeth a chylch gwaith Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio.

Ar 1 Rhagfyr 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen o'r enw 'Y Cytundeb Cydweithio: mecanweithiau'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cydweithio yn ystod y Cytundeb, gan fanylu ar gylch gwaith, aelodaeth ac amlder cyfarfodydd Pwyllgorau'r Cytundeb Cydweithio. Mae gwybodaeth ynghylch Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio i'w gweld isod.

***Y Cytundeb Cydweithio***

Fe fyddwch yn ymwybodol bod gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru amcan cytûn i 'gyflawni rhaglen waith a rennir ac y cytunwyd arni, drwy Gytundeb Cydweithio dros gyfnod o dair blynedd.' Mae'r cytundeb hwn yn nodi'r 46 maes polisi y mae'r ddau bartner wedi cytuno i weithio arnynt gan gynnwys: prydau ysgol am ddim, diwygio'r dreth gyngor, dyfodol gofal cymdeithasol a chwmni ynni sero net ymysg llawer o faterion eraill.

Mae'r ddogfen mecanweithiau yn cyflwyno sut y bydd y Cytundeb Cydweithio yn gweithio, gan nodi 'Bydd pwyllgorau a fydd yn cynnwys Gweinidogion Cymru ac aelodau dynodedig o Grŵp Senedd Paid Cymru yn cael eu sefydlu i gyfarfod yn rheolaidd a dod i gytundeb drwy gonsensws ar faterion o dan sylw yn y Cytundeb Cydweithio.'

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio: Cylch Gwaith***

O ran cylch gwaith Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio, mae'r ddogfen mecanweithiau yn datgan 'Darperir adnoddau fel y cytunwyd ar gyfer y Cytundeb Cydweithio a chaiff y trosolwg o'r gwaith o gyflawni'r Cytundeb, a'r dyraniadau cyllidebol ar ei gyfer, ei fonitro ar y cyd drwy Bwyllgor Cyllid... Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau wedi'u hen sefydlu ar gyfer monitro'r defnydd o arian sy'n cael ei ddyrannu drwy'r broses gyllidebol, ac adrodd ar y defnydd hwnnw. Bydd y gweithdrefnau hyn yn berthnasol yn yr un modd i arian a ddyrennir o dan y Cytundeb hwn.'

***Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio: Amlder y cyfarfodydd***

Mae'r ddogfen mecanweithiau yn nodi 'Penderfynir maes o law ar amlder y cyfarfodydd ond cânt eu cynnull yn rheolaidd yn y cyfnod cyn gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer y Gyllideb flynyddol, ac adeg unrhyw drafodaethau ar gyllidebau atodol'.

***Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio: Aelodaeth***

Bydd aelodaeth Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio 'yn cynnwys y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gyllid ac aelod dynodedig perthnasol Plaid Cymru' fel y manylir yn y ddogfen mecanweithiau.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 2.4

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/ 743/22

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Gorffennaf 2022

Annwyl Peredur,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybodaeth bellach am rai materion a godwyd yn ystod y sesiwn graffu ar 30 Mehefin ar y gyllideb atodol gyntaf.

**Darpariaeth prydau ysgol am ddim – costau uned**

Er mwyn datblygu dyraniadau cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, bu'n hanfodol cytuno ar gyfradd uned. Dyma'r gyfradd i bob disgybl, ac i bob pryd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei defnyddio i ariannu'r awdurdodau lleol wrth gyflwyno'r cynnig.

Nid yw cyfrifo'r gyfradd hon yn syml ond mae wedi ystyried nifer o ffactorau fel y bydd fy ymateb yn mynd ymlaen i'w hamlinellu. Er hynny, yn y lle cyntaf, gallaf gadarnhau bod dyraniadau dangosol ar gyfer 2022-23 a chynigion grant bellach wedi'u gwneud i bob awdurdod lleol ar y sail ganlynol:

- Bydd awdurdodau lleol yn cadw'r ddyletswydd[1] sy'n gysylltiedig â darparu bwyd i'r rhai sy'n gymwys i gael pryd ysgol am ddim o dan feini prawf sy'n ymwneud â budd-daliadau.
- Bydd cyllid grant Llywodraeth Cymru yn helpu i ehangu cynnig prydau bwyd am ddim i bawb sy'n dod yn gymwys o ganlyniad i'r ymrwymiad.

[1]Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu cinio ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys o dan ddarpariaethau prydau ysgol am ddim presennol Deddf Addysg 1996. Wrth gyflwyno'r cynnig cyffredinol, bydd y gofyniad hwn yn parhau. Mae hyn yn golygu y bydd y rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd am Brydau ysgol am ddim drwy feini prawf sy'n gysylltiedig ag incwm/budd-daliadau (eFSM) yn parhau i gael eu hariannu gan gyllidebau awdurdodau lleol (gan gynnwys y Grant Cynnal Refeniw) pan fydd y cynnig cyffredinol yn dechrau. Bydd y disgyblion "newydd" y tu allan i ddarpariaethau Deddf 1996 sy'n cael pryd o fwyd yn cael eu hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Pennwyd y gyfradd uned i bob pryd a ddarperir drwy'r grant yn £2.90.
- Mae dyraniadau cyllid yn seiliedig ar 86% o ddysgwyr sydd newydd gymhwyso yn manteisio ar y cynnig yn unol â chynlluniau pob awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno'r cynnig yn y flwyddyn gyntaf y caiff ei gyflwyno (mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng pob disgybl ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021 minws y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o dan feini prawf sy'n gysylltiedig ag incwm/budd-daliadau neu drwy drefniadau amddiffyn wrth bontio, sef cyfanswm yr ehangu a ragwelir).
- Mae ffi i dalu costau gweinyddu ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i weinyddu'r cynnig hefyd wedi'i chynnwys mewn dyraniadau grant. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf, cytunwyd y bydd hyn yn cael ei bennu yn 6% o ddyraniad grant pob awdurdod lleol. Mae hyn yn arferol gyda rhaglenni o'r raddfa hon ac mae'n adlewyrchu cymhlethdod cyflwyno'r cynnig hwn.
- Bydd cyllid yn cael ei ddosbarthu fel rhan o Grant Addysg yr Awdurdod Lleol ar sail y galw. Bydd angen i'r awdurdodau lleol baratoi hawliadau bob tymor ar nifer wirioneddol y prydau bwyd a weinir. Bydd unrhyw amrywiannau sy'n llai neu'n fwy na 86% o brydau bwyd a weinir yn cael eu haddasu yn y dyraniad ar gyfer y tymor nesaf.
- Cynhelir adolygiad o'r gyfradd uned yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan ddefnyddio data amser real ar gostau/defnydd a ddarperir gan yr awdurdodau lleol, er mwyn datblygu dealltwriaeth ddyfnach a, lle y bo'n briodol, fireinio'r gyfradd ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Fel y nodais, nid yw cyfrifo cyfradd uned ar y cam hwn o gyflwyno cynnig o'r raddfa hon yn syml ac wrth gytuno ar gyfradd o £2.90 mae nifer o ffactorau wedi'u hystyried gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'i swyddogion. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfraddau uned presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim ar draws awdurdodau lleol, tystiolaeth o gostau cynyddol, y flaenoriaeth a'r disgwyliadau a roddir ar ansawdd a chyrchu cynhwysion yn lleol, cynaliadwyedd y cynnig, a fforddiadwyedd o fewn yr amlen gyllido gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r risg y gallai'r gyfradd hon fod yn annigonol wrth i'r cynnig gael ei gyflwyno, ac maent yn ymwybodol o'r potensial i gyflwyno pwysau pellach o ganlyniad i gostau cynyddol yn gyffredinol. Rydym hefyd yn dal yn ymwybodol y bydd rhai awdurdodau lleol yn gallu darparu prydau bwyd ar gyfradd uned is. Er hynny, ac ar y cam hwn o gyflwyno'r cynnig hwn, teimlir bod y dyraniadau grant sydd ar gael i'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn darparu sail briodol ar gyfer cynllunio a dechrau cyflawni eu cynnig.

Mae'r gyfradd a bennwyd yn cymharu'n ffafriol â'r gyfradd uned o £2.41 yn Lloegr ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion babanod. Serch hynny, fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid o'r cychwyn cyntaf er mwyn deall yn well y costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ymrwymiad hwn. Felly, cynhelir adolygiad o'r gyfradd uned yn ystod y flwyddyn gyntaf.

**<u>Cyllid a ddyrannwyd i adferiad y GIG i fynd i'r afael â phwysau'r gweithlu</u>**

Rydym yn datblygu Cynllun i'r Gweithlu i nodi ein dull aml-elfen o adeiladu a defnyddio ein gweithlu i gefnogi adferiad. Rhaid inni sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn cadw ein gweithlu presennol i gefnogi adferiad dros y blynyddoedd nesaf, gan ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u llesiant i'w galluogi i wella a chefnogi'r broses o adfer y system ehangach hefyd.

Roedd Archwilio Cymru yn gadarnhaol iawn am y dulliau a ddefnyddiwyd ledled Cymru yn ystod y pandemig a rhaid inni adeiladu ar y gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod.

Ar yr un pryd, bydd ein buddsoddiad mwyaf erioed mewn hyfforddi ac addysgu aelodau newydd o'r gweithlu yn sicrhau ein bod yn gallu darparu mwy o staff cymwysedig newydd i'r GIG yn y blynyddoedd nesaf.

Byddwn hefyd yn parhau i recriwtio gweithlu ychwanegol gan gynnwys o dramor lle mae hyn yn foesegol.

Er hynny, rhaid inni dderbyn mewn marchnad lafur dynn iawn na fyddwn yn gallu datrys hyn drwy recriwtio yn unig. Bydd angen inni sicrhau hefyd ein bod yn defnyddio ein gweithlu presennol yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys hybu a chefnogi gwaith tîm amlddisgyblaethol, mabwysiadu egwyddorion sy'n seiliedig ar werthoedd gyda phobl sy'n gweithio ar frig eu trwydded gyda chymorth priodol a datblygu a defnyddio pobl mewn rolau newydd.

Mae angen inni feddwl yn wahanol hefyd am sut yr ydym yn trefnu ein gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaethau, sy'n gwneud y defnydd gorau o amser cyfyngedig staff ac sy'n gweithio mewn gwahanol ffyrdd i fanteisio ar dechnoleg newydd a darpariaeth ddigidol.

Bydd cynllunio'r gweithlu mewn ffordd gadarn a'i ddefnyddio'n effeithiol yn allweddol i ategu'r newidiadau hyn a sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o adnoddau'r gweithlu sydd ar gael inni.

**<u>Arian a ddyrannwyd i leihau amseroedd aros y GIG</u>**

Cyhoeddwyd y Cynllun Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd ar 26 Ebrill. Mae'n nodi ein huchelgais ar gyfer trawsnewid y ffordd y darperir gofal wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y gofal a'r driniaeth y maent yn eu haeddu. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â chlinigwyr ac ynddo ceir nifer o uchelgeisiau heriol, ond cyraeddadwy. Y cyntaf o'r rhain yw peidio â chael llwybrau agored dros 52 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol erbyn diwedd 2022, ac yna peidio â chael llwybrau agored dros 104 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Rydym yn disgwyl i'r targedau hyn gael eu cyflawni ac mae cynnydd yn cael ei fonitro'n agos drwy'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros Adfer ym maes Gofal a Gynlluniwyd.

Yn ogystal â lleihau nifer y llwybrau agored dros 104 wythnos, caiff y cyllid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â thrawsnewid ac i gefnogi cleifion wrth iddynt aros am driniaeth er mwyn sicrhau, os bydd angen llawdriniaeth arnynt, y byddant yn ddigon iach i'w chael.

Fel y gwyddoch, darparwyd cyllid cylchol o £170 miliwn i gefnogi'r cynllun hwn, ond yn ogystal, mae £15 miliwn hefyd ar gael ar gyfer trawsnewid gofal wedi'i gynllunio ac £20 miliwn ar gyfer llwybrau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.

Rydym yn dechrau gweld rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn. Ar ddiwedd mis Ebrill, gostyngodd nifer y llwybrau agored dros 104 wythnos am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig.

Mae'n werth nodi hefyd fod byrddau iechyd wedi datblygu cynlluniau trawsnewidiol manwl fel rhan o'u cynlluniau tymor canolig integredig. Craffwyd ar y rhain er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian. Disgwylir i fyrddau iechyd ddangos yr ychwaneged y mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn wedi'i gyflawni.

**Y cysyniad o 'ddim anfantais' mewn perthynas ag adleoli swyddi'r gwasanaeth sifil i Gymru**

Mae'r cysyniad o 'ddim anfantais', yn golygu, yn gyffredinol, na fydd unrhyw lywodraeth yn y DU o dan anfantais ariannol o ganlyniad i benderfyniadau neu weithredoedd un arall. O ran llywodraethau datganoledig, mae'r canllawiau sy'n cymhwyso'r cysyniad 'dim anfantais' yn y Datganiad o Bolisi Ariannu (paragraff 2.5; is-baragraff 10) a'r Fframwaith Cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (paragraffau 34 – 39).

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i'r broses o gymhwyso fformiwla Barnett wneud darpariaeth ddigonol i liniaru effaith penderfyniadau gwahanol sy'n cael eu gwneud gan briod lywodraethau.

O ran cyhoeddiad Llywodraeth y DU y byddai'n torri 91,000 o swyddi yn y gwasanaeth sifil – mae'r rhain i gyd yn ymwneud ag adrannau Llywodraeth y DU. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o swyddi'r gwasanaeth sifil yng Nghymru o fewn adrannau Llywodraeth y DU, felly, mae posibilrwydd cryf y byddai cyfran o'r toriadau hyn yn digwydd yng Nghymru. Ni fyddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gyllideb Llywodraeth Cymru gan fod y swyddi hyn mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.

Byddwn yn parhau i gyfathrebu â llywodraeth y DU ac yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw benderfyniadau a fyddai'n arwain at golli swyddi yng Nghymru.

**'Llywodraeth Cymru 2025'**

Bu disgwyl mawr am gyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd yn lleihau niferoedd staff y gwasanaeth sifil dros y tair blynedd nesaf. Mae graddfa'r colledion yn fwy na'r disgwyl.

Mae telerau ac amodau staff islaw lefel SCS wedi'u datganoli. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad yw'r cyhoeddiad a wnaed gan y Prif Weinidog ar dargedau lleihau staff yn gymwys i'r gweinyddiaethau datganoledig.

Fel gyda llawer o agweddau eraill ar ymadael â'r UE a'r ymateb i'r pandemig, gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniadau gwahanol iawn ar ein blaenoriaethau a bu rhaid iddi wneud penderfyniadau anodd ynghylch y ffordd orau o reoli o fewn adnoddau cyfyngedig iawn. Gwnaethom y penderfyniad bwriadol i beidio â chynyddu nifer y staff yn Llywodraeth Cymru yn yr un modd â Whitehall - felly ni fyddwn yn gwneud yr un gostyngiadau. Nid ydym yn disgwyl cael ein cosbi drwy ostyngiadau yn yr arian sy'n dod i Gymru am lwyddo mor effeithlon yn ystod heriau digynsail y pedair blynedd diwethaf.

Er nad ydym yn bwriadu gwneud ein gweithlu'n llai, rydym bob amser yn canolbwyntio ar sut y gallwn ddefnyddio'r capasiti a'r sgiliau sydd gennym o fewn Llywodraeth Cymru - a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach – mor effeithlon ac effeithiol â phosibl ar gyfer y dyfodol. Bydd rhaglen **Llywodraeth Cymru 2025** yr Ysgrifennydd Parhaol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sefydliad i fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl dros y tair blynedd nesaf ac ar gyfer y tymor hwy.

Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ein strategaethau ar gyfer y gweithlu, ein gweithleoedd a strategaethau digidol, yn ogystal ag ymgyrch gwelliant parhaus a gaiff ei harwain ar lefel grŵp. Mae rhai camau gweithredu cynnar, fel adlinio'r grŵp i adlewyrchu blaenoriaethau Gweinidogol yn well, eisoes wedi'u rhoi ar waith i gryfhau adnoddau mewn meysydd allweddol.

**Gwasanaethau Cyfreithiol**

Mae gan yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol 162 o gyfreithwyr ar hyn o bryd. Bydd y nifer hwn yn cynyddu dros y misoedd nesaf drwy ychwanegu rhagor o gyfreithwyr at yr adran. Yn ogystal, mae rhai swyddi gwag cyfreithwyr o ymarfer recriwtio diweddar wedi'u llenwi erbyn hyn a bydd y ddau beth hyn gyda'i gilydd yn golygu mwy o gapasiti adrannol dros y flwyddyn i ddod.

Mae gwaith y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn heriol, yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser yn aml a rhaid ei gydbwyso â'r busnes arferol arall sydd i'w gyflawni. Mae'r adran wedi llwyddo hyd yn hyn i fodloni'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi'u gosod arni, er nad oedd rhywfaint o'r gwaith wedi'i gynllunio a bod angen ymateb cyflym. Daeth hyn â heriau sylweddol yn ei sgil ac mae'r Gweinidogion wedi gorfod penderfynu ar eu blaenoriaethau i gynorthwyo'r gwaith cyflawni.

Mae'r adran wrthi'n mynd drwy broses ymgynghori ar ad-drefnu er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn agosach byth â phortffolios y Gweinidogion er mwyn helpu i gyflawni'r gwaith.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Awst 2022

Annwyl Peredur,

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 30 Mehefin lle craffwyd ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), cytunais i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar yr ymgynghoriad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Pwyllgor yn gwybod erbyn hyn, mae'n siŵr, ein bod wedi cyhoeddi ymgynghoriad sy'n gofyn am farn ar estyn y ddyletswydd llesiant i gyrff cyhoeddus a enwir yn Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ar y cyfleoedd i gyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 14 Gorffennaf ac 20 Hydref 2022. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig i lansio'r ymgynghoriad.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Eitem 2.6

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

5 Awst 2022

Annwyl Peredur,

Cafodd Cyfrifon Blynyddol Cyfunol archwiliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 eu llofnodi gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar 4 Awst, yn dilyn oedi hir yn y broses glirio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Gallaf yn awr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol 2020-21 Llywodraeth Cymru yn erbyn y cynlluniau gwariant a gymeradwywyd yn Nhrydedd Gyllideb Atodol 2020-21 yn unol â'm hymrwymiad i arferion da a thryloywder.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad a'r atodiadau sy'n ei ategu yn rhoi crynodeb o wariant yn ôl portffolio o fewn cyfansymiau rheoli'r Trysorlys, amrywiadau o gymharu â'r gyllideb, esboniad ynghylch amrywiadau arwyddocaol a manylion y symiau sydd i'w cario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Hoffwn dynnu sylw'r pwyllgor at un mater penodol yn yr adroddiad. Roedd y pandemig a'r cyllid a ddarparwyd ar gyfer ein hymateb yn gwneud 2020-21 yn flwyddyn eithriadol. Darparwyd cyllid sylweddol i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU yn hwyr iawn ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyllid hwn a sicrhau'r gwerth gorau i'r trethdalwr, gwnaethom benderfyniadau i sicrhau'r gwariant mwyaf lle bynnag y bo modd, gan gynnwys bwrw ymlaen yn gynharach â'n cynlluniau cyfalaf.

Fel llywodraeth ddatganoledig, gwnaethom weithredu o fewn y rheolaeth gyllidebol gyffredinol a osodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), a dylem fod wedi cael lefel resymol o hyblygrwydd o ran y rheolaethau refeniw a chyfalaf unigol. Cafodd ein penderfyniadau i sicrhau'r gwariant cyfalaf mwyaf eu gwneud gan ystyried y rheolau yng Nghanllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys Ei Mawrhydi, sef bod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

modd cyfnewid cyllidebau refeniw yn gyfalaf – dyma arfer yr ydym wedi'i defnyddio yn y gorffennol i reoli'r sefyllfa ariannol.

Yn erbyn y cyfansymiau rheoli cyllidebol terfynol a gytunwyd gennym, mae ein halldro wedi cynhyrchu amrywiannau o danwariant RDEL o £357.9m a gorwariant CDEL o £149.1m - tanwariant net o £208.8m.

Yn dilyn trafodaeth hir gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a swyddogion Trysorlys Ei Mawrhydi, nas cwblhawyd ond yn ddiweddar, nid ydym wedi cael yr hyblygrwydd i wrthbwyso'r gorwariant cyfalaf gyda pheth o'r tanwariant refeniw. Mae hyn er gwaethaf deall y byddai modd i'r anghydbwysedd o ran refeniw a chyfalaf gael ei reoli ar ôl diwedd y flwyddyn drwy addasiad o ran alldro.

Arweiniodd y canlyniad hwn at leihad o £149.1m yn ein cyllideb cyfalaf ar gyfer 2021-22 i wrthbwyso'r "gorwariant" yn 2020-21. Mae hefyd wedi arwain at danwariant refeniw na ellir darparu ar ei gyfer o fewn yr hyblygrwydd sydd ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Rwyf wedi pwyso ar Brif Ysgrifennydd y Trysorlys dro ar ôl tro i alluogi hyblygrwydd ychwanegol i sicrhau bod y swm dros ben ar gael i Gymru wrth symud ymlaen, gan gynnig nifer o awgrymiadau rhesymol a phragmatig ynglŷn â sut y gellir cyflawni hyn. Rwyf wedi mynegi'n glir iawn fy mod yn ystyried bod y penderfyniad hwn yn cymhwyso'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol mewn modd cwbl fympwyol, nad yw'n llwyr gydnabod y trefniadau y cytunwyd â'r llywodraethau datganoledig arnynt yn eu fframweithiau ariannol perthnasol. Fodd bynnag, gwrthodwyd pob un o'r ceisiadau hynny. O ganlyniad, bydd Cymru'n cael ei hamddifadu o £155.5m y dylem fod wedi gallu ei gario ymlaen – ac rwyf wedi rhoi gwybod i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys bod hyn yn gwbl annerbyniol.

Dylid nodi mai cyfanswm y tanwariant gan holl adrannau Llywodraeth y DU yn 2020-21 oedd £25 biliwn,[1] sef bron 6% o gyfanswm y ddarpariaeth a oedd ar gael i'r adrannau hynny yn y flwyddyn honno. Cafodd yr holl danwariant gan adrannau'r DU ei ddychwelyd i Drysorlys Ei Mawrhydi. Roedd tanwariant yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unig yn fwy na 9%, a dychwelodd felly £18.6 biliwn i'r Trysorlys – byddai cyfran Barnett o hynny'n cyfateb i dros £1 biliwn i Gymru. Yn wahanol i hynny, roedd y tanwariant yng Nghymru yn cyfateb i 1% yn unig o'r adnoddau a oedd ar gael, gan ddangos pa mor effeithiol y rheolwyd ein hadnoddau yn 2020-21 o dan amgylchiadau hynod heriol. Mae hynny'n cynnal hanes Llywodraeth Cymru o fod ymhlith adrannau a llywodraethau datganoledig gorau'r DU o ran defnyddio ein cyllideb.

Rwy'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau neu i sicrhau bod y cyfarwyddwr cyllid a'i staff ar gael i'r pwyllgor i drafod y mater hwn a manylion yn yr adroddiad, os bydd hynny o gymorth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

[1] Dadansoddiadau Ystadegol o Wariant Cyhoeddus (PESA) 2021 - Tabl 3.6

# Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Alldro 2020-21

Adroddiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar alldro Llywodraeth Cymru 2020-21 wedi'i osod yn erbyn y gwariant arfaethedig yn Nhrydedd Gyllideb Atodol 2020-21. Cyhoeddwyd ym mis Awst 2022.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ..................................................................................... 2

2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant 2020-21 ............................................. 3

3. Cario symiau ymlaen o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru .................... 13

ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb .. 17

ATODIAD 2: Alldro DEL Cyfalaf yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ....... 24

ATODIAD 3: Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb .................................................... 28

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnig y Gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y Gyllideb yn ystod y flwyddyn.

**1.2** Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

*Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.*

**1.3** Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

**1.4** Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21.

**1.5** Cymeradwywyd Trydedd Gyllideb Atodol 2020-21 gan y Senedd ar 9 Mawrth 2021. Mae'r alldro terfynol yn dilyn llofnodi Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar a Awst 2022.

**1.6** Ni wnaed unrhyw ddyraniadau cyllidebol ychwanegol o gronfeydd wrth gefn rhwng dyddiad cyhoeddi'r gyllideb a diwedd y flwyddyn ariannol.

**1.7** Llunnir yr adroddiad ar yr alldro ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn ac y disgwylir y caiff ei gofnodi yn y cyfrifon blynyddol archwiliedig.

## 2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant[1] 2020-21

**2.1** Mae Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys Crynodeb Alldro Adnoddau gan gynnwys rheolaeth a gymeradwywyd yng nghynnig Trydydd Cyllideb Atodol 2020-21.

**2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd â Thrydedd Gyllideb Atodol 2020-21.

**2.3** Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hefyd yn darparu esboniadau o *bob* gorwariant ynghyd ag unrhyw danwariant o fwy na 1% o gyllidebau lefel MEG ym mhob un o'r cyfansymiau rheoli (yn ddarostyngedig i lefel de minimis o £0.5m).

**2.4** Dadansoddwyd yr alldro ymhellach i'r lefel a gyhoeddwyd yn Nhrydedd Gyllideb Atodol 2020-21. Mae'r tablau a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb yn dangos dadansoddiad i Linellau Gwariant yn y Gyllideb neu 'BEL'. Mae'r alldro yn erbyn y gyllideb yn cael ei ddarparu ar y sail hon yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

### Alldro DEL Adnoddau (Refeniw)

#### *DEL Adnoddau Cyllidol*[2]

**2.5** Arweiniodd yr alldro Adnoddau Cyllidol ar gyfer y flwyddyn at danwariant o £214.9m sy'n cyfateb i amrywiant o 1.1% yn y gyllideb.

---

[1] Cyllideb lefel uwch sy'n cynrychioli portffolio gweinidogol neu gyllidebau gweinyddu canolog yw Prif Grŵp Gwariant neu MEG.

[2] Mae DEL Adnoddau Cyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EM ac yn is-set o Adnoddau DEL, ac fe'i gelwir hefyd yn 'refeniw' .

**2.6** Effeithiodd y pandemig ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo yn sylweddol ar y gwariant yn y dosbarthiad hwn o'r gyllideb. Darparodd Llywodraeth y DU £5,705m o gyllid ychwanegol ar gyfer yr ymateb i'r pandemig yn ystod y flwyddyn. Caniataodd Trysorlys EM i £485m o'r cyllid ychwanegol hwn gael ei gario drosodd y tu allan i'r trefniadau arferol.

**2.7** Dosbarthodd Llywodraeth Cymru £5,432m i MEGs yn 2020-21, yr oedd £5,116m ohono yn DEL Adnoddau Cyllidol. Mae'r alldro i'w weld yn y ffigurau a gofnodir isod.

**2.8** Mae Tabl 2.1 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

| **Tabl 2.1: Alldro Adnoddau Cyllidol yn ôl MEG** | **Cyllideb £000** | **Alldro £000** | **Tanwariant/ Gorwariant (-) £000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,493,029 | 9,356,253 | 136,776 | 1.44 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,103,774 | 5,023,291 | 80,483 | 1.58 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 2,671,959 | 2,630,567 | 41,392 | 1.55 |
| Addysg | 1,657,843 | 1,707,832 | -49,989 | -3.02 |
| Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 476,505 | 476,409 | 96 | 0.02 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 308,424 | 302,555 | 5,869 | 1.90 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 413,770 | 413,450 | 320 | 0.08 |
| **CYFANSWM** | **20,125,304** | **19,910,357** | **214,947** | **1.07** |

**2.9** Roedd prif elfen y tanwariant o £136.8m a gofnodwyd yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn danwariant o £115m mewn cyllid a ddyrannwyd ar gyfer yr ymateb i'r pandemig. Mae hyn yn nodweddiadol o gyfnod rheoli cyllideb eithriadol pan gafodd £1.5bn yn ychwanegol ei ddyrannu i'r GIG yng Nghymru yn ychwanegol at y cyllid craidd. Cafodd lefel a chyflymder yr ymateb eu pennu'n aml gan amgylchiadau hynod gyfnewidiol y pandemig. Nid diffyg cyflawni gweithgareddau oedd i gyfrif am y tanwariant. Yn hytrach, y prif reswm yn syml yw bod y costau gwirioneddol ar gyfer y meysydd sy'n seiliedig ar alw wedi syrthio ar begwn isaf yr amrediad o gostau amcangyfrifiedig. Roedd y tanwariant sy'n weddill o £22m yn gysylltiedig â chyllid nad oedd wedi'i ddyrannu ar

gyfer y pandemig ac yn cynnwys cyllid wrth gefn o'r £30m a ddyrannwyd yn y Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer dibenion rheoli'r gyllideb ganolog nad oedd eu hangen. Cofnodwyd achosion eraill hefyd o orwario a thanwario a oedd yn cydbwyso ei gilydd.

**2.10** Roedd y tanwariant yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yn cynnwys £69m y gellir ei briodoli i Gronfa Galedi'r Awdurdodau Lleol a £21m mewn perthynas â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig. Cafodd dyraniadau eu gwneud i'r Gronfa Galedi yn y Drydedd Gyllideb Atodol yn seiliedig ar gynllunio senarios ar gyfer gweithgarwch posibl hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. O ganlyniad i'r amgylchedd ansicr yn sgil y pandemig, darparwyd cyllideb a fyddai'n caniatáu i'r cymorth mwyaf posibl gael ei gynnig. Roedd y galw gwirioneddol yn is na'r disgwyl gan arwain at danwariant mewn rhai meysydd o'r Gronfa Galedi. Elwodd cyllideb y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan ddychwelodd sawl cwmni mawr y rhyddhad yr oeddent wedi'i dderbyn i Lywodraeth Cymru. Cafodd camau eu cymryd yn y MEG i reoli unrhyw danwariant a oedd yn dod i'r amlwg. Mae'r tanwariant hwn wedi'i gydbwyso'n rhannol gan wariant ychwanegol a gymeradwywyd ar ôl y gyllideb o £12m ar gynnal a chadw ffyrdd.

**2.11** Gellir priodoli tanwariant cyllideb refeniw MEG yr Economi a Thrafnidiaeth i raddau helaeth i'r driniaeth dechnegol yn y gyllideb ar gyfer y diffygiant o £43m yn y buddsoddiad ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig, a gafodd ei sgorio yn erbyn DEL Adnoddau Anghyllidol ac nid DEL Adnoddau Cyllidol fel y disgwyliwyd yn wreiddiol.

**2.12** Cafwyd gorwariant o £50m yn y MEG Addysg. Rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer gwariant nad oedd wedi'i gynllunio o £88.2m ar ôl y gyllideb atodol i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn o £30m a ddyrannwyd i'r MEG yn ogystal â thanwariant a gofnodwyd ar draws Llywodraeth Cymru yn gyfan. Roedd hyn yn cynnwys £33m o gyllid ychwanegol i gefnogi adferiad wedi'r pandemig o ran addysgu a dysgu ar draws y system addysg, £45m ar

gyfer cynnal refeniw ysgolion, £6.5m ar gyfer y rhaglen gyfnewid ryngwladol ar gyfer dysgu a £3.7m ar gyfer cynhaliaeth addysg bellach.

**2.13** Cofnodwyd tanwariant o £5.9m gan y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu effaith y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar ohirio gweithgarwch yn y portffolio sy'n ymwneud â digwyddiadau, twristiaeth ac ymgyrchoedd yn y gweithle megis "Pwysau Iach: Cymru Iach". Mae hefyd yn cynnwys addasiad cyfrifyddu gwerth £3.5m ar gyfer gweithgareddau cyflenwi'r corff a noddir, Chwaraeon Cymru.

### *DEL Adnoddau Anghyllidol*[3]

**2.14** Bu tanwariant o £236.7m, neu 18.3% o'r gyllideb, yng nghyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol. Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi ac na ellir ei dargyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllidebau hyn yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant a darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr.

**2.15** Mae Tabl 2.2 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

| **Tabl 2.2: Alldro Adnoddau Anghyllidol yn ôl MEG** | **Cyllideb £000** | **Alldro £000** | **Tanwariant /Gorwariant (-) £000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 220,137 | 215,303 | 4,834 | 2.19 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 213 | 279 | -66 | -30.98 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 344,400 | 384,319 | -39,919 | -11.59 |
| Addysg | 682,291 | 413,713 | 268,578 | 39.36 |
| Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 18,675 | 18,604 | 71 | 0.38 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 8,974 | 7,374 | 1,600 | 17.83 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 16,835 | 15,247 | 1,588 | 9.43 |
| **CYFANSWM** | **1,291,525** | **1,054,839** | **236,686** | **18.33** |

[3] Mae DEL Adnoddau Anghyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EM sy'n cwmpasu addasiadau cyfrifyddu blynyddol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a gafodd eu dileu, symiau eraill a gafodd eu dileu a thaliadau dibrisiant.

**2.16** Mae'r tanwariant o ran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu addasiadau i ofynion cyllid terfynol sefydliadau'r GIG yn sgil oedi o safbwynt pryniannau a llithriant cynlluniau, o ganlyniad i'r pandemig yn bennaf. Cafwyd ailasesiad technegol a oedd yn ymwneud â diffygiant disgwyliedig na ddigwyddodd mewn gwirionedd.

**2.17** Gellir priodoli gorwariant yng nghyllideb refeniw MEG yr Economi a Thrafnidiaeth i raddau helaeth i'r ffaith bod y gyllideb o £43m ar gyfer y yn y buddsoddiad ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig wedi'i chynnwys yn DEL Adnoddau Cyllidol, ac nid DEL Adnoddau Anghyllidol fel y disgwyliwyd yn wreiddiol. O ganlyniad, cafwyd gwariant yn y dosbarthiad hwn heb y gyllideb gyfatebol.

**2.18** Roedd y rhan fwyaf o danwariant yn erbyn DEL Adnoddau Anghyllidol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth benthyciadau i fyfyrwyr yn y MEG Addysg (£268.6m). Caiff benthyciadau newydd a hanesyddol eu prisio drwy fodel ystadegol sy'n darparu'r swm sy'n cael ei 'ddileu' yn flynyddol. Mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn effeithio'n sylweddol ar hyn. Roedd y gyllideb yn cynnwys cyllid wrth gefn yn y model prisio a oedd yn gyson â gweinyddiaethau eraill y DU mewn perthynas ag effeithiau economaidd posibl y pandemig. Pan aed ati i brisio, nid oedd angen y cyllid wrth gefn hwn.

**2.19** Cododd y tanwariant o £1.6m yn erbyn y MEG Iechyd, Llesiant a'r Gymraeg yn sgil oedi i waith cadwraeth a phrosiectau mawr CADW o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig.

**2.20** Roedd y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dibrisiant ystad Llywodraeth Cymru. Mae'r tanwariant o £1.6m wedi codi yn sgil gwahaniaethau yn y newidiadau blynyddol i'r rhagolygon ar ôl cymhwyso mynegeion pris eiddo, sy'n cael eu sbarduno gan y farchnad a ffactorau economaidd.

### Alldro DEL Cyfalaf

**2.21** Cofnodwyd gorwariant o £147.5m yn erbyn cyllidebau Cyfalaf, sy'n cynrychioli amrywiant o 4.7% yn erbyn y gyllideb. Mae'r DEL Cyfalaf wedi'i rannu rhwng Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf.

#### *Cyfalaf Cyffredinol*[4]

**2.22** Arweiniodd yr alldro DEL Cyfalaf ar gyfer 2020-21 at orwariant o £147.8m, sef amrywiant o 5.3% yn erbyn y gyllideb.

**2.23** Cafodd y gwariant yn y dosbarthiad hwn o'r gyllideb ei effeithio gan y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer yr ymateb i'r pandemig yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Penderfynwyd ddwyn ymlaen gynlluniau cyfalaf gan ddisgwyl y gellid defnyddio'r gyllideb refeniw heb ei gwario at y diben hwn.

**2.24** Mae Tabl 2.3 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

| **Tabl 2.3: Alldro Cyfalaf Cyffredinol yn ôl MEG** | **Cyllideb £000** | **Alldro £000** | **Tanwariant /Gorwariant (-) £000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 443,641 | 442,918 | 723 | 0.16 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 725,480 | 797,821 | -72,341 | -9.97 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 982,705 | 1,048,997 | -66,292 | -6.75 |
| Addysg | 400,306 | 411,055 | -10,749 | -2.69 |
| Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 154,658 | 154,580 | 78 | 0.05 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 78,909 | 78,326 | 583 | 0.74 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 22,137 | 21,981 | 156 | 0.70 |
| **CYFANSWM** | **2,807,836** | **2,955,678** | **-147,842** | **-5.27** |

[4] Mae DEL Cyfalaf Cyffredinol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EM sy'n cwmpasu grantiau cyfalaf ac asedau a ychwanegwyd.

**2.25** Yn erbyn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yr oedd yr elfen fwyaf o'r gorwariant (48.9%). Mae hyn yn sgil cymeradwyaeth i ddwyn ymlaen drefniadau cyflenwi cynlluniau cyfalaf a gynlluniwyd, gan gynnwys Cam 3 Cymorth i Brynu – Cymru (£48.2m), cymorth ar gyfer safleoedd strategol (£12m), benthyciadau canol tref (£10m) a chymorth ar gyfer undebau credyd (£1.5m).

**2.26** Cofnodwyd gorwariant o £66.3m ym MEG yr Economi a Thrafnidiaeth. Roedd hyn yn sgil cymeradwyaeth i gyflwyno trefniadau cyflenwi cynlluniau cyfalaf yn gynharach na'r disgwyl, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer prosiectau strategol gydag awdurdodau lleol i gefnogi gweithgarwch adfywio a gweithgarwch ar y rheilffyrdd a oedd yn dod i gyfanswm o £120m a ddefnyddiai danwariant a gofnodwyd o fewn y MEG ac a gyfrannai at reolaeth gyffredinol DEL Cymru.

**2.27** Roedd y gorwariant o £11m a gofnodwyd yn y MEG Addysg yn cynnwys cymeradwyaeth i ddwyn ymlaen wariant ar gyfer prosiectau arloesi o 2021-22 (£5.6m) a gohirio derbyniadau incwm gan yr UE ar gyfer prosiectau arloesi (£6.4m).

### *Trafodiadau Ariannol Cyfalaf*[5]

**2.28** Roedd tanwariant o £0.4m ar y gyllideb Trafodiadau Ariannol Cyfalaf a oedd gyfystyr ag amrywiant o 0.1% yn erbyn y gyllideb.

**2.29** Mae Tabl 2.4 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

[5] Mae DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EM sy'n cwmpasu cyfalaf ad-daladwy (benthyciadau ac ecwiti).

| Tabl 2.4: Alldro Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn ôl MEG | Cyllideb<br><br>£000 | Alldro<br><br>£000 | Tanwariant /Gorwariant (-)<br>£000 | % |
|---|---|---|---|---|
| Tai a Llywodraeth Leol | 184,342 | 194,208 | -9,866 | -5.35 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 155,910 | 145,676 | 10,234 | 6.56 |
| Addysg | 155 | 154 | 1 | 0.65 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | -227 | -227 | - | - |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 1,000 | 1,000 | - | - |
| **CYFANSWM** | **341,180** | **340,811** | **369** | **0.11** |

**2.30** Roedd y gorwariant ar y gyllideb yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol i fod i gael ei gymeradwyo i ddwyn ymlaen drefniadau cyflenwi a gynlluniwyd ar gyfer Cam 3 y cynllun Cymorth i Brynu – Cymru (£51.1m) a ddefnyddiai danwariant o £48.2m o fewn y MEG ac a ddefnyddiai hefyd y tanwariant a gofnodwyd yn erbyn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth (paragraff 2.31 isod).

**2.31** Roedd y tanwariant o £10m ym MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn cynnwys £5m mewn cyllid ar gyfer ymyriadau eiddo a gynlluniwyd na ellid eu defnyddio yn ogystal â £4m mewn perthynas â dyraniad a gynlluniwyd, ond na ddefnyddiwyd, ar gyfer bysiau.

## Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**2.32** Mae cyfran fawr o'r amrywiant a gofnodwyd yn y cyfrifon blynyddol yn ymwneud â thanwariant yn erbyn cyllidebau AME.

**2.33** Mae Trysorlys EM yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhaglenni penodol a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, ac fel arfer, Trysorlys EM sy'n darparu'r arian hwn. Mae'r rhan fwyaf o gyllidebau AME Llywodraeth Cymru yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu ac mae enghreifftiau'n cynnwys diffygiant asedau, cynnydd mewn darpariaethau a phrisiadau pensiwn cyrff a noddir. Mae

benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd ac a ad-dalwyd hefyd yn dod o dan y dosbarthiad hwn. Ni all Llywodraeth Cymru ailddyrannu arian sydd heb ei wario yn erbyn rhaglenni AME.

**2.34** Mae Tabl 2.5 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

| **Tabl 2.5: Alldro AME yn ôl MEG** | **Cyllideb £000** | **Alldro £000** | **Tanwariant /Gorwariant (-) £000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 311,019 | 153,089 | 157,930 | 50.78 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 717,360 | 687,579 | 29,781 | 4.15 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 48,500 | 48,623 | -123 | -0.25 |
| Addysg | 834,568 | 826,529 | 8,039 | 0.96 |
| Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 | 279 | -279 | - |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg | 17,500 | 10,232 | 7,268 | 41.53 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,999 | -1,198 | 4,197 | 139.95 |
| **CYFANSWM** | **1,931,946** | **1,725,133** | **206,813** | **10.70** |

**2.35** Bu tanwariant o £157.9m yng nghyllideb AME Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd gyfystyr â 76.4% o gyfanswm o'r tanwariant yn erbyn cyllidebau AME. Roedd y gyllideb yn cynnwys darpariaethau'r GIG, gan gynnwys Cronfa Risg Cymru sy'n seiliedig ar alw, sy'n hynod agored i amrywiadau ac sy'n cynnwys symiau mawr. Roedd yr elfen arall o danwariant AME yn gysylltiedig â'r diffygion a ddisgwyliwyd ar gyfer cynlluniau adeiladu cyfalaf y GIG, a gafodd eu heffeithio gan lithriant prosiectau ac amrywiadau rhwng rhagolygon a phrisiadau gwirioneddol wrth gwblhau cynlluniau.

**2.36** Bu tanwariant o £29.8m yng nghyllideb AME y MEG Tai a Llywodraeth Leol. Roedd hyn yn deillio o addasiadau i drefniadau cyfrifyddu gwerth teg a wnaed mewn perthynas ag eiddo'r cynllun Cymorth i Brynu – Cymru. Yn sgil y prisiadau ar gyfer 2020-21, sicrhawyd enillion sylweddol ar gyfer y llyfr benthyciadau na ellid bod wedi'u rhagweld adeg y Drydedd Gyllideb Atodol.

**2.37** Mae'r tanwariant o £8m yn yr AME Addysg yn gysylltiedig â'r gyllideb benthyciadau i fyfyrwyr sy'n cwmpasu materion ac ad-daliadau. Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n pennu'r alldro – roedd y benthyciadau a roddwyd yn ôl eu cyfrifiad nhw yn is nag yr oeddem wedi'i ragweld adeg y Drydedd Gyllideb Atodol.

**2.38** Cofnodwyd tanwariant o £7.3m yn erbyn y gyllideb AME Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Roedd hyn yn deillio yn bennaf o amrywiadau mewn prisiadau allanol ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn cyrff a noddir gan gynnwys Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac addasiadau cysylltiedig i gysoni'r gyllideb ar gyfer cyrff a noddir.

**2.39** Cofnodwyd tanwariant o £4.2m yn AME y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Fel yn ystod y blynyddoedd blaenorol, roedd yr amrywiant hwn i'w briodoli i ddarpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill staff Llywodraeth Cymru. Y costau pensiwn yw'r gwahaniaeth rhwng buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a chyfraniadau ariannol a wnaed i'r gronfa. Mae'n anodd iawn darogan y cyfraniadau hyn.

## 3. Cario symiau ymlaen o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru

**3.1** Mae Cronfa Wrth Gefn ar wahân yn bodoli i Gymru er mwyn helpu i reoli amrywiadau mewn refeniw o drethi ac mae'r Gronfa hefyd yn cynnig gallu cyfyngedig i gario tanwariant drosodd rhwng blynyddoedd. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru wedi'i chyfyngu i gyfanswm o £350m. Mae'r swm y gellir ei dynnu i lawr bob blwyddyn o Gronfa Wrth Gefn Cymru wedi'i gyfyngu i £125m o DEL Adnoddau Cyllidol a £50m o DEL Cyfalaf.

**3.2** Mae Tabl 3 yn dangos y symudiadau yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 sydd wedi'u disgrifio yn y paragraffau nesaf.

**3.3** Yn dilyn cytuno â Thrysorlys EM ar y symiau balans terfynol ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru yn 2019-20, cynyddodd balans agoriadol y balans Adnoddau Cyllidol o £1.8m a gostyngodd balans agoriadol y Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £0.1m.

**3.4** Cafodd y swm cyfan o £125m o Adnoddau Cyllidol a oedd ar gael i'w dynnu i lawr ei gynnwys yng Nghyllideb Derfynol 2020-21. Cafodd y balans a oedd ar gael a gafodd ei gario ymlaen o £40.2m ar Gyfalaf Cyffredinol a £9.8m ar Drafodiadau Ariannol Cyfalaf hefyd eu tynnu i lawr yn y Drydedd Gyllideb Atodol. Caiff y symiau hyn a dynnwyd i lawr eu dangos fel symudiadau yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

**3.5** Yn Nhrydedd Gyllideb Atodol 2020-21, cofnododd Llywodraeth Cymru DEL Adnoddau Cyllidol o £101m, DEL Cyfalaf Cyffredinol o £1m a DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £0.5m heb eu dyrannu. Ni ddefnyddiwyd y symiau hyn ac felly maent wedi cael eu hychwanegu at Gronfa Wrth Gefn Cymru i'w defnyddio yn y dyfodol.

**3.6** Mae symiau alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer DEL Adnoddau Cyllidol, Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf a nodir uchod yn yr adroddiad hwn wedi cael eu dangos fel symudiadau yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

**3.7** Mae'n rhaid ystyried alldro'r cyrff eraill a ariennir o DEL Cymru hefyd. Mae'r rhain yn ymwneud â Chomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.8** Rhagwelwyd trethi datganoledig o £2,374.3m yn y Drydedd Gyllideb Atodol. Roedd y trethi gwirioneddol a gasglwyd yn cyfateb i £2,411.9m. Gwnaeth Cronfa Wrth Gefn Cymru elwa ar y gwarged o £37.6m.

**3.9** Roedd ad-daliadau benthyca a gynlluniwyd yn llai nag a ragwelwyd ac arweiniodd hyn at warged o £2.4m a arweiniodd at gynnydd yn y balans wrth gefn felly.

**3.10** Gwnaed addasiad o £2.4m i'r DEL Cyfalaf rhwng Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol wedi i wall dosbarthu gael ei ganfod nad oedd yn ddigon sylweddol i'w addasu yn y cyfrifon ond a oedd wedi'i gynrychioli yn y gronfa wrth gefn.

**3.11** Ad-delir DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf ad-daladwy i Drysorlys EM drwy ostyngiad ym malans Cronfa Wrth Gefn Cymru yn unol â'r proffil ad-dalu y cytunwyd arno â Thrysorlys EM. Ad-dalwyd £3.3m gennym yn 2020-21.

**3.12** Gwnaed yr addasiadau terfynol i Gronfa Wrth Gefn Cymru yn dilyn trafodaeth a chyngor gan Drysorlys EM. Yn Amcangyfrif Atodol y DU, gwnaeth Llywodraeth Cymru hawliad o £31m i'r gronfa wrth gefn am ddifrod yn sgil lifogydd ac ar gyfer diogelu tomenni glo. O'r hawliad hwn, roedd £6m ar gyfer costau refeniw, ond roedd digon o DEL refeniw ar gael. Mae'r £6m wedi'i adhawlio gan Drysorlys EM.

**3.13** Cytunodd Trysorlys EM ar £9m yn ymwneud â thaliadau Ardrethi Annomestig gwirfoddol a gafwyd yn 2020-21 i'w cario ymlaen i 2021-22 yn ogystal â therfynau Cronfa Wrth Gefn arferol Cymru.

**3.14** Roedd y gorwariant o ran Cyfalaf Cyffredinol wedi'i gydbwyso yn erbyn CDEL ar gyfer 2021-22 yn Amcangyfrifon Atodol y DU ar gyfer 2021-22. Caiff yr addasiadau hyn eu dangos fel symudiadau yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

**3.15** Caiff cyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sydd heb ei dyrannu na'i gwario ei cholli ac ni ellir ei chario drosodd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

**Tabl 3 Balans Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cynnwys symiau a gariwyd ymlaen o ganlyniad i alldro DEL Cymru 2020-21**

| Cronfa Wrth gefn Cymru | Adnoddau Cyllidol £m | Cyfalaf £m | Trafodiadau Ariannol Cyfalaf £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | 228.6 | 40.2 | 67.1 | 335.9 |
| Addasiad i'r balans agoriadol | 1.8 | 0 | -0.1 | 1.7 |
| Symiau a dynnwyd i lawr o'r gronfa wrth gefn | -125.0 | -40.2 | -9.8 | -175.0 |
| DEL heb ei ddyrannu yn Nhrydedd Gyllideb Atodol 2020-21 | 101.0 | 1.0 | 0.5 | 102.5 |
| Alldro Llywodraeth Cymru | 214.9 | -147.8 | 0.4 | 67.5 |
| Alldro cyrff eraill | 2.0 | 0.1 | 0 | 2.1 |
| Alldro trethi datganoledig | 37.6 | 0 | 0 | 37.6 |
| Prif ad-daliadau benthyca | 2.4 | 0 | 0 | 2.4 |
| Addasiad Cyfalaf i Drafodiadau Ariannol Cyfalaf | 0 | -2.4 | 2.4 | 0 |
| Ad-daliadau cyfalaf ad-daladwy i Drysorlys EM | 0 | 0 | -3.3 | -3.3 |
| Adhawlio hawliad o'r gronfa wrth gefn (llifogydd a thomenni glo) | -6.0 | 0 | 0 | -6.0 |
| Taliadau gwirfoddol cyfraddau busnes a gariwyd ymlaen i 21-22 | -9.0 | 0 | 0 | -9.0 |
| Gorwariant wedi'i wrthbwyso yn 2021-22 | 0 | 149.1 | 0 | 149.1 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | **448.3** | **0** | **57.2** | **505.5** |

**3.16** Roedd cyfanswm y balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar 1 Ebrill 2021 yn £505.5m, sydd £155.5m yn fwy na'r cyfanswm a ganiateir. Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi gwrthod cais Llywodraeth Cymru i gario ymlaen gronfeydd sy'n rhagori ar gyfanswm Cronfa Wrth Gefn Cymru. O ganlyniad, bydd balans yr Adnoddau Cyllidol o £448.3m yn amsugno'r diffyg. Felly, bydd y balans agoriadol ar 1 Ebrill 2021 yn lleihau i £292.8m o ran Adnoddau Cyllidol a £350m yn gyffredinol.

**3.17** Yn ystod 2021-22, cododd Llywodraeth Cymru'r uchafswm o £175m (£125 refeniw a £50m Cyfalaf Trafodiadau Ariannol) i gefnogi cynlluniau gwariant.

# ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau[6] yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb

| LLINELLAU GWARIANT ADNODDAU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb £000oedd | Alldro £000oedd | Tanwariant / Gorwariant £000oedd | % |
| Dyraniadau Craidd y GIG | 8,441,048 | 8,420,431 | 20,617 | 0.24 |
| Dyraniadau Unongyrchol Eraill y GIG | 449,906 | 427,992 | 21,914 | 4.87 |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 244,228 | 230,833 | 13,395 | 5.48 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 156,568 | 149,223 | 7,345 | 4.69 |
| Y Gweithlu (GIG) | 34,528 | 33,013 | 1,515 | 4.39 |
| Cymru Iachach | 93,240 | 83,112 | 10,128 | 10.86 |
| Cyllidebau Eraill y GIG | 41,065 | -11,298 | 52,363 | 127.51 |
| Addysg a Hyfforddiant | 19,534 | 18,212 | 1,322 | 6.77 |
| Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu | 1,775 | 2,221 | -446 | -25.13 |
| Hybu Iechyd | 11,094 | 7,316 | 3,778 | 34.05 |
| Diogelu Iechyd wedi'i Dargedu ac Imiwneiddio | 15,570 | 13,003 | 2,567 | 16.49 |
| Cynllunio at Argyfyngau Iechyd | 6,025 | 13,446 | -7,421 | -123.17 |
| Diogelu ac Eiriolaeth | 3,985 | 3,597 | 388 | 9.74 |
| Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau | 4,077 | 4,600 | -523 | -12.83 |
| Partneriaethau ac Integreiddio | 227 | 215 | 12 | 5.29 |
| Y Sector Gofal | 299 | 86 | 213 | 71.24 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 53,215 | 52,533 | 682 | 1.28 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | 20,613 | 20,713 | -100 | -0.49 |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn | 1,589 | 1,470 | 119 | 7.49 |
| Cymorth i Ofal Plant a Chwarae | 86,351 | 72,726 | 13,625 | 15.78 |
| Cefnogi Hawliau Plant | 800 | 729 | 71 | 8.88 |
| Cefnogi Plant | 9,933 | 10,503 | -570 | -5.74 |
| Y Comisiynydd Plant | 1,580 | 1,700 | -120 | -7.59 |
| Cefnogi Teuluoedd a Phlant | 3,764 | 3,114 | 650 | 17.27 |
| CAFCASS Cymru | 12,152 | 12,066 | 86 | 0.71 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **9,713,166** | **9,571,556** | **141,610** | **1.46** |

[6] Mae'r tablau cyllidebol cyhoeddedig yn nodi cyfanswm DEL Adnoddau h.y. Cyllidol ac Anghyllidol

| LLINELLAU GWARIANT ADNODDAU TAI A LLYWODRAETH LEOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb £000oedd** | **Alldro £000oedd** | **Amrywiant £000oedd** | **%** |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | 3,499,147 | 3,505,721 | -6,574 | -0.19 |
| Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi | 376,781 | 356,187 | 20,594 | 5.47 |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | 10,000 | 10,000 | - | - |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu | 86,600 | 91,600 | -5,000 | -5.77 |
| Canlyniadau Refeniw PFI Llyw Leol | 3,124 | 3,124 | - | - |
| Trawsnewid a Deddfwriaeth | 7,717 | 7,083 | 634 | 8.22 |
| Costau Casglu Ardrethi Annomestig | 5,172 | 5,172 | - | - |
| Cymorth Ariannol Brys | 698,993 | 630,258 | 68,735 | 9.83 |
| Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio | 8,561 | 8,561 | - | - |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | 1,040 | 952 | 88 | 8.46 |
| Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol | 100 | 79 | 21 | 21.00 |
| Noddi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | 598 | 631 | -33 | -5.52 |
| Gwariant i Hyrwyddo Democratiaeth Leol | 50 | 39 | 11 | 22.00 |
| Gwelliant a Chymorth | 2,429 | 2,372 | 57 | 2.35 |
| Academi Wales | 804 | 478 | 326 | 40.55 |
| Cynghorau Cymuned a Thref | 95 | 90 | 5 | 5.26 |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | - | -34 | 34 | - |
| Cefnogi Cymunedau | 1,422 | 1,199 | 223 | 15.68 |
| Grant Plant a Chymunedau | 142,042 | 143,392 | -1,350 | -0.95 |
| Grant Cymorth Tai | 126,763 | 126,538 | 225 | 0.18 |
| Cynhwysiant Ariannol | 28,142 | 26,183 | 1,959 | 6.96 |
| Cynhwysiant Digidol | 2,310 | 2,872 | -562 | -24.33 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 8,425 | 8,429 | -4 | -0.05 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu | 3,315 | 3,299 | 16 | 0.48 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 848 | 1,073 | -225 | -26.53 |
| Digartrefedd | 20,615 | 20,422 | 193 | 0.94 |
| Polisi Tai | 4,939 | 4,955 | -16 | -0.32 |
| Grantiau Tai Cymdeithasol | - | 60 | -60 | - |
| Grant Cyllid Tai | 13,100 | 13,084 | 16 | 0.12 |
| Tir ar gyfer Tai | - | -56 | 56 | - |
| Cyllid Refeniw y Rhaglen Dai | 1,073 | 1,086 | -13 | -1.21 |
| Cronfa Cymorth i Brynu (Cymru) a Chynlluniau Eraill | - | 231 | -231 | - |
| Adfywio | 8,557 | 8,835 | -278 | -3.25 |
| Awdurdod Harbwr Caerdydd | 6,000 | 6,168 | -168 | -2.80 |
| Gwariant ar Gynllunio a Rheoleiddio | 5,070 | 4,433 | 637 | 12.56 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | 14,576 | 14,542 | 34 | 0.23 |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 4,376 | 4,046 | 330 | 7.54 |
| Estyn - Gwariant Rhaglenni | 11,203 | 10,466 | 737 | 6.58 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **5,103,987** | **5,023,570** | **80,417** | **1.58** |

| LLINELLAU GWARIANT ADNODDAU YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Galluogi Me+A287ntrau) | 1,617,535 | 1,653,966 | -36,431 | -2.25 |
| Entrepreneuriaeth | 9,171 | 10,077 | -906 | -9.88 |
| Menter Gymdeithasol a'r Economi | 730 | 553 | 177 | 24.25 |
| Busnes Cymru | 10,975 | 11,033 | -58 | -0.53 |
| Y Cymoedd Technoleg | 2,250 | 2,352 | -102 | -4.53 |
| Tasglu'r Cymoedd | 100 | 619 | -519 | -519.00 |
| Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi | 3,154 | 2,492 | 662 | 20.99 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | 70,000 | 79,015 | -9,015 | -12.88 |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 10,480 | 10,544 | -64 | -0.61 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 250 | 2,270 | -2,020 | -808.00 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 1,277 | 1,794 | -517 | -40.49 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Heb fod yn arian parod | 2,309 | 1,991 | 318 | 13.77 |
| Seilwaith Eiddo | 4,026 | 3,203 | 823 | 20.44 |
| Datblygu Polisïau Strategol | - | -155 | 155 | - |
| Cymru Iach ar Waith | 531 | 435 | 96 | 18.08 |
| Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol | 198 | 574 | -376 | -189.90 |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | 100 | 44 | 56 | 56.00 |
| Rheoli Asedau'r Rhwydwaith | 3,246 | 3,134 | 112 | 3.45 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 64,324 | 66,793 | -2,469 | -3.84 |
| Gweithrediadau Rhwydwaith - Heb fod yn arian parod | 302,691 | 216,041 | 86,650 | 28.63 |
| Hedfan | 1,705 | 89,144 | -87,439 | -5,128.39 |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 127,200 | 84,464 | 42,736 | 33.60 |
| Atodol i Reilffyrdd | 850 | 1,662 | -812 | -95.53 |
| Trafnidiaeth Cymru | 362,600 | 369,757 | -7,157 | -1.97 |
| Trafnidiaeth Cymru - Heb fod yn arian parod | 38,000 | 37,622 | 378 | 0.99 |
| Cymorth i Fysiau | 112,466 | 107,251 | 5,215 | 4.64 |
| Cardiau Clyfar | 1,116 | 351 | 765 | 68.55 |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 1,100 | 502 | 598 | 54.36 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 31,172 | 33,915 | -2,743 | -8.80 |
| Cynllun Teithio Gostyngol i Bobl Ifanc | 2,000 | 1,907 | 93 | 4.65 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 630 | 602 | 28 | 4.44 |
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 4,064 | 3,124 | 940 | 23.13 |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 132,396 | 123,830 | 8,566 | 6.47 |
| Sgiliau Marchnata | 600 | 558 | 42 | 7.00 |
| Polisi Sgiliau - Ymgysylltu | 1,676 | 1,240 | 436 | 26.01 |
| Cyflogadwyedd a Sgiliau | 58,915 | 57,678 | 1,237 | 2.10 |
| Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth | 1,500 | 1,590 | -90 | -6.00 |
| Cymunedau am Waith | 14,612 | 13,655 | 957 | 6.55 |
| Swyddi Gwell yn nes Adref | - | 289 | -289 | - |
| Gyrfa Cymru | 19,010 | 17,665 | 1,345 | 7.08 |
| Gyrfa Cymru - Heb fod yn arian parod | 1,400 | 1,305 | 95 | 6.79 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **3,016,359** | **3,014,886** | **1,473** | **0.05** |

| LINELLAU GWARIANT ADNODDAU ADDYSG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb £000oedd** | **Alldro £000oedd** | **Amrywiant £000oedd** | **%** |
| Llythrennedd a Rhifedd | 4,256 | 4,099 | 157 | 3.69 |
| Cwricwlwm ac Asesu | 4,605 | 4,913 | -308 | -6.69 |
| Adolygu'r Cwricwlwm | 5,950 | 4,807 | 1,143 | 19.21 |
| Y Cyfnod Sylfaen | 148 | 160 | -12 | -8.11 |
| Datblygu a Chefnogi Athrawon | 41,732 | 40,076 | 1,656 | 3.97 |
| Cymwysterau Cymru | 9,463 | 8,210 | 1,253 | 13.24 |
| Darpariaeth Addysg Bellach. | 540,958 | 547,734 | -6,776 | -1.25 |
| Rhaglen Trawsnewid Digidol | 1,979 | 328 | 1,651 | 83.43 |
| Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu | - | 6,511 | -6,511 | - |
| Seilwaith Addysg | - | 46,902 | -46,902 | - |
| Gwariant Rhaglen CCAUC | 244,193 | 238,082 | 6,111 | 2.50 |
| Cyfalaf CCAUC | 90 | 90 | - | - |
| Llywodraethu Ysgolion | - | -20 | 20 | - |
| Grant Gwella Ysgolion | 148,684 | 187,388 | -38,704 | -26.03 |
| Codi Safonau Ysgolion | 25,030 | 24,263 | 767 | 3.06 |
| Cefnogi Safonau Ysgolion | 994 | 657 | 337 | 33.90 |
| Cyllid Brys - COVID-19 | 30,000 | - | 30,000 | 100.00 |
| Grant Datblygu Disgyblion | 113,500 | 112,272 | 1,228 | 1.08 |
| Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 4,279 | 4,411 | -132 | -3.08 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 17,691 | 17,414 | 277 | 1.57 |
| Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 4,065 | 3,814 | 251 | 6.17 |
| Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 13,881 | 13,458 | 423 | 3.05 |
| Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 2,000 | 1,874 | 126 | 6.30 |
| Grwpiau Agored i Niwed | 550 | 220 | 330 | 60.00 |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 393,542 | 380,000 | 13,542 | 3.44 |
| Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr / CThEM | 8,797 | 18,606 | -9,809 | -111.50 |
| Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau Myfyrwyr | 681,986 | 413,422 | 268,564 | 39.38 |
| Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrwyr wedi'u Targedu | 6,297 | 6,859 | -562 | -8.92 |
| Mynd i'r Afael â Dadrithiad | 784 | 993 | -209 | -26.66 |
| Dysgu Troseddwyr | 6,628 | 6,628 | - | - |
| Ymgysylltiad a Chyflogaeth Ieuenctid | 11,026 | 10,646 | 380 | 3.45 |
| Cyfathrebu Addysg | 233 | 488 | -255 | -109.44 |
| Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol | 768 | 815 | -47 | -6.12 |
| Y Gymraeg mewn Addysg | 12,325 | 12,710 | -385 | -3.12 |
| Arloesi ym myd Busnes | 500 | 524 | -24 | -4.80 |
| Gwyddoniaeth | 1,000 | 587 | 413 | 41.30 |
| Gwyddorau Bywyd | 2,200 | 1,604 | 596 | 27.09 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **2,340,134** | **2,121,545** | **218,589** | **9.34** |

| LLINELLAU GWARIANT IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb** £000oedd | **Alldro** £000oedd | **Amrywiant** £000oedd | **%** |
| Iechyd Meddwl | 28,948 | 28,513 | 435 | 1.50 |
| Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | 33,950 | 33,912 | 38 | 0.11 |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 3,737 | 2,901 | 836 | 22.37 |
| Gwella Iechyd a Gweithio Iach | 7,283 | 5,323 | 1,960 | 26.91 |
| Twristiaeth a Marchnata | 6,492 | 6,035 | 457 | 7.04 |
| Digwyddiadau Cymru | 1,908 | 1,508 | 400 | 20.96 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 49,842 | 48,855 | 987 | 1.98 |
| Amgueddfa Cymru | 25,660 | 23,529 | 2,131 | 8.30 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 11,694 | 12,249 | -555 | -4.75 |
| Cefnogi Diwylliant a Chwaraeon Lleol | 63,275 | 60,356 | 2,919 | 4.61 |
| Creadigol | 2,978 | 2,637 | 341 | 11.45 |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 3,730 | 3,730 | - | - |
| Cadw | 17,751 | 21,165 | -3,414 | -19.23 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 834 | 834 | - | - |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 1,791 | 1,629 | 162 | 9.05 |
| Chwaraeon Cymru | 34,947 | 32,386 | 2,561 | 7.33 |
| Y Gymraeg | 19,310 | 21,232 | -1,922 | -9.95 |
| Comisiynydd y Gymraeg | 3,268 | 3,135 | 133 | 4.07 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **317,398** | **309,929** | **7,469** | **2.35** |

| LLINELLAU GWARIANT ADNODDAU YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Deddfwriaeth yr Amgylchedd a'i Llywodraethiant | 120 | 85 | 35 | 29.17 |
| Rhaglen Tlodi Tanwydd | 3,312 | 2,040 | 1,272 | 38.41 |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 3,536 | 3,504 | 32 | 0.90 |
| Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth | 2,834 | 2,586 | 248 | 8.75 |
| Ymbelydredd ac Atal Llygredd | 3,415 | 1,035 | 2,380 | 69.69 |
| Ynni Glân | 3,835 | 3,993 | -158 | -4.12 |
| Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd | - | 252 | -252 | - |
| Rheoli Perygl Llifogydd & Refeniw Dŵr | 27,197 | 28,375 | -1,178 | -4.33 |
| Ansawdd yr Amgylchedd Lleol | 649 | 333 | 316 | 48.69 |
| Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 1,500 | 1,521 | -21 | -1.40 |
| Galluogi Adnoddau Naturiol | 274 | 1,976 | -1,702 | -621.17 |
| Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 3,282 | 1,850 | 1,432 | 43.63 |
| Coedwigaeth | 1,274 | 1,757 | -483 | -37.91 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 52,142 | 52,577 | -435 | -0.83 |
| Rheoli'r Amgylchedd (Pwllperian) | 38 | -4 | 42 | 110.53 |
| Newydd-ddyfodiaid i Ffermio | - | -27 | 27 | - |
| Strategaeth Amaethyddiaeth | 100 | 1,133 | -1,033 | -1,033.00 |
| Ariannu Fframwaith Awdurdodau Lleol | 200 | 205 | -5 | -2.50 |
| Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaethyddol | 250 | 250 | - | - |
| Prosiect Daliadau Plwyf Sirol | 712 | 794 | -82 | -11.52 |
| EID Cymru | 2,641 | 801 | 1,840 | 69.67 |
| Adnabod Da Byw | 1,647 | 1,527 | 120 | 7.29 |
| Gwasanaethau Cyngor Technegol | 358 | 504 | -146 | -40.78 |
| Deddf Tiroedd Comin | - | 109 | -109 | - |
| Gweithredu Deddf yr Amgylchedd | 791 | 861 | -70 | -8.85 |
| Taliadau Amaethyddol Uniongyrchol Colofn 1 yr UE | 243,000 | 243,466 | -466 | -0.19 |
| TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin | - | 17 | -17 | - |
| Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl | 14,070 | 15,136 | -1,066 | -7.58 |
| Hen Raglen y Cynllun Datblygu Gwledig | - | -14 | 14 | - |
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 19,502 | 13,816 | 5,686 | 29.16 |
| Ymchwil a Gwerthuso | 520 | 616 | -96 | -18.46 |
| Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE | 565 | 114 | 451 | 79.82 |
| Y Môr a Physgodfeydd | 3,349 | 2,688 | 661 | 19.74 |
| Hyrwyddo Bwydydd Cymru a Datblygu'r Diwydiant | 17,385 | 21,209 | -3,824 | -22.00 |
| Y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 58 | 1,141 | -1,083 | -1,867.24 |
| Incwm TB yr UE | -1,300 | -1,483 | 183 | -14.08 |
| Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | 15,281 | 13,776 | 1,505 | 9.85 |
| Costau a Derbyniadau Taliadau Difa TB | 10,110 | 15,940 | -5,830 | -57.67 |
| Gwaredu TB | 7,500 | 6,223 | 1,277 | 17.03 |
| Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol | 43,992 | 43,353 | 639 | 1.45 |
| Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | 11,041 | 10,978 | 63 | 0.57 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **495,180** | **495,013** | **167** | **0.03** |

| LLINELLAU GWARIANT ADNODDAU GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Costau staff | 215,411 | 223,032 | -7,621 | -3.54 |
| Gwariant Gweinyddol Cyffredinol | 26,413 | 26,452 | -39 | -0.15 |
| Gwariant Gweinyddol Cyffredinol<br>(Taliadau Cyfalaf - Heb fod yn arian parod) | 16,000 | 14,286 | 1,714 | 10.71 |
| Costau TG | 15,366 | 15,778 | -412 | -2.68 |
| Hwyluso Llywodraeth | 2,062 | 1,297 | 765 | 37.10 |
| Gwella Ystadegau Economaidd a'r Farchnad Lafur | 1,246 | 1,253 | -7 | -0.56 |
| Gwybodaeth Ddaearyddol | 589 | 947 | -358 | -60.78 |
| Gwyddor Data | 500 | 312 | 188 | 37.60 |
| Ymchwil Canolog | 1,925 | 1,773 | 152 | 7.90 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | 1,509 | 1,382 | 127 | 8.42 |
| Cronfa Rhyddhau Tir | 276 | -7 | 283 | 102.54 |
| Tribiwnlysoedd | 4,192 | 3,583 | 609 | 14.53 |
| Polisi Cyfiawnder yng Nghymru | 490 | 217 | 273 | 55.71 |
| Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus | 450 | 450 | - | - |
| Chwarae Teg | 360 | 360 | - | - |
| Awdurdod Cyllid Cymru | 6,196 | 5,964 | 232 | 3.74 |
| Awdurdod Cyllid Cymru (Heb fod yn arian parod) | 835 | 835 | - | - |
| Trethi Datganoledig | 531 | 516 | 15 | 2.82 |
| Cost Benthyca | 2,474 | 2,465 | 9 | 0.36 |
| Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol | 1,220 | 1,190 | 30 | 2.46 |
| e-gaffael | 3,000 | 3,000 | - | - |
| Digwyddiadau a Chyfathrebu Corfforaethol | 356 | 473 | -117 | -32.87 |
| Etholiadau | 765 | 648 | 117 | 15.29 |
| Ymchwiliadau | 300 | 303 | -3 | -1.00 |
| Ymchwil Economaidd | 46 | 37 | 9 | 19.57 |
| Costau Canolog y Cyfnod Pontio o'r UE | 22,987 | 21,898 | 1,089 | 4.74 |
| Buddsoddi i Arbed | -3,471 | 170 | -3,641 | 104.90 |
| Ad-daliadau'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | 6,594 | - | 6,594 | 100.00 |
| Cymorth Rhaglenni | 2,954 | 3,167 | -213 | -7.21 |
| Arian Cyfatebol | 2,750 | 2,864 | -114 | -4.15 |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 6,825 | 6,686 | 139 | 2.04 |
| Cydlyniant Cymunedol | 1,600 | 1,146 | 454 | 28.38 |
| Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol | 5,130 | 5,403 | -273 | -5.32 |
| Gwasanaethau Cynghori | 11,007 | 10,463 | 544 | 4.94 |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli | 41,355 | 41,395 | -40 | -0.10 |
| Swyddogion Cymorth Cymunedol | 18,518 | 18,518 | - | - |
| Glasbrintiau Troseddu gan Fenywod a Chyfiawnder Ieuenctid | 678 | 648 | 30 | 4.42 |
| Seibergadernid | 2,318 | 2,169 | 149 | 6.43 |
| Datblygu Rhyngwladol | 2,210 | 2,349 | -139 | -6.29 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | 6,638 | 5,275 | 1,363 | 20.53 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **430,605** | **428,697** | **1,908** | **0.44** |

# ATODIAD 2: Alldro DEL Cyfalaf[7] yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb

| LLINELLAU GWARIANT CYFALAF IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb £000oedd** | **Alldro £000oedd** | **Tanwariant / Gorwariant(-) £000oedd** | **%** |
| Dyraniadau Craidd y GIG | 430,800 | 439,009 | -8,209 | -1.91 |
| Cyllidebau Eraill y GIG | 829 | - | 829 | 100.00 |
| Cynllunio at Argyfyngau Iechyd | 4,492 | -2,605 | 7,097 | 157.99 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | 20 | 20 | - | - |
| Cefnogi Gofal Plant a Chwarae | 7,500 | 6,494 | 1,006 | 13.41 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **443,641** | **442,918** | **723** | **0.16** |

| LLINELLAU GWARIANT CYFALAF TAI A LLYWODRAETH LEOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb £000oedd** | **Alldro £000oedd** | **Amrywiant £000oedd** | **%** |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | 197,837 | 197,837 | - | - |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | - | 426 | -426 | - |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | 52,000 | 52,000 | - | - |
| Cymorth Ariannol Brys | 17,559 | 13,859 | 3,700 | 21.07 |
| Cefnogi Cymunedau | 1,000 | 1,000 | - | - |
| Cynhwysiant Ariannol | 515 | 1,912 | -1,397 | -271.26 |
| Cynhwysiant Digidol | 743 | 563 | 180 | 24.23 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 1,000 | 1,000 | - | - |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu | 210 | - | 210 | 100.00 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 670 | 670 | - | - |
| Rhaglen Addasu Ymateb Cyflym | 5,660 | 5,268 | 392 | 6.93 |
| Polisi Tai | 10,500 | 7,941 | 2,559 | 24.37 |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 32,470 | 31,333 | 1,137 | 3.50 |
| Cronfa Cymorth i Brynu (Cymru) a Chynlluniau Eraill | - | 48,200 | -48,200 | - |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Llenwi Bwlch Taliadau Gwaddoli | 108,000 | 104,199 | 3,801 | 3.52 |
| Grantiau Tai Cymdeithasol | 280,242 | 245,082 | 35,160 | 12.55 |
| Tir ar gyfer Tai | 10,000 | 10,000 | - | - |
| Cronfa Cymorth i Brynu (Cymru) a Chynlluniau Eraill | 105,827 | 158,547 | -52,720 | -49.82 |
| Adfywio | 85,308 | 112,132 | -26,824 | -31.44 |
| Estyn - Gwariant Rhaglenni | 281 | 60 | 221 | 78.65 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **909,822** | **992,029** | **-82,207** | **-9.04** |

[7] Mae'r tablau cyllidebol cyhoeddedig yn nodi cyfanswm DEL Cyfalaf h.y. Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodion Ariannol Cyfalaf.

| LLINELLAU GWARIANT CYFALAF YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Cymorth Uniongyrchol) | 50,738 | 29,105 | 21,633 | 42.64 |
| Y Cymoedd Technoleg | 7,750 | 4,972 | 2,778 | 35.85 |
| Datblygu Entrepreneuriaeth, Cychwyn Busnes a Busnes Cymru | - | 468 | -468 | - |
| Tasglu'r Cymoedd | 19,500 | 10,416 | 9,084 | 46.58 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | 379,000 | 379,000 | - | - |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 25,768 | 24,042 | 1,726 | 6.70 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 6,200 | 60,753 | -54,553 | -879.89 |
| Seilwaith Eiddo | 31,786 | 19,946 | 11,840 | 37.25 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 125,021 | 136,517 | -11,496 | -9.20 |
| Hedfan | 6,800 | 8,074 | -1,274 | -18.74 |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 116,373 | 107,051 | 9,322 | 8.01 |
| Atodol i'r Rheilffyrdd | - | 69,707 | -69,707 | - |
| Trafnidiaeth Cymru | 234,799 | 224,241 | 10,558 | 4.50 |
| Cymorth Bysiau | - | 1,000 | -1,000 | - |
| Cardiau Clyfar | 1,000 | - | 1,000 | 100.00 |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 64,260 | 77,683 | -13,423 | -20.89 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | - | - | - | - |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 60,840 | 32,224 | 28,616 | 47.03 |
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 7,400 | 7,351 | 49 | 0.66 |
| Cymunedau am Waith | 180 | 180 | - | - |
| Gyrfa Cymru | 1,200 | 1,943 | -743 | -61.92 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **1,138,615** | **1,194,673** | **-56,058** | **-4.92** |

| LLINELLAU GWARIANT CYFALAF ADDYSG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Seilwaith Addysg | 317,530 | 316,696 | 834 | 0.26 |
| Darpariaeth Addysg Bellach. | 23,725 | 24,537 | -812 | -3.42 |
| Cymwysterau Cymru | - | 285 | -285 | - |
| Gwariant Rhaglen CCAUC | 44,000 | 44,120 | -120 | -0.27 |
| Arloesedd Busnes (Cronfa Dyfodol yr Economi) | 8,782 | 19,731 | -10,949 | -124.68 |
| Gwyddoniaeth | 5,743 | 5,743 | - | - |
| Gwyddorau Bywyd | 681 | 97 | 584 | 85.76 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **400,461** | **411,209** | **-10,748** | **-2.68** |

| LLINELLAU GWARIANT CYFALAF IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | 1,158 | 1,149 | 9 | 0.78 |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 100 | 100 | - | - |
| Ymchwil a Datblygu | 42,400 | 41,820 | 580 | 1.37 |
| Twristiaeth<br>(Cronfa Dyfodol yr Economi) | 4,700 | 5,149 | -449 | -9.55 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 4,702 | 4,301 | 401 | 8.53 |
| Amgueddfa Cymru | 4,267 | 3,857 | 410 | 9.61 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 3,095 | 3,067 | 28 | 0.90 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 2,513 | 2,168 | 345 | 13.73 |
| Creadigol<br>(Cronfa Dyfodol yr Economi) | 5,989 | 6,747 | -758 | -12.66 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 780 | 630 | 150 | 19.23 |
| Cadw | 5,011 | 5,063 | -52 | -1.04 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 195 | 195 | - | - |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 35 | 44 | -9 | -25.71 |
| Chwaraeon Cymru | 3,579 | 3,595 | -16 | -0.45 |
| Ad-daliadau'r Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | -227 | -227 | - | - |
| Y Gymraeg | - | 148 | -148 | - |
| Comisiynydd y Gymraeg | 385 | 293 | 92 | 23.90 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **78,682** | **78,099** | **583** | **0.74** |

| LLINELLAU GWARIANT CYFALAF YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Y Rhaglen Tlodi Tanwydd | 23,000 | 21,500 | 1,500 | 6.52 |
| Seilwaith Gwyrdd | 1,402 | 2,244 | -842 | -60.06 |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | -18,170 | -11,088 | -7,082 | 38.98 |
| Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth | - | 1,125 | -1,125 | - |
| Ymbelydredd ac Atal Llygredd | 7,595 | 2,058 | 5,537 | 72.90 |
| Rheoli Perygl Llifogydd & Refeniw Dŵr | 44,000 | 36,365 | 7,635 | 17.35 |
| Galluogi Adnoddau Naturiol | 5,273 | 925 | 4,348 | 82.46 |
| Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 16,031 | 16,652 | -621 | -3.87 |
| Coedwigaeth | 5,153 | 3,455 | 1,698 | 32.95 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 2,225 | 2,753 | -528 | -23.73 |
| EID Cymru | 1,716 | 1,175 | 541 | 31.53 |
| Deddf Tiroedd Comin | 1,200 | 1,402 | -202 | -16.83 |
| TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin | 1,505 | 4,189 | -2,684 | -178.34 |
| Hen Raglen y Cynllun Datblygu Gwledig | - | -16 | 16 | - |
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 10,918 | 8,022 | 2,896 | 26.53 |
| Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE | 233 | 320 | -87 | -37.34 |
| Y Môr a Physgodfeydd | - | 13 | -13 | - |
| Hyrwyddo Bwydydd Cymru a Datblygu'r Diwydiant | 3,000 | 9,967 | -6,967 | -232.23 |
| Effeithlonrwydd Adnoddau a’r Economi Gylchol | 40,677 | 44,652 | -3,975 | -9.77 |
| Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | 8,900 | 8,867 | 33 | 0.37 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **154,658** | **154,580** | **78** | **0.05** |

| LLINELLAU GWARIANT CYFALAF GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Gwariant Gweinyddol Cyffredinol | 3,922 | 5,665 | -1,743 | -44.44 |
| Costau TG | 2,768 | 6,335 | -3,567 | -128.87 |
| Hwyluso Llywodraeth | 489 | 395 | 94 | 19.22 |
| Y Gronfa Rhyddhau Tir | 5,560 | 4,752 | 808 | 14.53 |
| Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol | - | 15 | -15 | - |
| Costau staff | - | -1 | 1 | - |
| Awdurdod Cyllid Cymru | 170 | 175 | -5 | -2.94 |
| Buddsoddi i Arbed | 2,862 | 473 | 2,389 | 83.47 |
| Ad-daliadau'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | -5,631 | -5,631 | - | - |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 3,169 | 3,167 | 2 | 0.06 |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 3,200 | 1,044 | 2,156 | 67.38 |
| Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | 5,838 | 6,000 | -162 | -2.77 |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli | 150 | - | 150 | 100.00 |
| Seibergadernid | 140 | 93 | 47 | 33.57 |
| Datblygu Rhyngwladol | 500 | 499 | 1 | 0.20 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **23,137** | **22,981** | **156** | **0.67** |

# ATODIAD 3: Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb

| LLINELLAU GWARIANT AME IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb £000oedd | Alldro £000oedd | Amrywiant £000oedd | % |
| Amhariadau a Darpariaethau'r GIG | 311,019 | 153,089 | 157,930 | 50.78 |
| **Cyfanswm yr AME** | **311,019** | **153,089** | **157,930** | **50.78** |

| LLINELLAU GWARIANT AME TAI A LLYWODRAETH LEOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb £000oedd | Alldro £000oedd | Amrywiant £000oedd | % |
| Ardrethi Annomestig - Swm y gellir ei ddosbarthu | 692,000 | 699,021 | -7,021 | -1.01 |
| Pensiynau'r Gwasanaeth Tân | 23,824 | 23,824 | - | - |
| Cymorth i Brynu (Cymru) | 1,536 | -35,266 | 36,802 | 2,395.96 |
| **Cyfanswm yr AME** | **717,360** | **687,579** | **29,781** | **4.15** |

| LLINELLAU GWARIANT AME YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb £000oedd | Alldro £000oedd | Amrywiant £000oedd | % |
| Amhariad Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo | 31,500 | 37,361 | -5,861 | -18.61 |
| Amhariad Ffyrdd | - | - | - | - |
| Trafnidiaeth Cymru | 2,000 | 2,973 | -973 | -48.65 |
| Gyrfa Cymru | 15,000 | 8,289 | 6,711 | 44.74 |
| **Cyfanswm yr AME** | **48,500** | **48,623** | **-123** | **-0.25** |

| LLINELLAU GWARIANT AME ADDYSG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb £000oedd | Alldro £000oedd | Amrywiant £000oedd | % |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr | 834,568 | 826,529 | 8,039 | 0.96 |
| **Cyfanswm yr AME** | **834,568** | **826,529** | **8,039** | **0.96** |

| LLINELLAU GWARIANT AME IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb £000oedd | Alldro £000oedd | Amrywiant £000oedd | % |
| Amgueddfa Cymru: Darpariaeth Bensiwn Amgueddfeydd Cymru | 9,000 | - | 9,000 | 100.00 |
| Darpariaeth Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 5,000 | 8,455 | -3,455 | -69.10 |
| Darpariaeth Bensiwn Chwaraeon Cymru | 2,000 | - | 2,000 | 100.00 |
| Cymorth i Fusnesau | 1,500 | 1,777 | -277 | -18.47 |
| **Cyfanswm yr AME** | **17,500** | **10,232** | **7,268** | **41.53** |

| LLINELLAU GWARIANT AME YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb £000oedd | Alldro £000oedd | Amrywiant £000oedd | % |
| Darpariaeth CNC ar gyfer Pensiynau | - | 279 | -279 | - |
| **Cyfanswm yr AME** | **-** | **279** | **-279** | **-** |

| GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDIAETH AME BELS | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb**<br>**£000oedd** | **Alldro**<br>**£000oedd** | **Amrywiant**<br>**£000oedd** | **%** |
| Darpariaethau Pensiynau DSG | 2,999 | -1,198 | 4,197 | 139.95 |
| Darpariaethau Costau Staff | - | - | - | - |
| **Cyfanswm yr AME** | **2,999** | **-1,198** | **4,197** | **139.95** |

Eitem 2.7

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-2458-22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Awst 2022

Annwyl Peredur,

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 a'r adroddiad dilynol.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed. Gobeithiaf y bydd yr ymateb yn ddefnyddiol ichi.

Yn ogystal, yn dilyn eich gohebiaeth ddiweddar am Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r Trefniadau Ariannu ar ôl gadael yr UE, gallaf gadarnhau fel y nodwyd yn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 1 Gorffennaf, bod eitem ar y trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE wedi'i chynnwys yn yr agenda ddrafft ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol: Cyllid (F:ISC) sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi. Y bwriad hefyd yw gwahodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (y Gweinidog Codi'r Gwastad, yr Undeb a'r Cyfansoddiad) i ymuno â'r cyfarfod. Byddaf yn anfon manylion pellach atoch yn ysgrifenedig maes o law, fel rhan o'r trefniadau a nodir yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:**

**CRAFFU AR GYLLIDEB ATODOL GYNTAF LLYWODRAETH CYMRU 2022-23**

**AWST 2022**

---

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad o sut mae pwysau chwyddiant wedi effeithio ar ei chynlluniau gwariant ar gyfer 2022-23, gan gynnwys manylion am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru lle mae disgwyliadau canlyniadau wedi'u gohirio neu eu hailwerthuso fel rhan o'r gyllideb atodol nesaf.**

**Ymateb: Derbyn**

O ganlyniad i chwyddiant digynsail, mae ein setliad gwario tair blynedd yn dilyn yr adolygiad o wariant bellach yn werth o leiaf £600 miliwn yn llai na'i werth pan gafwyd ef fis Hydref diwethaf.

Mae cyfyngiadau o ran faint y gallwn leddfu effaith chwyddiant oni bai bod Llywodraeth y DU yn cynyddu gwariant cyhoeddus.

Nid ydym yn sefyllfa Llywodraeth y DU lle gallwn fenthyg symiau mawr er mwyn mynd i'r afael â'r problemau heriol iawn y mae chwyddiant yn eu hachosi o ran ein cyllidebau. Yr hyn sydd gennym yw cyllideb gymharol sefydlog, a bennir yn bennaf gan benderfyniadau yn Nhrysorlys ei Mawrhydi, ac er mwyn rhoi cyllid ychwanegol i un maes mae'n rhaid ei gymryd o faes arall.

Gan gydnabod yng nghyd-destun chwyddiant bod pwysau'n cael ei roi ar yr holl gyllidebau byddwn yn parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen cyhoeddus hanfodol a'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Rydym yn monitro pwysau sy'n codi yn ofalus ar draws y Llywodraeth i sicrhau ein bod yn dyrannu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd a chânt eu hystyried fel rhan o'r broses gyllidebu sydd i ddod. Caiff unrhyw effeithiau cyllidebol eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Atodol nesaf a'u nodi mewn dogfennau cyllideb dilynol.

---

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell, o ystyried y pwysau chwyddiant eithriadol sy'n debygol o barhau ac a allai waethygu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno ei hail gyllideb atodol fel y gellir dyrannu cyllid i feysydd blaenoriaeth fel mater o frys.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae protocol y gyllideb y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymrwymiad i gyhoedd dwy gyllideb atodol bob blwyddyn. Rhoddir ystyriaeth i amseriad pob cyllideb atodol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau i'r cyllidebau o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth Cymru, ond hefyd er mwyn nodi newidiadau sy'n codi o ganlyniad i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU.

Fel arfer, caiff cyllideb atodol gyntaf blwyddyn ariannol ei chyhoeddi ar ôl i Lywodraeth y DU wneud ei Phrif Amcangyfrif a all hefyd gadarnhau newidiadau sy'n deillio o Ddatganiad y Gwanwyn ym mis Mawrth gan Lywodraeth y DU ac y cafwyd gwybod amdanynt yn rhy hwyr i'w cynnwys yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.

Fel arfer, caiff yr ail gyllideb atodol ei chyhoeddi ar ôl i Lywodraeth y DU wneud Amcangyfrif Atodol. Y gyllideb atodol hon yw'r cyfle olaf yn ystod y flwyddyn ariannol i unioni newidiadau o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU. Oherwydd hyn, mae'r amseru'n hanfodol i sicrhau bod cynigion gwariant a gymeradwyir gan y Senedd yn cynnwys y newidiadau hynny. Fel arfer mae Amcangyfrif Atodol y DU yn cael ei gwblhau yn gynnar ym mis Chwefror.

Gellir gwneud penderfyniadau i ddyrannu, naill ai o gronfa wrth gefn Llywodraeth Cymru neu gyllid sydd wedi'i ail-flaenoriaethu o fewn Prif Grwpiau Gwariant er mwyn mynd i'r afael â phwysau sy'n dod i'r amlwg, cyn cyllideb atodol a gellir eu hunioni mewn cyllideb atodol sydd i ddod.

---

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion y cyllid canlyniadol a wneir i Gymru gan Lywodraeth y DU a'i fod yn cyhoeddi unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn sgil unrhyw ddigwyddiad cyllidol yn yr hydref yn y DU ac ar ôl derbyn amcangyfrifon atodol y DU.**

**Ymateb: Derbyn**

Caiff holl fanylion cyllid canlyniadol eu darparu i'r Pwyllgor a'u nodi o fewn cyllideb atodol Llywodraeth Cymru a gyhoeddir tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i ddarparu cyllid parhaus i gefnogi awdurdodau lleol, aelwydydd sy'n lletya ffoaduriaid o Wcráin a'r sector addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac ar ôl hynny, cyn gynted â phosibl**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi codi pryderon yn uniongyrchol â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a Changhellor y Trysorlys ynghylch y trefniadau cyllid ar gyfer cynlluniau adsefydlu pobl o Wcráin.

Cyn Cyllideb y DU sydd i ddod, byddwn yn parhau i bwysleisio bod angen adolygu'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu bodloni'r gofynion cynyddol, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu er mwyn helpu i fodloni costau cynnig llety i bobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin. Mae hefyd angen sicrwydd ar unwaith o gyllid y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol er mwyn ein galluogi i gynllunio ymlaen llaw gyda'n partneriaid i sicrhau y gellir darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus angenrheidiol.

Dylai hefyd fod cysondeb ar draws y ddau gynllun fisa i wynebu'r pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'n rhaid i gymorth ariannol barhau ar gyfer y rhai hynny sydd wedi croesawu pobl o Wcráin i'w cartrefi, er mwyn sicrhau bod y ffynhonnell hon o lety a chymorth cymunedol yn parhau. Rydym hefyd yn pwyso am gymorth eleni a thu hwnt ar gyfer y rhai hynny sy'n cyrraedd o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin ble nad oes unrhyw gyllid wedi'i ddarparu ar eu cyfer.

---

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu dadansoddiad o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi a lletya ffoaduriaid o Wcráin, o fewn cyllidebau blynyddol ac atodol yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth Llywodraeth Cymru ac am ddarpariaeth benodol gan y DU i Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth a llety i bobl sy'n ceisio noddfa rhag y rhyfel yn Wcráin yng nghyllidebau blynyddol ac atodol y dyfodol.

Ni allwn roi gwybodaeth am y cyllid y mae Llywodraeth y DU yn ei roi i bobl yng Nghymru er mwyn lletya pobl o Wcráin gan fod y taliadau hyn yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU i Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn gresynu at ddull Llywodraeth y DU o ddefnyddio cyfraniadau o gyllidebau datganoledig tuag at ariannu ei chymorth milwrol i Wcráin ac mae'n galw ar y Gweinidog i godi'r mater hwn gyda chymheiriaid mewn mannau eraill yn y DU i sicrhau bod cyllidebau datganoledig yn cael eu diogelu rhag cael eu defnyddio i gyllido meysydd heb eu datganoli yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig[1] ar 30 Mehefin 2022, gan amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cyllid hwn. Rydym eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r ymdrech ddyngarol yn Wcráin a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i bobl Wcráin.

Dylai'r DU barhau i ddarparu cymorth milwrol y mae mawr ei angen. Fodd bynnag, mae materion amddiffyn a thramor yn faterion a gedwir yn ôl. Mae dull gweithredu Llywodraeth y DU o ddefnyddio cyfraniadau gan gyllidebau datganoledig tuag at gyllido ei gymorth milwrol ar gyfer Wcráin yn ddull gweithredu gwahanol, pryderus gan Drysorlys ei Mawrhydi a all beri rhwyg o bosibl. Dylai cyllid ar gyfer y meysydd hyn, yn briodol, gael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU.

Yn y pen draw, oherwydd yr amgylchiadau eithriadol, rydym wedi derbyn y sefyllfa hon o ystyried ein hymrwymiad parhaus i gefnogi Wcráin a phobl Wcráin ond rydym wedi bod yn glir na ddylai hyn osod cynsail.

Rydym yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU. Cyflwynwyd llythyr ar 27 Mehefin 2022 i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys gan gyfleu anghymeradwyaeth o ran y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio defnyddio cyfraniadau gan gyllidebau datganoledig. Mae'r rhain yn bryderon a rennir â Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sydd hefyd wedi codi'r pryderon hyn ar wahân â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig eraill er mwyn sicrhau y caiff setliadau datganoli eu parchu a bod cyllidebau datganoledig yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu defnyddio i gyllido meysydd sydd heb eu datganoli.

---

**Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu manylion am effaith bosibl adolygiad effeithlonrwydd ehangach Llywodraeth y DU o'r Gwasanaeth**

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer Cymorth Milwrol i Wcráin (30 Mehefin 2022) | LLYW.CYMRU

**Sifil, gan gynnwys unrhyw asesiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru o doriadau tebygol i weithwyr Gwasanaeth Sifil y DU yng Nghymru, fel y gellir mesur a lliniaru ei effaith ar swyddi diogel sy'n talu'n dda.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Caiff y gyllideb ar gyfer gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru ei gosod gan y Prif Weinidog a'r Cabinet fel rhan o'r broses gyllidebol flynyddol ac felly nid yw'r targedau effeithlonrwydd a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cabinet y DU yn gymwys. Mae'r lleihad a gynlluniwyd, na chafodd ei drafod â'r Prif Weinidog, yn dilyn cyfnod o dwf sylweddol dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r ffigurau cyfrif pennau gan Arolwg Cyflogaeth Blynyddol y Gwasanaeth Sifil ar gyfer Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adrannau Llywodraeth y DU yn dangos bod ffigurau cyfrif pennau'r Gwasanaeth Sifil, rhwng 2016 a 2021, wedi cynyddu ar draws yr holl weinyddiaethau. Fodd bynnag, er bod Adrannau'r DU a Llywodraeth yr Alban wedi gweld cynnydd sylweddol yn y canrannau o hyd at dwf o 45%, cafodd Lywodraeth Cymru'r cynnydd lleiaf gyda 5%.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hadolygiad effeithlonrwydd a lleihad o 90,000 yn niferoedd y gwasanaeth sifil heb roi unrhyw wybodaeth yn adolygiad gwariant hydref diwethaf na Datganiad y Gwanwyn dilynol ynghylch effaith y lleihad hwn. Pe byddai Llywodraeth y DU yn parhau â'i chynllun i dorri 90,000 o swyddi'r gwasanaeth sifil, mae'n anochel y bydd canlyniadau negyddol i weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru, y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a'r economi ehangach, o ystyried niferoedd sylweddol gweision sifil sydd wedi'u lleoli yng Nghymru o adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y DU.

Bydd y canlyniadau hyn yn dod i'r amlwg ar adeg pan fydd yr economi, yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Banc Lloegr, yn ei chael hi'n anodd o hyd i adfer ar ôl y pandemig, costau parhaus Brexit a pherfformiad cynhyrchiant negyddol.

Byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau effeithiau unrhyw gynnig i gael gwared ar swyddi'r gwasanaeth sifil yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur. I gael dadansoddiad llawn o'r effaith bydd angen rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth y DU o ran ei chynigion ffurfiol, ac nid yw hyn ar y gweill ar hyn o bryd.

---

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau na fydd unrhyw benderfyniadau i dorri staff y Gwasanaeth Sifil yn cael effaith andwyol ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Trafodwyd materion sy’n ymwneud â chyflog y sector cyhoeddus ehangach â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys mewn cyfarfod o Weinidogion Cyllid y DU ar 14 Mehefin. Wedi hynny ysgrifennodd Gweinidogion Cyllid y llywodraethau datganoledig at y Canghellor ar 18 Mehefin 2022.[2]

Byddwn yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU drwy’r sianeli arferol, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU i leihau niferoedd staff y gwasanaeth sifil yn cael effaith niweidiol ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.

---

**Argymhelliad 9**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod dadansoddiad pellach o’r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol i gefnogi polisi prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu yng nghyllidebau’r dyfodol fel y gellir gwerthuso’r modd y caiff ei roi ar waith mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Caiff dadansoddiad o’r dyraniadau lefel uchel i Awdurdodau Lleol, o ran cyllid cyfalaf a refeniw, ei ddarparu mewn cyllidebau yn y dyfodol, pan fo ar gael.

Bydd y dyraniadau cyllid refeniw yn cynnwys y fethodoleg gyfrifo gan gynnwys y gyfradd fesul uned. Dyma’r gyfradd fesul disgybl, fesul pryd bwyd y mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu rhoi cyllid i awdurdodau lleol ar eu cyfer er mwyn cyflawni’r cynnig Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

Fel nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ei llythyr i’r Pwyllgor, dyddiedig 26 Gorffennaf, mae dyraniadau grant cyllid refeniw dangosol ar gyfer 2022-23 a chynigion grant wedi’u gwneud i bob awdurdod lleol ar y sail ganlynol:

- Bydd awdurdodau lleol yn cadw’r ddyletswydd sy’n gysylltiedig â’r ddarpariaeth o fwyd ar gyfer rhai hynny sy’n gymwys am brydau bwyd am ddim o dan feini prawf yn gysylltiedig â budd-daliadau. Bydd cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r gwaith o ehangu’r cynnig am brydau am ddim i’r rheiny i gyd sydd newydd ddod yn gymwys o ganlyniad i’r ymrwymiad.
- Mae’r gyfradd fesul pryd a ddarperir trwy’r grant wedi’i gosod ar £2.90.
- Mae’r dyraniadau cyllid yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd 86% o’r dysgwyr sydd newydd ddod yn gymwys yn manteisio ar y cynnig yn ôl cynlluniau pob awdurdod lleol i gyflwyno’r cynnig yn ystod ei flwyddyn gyntaf (mae’r cyfrifiadau’n seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng pob disgybl ar Gyfrifiad Ysgolion

[2] Llythyr ar y Cyd wrth Weinidogion Cyllid y Llywodraethau Datganoledig at Ganghellor y Trysorlys Nadhim Zahawi AS | LLYW.CYMRU

Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) 2021 heb gynnwys y rhai hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan feini prawf yn gysylltiedig ag incwm/budd-daliadau neu drwy drefniadau Amddiffyn wrth Bontio, sy'n cynrychioli'r gyfradd ddisgwyliedig o ehangu).

- Mae ffi i dalu costau gweinyddu ychwanegol a ddaw o ganlyniad iddynt weithredu'r cynnig yn cael ei chynnwys hefyd mewn dyraniadau grant. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf, cytunwyd y byddai hon yn cael ei gosod ar 6% o ddyraniad grant pob awdurdod lleol. Dyma'r arfer gyda rhaglenni ar y raddfa hon ac mae'n adlewyrchu'r cymhlethdodau o ran cyflwyno'r cynnig hwn.
- Caiff y cyllid ei ddosbarthu fel rhan o Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar sail a gaiff ei harwain gan alw. Bydd angen i awdurdodau lleol baratoi hawliadau tymhorol ar y niferoedd gwirioneddol o brydau bwyd a weinir. Caiff unrhyw amrywiadau, yn llai neu'n fwy na 86% o brydau a weinir eu haddasu yn y dyraniad ar gyfer y tymor nesaf.
- Cynhelir adolygiad o'r gyfradd fesul uned yn ystod y flwyddyn gyntaf o ddarparu'r cynnig, gan ddefnyddio data amser real ar gostau/cynnydd a ddarperir gan awdurdodau lleol, er mwyn datblygu dealltwriaeth well a, lle y bo'n briodol, mireinio'r gyfradd ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae cyllid cyfalaf wedi cael ei ddarparu ar sail fformiwla. Mae'r fformiwla'n sicrhau dosbarthiad cyfalaf teg ledled Cymru ac mae'n rhoi rhyddid i awdurdodau lleol flaenoriaethu'n lleol, yn unol â'u prif angen. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod y cyllid ar gael cyn gynted â phosibl ac mae swm y cyllid yn gosod y ffiniau er mwyn cyflawni'r uchelgais.

---

**Argymhelliad 10**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull hirdymor strategol o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu ar draws y sector cyhoeddus i liniaru pwysau staffio yn y dyfodol gyda'r nod hirdymor o wneud gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy.**

**Ymateb:**

Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (CPG) yn dod â phartneriaid cymdeithasol ynghyd ar draws y sector cyhoeddus datganoledig gyda'r diben o alluogi cyflogwyr ac undebau llafur i ystyried materion y gweithlu mewn modd adeiladol. Mae CPG yn datblygu ei raglen waith bresennol sy'n cynnwys datblygu gwaith ar weithio'n ystwyth ac yn hyblyg a chryfhau cynlluniau gweithredu cydraddoldeb, gan werthfawrogi ymreolaeth leol ac arferion o ran darparu gwasanaethau yn lleol. Mae CPG yn parhau i fod yn fforwm ar gyfer lledaenu arferion gorau a rhannu dysgu ar draws sefydliadau.

Cydnabyddir yr heriau presennol o ran recriwtio a chadw staff mewn nifer o rolau ar draws y sector preifat a chyhoeddus, yn ogystal â'r ffaith fod anghenion gwahanol ar draws sector cyhoeddus mor amrywiol. Academi Wales yw'r ganolfan ragoriaeth ym maes datblygu arweinyddiaeth ar gyfer y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru ac mae'n gweithredu yn gwbl unol ag ethos y Prif Weinidog o Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru. Mae Academi Wales wedi datblygu cyfres o werthoedd ac ymddygiadau a rennir ar gyfer arweinwyr y sector cyhoeddus, sydd wedi'i hanelu at ddatblygu dyfodol ble y gall y sectorau i gyd weithio gyda'i gilydd â diben, gweledigaeth a gwerthoedd ar y cyd. Mae'r gwerthoedd ac ymddygiadau wedi'i selio'n gadarn ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a'u nod yw creu gwasanaeth cyhoeddus cryfach i Gymru.

Er nad yw un dull gweithredu'n cael ei ystyried yn briodol, mae dulliau gweithredu strategol a hirdymor o ran cynllunio gweithluoedd a chynnal hyfforddiant o fewn sectorau amrywiol gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu datblygu. Ymhlith rhai enghreifftiau mae:

**Llywodraeth Leol**

O ran llywodraeth leol yn benodol, mae cynllunio gweithluoedd a chynnal hyfforddiant yn faterion ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n adlewyrchu eu cyfrifoldebau ar gyfer pennu gwaith o ddarparu gwasanaethau yn lleol. Gall Awdurdodau Lleol gael amrywiaeth o ddulliau gweithredu o ran darparu gwasanaethau a sicrhau effeithlonrwydd o fewn y dulliau gweithredu hynny. Gall hyn gynnwys gwasanaethau mewnol, gweithio gydag awdurdodau eraill, gwasanaethau contractio neu gomisiynu neu, lle y bo'n briodol, symud i ddulliau gweithredu digidol.

Mae Awdurdodau Lleol yn gallu gweithio a chynllunio ar y cyd drwy amrywiaeth o ddulliau gweithredu, cyd-bwyllgorau a chyd-bwyllgorau corfforedig. Gan wneud hynny maen nhw'n nodi synergeddau ac effeithlonrwydd, er enghraifft, y Gwasanaethau Rheoliadol a rennir ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Dinas Caerdydd.

**Gofal Cymdeithasol**

Yn y sector gofal cymdeithasol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddatblygu'r strategaeth gweithlu cyntaf erioed ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol a all ddiwallu anghenion pobl Cymru yn y dyfodol. Mae hon yn strategaeth 10 mlynedd a lansiwyd yn 2020.

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020, yn edrych ar sut y dylai'r diffiniad o waith teg gael ei gymhwyso ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Bydd hefyd, drwy gyfuniad o drafodaethau rhwng undebau, cyflogwyr a'r llywodraeth, yn nodi sut y dylai arferion gwaith da edrych ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys o ran cyflog, amodau gwaith, llais a hyfforddiant gweithwyr, er mwyn cefnogi'r broses o ddenu rhagor o weithwyr i ofal cymdeithasol.

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ymrwymiad allweddol yn y rhaglen lywodraethu. Mae creu gweithlu cryfach, sy'n cael ei dalu'n well, yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau gwell ac mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynnig man dechrau pwysig i delerau ac amodau gwell.

**Llywodraeth Cymru**

Mewn perthynas â staff Llywodraeth Cymru, fel rhan o raglen datblygu sefydliadol LlC 2025 yr Ysgrifennydd Parhaol, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Gweithlu newydd ar gyfer y sefydliad a fydd yn ymgorffori dull gweithredu hirdymor a blaenllaw ynghylch cynllunio gweithluoedd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi mewn rhaglen o gynllunio gweithlu a hyfforddiant dylunio sefydliadol ar gyfer ei weithwyr proffesiynol AD a bydd yn datblygu pecyn cymorth, pecyn canllawiau a hyfforddiant ar gyfer arweinwyr uwch dros y flwyddyn nesaf.

---

**Argymhelliad 11**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer adferiad y GIG yn cael ei ddefnyddio a'r Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22 22 canlyniadau disgwyliedig ar gyfer y cyllid ychwanegol y mae wedi ymrwymo i'w ddarparu dros dymor y Senedd hon.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn buddsoddi mwy na £200 miliwn yn y GIG yn 22-23 er mwyn helpu i adfer gwasanaethau ers effaith pandemig Covid. O hynny, mae £170 miliwn yn gyllid rheolaidd sy'n cwmpasu ystod o fentrau a chapasiti ychwanegol, ynghyd â £15 miliwn ar gyfer trawsnewid gofal wedi'i gynllunio ac £20 miliwn ar gyfer llwybrau gofal iechyd yn seiliedig ar werth.

Cyhoeddwyd y Cynllun Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd ar 26 Ebrill 2022 sy'n nodi ein huchelgais ar gyfer trawsnewid y ffordd y mae gofal a gynlluniwyd yn cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y gofal a'r driniaeth y maen nhw'n eu haeddu. Mae gan y cynllun, a ddatblygwyd ar y cyd â chlinigwyr, nifer o uchelgeisiau heriol ond cyraeddadwy yn rhan ohono. Y cyntaf o'r rhain yw sicrhau nad oes llwybrau agored dros 52 o wythnosau ar gyfer apwyntiad cyntaf cleifion allanol erbyn diwedd 2022, a ddilynir gan beidio â chael llwybrau agored dros 104 o wythnosau erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Rydym yn disgwyl i'r targedau hyn gael eu cyflawni ac mae cynnydd yn cael ei fonitro'n agos gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd.

Yn ogystal â lleihau nifer y llwybrau agored dros 104 o wythnosau, defnyddir y cyllid er mwyn mynd i'r afael â thrawsnewid a'i ddefnyddio i gefnogi cleifion tra eu bod yn aros am driniaeth i sicrhau y byddant yn ddigon iach ar gyfer llawdriniaeth, os oes angen un arnynt.

Ceir dolen i'r cynllun yma:

[Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros | LLYW.CYMRU]

---

**Argymhelliad 12**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro pam nad oedd byrddau iechyd lleol yn gallu defnyddio'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2021-22 yn llawn i gefnogi adferiad y GIG a lleihau'r ôl-groniad o ran amseroedd aros, yn ogystal â nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau y gellir targedu dyraniadau'r flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol yn briodol i gyflawni ei huchelgeisiau a darparu gwerth am arian.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn ystod 2021-22, dyrannodd Llywodraeth Cymru bron i £250 miliwn er mwyn helpu byrddau iechyd a'r GIG ehangach i fynd i'r afael ag adfer gwasanaethau ar ôl y pandemig.

Fodd bynnag, effeithiodd ton Omicron, yn ystod mis Rhagfyr ac ar ddechrau 2022, y gweithgarwch roedd byrddau iechyd yn gallu ei gynnal yn lleol a chapasiti'r sector annibynnol i ddarparu'r capasiti yr oedd byrddau iechyd wedi'i sicrhau er mwyn cefnogi adferiad. Cydnabuwyd y ddau ffactor hyn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad, "Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran gofal a gynlluniwyd yng Nghymru".

Mae'n werth nodi, er gwaethaf y cynnydd yn lefelau Omicron, cynyddodd y gweithgarwch yn ystod ail hanner y flwyddyn, er na chyrhaeddodd yr un lefelau o gymharu â chyn y pandemig.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn ein targedau adfer drwy waith y Cyfarwyddwr Cenedlaethol Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd. Mae byrddau iechyd wedi datblygu cynlluniau trawsnewidiol manwl fel rhan o'u cynlluniau integredig canol tymor. Mae'r rhain wedi bod yn destun craffu er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian. Disgwylir i fyrddau iechyd arddangos yr ychwanegedd y mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn wedi'i gyflawni.

---

Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Ein cyf: MAM/AR/mdm

[redacted]

[redacted]

Dyddiad: 7 Medi 2022

[redacted]

John Griffith AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth
Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

**Trwy E-bost yn unig**
SeneddTai@senedd.cymru

Annwyl John

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau â'n gwaith fel Awdurdod Safonau Cwynion Cymru. Am y tro cyntaf, mae gennym nawr ddata blwyddyn gyfan ynglŷn â phrosesau ymdrin â chwynion gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Gan fod y Pwyllgor wedi mynegi diddordeb yn ein gwaith Safonau Cwynion yn y gorffennol, mae'n bleser gennyf atodi papur briffio sy'n cyflwyno'r data y gwnaethom ei gasglu oddi wrth Awdurdodau Lleol yn 2021/22.

Hyderaf y bydd y cyhoeddiad hwn o ddefnydd i chi ac o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod y cyhoeddiad hwn yn fanylach.

Dechreuodd ein gwaith Safonau Cwynion ag Awdurdodau Lleol ond caiff ei ymestyn i gynnwys Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau a Chymdeithasau Tai mwy. Byddwn yn cyhoeddi data ar y rhain ar wahân maes o law.

Yn gywir

M.M. Morris.
**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Copi at: Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk



All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Papur briffio

# Awdurdod Safonau Cwynion

Cwynion y mae Awdurdodau Lleol Cymru wedi ymdrin â nhw
Ebrill 2021 i Mawrth 2022

**Medi 2022**



Yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae gennym dri phrif nod:

- rydym yn ymdrin â chwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus
- rydym yn ymdrin â chwynion am gynghorwyr yn torri'r Cod Ymddygiad
- rydym yn pwyso am welliannau i systemau gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn annibynnol o holl gyrff y llywodraeth ac mae'r gwasanaeth a ddarparwn yn ddi-dâl.

Gallwn ddarparu copïau o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras neu gopi caled.
I wneud cais, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

Ffôn: **01656 641150**
E-bost: **cyfathrebu@ombwdsmon.cymru**
Dilynwch ni ar Twitter: **@OmbudsmanWales**

## Ynglŷn â’r papur briffio hwn

Crëwyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion yw gweithio i gefnogi’r Cyrff Cyhoeddus yn ein hawdurdodaeth i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Mae’r Awdurdod Safonau Cwynion yn cyflawni hyn drwy:


- osod polisïau a chanllawiau cwyno enghreifftiol
- cynnig cyngor a darparu pecynnau hyfforddiant arbenigol
- casglu a chyhoeddi data ar gwynion y mae Cyrff Cyhoeddus wedi ymdrin â nhw.

Ar ôl pob chwarter o'r flwyddyn, mae'r Awdurdod Safonau Cwynion yn gofyn am ystadegau ymdrin â chwynion gan Awdurdodau Lleol. Mae’r papur briffio hwn yn amlinellu'n gyntaf y prif dueddiadau yn **y cwynion y mae Awdurdodau Lleol Cymru wedi ymdrin â nhw** yn ystod y flwyddyn adrodd Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Yna, mae'n manylu ar y cwynion am Awdurdodau Lleol sydd wedi'u cyflwyno i ni, yn ogystal â nifer y cwynion am Awdurdodau Lleol a gaewyd gennym yn ystod yr un cyfnod. Mae'r manylion hyn yn dangos pa mor fodlon oedd achwynwyr gydag ymatebion Awdurdodau Lleol, a pha mor gadarn oedd penderfyniadau cwynion yr Awdurdodau Lleol. Mae data manylach ar gael **ar ein gwefan**.

**NODYN** Rydym yn adrodd yn fanylach ar wybodaeth am gwynion am Awdurdodau Lleol a wneir i ni yn ein **Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol** ac yn y **Llythyrau Blynyddol** a anfonwn at Awdurdodau Lleol. Mae'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol hefyd yn trafod ein gwaith ar bolisïau a chanllawiau cwynion enghreifftiol, ac ar ddarparu hyfforddiant ymdrin â chwynion.

Dechreuodd ein gwaith Safonau Cwynion gydag Awdurdodau Lleol ond mae'n cael ei ymestyn i gynnwys Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau a Chymdeithasau Tai mwy. Byddwn yn cyhoeddi data ar y rhain ar wahân maes o law.

## Cwynion newydd am Awdurdodau Lleol




Yn chwarter 4, derbyniodd Awdurdodau Lleol 3,346 o gwynion newydd - **15,307 yn ystod y flwyddyn gyfan**.

**Beth y mae hyn yn ei olygu:** Mae nifer y cwynion bellach yn uwch na chyn y pandemig.

## Cwynion a gaewyd gan Awdurdodau Lleol



CH 1
3987 - 78%

CH 2
4137 - 76%

CH 3
3158 - 73%

CH 4
2,905 - 77%

Yn chwarter 4, caeodd Awdurdodau Lleol 2,905 o gwynion. Caewyd 77% o gwynion o fewn 20 diwrnod gwaith. **Ar y cyfan, caewyd 14,187 o gwynion yn ystod 2021/22 - 76% o fewn 20 diwrnod gwaith.**

Mae'r mesur hwn o berfformiad yn bwysig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cwynion. Fodd bynnag, er ei bod yn bwysig bod ymchwiliadau i gwynion yn cael eu cynnal yn brydlon, pwysleisiwn na ddylid cwtogi ar ymchwiliadau er mwyn cyrraedd targedau yn unig.

Mae'r ystadegau ar gyfer chwarter 4 yn dangos y nifer lleiaf o gwynion a gaewyd. Yn ôl ein data, yn ystod 2021/22 **derbyniodd Awdurdodau Lleol 1,120 yn fwy o gwynion nag a gaewyd ganddynt.**

Mae hyn yn awgrymu bod gan Awdurdodau Lleol mwy o ôl-groniadau nawr nag yn y flwyddyn flaenorol.

## Cyfraddau cadarnhau cwynion a gaewyd gan Awdurdodau Lleol



CH 1
50%

CH 2
48%

CH 3
39%

CH 4
43%

Yn chwarter 4, cadarnhaodd Awdurdodau Lleol 43% o'r cwynion a ystyriwyd ganddynt - **sef cyfradd cadarnhau o 46% ar gyfer y flwyddyn gyfan - tua'r un fath â blynyddoedd blaenorol.**

**Beth y mae hyn yn ei olygu:** Mae cyfraddau cadarnhau wedi bod yn gostwng yn ystod y flwyddyn. Nid yw ein data'n dangos y rhesymau dros hyn. Er bod cwynion a gadarnhawyd yn dangos bod rhywbeth wedi mynd o'i le, maent hefyd yn dangos parodrwydd i gydnabod hynny ac i unioni pethau.

Gallai'r gyfradd gadarnhau is fod o ganlyniad i welliannau a wnaed gan Awdurdodau Lleol (er enghraifft, nid oedd rhinweddau i'r cwynion) neu lai o barodrwydd i gydnabod methiannau. Nod gwaith y CSA yw cefnogi tryloywder.

## Cwynion am Awdurdodau Lleol a gyflwynwyd i ni

Os nad yw pobl yn fodlon ag ymateb yr Awdurdod Lleol i'w cwyn, gallant gyfeirio'r gŵyn honno atom.




Yn chwarter 4, cyfeiriwyd 10% o'r holl gwynion a ystyriwyd gan Awdurdodau Lleol atom – gan ddod â'r **ffigwr blynyddol i 8%.**


**Beth y mae hyn yn ei olygu:** Roedd 8% o'r bobl yr ystyriwyd eu cwynion gan Awdurdodau Lleol yn 2021/22 yn dal i fod eisiau parhau â'u cwyn. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.

Gallai'r duedd hon ddangos pa mor dda y mae Awdurdodau Lleol yn ymdrin â chwynion. Os felly, nid yw'r cynnydd yng nghyfran y cyfeiriadau atom o reidrwydd yn duedd gadarnhaol.

Fodd bynnag, mae pobl yn fwy tebygol o gyfeirio cwynion atom os ydynt yn anhapus â'r canlyniad. Felly, gallai'r gyfradd cadarnhau is gan Awdurdodau Lleol hefyd olygu mwy o atgyfeiriadau atom.

## Tueddiadau yn ein cwynion am Awdurdodau Lleol

Mae nifer y cwynion sydd wedi eu hymdrin â nhw, sydd wedi'u cau a'u cyfeirio gan Awdurdodau Lleol yn darparu rhywfaint o gyd-destun ar gyfer ein llwyth achosion ein hunain am y cyrff hynny.




* Nid yw'r cyfanswm hwn yn cynnwys cwynion am Rentu Doeth Cymru.

Yn chwarter 4, gwnaethom gau 305 o gwynion am Awdurdodau Lleol - **cyfanswm o 1,092 yn ystod 2021/22**.* Byddai rhai o'r cwynion hynny wedi eu cyfeirio at y swyddfa yn ystod y chwarter; byddai eraill wedi dod i law cyn y cyfnod hwnnw.

Gwnaethom **ymyrryd mewn 17% o'r achosion yn chwarter 4**, drwy argymell Datrysiad Cynnar neu gadarnhau cwyn ar ôl ymchwilio. Roedd mwyafrif helaeth yr achosion a oedd yn weddill y tu allan i'n hawdurdodaeth, felly **98%** oedd ein cyfradd ymyrryd o ystyried hyn.

**Beth y mae hyn yn ei olygu:** Rydym yn parhau i ddod o hyd i gyfleoedd i wella gwasanaethau cyhoeddus yn yr un gyfran o achosion.

Ombwdsmon
Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

**Recriwtio Cadeirydd Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru**

**Crynodeb o'r Swydd Wag**

1. Ar 9 Mai 2022, hysbysebodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) am Gadeirydd y Bwrdd.

2. Mae ACC yn adran gwasanaeth sifil, anweinidogol o Lywodraeth Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 2017. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn benodiad cyhoeddus anweithredol (heb fod yn was sifil) Gweinidogol.

3. Rhoddir swyddogaethau ACC drwy statud. Mae'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016[1], a sefydlodd ACC, yn datgan y swyddogaethau fel

   - darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i Weinidogion Cymru;
   - darparu gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i drathdalwyr datganoledig, eu hasiantau a phersonau eraill;
   - datrys cwynion ac anghydfodau'n ymwneud â'r trethi datganoledig;
   - hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r ddeddf sy'n ymwneud â'r trethi datganoledig a diogelu rhag efadu ac osgoi treth mewn perthynas â'r trethi datganoledig

4. Cafodd rôl y Cadeirydd ei nodi yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, oedd yn cyd-fynd gyda'r hysbysebion a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022.

   *"Fel Cadeirydd Bwrdd ACC, eich rôl fydd:*

   - *arwain y Bwrdd mewn ffordd sy'n gosod y naws ar gyfer y sefydliad, yn esiampl o ran ymddygiad ac ymagwedd, ac yn ysbrydoli diwylliant ACC*
   - *arwain mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, gan feithrin a hwyluso trafodaeth agored*
   - *cymhwyso gwybodaeth am arfer gorau traws-sector i heriau ACC*
   - *gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Bwrdd, i graffu'n gadarn a cheisio sicrwydd bod swyddogaethau ACC yn cael eu harfer yn effeithiol*
   - *dangos y safonau uchaf o onestrwydd personol*
   - *arddangos ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sef Egwyddorion Nolan), fel llysgennad i ACC*
   - *rheoli eich datblygiad eich hun, yn unol â gofynion esblygol y swydd"*

[1] Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, *Swyddogaethau* [Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk)](legislation.gov.uk)

5. Bydd y uigolyn a benodir yn derbyn tâl o £400 y dydd, a ôl-delir yn fisol. Amcangyfrifir ymrwymiad amser o hyd at 4 diwrnod y mis.

**Crynodeb Cyhoeddusrwydd**

6. Hyrwyddwyd y rôl drwy'r gwefannau a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol canlynol

- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Gwefan Apwyntiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet
- Twitter
- LinkedIn

7. Rhoddwyd hysbysebion cyflogedig gyda'r canlynol

- The Guardian
- Western Mail (Wales Online)
- Golwg 360

8. Yn ogystal, cefnogodd Audeliss Executive Search, a benodwyd gan ACC ar gyfer yr ymgyrch recriwtio hon, y broses recriwtio drwy ganfod ymgeiswyr posibl a chodi ymwybyddiaeth o fewn eu rhwydweithiau eu hunain.

**Crynodeb o'r Broses Recriwtio**

9. Ar ôl cyfnod hysbysebu o 4 wythnos, caeodd yr hysbyseb ar 5 Mehefin 2022. Derbyniwyd 6 chais. Fe gynhaliodd y Panel Asesu Cynghori sift ac o ganlyniad argymell 4 o'r 6 ymgeisydd i'w hasesu ymhellach drwy gyfweliadau panel ffurfiol.

10. Y Panel Asesu Ymgynghorol:

- Dr Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (cadeirydd y panel)
- Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth Treth a Chysylltiadau Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru
- Moawia Bin-Sufyan, Aelod Panel Annibynnol

11. Data Amrywiaeth yr Ymgeiswyr:

| | **Wedi ymgeisio** | **Ar y Rhestr Fer** |
|---|---|---|
| Nifer yr Ymgeiswyr | 6 | 4 |
| ***Rhywedd*** | | |
| Menywod | 2 | 1 |
| Dynion | 4 | 3 |
| Rhywedd arall | | |
| Hunan-ddisgrifio rhywedd | | |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | | |
| ***Anabledd*** | | |
| Anabledd wedi’i ddatgan | | |
| Dim anabledd wedi'i ddatgan | 6 | 4 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | | |
| ***Ethnigrwydd*** | | |
| Gwyn | 5 | 3 |
| Cymysg / Grwpiau Aml-ethnig | | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | | |
| Du / Du Prydeinig | | |
| Grŵp ethnig arall | | |
| Hunan-ddisgrifiad ethnigrwydd | | |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 | 1 |
| ***Oedran*** | | |
| 16-24 | | |
| 25-34 | | |
| 35-44 | 1 | 1 |
| 45-54 | 3 | 1 |
| 55-64 | 1 | 1 |
| 65-74 | | |
| 75-84 | | |
| 85+ | | |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 | 1 |
| ***Cyfeiriadedd Rhywiol*** | | |
| Deurywiol | | |
| Hoyw neu Lesbiaidd | | |
| Heterorywiol | 6 | 4 |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | | |
| Hunan-ddisgrifio cyfeiriadedd rhywiol | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol mae'n well gen i beidio â dweud | | |
| ***Crefydd*** | | |
| Bwdhaidd | | |
| Cristion | 4 | 3 |
| Hindŵaidd | | |
| Iddewig | | |
| Mwslim | | |
| Sikh | | |
| Crefydd arall | | |
| Anffyddiwr / Dim crefydd | | |
| Crefydd mae’n well gen i beidio â dweud | 2 | 1 |
| ***Prif Breswylfa*** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gogledd Ddwyrain | | |
| Swydd Efrog a Humberside | | |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | | |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | | |
| Dwyrain | | |
| Llundain | | |
| De Ddwyrain | 3 | 2 |
| De Orllewin | | |
| Cymru | 3 | 2 |
| Yr Alban | | |
| Gogledd Iwerddon | | |
| Preswylfa arall | | |
| Preswylfa mae'n well gen i beidio â dweud | | |
| ***Prif Gyflogaeth*** | | |
| Gwasanaeth Sifil yn bennaf | | |
| Sector Preifat yn bennaf | 2 | 2 |
| Trydydd Sector yn bennaf | | |
| Sector Cyhoeddus ehangach yn bennaf | 1 | |
| Cymysg | 3 | 2 |
| Prif gyflogaeth arall | | |
| Prif gyflogaeth mae'n well gen i beidio â dweud | | |
| ***Penodiadau Cyhoeddus a gynhelir*** | | |
| 0 Penodiad Cyhoeddus | | 2 |
| 1 Penodiad Cyhoeddus | 1 | 1 |
| 2 Benodiad Cyhoeddus | 1 | 1 |
| 3 Penodiad Cyhoeddus | | |
| 4 Penodiad Cyhoeddus | | |
| 5-9 Penodiad Cyhoeddus | | |
| 10+ Penodiad Cyhoeddus | | |
| Penodiadau Cyhoeddus mae'n well gen i beidio â dweud | | |
| ***Gweithgaredd Gwleidyddol*** | | |
| Gweithgaredd gwleidyddol wedi'i ddatgan | | |
| Dim gweithgaredd gwleidyddol wedi'i ddatgan | 6 | 4 |
| Gweithgaredd gwleidyddol mae'n well gen i beidio â dweud | | |
| Ceidwadwyr | | |
| Gwyrdd | | |
| Llafur | | |
| Democratiaid Rhyddfrydol | | |
| Plaid Cymru | | |
| Plaid Genedlaethol yr Alban | | |

| | | |
|---|---|---|
| Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig | | |
| Unrhyw bleidiau eraill | | |

11. Cafodd y pedwar ymgeisydd oedd ar y rhestr fer eu cyfweld brynhawn Iau, 14 Gorffennaf.

12. Ailgyfarfu’r panel ar 15 Gorffennaf. Trafodwyd perfformiad yr ymgeiswyr yn y cyfweliad a chytunwyd ar sgoriau cymharol. Perfformiad yn erbyn y meini prawf a hysbysebwyd yn y cyfweliad ffurfiol oedd yr unig dystiolaeth a gymerwyd i ystyriaeth ar gyfer sgorio'r ymgeiswyr a'u gosod yn nhrefn teilyngdod.

13. Yna, dywedodd y panel wrth y Gweinidog y byddai’n bosibl apwyntio dau o'r pedwar ymgeisydd, ac na fyddai’n bosibl apwyntio dau ohonynt. O'r ddau ymgeisydd y byddai’n bosibl eu hapwyntio, fe sgoriodd un yn uwch, ac felly argymhellodd y panel yr ymgeisydd hwnnw i'r Gweinidog fel yr ymgeisydd a ffefrir ganddynt.

14. Ar 13 Gorffennaf, mynychodd pob un o'r pedwar ymgeisydd oedd ar y rhestr fer drafodaethau chwarter awr anffurfiol gyda Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ACC, Dyfed Alsop. Arsylwyd y sesiynau gan Anna Adams. Nid oedd y sesiynau'n rhan o'r broses ddethol ac ni wnaethant ddylanwadu ar benderfyniadau'r panel, nac ychwaith yr argymhellion a wnaed gan y panel i'r Gweinidog wedi hynny.

15. Fe dderbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad ar 28 Gorffennaf. Cafodd yr ymgeisydd wybod, a derbyniodd yr enwebiad fel yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog, ar 2 Awst.

**Yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ruth Glazzard**

**Gwrthdaro Buddiannau**

16. Dim

**Gweithgaredd Gwleidyddol**

17. Dim

# RUTH GLAZZARD

Experienced non-executive director, Board and Committee chairperson with technology expertise and board experience within digital and public sector organisations. Combines strategic, operational and digital experience with a strong understanding of financial oversight, audit and risk management.

Currently holding a portfolio of non-executive roles focusing on delivery of services to millions of customers across health, housing and public services in Wales, including the role of Vice Chair for Digital Health and Care Wales.

A professional background in the governance of large, complex organisations and delivery of services to consumers, gained whilst working in leadership roles in financial services regulation. Experienced in leading senior teams to develop governance and target operating models for regulatory functions of the Financial Conduct Authority, and global HR digital transformation for Standard Chartered Bank.

## CURRENT BOARD APPOINTMENTS

**CENTRE FOR DIGITAL PUBLIC SERVICES WALES, Non-Executive Director and Chair of Audit Committee**

June 2021 – present

An interim role focusing on creation of CDPS as a new arm's-length body of Welsh Government responsible for delivering the Digital Strategy for Wales.

- Responsible for supporting the executive to develop governance structures and set strategy
- Set up and developed new Audit Committee

**DIGITAL HEALTH AND CARE WALES, Vice Chair of Board**

April 2021 – present

Appointed as Vice Chair of new Board upon the creation of DHCW as a new, national, Special Health Authority focused on the transformation and delivery of digital services for patients and the public.

- Member of Audit Committee and Chair of National Psychological Therapies Management Committee
- Chaired recruitment panels for the appointment of new executives, including CEO
- Supported new Executive Directors and CEO in building effective working relationships at board level

**COASTAL HOUSING GROUP, Non-Executive Director and Chair of Audit and Risk Committee**

Aug 2020 - present

Coastal is a not-for-profit housing association which delivers social housing and develops property through a commercial property subsidiary.

- Supported Executive Directors and their teams in developing new suite of performance measures and benchmarks for the organisation
- Set up new Audit and Risk Committee following board governance review

**GREENSTREAM COMMUNITY INTEREST COMPANY, Chair of Board**

Mar 2020 – present

Greenstream is a social enterprise flooring company. It provides free and low-cost flooring to low-income households, giving employment/training opportunities to economically disadvantaged communities.

- Applying board governance and chairing skills outside area of expertise to support the growth of a social enterprise

## OTHER APPOINTMENTS

**INDEPENDENT REMUNERATION PANEL FOR WALES, Independent Member**

April 2021 – present

The IRPW is responsible for determining the level of payments to elected members of councils, national park authorities and fire and rescue authorities in Wales.

- Stakeholder consultation with local politicians across Wales
- Drafted and published Panel annual report 2022-23

**PREVIOUS BOARD EXPERIENCE**

**LONDON BOROUGH OF NEWHAM, Chair of Audit Board and Chair of Standards Advisory Committee**

Mar 2009 – May 2019

Appointed as an independent member to two of Newham's key governance forums to provide support and challenge to the officers and senior leadership of Newham on governance, treasury management and accounts.

- Gave independent advice and support on different aspects of organisational and financial strategy
- As Chair of the Standards Committee was responsible for overseeing investigations and hearings of complaints brought against elected members under the Code of Conduct, and with reference to the Seven Principles of Public Life

**PROFESSIONAL CAREER**

**STANDARD CHARTERED BANK, Head of Governance**

Jan 2019 – Jan 2020

Head of Standard Chartered's global governance function within HR, led teams based in UK, India and Singapore.

- Responsible for the global alignment and governance of all people processes
- Responsible for coordinating annual Fit and Proper Certification, built on the use of digital channels to deliver an efficient service for certifying the fitness and propriety of the bank's most senior staff
- Member of the bank's global HR digital transformation steering group

**FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY, Manager/Senior Manager Strategy and Competition**

Jan 2006 – Jan 2019

Held several roles within the financial services regulator, gaining extensive technical experience as a regulator before, during and after the financial crisis of 2008/9.

- Led the research team which delivered the FCA's first flagship consumer research survey, 'Financial Lives' in 2018 https://www.fca.org.uk/publications/research/understanding-financial-lives-uk-adults
- As Operations Manager, delivered new organisational design of Supervision Division (c1000 employees, c£150m budget)
- Set up central programme management office, responsible for central governance of complex digital transformation across the organisation
- Operations Manager of FSA Contact Centre

**EARLY CAREER**

1999 – 2006

Operational and branch manager roles within banks and building societies, both customer facing and in high-volume processing contact centre environments. Including:

- Telephone Lending Operations Manager, Santander
- Branch Manager and Mortgage Advisor, Portman Building Society

# RUTH GLAZZARD – SUPPORTING STATEMENT

The WRA is a fascinating organisation, both in terms of the role the organisation plays in funding public services in Wales, and the breadth of opportunity for doing things differently. I am excited by the opportunity to join the WRA at this point in its evolution and use my skills to support the organisation's development, working with executive and non-executive colleagues to set the direction for an organisation that is maturing whilst taking on new challenges and opportunities.

The role of Chair appeals to my board and governance background and the WRA's ethos appeals to my desire to work in organisations which innovate in public services. Throughout my career I have tried to do things differently and bring a different perspective to my work. For example, I did not have a 'traditional' background as a regulator, I was professionally qualified as a mortgage advisor as opposed to degree educated in a relevant field. As a result, I brought a relationships and consumer focused mindset into what was often an academic environment at the regulator. That experience shaped my subsequent career and I now hold a portfolio of non-executive roles which focus on improving outcomes for people across health, housing and public services in Wales.

**Essential Criteria**

- **Leadership experience in changing or complex organisations**
- **Experience of leading major projects from initiation, through development and to delivery**

I am an experienced non-executive director, board and committee chair with significant experience within digital, public and third sector organisations.

Throughout my career I have worked in complex organisations at various stages in their transformation journeys. I led and delivered successful change programs and major projects in complex environments, whilst in operational management roles with the Financial Conduct Authority, including as a project lead for the development and delivery of new supervisory and risk assessment models for UK banks and financial services firms following the financial crisis. In my final role with the FCA I was responsible for using data and consumer research to make sure the FCA's strategy included the consumer perspective, and I led the research team which delivered the first FCA 'Financial Lives' research survey in 2018.

As a global head of governance with Standard Chartered Bank I was responsible for reviewing the effectiveness of annual Fit and Proper Certification and moving admin of multiple elements to digital platforms. This was across multiple global locations and regulatory jurisdictions.

With Digital Health and Care Wales and the Centre for Digital Public Services, my non-executive career has a focus on organisations that deliver complex change in digital environments. Even in my smaller non-executive role for Coastal Housing there is a focus on leading transformation at board level, working in a systems-thinking environment and exploring new technologies for the innovative delivery of services and improving outcomes for Coastal's housing tenants.

- **An inclusive, collaborative leadership approach**

As I have mentioned, I did not have a 'traditional' background to my career as a regulator and I brought a different perspective into what was often an academic environment at the FCA. Bringing this perspective to my roles since has given me a collaborative leadership approach, which commands the confidence of colleagues and enables me to challenge effectively and constructively.

I began my board career alongside my professional career, gaining over ten years' experience as an independent member and chairperson of local government audit and standards boards with the London Borough of Newham. It was valuable experience in how to manage the differing roles of being both a board member (with Newham) and an executive in my 'day job' - where I had to engage with a different board on a regular basis.

My role on Newham Audit Board required me to hold the officers and executive leadership of Newham to account. As well as building collaborative relationships with fellow board members, the added dimension was negotiating political differences in an environment of political and financial uncertainty. As a result, I have hard won experience of building constructive relationships and being an inclusive chair and board colleague – and I continue to use this experience within my current roles.

- **Experience of risk, performance and financial management**

I have experience and knowledge of risk, performance and financial management at board and executive level in both the public and private sectors. As Vice Chair of DHCW I advise on risk, performance, and the financial management of the organisation, both as a member of the DHCW Board and Audit Committee. Since the creation of the organisation a year ago, I have worked with board and executive colleagues to embed effective governance mechanisms within the organisation. Similarly, at CDPS, I have been responsible for setting up and chairing the CDPS Audit Committee.

As a board member for Coastal Housing, I chair the Audit and Risk Committee. I help decide Coastal's strategy, assess risk, and monitor financial performance. Coastal also has a commercial subsidiary for which the main board provides oversight.

I have over ten years' experience as an independent member and chairperson of local government audit and standards boards. My roles on the London Borough of Newham Audit Board and Standards Committee required me to interpret the Borough's financial information and accounts, identify key issues and take decisions which challenged the officers and leadership of Newham on governance failures, treasury management, organisational and financial strategy.

- **Sound judgement and a high level of integrity, with a commitment to the seven principles of conduct in public life**

My non-executive career began directly because of the Nolan Principles and my wish to contribute to raising standards in public life. As Independent Chair of the Standards Advisory Committee for Newham I oversaw complaints against elected members brought under the Code of Conduct and with reference to the Seven Principles of Public Life. I spoke out about a lack of transparency and integrity amongst elected members and held them to account for their behaviour on behalf of Newham residents.

As a member of the Independent Remuneration Panel for Wales my role is to determine the appropriate levels of remuneration for Councillors and related holders of public office in Wales. This is a visible public appointment in which I make determinations and lead discussions in a manner that is independent of political interference, through open processes that provide transparent rationale and produce fair outcomes to both recipients of the payments and council taxpayers who funded them.

I passionately believe in the importance of openness and honesty in all aspects of public life and continue to challenge the boards I am a member of to conduct business with integrity and high ethical standards.

Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cadeirydd y Bwrdd - Pecyn Ymgeisydd

## Dyddiad cau: Dydd Sul 5 Mehefin 2022

Rheoleiddiwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Cydweithio | Cadarnhau | Cywiro



llyw.cymru/ACC

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 3
- Ein strategaeth ........ 5
- Ffordd Gymreig o drethu ........ 6

Ynglŷn â'r rôl ........ 7
- Rôl ein Bwrdd ........ 7
- Rôl y Cadeirydd ........ 7
- Manyleb person ........ 8
- Y Gymraeg ........ 8
- Ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ........ 8

Telerau penodi ........ 9
- Hyd ........ 9
- Ymrwymiad amser ........ 9
- Lleoliad ........ 9
- Cydnabyddiaeth ........ 10
- Sefydlu a hyfforddiant ........ 10
- Cymhwysedd ........ 10
- Cliriad Diogelwch ........ 11
- Gwrthdrawiad buddiannau ........ 11
- Diwydrwydd Dyladwy ........ 11
- Safonau mewn bywyd cyhoeddus ........ 12

Sut i ymgeisio ........ 12
- Amserlen ........ 12
- Ymgeisio ........ 12
- CV ........ 12
- Datganiad personol ........ 13
- Addasiadau rhesymol ........ 13
- Y broses ddethol ........ 13
- Y Panel Asesu Cynghorol ........ 14
- Penodi ........ 14
- Gwrandawiad Cyn Penodi ........ 15

Dysgwch fwy ........ 15
- Cwestiynau ........ 15
- Os nad ydych yn gwbl fodlon ........ 16

# Amdanom ni

## Croeso i ACC

Ni yw awdurdod trethu Cymru, sy'n gyfrifol am reoli dwy dreth ddatganoledig – ond mae'n debyg nad ydym yr hyn y byddech chi'n ei ddisgwyl. Rydym wrth gwrs yn angerddol am y rôl y mae treth yn ei chwarae mewn cymdeithas. Ond rydym hefyd yr un mor angerddol am ddigidol a data, mewnwelediad a strategaeth cwsmeriaid, ymgysylltu â gweithwyr a datblygu'r sefydliad. Rydym yn sefydliad ifanc, deinamig, gyda gweithlu amlbroffesiwn ymgysylltiol iawn, gyda llawer o newid ar y gorwel.

Rydym yn chwilio am Gadeirydd newydd i'n helpu i lywio ein taith, wrth i ni aeddfedu fel sefydliad mwy sefydledig, ac ymgymryd â phortffolio gwirioneddol amrywiol o gyfleoedd a heriau newydd. Os yw hynny'n swnio fel rhywbeth yr hoffech chi fod yn rhan ohono, darllenwch ymlaen. Gallwch gysylltu â ni am sgwrs anffurfiol i ddarganfod mwy os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Ffurfiwyd ACC yn 2017. Ers hynny, rydym wedi helpu i godi dros £1 biliwn i ariannu gwasanaethau cyhoeddus Cymru fel iechyd, ysgolion, a gofal cymdeithasol, yn uniongyrchol. Rydym yn casglu ac yn rheoli'r ddwy dreth ddatganoledig gyntaf i Gymru, sydd wedi'u cynllunio a'u gwneud ar gyfer Cymru:

- Y Dreth Trafodiadau Tir (TTT), a delir pan fyddwch yn prynu neu'n lesu adeilad neu dir dros bris penodol
- Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT), a delir pan waredir gwastraff i safle tirlenwi neu rywle arall

Rhai ffeithiau allweddol amdanom ni:

- rydym yn fach ac yn aml-sgil, gyda thua 85 o bobl ar draws 15 o wahanol broffesiynau
- rydym yn ymrwymedig iawn – rydym yn y 5 uchaf yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil bob blwyddyn (canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil)
- rydym yn gwbl seiliedig ar y cwmwl, ac rydym yn dysgu sut y bydd gweithio hybrid yn gweithio i ni
- rydym yn ffynhonnell Ystadegau Gwladol gydnabyddedig

- rydym yn lle hwyliog, cymharol anffurfiol i weithio ynddo, ac rydym yn gwerthfawrogi cydweithwyr sy'n arbenigol, arloesol, cydweithredol a charedig
- rydym wedi cael pum mlynedd gyntaf lwyddiannus, gan gyflawni ein hamcanion o'n Cynllun Corfforaethol blaenorol (2019 to 2022)

Rydym yn adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru. Cawsom ein sefydlu fel hyn i sicrhau bod penderfyniadau trethdalwyr unigol yn cael eu gwneud yn annibynnol ar fewnbwn gweinidogion.

Rydym wedi dod yn bell ers ein lansiad i ble rydym nawr, ac er ein bod yn dal i fod yn sefydliad ifanc, sy'n dysgu mewn sawl maes, rydym bellach yn fwy sefydledig. Gwyddom beth sydd wedi gweithio a beth sydd heb weithio cystal o ran sut rydym yn darparu ffordd Gymreig o drethu, ac wedi gwneud newidiadau yn unol â hynny. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru ar ddyluniad gwasanaethau refeniw newydd, a newidiadau i wasanaethau presennol, ac yn disgwyl profi newid sylweddol fel sefydliad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rydym yn chwilio am ail Gadeirydd ein Bwrdd, i ymuno â naw aelod arall o'n Bwrdd: 5 Aelod Anweithredol, ein Prif Weithredwr, Prif Swyddog Gweithredu, Prif Swyddog Pobl a Chyfathrebu a'n Haelod Staff Etholedig (mae ein staff yn enwebu cydweithiwr i ymuno â'n Bwrdd bob 3 blynedd).

Nid ydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad ym maes trethi – mae gennym ddigonedd o arbenigedd ym maes trethi. Yr hyn rydym yn chwilio amdano yw rhywun sy'n deall sefydliad sydd am ddod yn gwbl ddigidol, lle gellir defnyddio data er budd dinasyddion Cymru, ac sy'n mynd i fynd drwy newid sylweddol; rhywun a all fod yn arweinydd meddylgar er mwyn gwneud yn siŵr ein bod y gorau y gallwn fod.

Mae hwn yn gyfle unigryw i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus Cymru, ac mae angen ymgeisydd unigryw. Gobeithiwn mai chi yw'r person hwnnw.

**Dyfed Alsop,** Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ACC

**Kathryn Bishop,** Cadeirydd ACC

Gallwch ddarganfod mwy amdanom trwy edrych ar y canlynol:

- Neges fideo o groeso o Dyfed Alsop a Kathryn Bishop
- Canlyniadau Arolwg Pobl
- Cynllun Corfforaethol 2019-22
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21

Gallwch hefyd ymweld â llyw.cymru.acc, a'n cyfrifon Twitter, LinkedIn ac YouTube.

# Ein strategaeth

Ein diben yw:

- Cynllunio a darparu gwasanaethau cyllid cenedlaethol i Gymru
- Arwain y gwaith o ddefnyddio data trethdalwyr Cymru'n well er mwyn Cymru

Byddwn yn gwneud hyn yn effeithiol trwy:

**Gwneud pethau'n haws**
Byddwn yn ei gwneud yn haws talu'r swm cywir o dreth

**Bod yn fwy effeithlon**
Byddwn yn darparu mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac sy'n cynnig gwerth am arian



**Sicrhau ein bod yn deg**
Byddwn yn deg ac yn gyson yn y ffordd rydym yn casglu ac yn rheoli trethi, gan weithredu'n gymesur pan nad yw pobl yn cyflawni eu rhwymedigaethau

**Ehangu ein gallu**
Byddwn yn datblygu ein gallu unigol a chyfunol

Byddwn yn datblygu dau faes arall i wneud y gorau o'n rôl:



**Data**

Byddwn yn defnyddio ein hasedau data i'r eithaf, gan gydweithio ag eraill sy'n cadw data trethdalwyr yng Nghymru i wella'r ffordd rydym yn rhannu, yn defnyddio ac yn dadansoddi'r data hynny, er budd Cymru



**Dylunio**

Byddwn yn defnyddio ein profiad a'n harbenigedd i gefnogi dyluniad gwasanaethau cyllid Cymru

## Ffordd Gymreig o drethu

Rydym wedi ymrwymo i helpu i ddarparu system dreth deg i Gymru drwy 'Ein Dull', sy’n ffordd Gymreig o drethu. Drwy gydweithio â chyfreithwyr a thrawsgludwyr, partneriaid, trethdalwyr a'r cyhoedd, rydym yn gwneud yn siŵr bod trethi'n cael eu casglu mewn ffordd sy’n rhwydd, yn deg ac yn effeithlon.

Mae Ein Dull wedi’i ysbrydoli gan dri term:



### Cydweithio

Ystyr hyn yn llythrennol yw 'gweithio gyda'n gilydd' ac mae'n golygu gweithio tuag at nod gyffredin.



### Cadarnhau

Mae hyn yn awgrymu nodwedd gadarn a chryf y gellir dibynnu arni. Mae'n golygu darparu sicrwydd, bod yn gywir ac atgyfnerthu ymddiriedaeth.



### Cywiro

Ystyr hyn yn llythrennol yw 'dychwelyd at y gwir' ac mae'n ymwneud â sut rydyn ni'n gweithio gyda chi i ddatrys gwallau neu bryderon.

# Ynglŷn â'r rôl

## Rôl ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn atebol am swyddogaethau ACC, a roddir iddo drwy statud. Ei rôl yw darparu trosolwg o'r trefniadau ar gyfer arfer y dyletswyddau sy'n deillio o'r swyddogaethau. Gan weithio gyda'r Prif Weithredwr (aelod o'r Bwrdd sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifyddu), mae'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd bod ACC yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y swyddogaethau yn effeithiol, ac yn gallu parhau i wneud hynny.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys Aelodau Gweithredol (y Prif Weithredwr a dau arall) - Aelodau Anweithredol, ac Aelod Staff Etholedig. Gyda'i gilydd maent yn darparu cydbwysedd iach o her a chefnogaeth i'r sefydliad. Fel grŵp arwain, maen nhw hefyd yn ddylanwadol wrth arwain y diwylliant a'r ffyrdd o weithio rydym eu heisiau yn ein sefydliad, fel arloesi, cydweithio a charedigrwydd.

Fel Bwrdd adran anweinidogol, nid Bwrdd ACC sy'n pennu strategaeth y sefydliad. Rôl y Gweinidog yw gwneud hynny. Fel ceidwaid swyddogaethau ACC, mae'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd a chyngor ar strategaeth mewn perthynas â swyddogaethau ACC.

Er nad yw Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn weision sifil, mae ACC yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil ac felly mae'r Prif Weithredwr, fel gwas sifil uchaf yr adran, yn adrodd i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru – nid yw'r Bwrdd yn dethol na rheoli'r Prif Weithredwr.

Darllenwch fwy am ACC a'n Bwrdd yma (gan gynnwys bywgraffiadau aelodau presennol y Bwrdd)

## Rôl y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Bwrdd ACC, eich rôl fydd:

- arwain y Bwrdd mewn ffordd sy'n gosod y naws ar gyfer y sefydliad, yn esiampl o ran ymddygiad ac ymagwedd, ac yn ysbrydoli diwylliant ACC
- arwain mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, gan feithrin a hwyluso trafodaeth agored
- cymhwyso gwybodaeth am arfer gorau traws-sector i heriau ACC
- gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Bwrdd, i graffu'n gadarn a cheisio sicrwydd bod swyddogaethau ACC yn cael eu harfer yn effeithiol
- dangos y safonau uchaf o onestrwydd personol
- arddangos ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sef Egwyddorion Nolan), fel llysgennad i ACC
- rheoli eich datblygiad eich hun, yn unol â gofynion esblygol y swydd

## Manyleb person

Rydym yn chwilio am rywun gyda:

- profiad arwain mewn sefydliadau newidiol neu gymhleth
- profiad o arwain prosiectau mawr o'u cychwyn, eu datblygu a'u cyflwyno
- dull arweinyddiaeth gynhwysol, gydweithredol
- profiad o reoli risg, perfformiad a chyllid
- barn gadarn a lefel uchel o onestrwydd, gydag ymrwymiad i saith egwyddor ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus

Rydym yn chwilio'n arbennig am ymgeiswyr sydd â phrofiad o arwain ac arbenigedd yn un neu fwy o'r canlynol:

- y defnydd o dechnoleg ddigidol i ysgogi trawsnewid, arloesi neu awtomeiddio prosesau, gan arwain at ganlyniadau gwell
- defnyddio data i lywio penderfyniadau a/neu wella gwasanaethau
- datblygiad sefydliadol, neu amgylcheddau gweithredol newidiol neu gymhleth

## Y Gymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon ond nid ydynt yn angenrheidiol.

Mae ACC yn sefydliad dwyieithog. Mae sgiliau Cymraeg yn gaffaeliad i ni, ac rydym yn darparu gwasanaethau i gwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, rydym yn annog ac yn cefnogi ein staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle, ac rydym wedi datblygu ein Strategaeth Iaith Gymraeg gyntaf yn ddiweddar. Mae tua thraean o aelodau ein Bwrdd yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Nid oes angen i chi siarad Cymraeg ar gyfer y rôl hon, ond mae angen i chi rannu ein hangerdd dros ei defnyddio. Gallwch wneud hyn fel siaradwr Cymraeg, neu fel rhywun sy'n fodlon dysgu. Os nad ydych yn siarad Cymraeg eto, byddwn yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i allu cyrraedd lefel 'cwrteisi' o Gymraeg yn eich blwyddyn gyntaf gyda ni, fel y gallwch groesawu cydweithwyr i gyfarfod, ynganu enwau eich cydweithwyr, a chau cyfarfod yn Gymraeg.

## Ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Fel corff cyhoeddus, mae'n briodol ein bod ni fel cyflogwr yn cynrychioli'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn llwyr gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i annog ystod mor eang ac amrywiol o bobl i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn falch o gael Bwrdd sy'n cael ei gynrychioli'n gyfartal gan ddynion a menywod, ac sydd ag ystod oedran mwy amrywiol na llawer.

Gwyddom ein bod yn gwneud gwell penderfyniadau drwy gael Bwrdd sy'n gwir adlewyrchu cymdeithas Cymru – pobl o bob cefndir gwahanol – i'n helpu i ddeall yr ystod o anghenion sydd gan bobl.

Byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar Fyrddau, gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Rydym yn cynnig amgylchedd cynhwysol, cefnogol, felly mae croeso i chi ddarganfod mwy am y rôl hon.

# Telerau penodi

Bydd y penodiad yn cael ei wneud gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## Hyd

Bydd eich penodiad cychwynnol am 3 blynedd.

Mae'n bosibl y bydd modd ailbenodi, yn amodol ar benderfyniad Gweinidogol.

## Ymrwymiad amser

Yn nodweddiadol, 2 i 4 diwrnod y mis ar gyfartaledd. Rydym yn hapus i fod yn hyblyg o ran yr ymrwymiad amser i sicrhau'r ymgeisydd cywir a byddem yn hapus i drafod hyn ymhellach.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn fisol. Yn ystod y flwyddyn cynhelir cymysgedd o gyfarfodydd chwarterol ffurfiol, diwrnodau strategaeth a sgyrsiau bwrdd byrrach. Bydd y Cadeirydd hefyd yn cynnal galwadau ad hoc gyda chydweithwyr ynglŷn â materion penodol y tu allan i'r cyfarfodydd hyn.

Mae'r calendr ar gyfer ail hanner 2022-23 fel a ganlyn:

- Cyfarfodydd Adolygu Chwarterol Diwrnod Llawn: 28 Medi a 30 Tachwedd 2022, 22 Chwefror 2023
- Sgyrsiau Bwrdd, 19 Hydref a 14 Rhagfyr 2022, 22 Mawrth 2023

Gyda'r cyfarfodydd strategaeth ym mis Ionawr i'w cadarnhau.

## Lleoliad

Rydym yn sefydliad gwaith hybrid, yn gweithio rhwng ein cartrefi a'n prif swyddfeydd yn Ne Ddwyrain Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am swyddfa barhaol newydd yn yr ardal honno.

Disgwyliwn gynnal cyfarfodydd Bwrdd yn bersonol, fel arfer yng Nghaerdydd neu'r cyffiniau.

Bydd cyfarfodydd a galwadau eraill yn gymysgedd o wyneb yn wyneb ac ar-lein, gyda’r rhan fwyaf o’n gwaith ar-lein ar hyn o bryd. Gallwn ddarparu offer TG.

Ar hyn o bryd rydym yn profi sut y gallwn gynnig cyfarfodydd hybrid orau.

## Cydnabyddiaeth

£400 y dydd (pro rata).

Gellir adennill costau teithio o leoliad eich cartref (yn y DU), yn ogystal â threuliau rhesymol eraill yr eir iddynt wrth gyflawni gwaith i ACC.

Gallwn hefyd helpu gyda chostau os ydych yn rhiant neu'n ofalwr, a'ch bod yn ysgwyddo costau gofal wrth weithio i ni.

Ystyrir bod aelodau anweithredol ein Bwrdd yn ‘ddeiliaid swydd’ at ddibenion treth ac yswiriant gwladol. Mae hyn yn golygu bod eich ffioedd yn destun treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion, ac nid ydynt yn destun TAW. Byddwn yn didynnu eich treth ac YG sy'n ddyledus drwy ein cyflogres.

## Sefydlu a hyfforddiant

Rydym yn cynnig cyfnod sefydlu a hyfforddiant llawn i’ch helpu i ddeall ACC a Llywodraeth Cymru, a byddwn hefyd yn eich cefnogi ar yr hyn sydd angen i chi ei wybod os nad ydych wedi bod yn Gadeirydd o’r blaen.

## Cymhwysedd

Mae rhai unigolion wedi’u hanghymhwyso rhag cael eu penodi’n Gadeirydd neu’n Aelod Anweithredol arall o ACC. Mae’r meini prawf wedi’u pennu yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Nid yw unigolion yn gymwys i ymgymryd â’r rôl hon os ydynt yn aelod o

- Senedd Cymru
- Tŷ’r Cyffredin
- Tŷ’r Arglwyddi
- Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon
- Senedd Ewrop
- awdurdod lleol
- Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Llywodraeth Cymru

Neu os ydynt yn:

- weinidog y Goron
- aelod o Lywodraeth yr Alban neu'n un o Weinidogion Gogledd Iwerddon
- comisiynydd heddlu a throseddu
- person sy'n dal swydd o dan y Goron
- person sydd wedi ei gyflogi gan wasanaeth sifil y Wladwriaeth

Yn ogystal, ni ellir penodi unigolion yn Aelodau Anweithredol o ACC os ydynt yn:

- ansolfent
- testun gwaharddiad fel cyfarwyddwr cwmni

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod aelodaeth o ACC yn swydd sy'n anghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

## Cliriad Diogelwch

Bydd eich penodiad yn amodol ar fetio at ddibenion diogelwch. Bydd y lefel ofynnol fel arfer yn golygu eich bod wedi bod yn byw yn y DU am o leiaf 5 mlynedd.

## Gwrthdrawiad buddiannau

Os oes gennych chi neu aelod agos o'ch teulu unrhyw fuddiant personol neu fusnes, neu wrthdaro buddiannau posibl, â gweithgareddau ACC, yna byddem yn disgwyl i chi ddatgan hyn yn eich cais. Nid yw unrhyw wrthdaro yn atal eich cais rhag cael ei ystyried, ond efallai y bydd angen ei archwilio ymhellach yn ystod y cyfweliad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, fel a yw penodiad cyhoeddus presennol yn eich gwahardd rhag cael eich penodi, cysylltwch â ni. Byddem yn hapus i roi cyngor pellach ar unrhyw gwestiwn ynghylch cymhwysedd.

## Diwydrwydd Dyladwy

O ystyried natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y sawl a benodir yn Gadeirydd, fel aelod o gorff cyhoeddus, yn cynnal hyder y Senedd a'r cyhoedd.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy byddwn yn ystyried unrhyw beth yn y parth cyhoeddus sy'n ymwneud â'ch ymddygiad neu allu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a chyfryngau cymdeithasol, blogiau neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth hon ar gael i'r Panel Asesu Cynghorol (y panel sy'n cyfweld ag ymgeiswyr ac yn gwneud argymhelliad i'r Gweinidog ynghylch penodi Cadeirydd), ac efallai y byddant am archwilio materion gyda chi petaech yn cael eich gwahodd i gyfweliad. Gellir rhannu gwybodaeth hefyd â gweinidogion.

Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, petaech yn cael eich penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras, neu achosi perygl i hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig eich bod yn dod â nhw i sylw'r Panel Asesu Cynghorol a darparu manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a ydych am ddatgan unrhyw faterion, dylech hefyd fyfyrio ar unrhyw ddatganiadau cyhoeddus yr ydych wedi'u gwneud, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol.

## Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk)

# Sut i ymgeisio

## Amserlen

- Ceisiadau'n agor: Dydd Mercher 4 Mai 2022
- Ceisiadau'n cau: 16:00 ddydd Sul 5 Mehefin 2022
- Cyfweliadau ac asesiadau: 13 i 15 Gorffennaf – cadwch y dyddiadau hyn i sicrhau eich bod ar gael, gan na fydd yn bosibl cynnig dyddiadau eraill
- Disgwylir i'r swydd ddechrau: Hydref 2022, yn amodol ar weithdrefnau ar ôl y cyfweliad

## Ymgeisio

Dylech gyflwyno eich cais, gan gynnwys eich CV a datganiad ynglŷn ag addasrwydd, i borth recriwtio Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn Gymraeg neu Saesneg. Sylwer efallai y bydd angen i ni gyfieithu ceisiadau Cymraeg ar gyfer unrhyw un nad yw'n siarad Cymraeg ar y panel penodi. Byddwn yn cysylltu â chi ymlaen llaw i gael eich caniatâd i rannu eich cais gyda'n cyfieithwyr, os yw hynny'n digwydd.

Yn eich cais, rhowch fanylion unrhyw weithgareddau sydd wedi eich helpu i ddatblygu'r profiad, ymddygiad a sgiliau sy'n ofynnol yn y Fanyleb Person.

## CV

- Manylion cryno am rolau presennol a blaenorol neu swyddi gwirfoddol, a dyddiadau cyflawni hynny.

Dylech hefyd gynnwys unrhyw benodiadau Gweinidogol yn y gorffennol neu'r presennol, a bydd angen inni wybod hefyd am unrhyw weithgarwch gwleidyddol yr ydych wedi'i wneud yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

### Datganiad personol

- Dim mwy na dwy dudalen A4.
- Enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob maen prawf hanfodol ar y Fanyleb Person.
- Nodwch yn glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i ba feini prawf hanfodol.
- Byddwch yn glir ynghylch eich rôl ym mhob enghraifft, a pha ganlyniad a gyflawnwyd.

Er tegwch, efallai na fyddwn yn gallu derbyn ceisiadau sy’n fwy na dwy dudalen.

### Addasiadau rhesymol

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac am drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o’r broses recriwtio hon, rhowch wybod i ni. Byddwn yn gofyn i chi beth y gallai fod ei angen arnoch – ac yn ateb unrhyw gwestiynau eraill a allai fod gennych – fel rhan o’r broses.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych, neu drafod eich gofynion, ar adeg gwneud eich cais.

## Y broses ddethol

Bydd y Panel Asesu Cynghorol yn asesu eich CV a’ch datganiad personol i benderfynu pwy maen nhw’n credu sy’n bodloni’r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl orau. Dim ond ar y wybodaeth a ddarperir yn y CV a’r datganiad personol y gall y panel ddibynnu.

### Cyfweliad ac asesiad

Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y sifft yn cael eu gwahodd am gyfweliad ac asesiad. Bydd yr asesiad yn canolbwyntio ar y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Rhoddir manylion ymlaen llaw i'r rhai sydd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Bydd pob cyfweliad yn cynnwys y panel yn gofyn cwestiynau am eich sgiliau a'ch profiad, a all fod mewn cyflogaeth flaenorol neu gyfredol, neu waith gwirfoddol, yn ogystal â'ch cryfderau a'ch hoff ffyrdd o weithio. Bydd y cwestiynau’n asesu a ydych yn bodloni’r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer y rôl hon.

**Cynllun gwarantu cyfweliad**

Rydym yn gyflogwr Ymroddedig Hyderus o ran Anabledd. Rydym yn defnyddio’r diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy’n golygu ein bod yn cydnabod bod pobl yn cael eu hanalluogi gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu nam neu wahaniaeth. Gall y rhwystrau hyn fod yn rhai corfforol, fel adeilad sy’n atal mynediad i rywun sy’n defnyddio cadair olwyn, neu gallant gael eu hachosi gan agweddau pobl at wahaniaeth. Mae’r model cymdeithasol yn ein helpu i gydnabod yr anhawster a achosir gan y rhwystrau hyn, a bod cael gwared arnynt yn creu mwy o gydraddoldeb i bawb.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl ac y mae eu cais yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd. Wrth ‘feini prawf gofynnol’ rydym yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais sy’n dangos eich bod yn gyffredinol yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

## Y Panel Asesu Cynghorol

Bydd y panel yn gyfrifol am argymell penodiad i’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS.

Andrew Goodall (Cadeirydd y Panel)
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, Llywodraeth Cymru

Anna Adams
Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynwladol, Llywodraeth Cymru

Aelod Annibynnol o'r Panel
I’w gadarnhau

## Penodi

Bydd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn penodi’r Cadeirydd. Bydd ymgeiswyr yr aseswyd eu bod yn addas i'w penodi gan y Panel Asesu Cynghorol yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a all wedyn ddewis cyfarfod â'r ymgeisydd/ymgeiswyr, ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu gynrychiolydd enwebedig, cyn gwneud penderfyniad terfynol.

## Gwrandawiad Cyn Penodi

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, efallai y gofynnir i chi fynychu gwrandawiad Pwyllgor Senedd Cymru.

Mae craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol a wneir gan Weinidogion. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol a gwirio bod y recriwtio yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Gallai'r craffu hwn olygu bod y pwyllgor dethol perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan yr Adran a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog ac yn adolygu'r wybodaeth honno. Gall y pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawiad cyn penodi.

Cynhelir gwrandawiadau cyn penodi yn gyhoeddus ac mae'r pwyllgor dethol yn cymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Cynhelir y gwrandawiadau cyhoeddus hyn cyn i benodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol ddigwydd.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw penderfynu a ddylid cynnal y cyfryw graffu, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawiad cyn penodi. Yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran am y broses recriwtio, mae'n bosibl i'r pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawiad craffu cyn penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis ymgeisydd y Gweinidog.

## Eich data

Bydd y wybodaeth o fewn eich cais yn cael ei gasglu gan ddefnyddio porth recriwtio diogel Llywodraeth Cymru a'i rhannu'n ddiogel gydag Awdurdod Cyllid Cymru ac asiantaeth recriwtio Audeliss. Bydd eich data personol yn cael ei drin yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018.

# Dysgwch fwy

## Cwestiynau

Rydym yn croesawu trafodaethau anffurfiol am y rôl a bydd ACC yn eich helpu i benderfynu a yw hyn yn addas i chi.

Penodwyd Audeliss Executive Search i gefnogi ACC wrth benodi, ac maen nhw ar gael i drafod y rôl yn anffurfiol ac am unrhyw gyngor ar geisiadau ffurfiol.

I drafod unrhyw agwedd ar y rôl hon, anfonwch e-bost at Louise Gore yn Audeliss yn: louise@audeliss.com

Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am benodiadau cyhoeddus yng Nghymru

## Os nad ydych yn gwbl fodlon

Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

UK Government
Llywodraeth y DU

Our ref: 123MISC22

**Rt Hon Sir Robert Buckland KBE QC MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**Peredur Owen Griffiths MS**
Chair, Finance Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

14th July 2022

Dear Peredur,

**Post-EU Funding Arrangements**

I am writing following the evidence session on 30th June in which you heard evidence from the Parliamentary-Under Secretary of State for Wales and my predecessor, the Rt Hon Simon Hart MP. I have set out a response to each of the Committee's questions below and enclose the information that was the subject of discussion during the session.

*Post-Horizon Funding in Wales*

The UK is continuing to push for association to Horizon Europe at the earliest opportunity, but unfortunately there have been persistent delays from the EU. We recognise these delays have led to uncertainty for researchers, businesses and innovators. However, to provide reassurance to UK applicants, the UK Government is guaranteeing funding for eligible, successful applicants to Horizon Europe who are expected to sign grant agreements with the EU. We have always been clear that our priority is to support the UK's research and development sector and we will continue to do this in all future scenarios.

*UKSPF Underspend*

In England, Scotland and Wales, lead local authorities will receive upfront UKSPF payments early in the financial year (with the exception of year one of the Fund when the allocation will be paid on approval of the area's investment plan). This will be subject to lead local authorities demonstrating in their investment plans and subsequent performance reports that a full annual payment will be spent and accounted for in-year (this includes expenditure invoiced and paid, as well as accruals, in line with financial accounting standards).

In the event of underspend, the UK Government would consider withholding the next annual instalment. There is, however, some flexibility here – funding could be released when credible plans are received setting out how the lead local authority will utilise

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Sir Robert Buckland KBE QC MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Our ref: 123MISC22

underspends in the next year and how appropriate milestones and spend have been achieved for the previous year.

I hope these responses answer the Committee's questions.

Yours ever,

Robert

**Rt Hon Sir Robert Buckland KBE QC MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP
www.gov.uk/wales

Tŷ William Morgan House
Cardiff | Caerdydd
CF10 1XS
www.gov.uk/cymru

## Annex A

**Combined UKG Funding to Wales**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| UKG Block Grant | £15.6 billion* | £16.9 billion* | £18.2 billion | £18 billion | £18.2 billion |
| UKSPF | £0 | £0 | £89 million | £153 million | £343 million |
| Farmers Payments | £0 | £242 million | £252 million | £315 million | £337 million |
| UKG Local Growth Funds (UKCRF, LUF and COF) | £0 | £167 million | TBA | TBA | TBA |
| City and Growth Deals | £18 million | £47.5 million | £53 million | £58 million | £65.5 million |
| **TOTALS** | **£15.6 billion** | **£17.3 billion** | **£18.5 billion+** | **£18.5 billion+** | **£18.9 billion+** |


* Excludes Covid related funding which was £5.2bn in 2020/21 and £2.8bn in 2021/22.

### Agricultural Funding Breakdown

Defra and the DAs will still be in receipt of some Pillar 2 funding from the European Commission throughout the SR21 period. The UK Government will therefore provide the additional funding required on top of this funding to ensure that annual funding for each nation meets the same level as the 2019 ceiling, thereby meeting the manifesto commitment.

| Exchequer spend | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **(£m)** | **SR20** | **SR21** | | |
| | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
| **Scotland** | 570 | 584 | 595 | 595 |
| **Wales** | 242 | 252 | 315 | 337 |
| **Northern Ireland** | 316 | 313 | 327 | 329 |

***Additional exchequer spend to meet 2019 ceiling levels***


UKSPF Local Allocations - Wales
Millions
£50
£45
£40
£35
£30
£25
£20
£15
£10
£5
£0
Monmouthshire
Newport
Vale of Glamorgan
Cardiff
Flintshire
Wrexham
Powys
Isle of Anglesey
Gwynedd
Conwy
Denbighshire
Ceredigion
Pembrokeshire
Carmarthenshire
Rhondda Cynon Taff
Merthyr Tydfil
Caerphilly
Blaenau Gwent
Torfaen
Neath Port Talbot
Bridgend
Swansea

Eitem 7

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ac fe'i gosodir gerbron y Senedd, ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

Mae'r adroddiad Blynyddol yn dangos, yn ystod 2021-22:

- fod arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn weddol gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ond gyda rhai newidiadau wedi'u gwneud i waith a gynlluniwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19; a
- bod y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun ar gyfer 2021-22 wedi'u cyflawni'n sylweddol.

Paratowyd y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn rhinwedd ei swydd yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r adroddiad ar gydymffurfiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2022. Fe'i paratowyd ar y cyd o dan adran 6(7) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn unol â Chanllawiau Adrodd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad i hynny, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau y mae angen cywirdeb cyfreithiol ynddynt.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @WalesAudit |

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Cipolwg ar y flwyddyn

## Ebrill

Cyhoeddwyd adroddiad yn edrych ar gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19

Amlinellwyd bod pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant ac yn torri gwasanaethau dewisol, a bod y pandemig wedi amlygu pwysigrwydd llywodraeth leol o ran amddiffyn pobl a chymunedau

## Gorffennaf

Dangoswyd bod gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drefniadau llywodraethu clir a sefydledig, a nodwyd nifer o ffactorau allanol a allai effeithio ar lwyddiant y Fargen Dwf

Cyn cyhoeddi ein hadroddiad llawn a'n hofferyn data, rhannwyd y themâu allweddol a godwyd mewn dros 2,400 o ymatebion a gafwyd gan fusnesau ac aelodau o'r cyhoedd i'n harolwg o gynaliadwyedd canol trefi

## Mai

Adroddwyd bod llywodraethu ym Mhwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi gwella, ond mae gwneud penderfyniadau yn debygol o ddod yn fwy heriol o ganlyniad i COVID-19

Cynhaliwyd gweminar fyw ar gyfer darpar ymgeiswyr ar gyfer Rhaglen Prentisiaeth Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan newydd; partneriaeth sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau arwain cyllid ledled Cymru

## Awst

Adroddwyd bod rheolaeth Llywodraeth Cymru o gyllid myfyrwyr o ddydd i ddydd yn effeithiol ond, o ystyried y costau cynyddol dan sylw, pwysleisiwyd bod angen mwy o graffu

Cyhoeddwyd podlediad, fel rhan o'n gwaith ar ddysgu COVID, pan fuom yn trafod swyddogaeth arweinwyr yn ystod argyfwng

## Mehefin

Daethpwyd i'r casgliad bod Cymru wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran brechu ei phoblogaeth yn erbyn COVID-19 ond bod angen cynllun clir ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau

Diweddarwyd ein hofferyn rhyngweithiol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr edrych ar dueddiadau yng nghyllid y GIG ar gyfer Cymru gyfan ac mewn cyrff iechyd unigol, ac eleni nododd yn fanwl y meysydd gwariant allweddol ar draws y GIG wrth ymateb i'r pandemig

## Medi

Disgrifiwyd y tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus ers 2010 a'r prif heriau a chyfleoedd o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol; roedd yr adroddiad cyffredinol yn seiliedig ar gyfres o grynodebau penodol i'r sector

Cwblhawyd ein gwaith o archwilio cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn y rhan fwyaf o gyrff llywodraeth leol, y GIG a chyrff llywodraeth ganolog, er gwaethaf yr heriau parhaus o weithio o bell

## Hydref

Cyhoeddwyd sawl adroddiad er budd y cyhoedd sy'n tynnu sylw at ddiffygion mewn trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol mewn cynghorau tref a chymuned

Adroddwyd ar sut mae cyrff y GIG wedi cefnogi llesiant staff yn ystod y pandemig, gyda phwyslais ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu staff a oedd mewn mwy o berygl o COVID-19

## Tachwedd

Daethpwyd i'r casgliad bod angen i Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru fod yn wyrddach, yn gliriach ac mae angen ei rheoli'n fwy tynn

Cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth fel rhan o adolygiad sylfaenol o'r hyn y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei wneud i leihau eu hallyriadau carbon a chyrraedd targedau 2030 a bennwyd gan Lywodraeth Cymru

## Rhagfyr

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y trefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal i bobl hŷn yn methu â mynd i'r afael â phroblemau sy'n bod ers amser maith, a heriwyd Llywodraeth Cymru i ystyried a yw ei diwygiadau polisi arfaethedig yn mynd yn ddigon pell

Gwnaethom gynnal pumed cynhadledd flynyddol Dyfodol Diamod y Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid, pan wnaeth siaradwyr dylanwadol o bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio'r thema Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Cyfnod o Argyfwng

## Ionawr

Nodwyd diffygion llywodraethu, goruchwylio a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gan gyfeirio at wersi y gallai cyrff cyhoeddus eraill ddysgu ohonynt

Amlinellwyd bod cydweithio rhwng y gwasanaethau brys 'golau glas' yn tyfu'n araf ond mae angen newid sylweddol mewn gweithgarwch er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau

## Chwefror

Blogiwyd am ein hofferyn data newydd y gellir ei ddefnyddio i gymharu a gwrthgyferbynnu sefyllfa ariannol cyrff llywodraeth leol, a sut mae ysgolion Cymru yn wynebu her frawychus y gyfradd genedigaethau isaf mewn 100 mlynedd

Myfyriwyd ar y camau y mae cyrff cyhoeddus wedi'u cymryd ers i ni adrodd ar drefniadau seibergadernid yng Nghymru a chodwyd ymwybyddiaeth ohonynt

## Mawrth

Lansiwyd ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar feysydd posibl i ganolbwyntio arnynt ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol i lywio rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022-23 a thu hwnt

Adroddwyd ar ein cynnydd o ran annog newidiadau buddiol o ran cydraddoldeb drwy ein gwaith archwilio, a bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac o ran ethnigrwydd wedi lleihau yn gyffredinol

# Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

## Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniad a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

### Golwg gyffredinol ar y perfformiad

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn, y materion a'r risgiau allweddol a wynebir gennym, a sut wnaethom ni berfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd 9
Pwy ydym ni a'r hyn a wnawn 13
Y materion a'r risgiau allweddol a wynebwn 15
Crynodeb o berfformiad a dangosyddion 17

### Dadansoddi perfformiad

Asesiad o'r graddau y cyflawnwyd yr uchelgeisiau a'r rhaglenni gwaith a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22.

Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith 21
Y meysydd y canolbwyntir arnynt 27
Enghreifftiau o astudiaethau achos o'n gwaith 40
Ein defnydd o adnoddau 48

## Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfio â llywodraethu corfforaethol da.

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut y maent yn ein cefnogi i gyflawni ein huchelgeisiau.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 59
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 61
Datganiad llywodraethu 62

**Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth staff**

Ein polisi taliadau cydnabyddiaeth, manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ein datgeliad cyflog teg, ac adroddiad ynghylch ein staffio.


Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth 84

Adroddiad staff 95


**Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd**

Ein crynodeb o alldro adnoddau, golwg gyffredinol o dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.


Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 102

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd 108


## Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol.


Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr 116

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 117

Datganiad Llifau Arian Parod 119

Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 120

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 121

Rhestr termau 141


## Atodiadau

Rhagor o fanylion am y rhaglenni gwaith a ddarparwyd gennym yn 2021-22, ac am y camau yr ydym wedi'u cymryd i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.


1 Gwaith archwilio lleol 144

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 146

3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol 149

4 Adroddiad bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau 153

# Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniad a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

9 Mehefin 2022

01

# Golwg gyffredinol ar berfformiad

## Rydym yn falch o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2021-22

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

Ochr yn ochr â'n datganiadau ariannol ac atebolrwydd, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaethom o ran cyflawni'r rhaglenni gwaith archwilio a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22.

Parhaodd pandemig COVID-19 i ymyrru ar ein gwaith archwilio ar y safle drwy gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ond bu modd inni reoli'r sefyllfa'n llwyddiannus drwy fabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg ar draws timau ac ymestyn rhai o'n terfynau amser cwblhau arfaethedig. Parhawyd i weithio ac ymgysylltu o bell â'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym, gan ddefnyddio technoleg a llwyfannau cyfathrebu fideo yn bennaf.

Mae ein harchwiliad o waith cyfrifon yn hanfodol i ddarparu asesiad annibynnol parhaus o reolaeth ariannol a chydnerthedd ar draws y sector cyhoeddus i'r Senedd, cyrff a archwilir a'r cyhoedd yn ehangach. Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cyflawni ein rhaglen waith lawn yn 2021-22 i safon uchel.

Mae ein rhaglen astudiaethau cenedlaethol bob amser wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd neu'r senedd sy'n newid. Gyda pharhad pandemig COVID-19, gwnaethom barhau i arfer yr hyblygrwydd hwnnw dros y cyfnod adrodd. Yn gyffredinol, gwnaethom gyflawni 19 o allbynnau adroddiad cenedlaethol yn 2021-22, ac roedd gan nifer ohonynt brif bwyslais a oedd yn gysylltiedig â COVID.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom lunio ein gwaith archwilio perfformiad lleol unwaith eto i ganolbwyntio ar faterion sy'n fwyaf perthnasol i'r sefyllfa bresennol ac sy'n esblygu, ac roedd ein rhaglen o ddigwyddiadau dysgu rhannu arferion da yn canolbwyntio ar bynciau sy'n berthnasol ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaethom hefyd barhau i ehangu ein defnydd o ddulliau gwahanol a newydd o gyfleu ein canfyddiadau, gan gynnwys drwy offer data, adroddiadau rhyngweithiol, ffeithluniau a blogiau.

Mae ein llwyddiant wrth barhau i gyflawni archwiliadau amserol o ansawdd da yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a chydweithwyr mewn cyrff cyhoeddus i gofleidio ffyrdd newydd o weithio a hyblygrwydd. Mae detholiad o astudiaethau achos wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad hwn i roi mwy o ddealltwriaeth o rywfaint o'n gwaith a'r cyfraniad y mae wedi'i wneud. Rwyf yn ddyledus i holl staff Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus drwy gydol y 12 mis diwethaf.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Datganiad gan y Cadeirydd

Dros y 12 mis diwethaf, gwnaethom barhau i fonitro'n agos y sefyllfa COVID-19 a oedd yn esblygu a gweithredu yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ailagorodd ein swyddfeydd o ddechrau mis Ebrill 2021 i nifer cyfyngedig o unigolion a gafodd flaenoriaeth ar ôl ystyried diogelwch a llesiant. Ers hynny, rydym wedi cynyddu'n raddol nifer y staff a all fynychu ein swyddfeydd, ond mae llawer o staff yn parhau i wneud y rhan fwyaf o'u gwaith o bell o gartref.

Parhaodd ein blaenoriaethau o ran rhedeg y busnes i gynnwys addasu a lleihau aflonyddwch i'n gwaith archwilio a gweithrediad ein swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol, gan sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn ar gyfer ein pobl, gan eu cadw'n ddiogel a monitro eu llesiant. Gweithredodd y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn effeithiol dros y cyfnod adrodd gan ddefnyddio cyfryngau cyfarfod ar-lein yn bennaf.

Un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2021-22 oedd cwblhau adolygiad o'n cynllun Teithio a Chynhaliaeth. Amlygodd archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn 2018 nad oedd y cynllun presennol bellach yn cynnig gwerth am arian. Daethpwyd i gasgliad ar y mater sensitif hwn ym mis Ionawr 2022 yn dilyn ymgynghoriad helaeth ar gynigion amgen a ddatblygwyd gan grŵp gorchwyl a gorffen staff. Rydym yn ddiolchgar i'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur am weithio gyda'r rheolwyr drwy drafodaethau ffurfiol ddiwedd 2021. Mae'r holl staff bellach wedi ymrwymo i'r trefniadau newydd.

Rydym hefyd wedi bod yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio ein hystad. Mae effaith COVID wedi dangos y gallwn weithio mewn ffyrdd gwahanol iawn ac yn ystod 2021-22 manteisiwyd ar y cyfle i bwyso a mesur ac ystyried ein hanghenion. Bydd yr opsiynau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried ar ddechrau 2022-23.

Ym mis Rhagfyr 2021, cawsom ganlyniadau ein Harolwg Pobl blynyddol. Yn erbyn cefndir yr adolygiad o'n cynllun teithio a threuliau ynghyd â'r heriau o barhau i weithio o bell, nid oeddem yn synnu o weld bod boddhad gweithwyr wedi gostwng ers yr arolwg blaenorol yn 2020. Er bod llawer yn y sefydliad yn teimlo bod Archwilio Cymru wedi rheoli effaith COVID yn dda, mae'n amlwg bod meysydd o fywyd sefydliadol y mae angen i ni roi sylw iddynt. O ganlyniad, cytunwyd y byddwn yn canolbwyntio ar chwe chanlyniad gwella er mwyn llywio camau gweithredu ym mhob rhan o'r sefydliad:

a Mae gennym y bobl iawn, gan wneud y pethau iawn gyda’r sgiliau iawn

b Mae pobl yn deall ein cyfeiriad teithio a’u rôl wrth gyflawni ein huchelgeisiau

c Mae ein harweinwyr yn creu’r amodau i bobl ffynnu ac i ymgysylltu â’n diben cyffredinol

ch Mae gan ein pobl y datblygiad gorau posibl a ffyrdd o weithio i gyflawni archwiliadau o ansawdd uchel a thyfu yn eu swyddogaethau

d Mae rhyngweithiadau gweithwyr yn sicrhau’r perfformiad gorau gan unigolion a thimau ar bob cam o gylch bywyd y gweithwyr

dd Rydym yn ymateb i adborth ac mae gennym ddiwylliant o welliant parhaus

Yn 2021-22, cytunodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a’r Bwrdd i ddatblygu strategaeth bum mlynedd ar gyfer Archwilio Cymru, i roi pwyslais tymor hirach ar gyfer ein gwaith na’r Cynlluniau Blynyddol y mae’n statudol ofynnol i ni eu cynhyrchu. Yn dilyn cyfnod helaeth o ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid allanol, cymeradwyodd y Bwrdd y cyfeiriad teithio ym mis Mawrth 2022. Wedi’i ategu gan gynlluniau busnes manylach, bydd y strategaeth yn cyd-dynnu ac yn llywio ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf, gan ganolbwyntio’n benodol ar ansawdd ac effaith.



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni a’r hyn a wnawn

## Pwy ydym ni

1 Yr archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o’r sector cyhoeddus yng Nghymru yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol).

2 Yr Archwilydd Cyffredinol sy’n gyfrifol am archwilio mwyafrif yr arian cyhoeddus sy’n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y cyllid y mae’r Senedd yn pleidleisio arno yn flynyddol. Caiff elfennau sylweddol o’r arian hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i’r GIG ac i lywodraeth leol.

3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 280 o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill er mwyn galluogi’r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn cynnwys diagram sy’n dangos ein strwythur sefydliadol. Mae adran Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol yr Adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am ein fframwaith llywodraethiant ac am aelodaeth ein Bwrdd a’n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

## Yr hyn a wnawn




4 Mae archwiliad annibynnol o weithgareddau’r llywodraeth a gwariant cyhoeddus yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae angen gwybodaeth sy’n ddiduedd, yn amserol, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir ar y cyhoedd a’i gynrychiolwyr.

5 Mae swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon ac ymgymryd â gwaith archwilio perfformiad lleol mewn amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

6 Gyda’n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tua £21 biliwn o incwm a gwariant, sydd dros chwarter cynnyrch domestig gros Cymru.

# Ein gwaith craidd

## Gwaith craidd

Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus

Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**

Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£1.5 biliwn**

Cymeradwyo tua **£1.5 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd

Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru

Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

## Rhedeg y busnes

Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£23.7 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio

Cyflogi tua **280 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth

Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau

**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

7 Mae ein rhaglen waith arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid, a materion newydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd neu'r senedd.

## Y materion a'r risgiau allweddol a wynebwn

8 Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n rhoi mwy o wybodaeth am:


- a sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru;
- b ein huchelgeisiau tymor hirach;
- c ein hamgylchedd gweithredu;
- ch ein rhaglenni gwaith arfaethedig a'r camau gweithredu cysylltiedig â blaenoriaeth ar gyfer y 12 mis nesaf; a
- d sut rydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.



Manteisio'n llawn ar ein persbectif, ein harbenigedd, a dyfnder ein dirnadaeth



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

9 Fel y nodwyd gyntaf yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20, rydym wedi nodi pedwar uchelgais eang ar gyfer ein busnes. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei gymryd tuag at gyrraedd ein llawn botensial o fod yn sbardun ar gyfer newid a gwelliant sydd wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.


10 Yn fwy diweddar, rydym wedi nodi tair sylfaen gadarn lle credwn fod angen i ni flaenoriaethu camau gweithredu os ydym am gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Bydd y sylfaeni cadarn hyn yn ganolbwynt i'n hymdrechion am y pum mlynedd nesaf, ochr yn ochr â chyflawni ein cyfrifoldebau statudol craidd.

11 Fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol presennol, rydym o'r farn mai'r canlynol yw'r cyfleoedd a'r heriau allweddol a fydd yn dylanwadu ar y ffordd y byddwn yn cyflawni ein huchelgeisiau tymor hwy ac yn cyflawni ein rhaglenni gwaith dros y blynyddoedd nesaf. Tua diwedd 2021-22, defnyddiwyd y themâu hyn fel y fframwaith ar gyfer Ymgynghoriad sy'n gwahodd sylwadau i lywio ein rhaglen waith archwilio yn y dyfodol.



**Byd sy'n newid**

- Newid hinsawdd: sicrhau trosglwyddiad teg a chyfiawn
- Cydraddoldebau: ymateb i alwadau am gymdeithas decach a mwy cyfartal
- Cyfansoddiad: rheoli cyfleoedd a risgiau perthnasoedd newydd o fewn y DU



**Y pandemig sy'n parhau**

- Costau uniongyrchol yr ymateb
- Effaith economaidd ar gyllid cyhoeddus
- Costau etifeddol effeithiau tymor hir



**Trawsnewid y modd y cyflwynir gwasanaeth**

- Systemau a diwylliant i gefnogi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau
- Cydweithio pwrpasol
- Cynllunio ac atal tymor hir
- Defnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol
- Defnyddio data i ddysgu ar draws y system gyfan

12 Mae ein gwaith arfaethedig yn rhannu'n ddwy adran yn fras – cyflawni archwiliadau a chynnal y busnes. Ar gyfer pob adran, nododd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 feysydd i ganolbwyntio arnynt i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau. Bu ystod eang o staff o bob rhan o'r sefydliad yn gyfrifol am y cynnydd ym mhob un o'r meysydd y canolbwyntiwyd arnynt a chafodd y cynnydd ei fonitro yn ofalus gan ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'n Bwrdd. Mae adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd hwnnw.

13 Mae adran Datganiad Llywodraethu yr Adroddiad hwn yn rhoi cyfrif o'n gwaith rheoli risg yn 2021-22 ac yn disgrifio'r prif risgiau a'r ansicrwydd y bu raid i'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol roi o'u hamser i ymdrin â nhw. Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut y newidiodd y risgiau hynny a sut y cawsant eu lliniaru yn ein cofnodion Bwrdd a gyhoeddwyd.

## Crynodeb o berfformiad a dangosyddion

14 Yn ystod 2021-22, roedd arfer ein swyddogaethau yn weddol gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn, ond gyda rhai newidiadau a wnaed i'r gwaith a gynlluniwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19.

15 Yn ein Adroddiad Interim, roeddem eisoes wedi darparu diweddariad canol blwyddyn ar y cynnydd a wnaed dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021 tuag at gyflawni ein rhaglenni gwaith arfaethedig a'r meysydd cysylltiedig y canolbwyntiwyd arnynt, ac ar gyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol.

16 Mae adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad hwn yn rhoi'r sefyllfa flwyddyn lawn o ran:

a sylwadau ynghylch cyflawni ein prif raglenni gwaith yn 2021-22;

b manylion am y cynnydd a wnaethom tuag at gyflawni'r meysydd y canolbwyntir arnynt a nodir yn ein Cynllun ar gyfer 2021-22;

c enghreifftiau o astudiaethau achos o'n gwaith a'i effaith; a

ch rhywfaint o naratif lefel uchel ynghylch sut y gwnaethom ddefnyddio ein hadnoddau yn 2021-22, sy'n gweithredu fel ein Hadroddiad Cynaliadwyedd.

17 Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig. Yn gyffredinol, yn 2021-22 gwnaethom gyrraedd neu roeddem yn agos at gyrraedd ein targedau ar gyfer 13 o'r 18 dangosydd. Bydd ein perfformiad o'i gymharu â'r pum dangosydd sy'n weddill yn ganolbwynt i'n gwaith gwella yn 2022-23.

## Sefyllfa diwedd y flwyddyn o ran cyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2021-22

### Dangosyddion perfformiad allweddol cyflawni gwaith archwilio

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnir yn erbyn y terfyn amser statudol gofynnol. | 100% | 98% |
| 2 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% | 93% |
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | Aseswyd 100% o'r sampl fel rhai boddhaol neu uwch, a 90% fel da neu uwch | 100% a 75% |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid[1] sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardio arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% | 95% |
| 5 | Darparu mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall. | O leiaf 80% | 96% |
| 6 | Sbarduno gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | 91% |

- Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny
- Angen gwelliant
- Angen gwelliant sylweddol

1 Cynhaliwyd arolwg gennym o gyrff archwilio ym mis Mawrth 2021 gan ofyn am eu barn ar werth ac effaith ein gwaith. Ymgysylltodd 22 o gyrff cyhoeddus â'n harolwg ac ymateb iddo. Daw ein perfformiad o'i gymharu â dangosyddion 4 i 6 o ganlyniadau'r arolwg hwn.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Yr arbedion a nodwyd | Gwerth yr arbedion posibl a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 201 9-202 2 | £35.6 miliwn |
| 8 | Digwyddiadau arferion da | Cyfran y bobl a ddaeth i'n seminarau a'n gweminarau a ystyriodd y digwyddiadau'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | 98%[2] |
| 9 | Ymweliadau â'n gwefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clic ar fideo. | 25,000 bob blwyddyn | 46,800 |
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, h.y. ymgysylltu â'n postiadau trwy eu hoffi, trwy wneud sylw arnynt, neu drwy eu rhannu/aildrydar. | 1,300 bob blwyddyn | 3,800 |
| 11 | Rhannu'r hyn a ddysgwyd am archwilio | Nifer yr achosion lle byddwn yn cyflwyno'r hyn a ddysgwyd gennym am archwilio i weithgorau polisïau allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 bob blwyddyn | 61[3] |

- Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny
- Angen gwelliant
- Angen gwelliant sylweddol

2 Ni ddarparwyd seminarau dysgu wyneb yn wyneb a rennir yn 2021-22 oherwydd cyfyngiadau COVID. Yn hytrach, gwnaethom gyflwyno rhaglen o weminarau a digwyddiadau ar-lein eraill yn ystod y flwyddyn.

3 Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys presenoldeb mewn grwpiau sy'n rhan o'n busnes arferol nac, er enghraifft, pan ydym wedi mynd i sawl digwyddiad mewn cysylltiad ag un pwnc, ac unwaith yn unig yr ydym wedi cyfrif digwyddiadau o'r fath.

### Dangosyddion perfformiad allweddol cynnal y busnes

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| **12** | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran y sgorau mynegrif ymgysylltu o arolwg blynyddol y staff sy'n gadarnhaol, mae'r arolwg wedi ei gyfochri ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. | 10% o'r sgorau uchaf o leiaf ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil | 64% |
| **13** | Profiad y cyflogeion | Canran sgorau profiad y cyflogeion sy'n gadarnhaol yn arolwg thematig blynyddol y staff[4]. | 25% o'r sgorau uchaf o leiaf ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil | 0 allan o 10 sgôr thema yn y 25% uchaf |
| **14** | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff bob blwyddyn. | Llai na chwe diwrnod | 5.8 diwrnod |
| **15** | Mantol ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'i chymharu â'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | O fewn 2% o'r gyllideb | 1.7% |
| **16** | Arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd | Gwerth yr arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes. | £1.3 miliwn yn 2020-21 | £1.7 miliwn |
| **17** | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan i'r hyn a gynhyrchir yn anuniongyrchol trwy ein gweithgareddau. | 300 tunnell yn 2021-22 | 500 tunnell |
| **18** | Y gyfradd lwyddiant ar gyfer hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau ar lefel Broffesiynol ac Uwch Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. | O leiaf 90% | 83% |

- Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny (gwyrdd)
- Angen gwelliant (oren)
- Angen gwelliant sylweddol (coch)

4 Themâu allweddol profiadau'r cyflogeion yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yw: amcanion a phwrpas y sefydliad; arweinyddiaeth a rheoli newid; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; a chyflogau a buddion.

# Dadansoddi perfformiad

## Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith

### Gwaith archwilio lleol

18 Parhaodd pandemig COVID-19 i ymyrryd ar ein gwaith archwilio ar y safle trwy gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ond bu modd inni reoli'r sefyllfa drwy fabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg ar draws timau yn ogystal ag ymestyn rhai o'n terfynau amser cwblhau arfaethedig. Gwnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell â'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio, yn bennaf trwy ddefnyddio technoleg a chyfryngau cyfathrebu ar ffurf fideo.

19 Mae ein harchwiliad o waith cyfrifon yn hanfodol i ddarparu asesiad annibynnol parhaus i'r Senedd, cyrff a archwilir a'r cyhoedd ehangach ynghylch rheolaeth ariannol a chydnerthedd ar draws y sector cyhoeddus. Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cyflawni ein rhaglen waith lawn yn 2021-22.

20 Cwblhawyd ein holl archwiliadau o gyfrifon cyrff y GIG, a darparwyd barn ddilynol gan yr Archwilydd Cyffredinol erbyn 15 Mehefin 2021. Cwblhawyd mwyafrif ein harchwiliadau o gyfrifon llywodraeth leol a llywodraeth ganolog erbyn diwedd Medi 2021.

21 Nid oedd cyflawni'r gwaith hwn heb ei heriau. Unwaith eto, mae ein llwyddiant o ran parhau i gyflawni archwiliadau amserol ac o ansawdd da yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a swyddogion cyrff cyhoeddus i groesawu ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i sefyllfa sy'n esblygu.

22 Gwnaethom gwblhau hefyd ein gwaith ardystio grantiau ac archwilio tua £90 miliwn o gyllid Ewropeaidd a ddefnyddiwyd i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru erbyn diwedd mis Ionawr 2022.

23 Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom lunio ein gwaith archwilio perfformiad unwaith eto er mwyn canolbwyntio ar y materion sydd fwyaf perthnasol i'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa sy'n esblygu. Roedd hyn yn cynnwys ymateb parhaus i'r pandemig ac adfer gwasanaethau cysylltiedig, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sefyllfa ariannol, cynllunio'r gweithlu, a lles staff, y defnydd o adeiladau a chynlluniau lleihau carbon.

24 Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym, a'r mathau o waith archwilio a wneir yn y cyrff hynny, yn **Atodiad 1**.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol


25 Mae ein rhaglen waith genedlaethol wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd bob amser er mwyn ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a materion sy'n newid sy'n peri pryder cyhoeddus neu seneddol. Wrth i bandemig COVID-19 barhau, gwnaethom barhau i arfer yr hyblygrwydd hwnnw dros y cyfnod adrodd.

26 Gwnaethom gyhoeddi sawl adroddiad gyda'r prif bwyslais yn gysylltiedig â COVID. Roedd y rhain yn cynnwys:

- a Caffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol ar gyfer pandemig COVID-19
- b Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru
- c Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – Effaith COVID, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol
- ch Gofalu am y Gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant staff yn ystod pandemig COVID-19

27 Tua diwedd 2021, gwnaethom hefyd gyhoeddi cyfres o allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 sy'n crynhoi tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus ac yn nodi ein safbwynt annibynnol ar rai o'r materion allweddol ar gyfer cyflawni gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys effaith y pandemig.

28 Yn gyffredinol, gwnaethom gyflawni 19 o allbynnau adroddiad cenedlaethol yn 2021-22. Mae **Atodiad 2** yn darparu rhestr gyfoes o waith a gwblhawyd neu a gychwynnwyd yn rhan o'n rhaglen genedlaethol.



## Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol

29 Parhaodd ein gwaith i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) newydd wrth iddo ystyried y defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod 2021-22, fe wnaeth allbynnau ein gwaith gefnogi deg cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor.

30 Yn yr un modd, gwnaethom barhau i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a chyfarfodydd eraill y Pwyllgor Craffu o'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus gan ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu â fideo er mwyn darparu sesiynau briffio rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

31 Yn **Atodiad 3**, rydym yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut y gwnaethom gefnogi sesiynau tystiolaeth PAPAC, pwyllgorau eraill ac yn fwy cyffredinol ynghylch ein cefnogaeth mewn cysylltiad â gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol. Mae **Atodiad 3** hefyd yn cynnwys adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch datgelu gwybodaeth.

## Gwaith arferion da

32 Mae pwyslais allweddol ein gwaith arferion da ar hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaethau pan fo'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith archwilio ac o'u profiadau cymharol yn cael ei rannu. Yn gynyddol, rydym yn dod â safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgyrsiau hyn.

33 Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ein rhaglen o ddigwyddiadau dysgu a rennir ar bynciau sy'n gyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaethom rannu enghreifftiau o arloesedd, dulliau gweithredu newydd a phwyntiau o ddiddordeb trwy lif rheolaidd o drydariadau, blogiau, podlediadau, crynoadau pythefnos, a gweminarau ar-lein cyfnodol.

34 Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

a Adfywio canol trefi

b Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

c Camwybodaeth

ch Dod allan o COVID

d Swyddogaeth cymunedau yn ystod y pandemig

dd Llywodraethu mewn argyfwng

e Y ddarpariaeth o daliadau uniongyrchol

f Cydnerthedd sefydliadol

35 Gellir cael gafael ar yr holl ddeunydd a rannwyd yn 2021-22 yn adran Arfer Da ein gwefan.

## Ansawdd archwilio

36 Mae ansawdd ein gwaith o'r pwys mwyaf i ni a'n rhanddeiliaid. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio, a adolygir yn flynyddol, yn rhagnodi sut i arfer archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol a rhai swyddogaethau eraill, ac fe'i cynlluniwyd i ategu Safonau Rhyngwladol ar Archwilio ac i ymgorffori'r arferion proffesiynol gorau.

37 Yn 2021-22, gwnaethom barhau i fuddsoddi mewn datblygu ein methodolegau archwilio a'n trefniadau rheoli ansawdd. Mae'r gwaith wedi cynnwys:

a gweithredu safonau archwilio[5] newydd yn ein gwaith archwilio perfformiad – mae'r safonau hyn a gydnabyddir yn rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu ein dull o weithredu o ran archwilio, gyda chymorth llawlyfr archwilio ar-lein cwbl newydd, a fydd yn integreiddio â'n llwyfan TG newydd sy'n seiliedig ar system gwmwl ar gyfer gwaith archwilio;

g gweithredu safonau archwilio[6] newydd i gefnogi ein gwaith archwilio cyfrifon mewn prosiect partneriaeth cyffrous gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon – mae'r safonau newydd hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar risg archwilio, a bydd ein dull yn cael ei gefnogi drwy ddefnyddio offer dadansoddi data a system TG gwmwl bwrpasol newydd;

h cyflwyno safonau ansawdd newydd y Cyngor Adrodd Ariannol a fydd yn arwain at weithredu system ragweithiol newydd o reoli ansawdd o fis Rhagfyr 2022; a

ch chryfhau ein cyfundrefn ansawdd drwy dreialu'r defnydd o adolygiadau allanol o archwiliadau perfformiad gan Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, ochr yn ochr ag ymestyn y rhaglen waith y mae'r Adran Sicrhau Ansawdd yn ymgymryd â hi ar ein gwaith archwilio cyfrifon.

38 Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cefnogi ein gweledigaeth o wella ansawdd ein gwaith gan fanteisio ar yr un pryd ar botensial technolegau newydd i'n helpu i wneud hynny. Bydd cyflwyno'r safonau newydd yn cael ei ymestyn gan raglen ategol o ddysgu a datblygu a fydd yn ymestyn drwy gydol 2022-23.

5 Cyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI)

6 Cyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC)

39 Rydym yn siomedig i adrodd, er y canfu ein hadolygiadau ansawdd yn 2021-22 bod 100% o'n cynhyrchion archwilio yn foddhaol o leiaf, mai dim ond 75% y canfuwyd drwy asesiad eu bod yn dda neu uwch (sef islaw ein targed o 90%). Fodd bynnag, rydym yn fodlon nad oedd canfyddiadau'r adolygiadau yn awgrymu bod unrhyw farn na chasgliad gennym yn anghywir.

40 Gwnaethom bennu targedau heriol ar gyfer ansawdd ein gwaith, ac fel y dangosir yn y tabl canlynol, rydym yn llwyddiannus gan fwyaf o ran ei gyflawni.

| Blwyddyn Adroddiad Blynyddol | Canran yr adolygiadau boddhaol neu uwch yn ôl yr asesiad | Canran yr adolygiadau da neu uwch yn ôl yr asesiad |
|---|---:|---:|
| **Targed** | **100%** | **90%** |
| 2021-22 | 100% | 75% |
| 2020-21 | 100% | 100% |
| 2019-20 | 100% | 87% |

41 Ond ni allwn sefyll yn llonydd. Mae gan ein rhanddeiliaid hawl i ddisgwyl i ansawdd ein gwaith archwilio fod o safon dda, ac ar yr un pryd mae'r disgwyliadau o ran ansawdd archwilio yn parhau i gynyddu. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno proses dadansoddiad newydd o wraidd y broblem sydd wedi ei ddylunio i nodi rhwystrau i ansawdd archwilio a chefnogi diwylliant o ddysgu a gwella parhaus ar draws Archwilio Cymru.

42 Ceir rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio ar dudalen Sefydliad Agored a Thryloyw ein gwefan.

## Cynnal y busnes

43 Dros y 12 mis diwethaf, gwnaethom barhau i fonitro'n ofalus sefyllfa COVID-19 sy'n esblygu gan weithredu yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

44 Ailagorodd ein swyddfeydd o ddechrau mis Ebrill 2021 i nifer cyfyngedig o unigolion a gafodd flaenoriaeth ar ôl ystyried diogelwch a llesiant. Ers hynny, rydym wedi cynyddu'n raddol nifer y staff a gaiff fynd i'n swyddfeydd, ond mae llawer o staff yn parhau i wneud y rhan fwyaf o'u gwaith o bell gartref.

45 Gweithredodd y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn effeithiol dros y cyfnod adrodd gan ddefnyddio cyfryngau cyfarfod ar-lein.

46 Parhaodd ein blaenoriaethau o ran cynnal y busnes i gynnwys addasu a lleihau yr amhariad ar ein gwaith archwilio a gweithrediad ein swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol, gan sicrhau ein bod yn trin ein pobl yn deg wrth eu cadw'n ddiogel a monitro eu llesiant. Trwy gydol y cyfnod adrodd, cadwyd at ein hegwyddor, sef 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno'.

47 Yn ganolog i'n hymateb parhaus i'r pandemig fu'r defnydd o dechnolegau sy'n ein galluogi i gysylltu, gweithio a chydweithredu o bell ac yn hyblyg ymhlith ein timau a gyda'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym. Elfen allweddol arall fu'r defnydd cynyddol o amrywiaeth eang o gyfryngau a dulliau i ymgysylltu â'n gweithwyr.

48 Daw tua dwy ran o dair o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â Chynllun ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, y mae ein defnydd ohono yn destun craffu gan y Bwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Cafodd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd arfaethedig o adnoddau yn 2022-23 eu nodi mewn Amcangyfrif a Gwybodaeth Ategol, a gafodd ei hystyried a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2021.

49 Mae gwybodaeth am sut y mae amrywiaeth o risgiau wedi effeithio ar y sefydliad yn ystod y flwyddyn a sut y gallant effeithio ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol i'w gweld yn adran Adroddiad Llywodraethu'r Adroddiad hwn ac yng nghofnodion y Bwrdd a gyhoeddwyd.

# Y meysydd y canolbwyntir arnynt

50 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau, ar gyfer 2021-22 gwnaethom nodi naw maes i ganolbwyntio arnynt ar gyfer ein gwaith archwilio a chwe maes i ganolbwyntio arnynt ar gyfer cynnal y busnes. Mae'r adran hon yn crynhoi ein cynnydd.

## Cyflawni archwiliadau

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Cyflwyno rhaglen o waith archwilio perthnasol ac amserol sy'n cydnabod gyda chydymdeimlad y pwysau a wynebir gan gyrff cyhoeddus yn eu hymateb parhaus i bandemig y coronafeirws a'u hadferiad. | Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i fonitro, cydnabod a chydymdeimlo â'r pwysau a wynebir gan gyrff a archwilir. Gan ystyried y pwysau hyn, ochr yn ochr â chyfyngiadau parhaus i'n capasiti ein hunain yn deillio o effaith y pandemig, gwnaethom sawl addasiad i'n rhaglen waith.<br><br>Fodd bynnag, roedd cwmpas ac ehangder cyffredinol y rhaglen yn parhau i fod ar y trywydd iawn yn fras, ac rydym wedi arwain y ffordd ymhlith asiantaethau archwilio'r DU o ran cyflawni archwiliadau cyfrifon amserol. Cyflawnwyd hyn drwy fabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg ar draws ein timau ochr yn ochr ag ymestyn rhai terfynau amser cwblhau arfaethedig i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni’n llwyddiannus.<br><br>Gwnaethom barhau i roi sylw i faterion sy'n berthnasol i effaith y pandemig a'r adferiad ar<br><br>• Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19<br>• Gweithredu’r rhaglen frechu yng Nghymru<br>• Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 sy'n crynhoi tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus, gan gynnwys yr ymateb i COVID-19<br>• Gofalu am y Gofalwyr? yn edrych ar sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant staff yn ystod y pandemig<br>• Offeryn Data Cyllid y GIG sy'n dangos tueddiadau gwariant y GIG oherwydd y pandemig a'u sefyllfa ariannol bresennol<br>• Prosiect 'Llamu Ymlaen' newydd fel rhan o'n rhaglen archwilio llywodraeth leol. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Rhoi pwyslais arbennig ar bwysigrwydd rheolaeth ariannol gadarn a llywodraethu da ar draws y sector cyhoeddus, yng ngoleuni'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â gwariant cyhoeddus yn ystod y pandemig. | Ar gyfer archwilio cyfrifon, canolbwyntiwyd ar feysydd risg sy'n deillio o'r pandemig, megis:<br>• methiant posibl yn nhrefniadau monitro ansawdd cyrff a archwilir ac effaith gweithio o bell;<br>• cyfrifyddu priodol ar gyfer y cynnydd yn y ffrydiau ariannu a'r gwariant i ymdrin â phandemig COVID-19;<br>• cyfrifyddu priodol ar gyfer ysbytai maes;<br>• ansicrwydd posibl wrth brisio eiddo, offer a chyfarpar ar ddiwedd y flwyddyn;<br>• amcangyfrif o wyliau blynyddol cronedig a darpariaethau dyledion drwg;<br>• gwirio bodolaeth eiddo, offer a chyfarpar a stocrestr; a<br>• chanolbwyntio ar dwyll, gwallau a risg rheoleidd-dra, yn enwedig gyda mwy o wariant.<br>Gwnaethom hefyd ddarparu dadansoddiad wedi'i ddiweddaru ar wariant COVID-19 a risgiau cysylltiedig yn Offeryn Data Cyllid GIG Cymru ar ddiwedd y flwyddyn; ein ffeithluniau cryno o gyfrifon y GIG, ffeithluniau Cynghorau Lleol a chyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru.<br>Ym mis Medi 2021, cyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol gennym ar Gynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – effaith COVID, adferiad a heriau yn y dyfodol, ac offeryn data ategol newydd.<br>Hefyd, i ddilyn ein hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021, yn ystod mis Hydref cyhoeddwyd cyfres o grynodebau ar gyfer sectorau penodol a oedd yn cynnwys ystyried yr ymateb i'r pandemig mewn gwahanol sectorau, sef y canlynol:<br>• Darlun o ofal iechyd;<br>• Darlun o lywodraeth leol;<br>• Darlun o ofal cymdeithasol;<br>• Darlun o ysgolion;<br>• Darlun o addysg uwch ac addysg bellach.<br>Gwnaeth ein gwaith Asesiad Strwythurol y GIG mewn cyrff GIG hefyd gynnal pwyslais ar lywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn yng nghyd-destun ymateb parhaus y sector i'r pandemig. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Datblygu dull symlach o archwilio sut mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. | Ym mis Medi 2020, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar sut y dylem gynnal ein harchwiliadau datblygu cynaliadwy yn yr ail gyfnod adrodd (2020-2025). Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom ni ysgrifennu wedyn at y cyrff perthnasol a noddir gan Lywodraeth Cymru gyda rhagor o fanylion ynghylch sut y byddem yn cynnal ein harchwiliadau.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau ein bod yn llwyddo i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o'n rhaglenni gwaith ehangach. Mae hyn yn cynnwys darparu canllawiau archwilydd a rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer staff. Mae timau archwilio wedi dechrau cyflawni yn y modd hwn, gydag enghreifftiau o waith lle mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i gwreiddio'n llawn. Rydym yn sicrhau ein bod yn monitro sut y gwneir hyn fel y gallwn barhau i ddysgu a gwella.<br><br>Hefyd, rydym wedi dechrau cyflwyno rhaglen o archwiliadau i weld yn benodol i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud dros y cyfnod adrodd (2020-2025), wrth i gyrff cyhoeddus bennu amcanion llesiant newydd.<br><br>Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru â'i thîm, sy'n darparu cyngor a chymorth, gan gynnwys darparu hyfforddiant i'n staff. Mae cynrychiolydd o Archwilio Cymru hefyd yn sylwedydd ar Grŵp Llywio Adolygiad Adran 20 presennol y Comisiynydd. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Sicrhau bod datblygu ein dull archwilio yn cyd-fynd â newidiadau yn yr arferion proffesiynol gorau, yn manteisio'n llawn ar ddatblygiadau mewn technoleg ac yn cyflawni archwiliadau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein rhanddeiliaid | Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ailstrwythuro a recriwtio i'n tîm Datblygu a Chanllaw Archwilio. Mae'r tîm hwn yn sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i ddatblygiadau mewn safonau ansawdd archwilio a chyfrifyddu gan gynnwys drwy sganio a dadansoddi'r gorwel yn fanwl ac yn barhaus.<br><br>Mae'r tîm Datblygu a Chanllaw Archwilio yn gwirio bod ein canllawiau mewnol, ein methodolegau a'n dysgu a'n datblygiad yn esblygu i gynyddu ar yr un raddfa â newidiadau pwysig yn y proffesiwn archwilio a, thrwy aelodaeth o fforymau a chyrff proffesiynol, ein bod yn dylanwadu, pan fo'n bosibl, ar ddatblygu safonau ac arferion cyfrifyddu. Un enghraifft yw sefydlu nifer o baneli newydd yn ddiweddar i gefnogi polisi a gwaith technegol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a ddisgrifir yn fanylach yn adran astudiaethau achos yr Adroddiad hwn.<br><br>Rydym o'r farn bod y paneli hyn a fforymau eraill megis y Fforwm Archwilio Cyhoeddus a'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol yn gyfleoedd i ddylanwadu ar safonau cyfrifyddu a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.<br><br>Pan ydym yn ystyried bod ein gallu i ddylanwadu yn cyfiawnhau'r mewnbwn o adnoddau, rydym hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth. Un enghraifft bwysig dros y flwyddyn ddiwethaf oedd Papur Gwyn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – Adfer ymddiriedaeth mewn archwilio a llywodraethu corfforaethol, pan wnaethom ni gyflwyno ymateb Archwilio Cymru yn ogystal ag ymateb ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol y DU. Rydym yn parhau i gysylltu â CIPFA a Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) ynghylch datblygiadau yn y maes hwn. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
| --- | --- |
| Mireinio pob agwedd ar y ffordd yr ydym yn casglu, dadansoddi a chyflwyno data, gan gynnwys drwy ganfod meintiau mwy yn fwy rheolaidd, mwy o ddefnydd o awtomeiddio, a gwell dulliau o ddelweddu ac adrodd | Yn ystod ein harchwiliad o waith cyfrifon, gwnaethom dreialu cyfrwng cyfrifon electronig newydd ac, am y tro cyntaf, gwnaethom ddefnyddio cymhwysiad dadansoddeg data ar archwiliadau'r GIG. Rydym hefyd wedi sefydlu cyfres o offer data i gefnogi gwaith ein timau archwilio, gan gynnwys cymwysiadau a'n galluogodd ni i gysylltu â ffynonellau data allanol, i leddfu tasgau beichus, awtomeiddio rhai arferion safonol a darparu mewnwelediadau gweledol cyflym.<br><br>Mewn datblygiad cysylltiedig, rhoddwyd datrysiad storio data ar waith gennym i gadw data allanol ar raddfa fawr yn ddiogel ac rydym hefyd yn gweithio ar brosiect i asesu dichonoldeb adeiladu warws data mewnol ar gyfer mwy o awtomeiddio a delweddu ein gwybodaeth a'n data rheoli mewnol yn well.<br><br>Drwy barhau i weithredu prosiectau fel y rhain, rydym yn rhoi data wrth wraidd ein gwaith archwilio cyfrifon ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ochr yn ochr â'n dull o ddatblygu ansawdd archwilio. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Gwella'r ffordd yr ydym yn cyfleu ein gwaith archwilio er mwyn cael mwy o effaith, gan gynnwys drwy ehangu ystod a chyrhaeddiad y sianeli a defnyddiwn, a'r sgiliau yr ydym yn eu meithrin yn ein staff. | Dros y cyfnod adrodd rydym wedi parhau i ehangu ein defnydd o ddulliau gwahanol a newydd o gyfleu ein canfyddiadau, gan gynnwys drwy offer data, adroddiadau rhyngweithiol, ffeithluniau a blogiau.<br><br>Mae'r offer data a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ar gael drwy adran benodol ein gwefan, ac maent wedi cynnwys:<br>• Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol<br>• Cydweithio rhwng y gwasanaethau brys<br><br>Mae'r blogiau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ar gael drwy adran benodol ein gwefan, ac maent yn cynnwys:<br>• Sut y byddwn yn cefnogi Cymru i ymateb i'r her newid hinsawdd<br>• Pryderon ariannol myfyrwyr: ffeithiau a ffigurau allweddol<br><br>Un adroddiad a sicrhaodd yr effaith fwyaf drwy ddefnyddio amrywiaeth o sianeli cyfathrebu oedd yr adroddiad Adfywio Canol Trefi yng Nghymru – cafodd yr adroddiad, y blog a'r sylw gan y wasg eu cefnogi gan offeryn data ac offeryn hunanarfarnu a gafodd lawer o sylw yn y cyfryngau, gan gynnwys ymddangosiad yr awdur ar raglen ffonio i mewn ar Radio Wales. Cynhaliwyd gweminar gysylltiedig gennym hefyd a ddenodd gynulleidfa o dros 90 o bobl o bob rhan o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus.<br><br>Yn fewnol, gwnaethom gynnal adolygiad o'n proses gyhoeddi o'r dechrau i'r diwedd, i nodi lle y gellir gwneud y newidiadau mwyaf i'r effaith, yn enwedig o safbwynt defnyddwyr terfynol ein cynnyrch. Drwy symleiddio a gwella'r broses, ein nod yw rhyddhau adnoddau i ddatblygu ffyrdd newydd a mwy arloesol o gyfleu ein gwaith archwilio.<br><br>Dechreuodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol hefyd gael adroddiad misol ar ystod a graddau sianeli cyfathrebu allanol i nodi dysgu a lle y gellid cynyddu'r effaith. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Senedd yn dilyn etholiadau mis Mai ac adnewyddu ein perthynas ag aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd a phwyllgorau eraill i godi ymwybyddiaeth o'n rhaglenni gwaith a gofyn am eu barn arnynt. | Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, bu'r Archwilydd Cyffredinol a staff Archwilio Cymru yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â thîm clercio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) sydd newydd ei sefydlu i drafod ein rhaglen waith. Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau newydd i dynnu sylw at waith Archwilio Cymru, ein cylch gwaith, a phynciau penodol yn ein rhaglen waith o ddiddordeb posibl.<br><br>Mae ein hadroddiadau wedi llywio rhaglenni gwaith pwyllgorau ar wahân i PAPAC, un enghraifft yw ein hadroddiad ar Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fel rhan o'u rhaglen o waith craffu. Rydym wedi ymgysylltu â chlercod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac fel rhan o hynny rhannwyd ein hofferyn data ar amseroedd aros yn y GIG i ategu eu hymchwiliad i ôl-groniadau o ran rhestrau aros.<br><br>Yn ddiweddar, rydym wedi gofyn am farn a mewnbwn gan y Senedd ar ein rhaglen waith archwilio ar gyfer 2022-23 a datblygiad ein strategaeth tymor canolig. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Adeiladu ar wersi o'n Prosiect Dysgu COVID i wella'r ffordd yr ydym yn rhannu arferion da, gan brif ffrydio dulliau newydd o gipio’r hyn a ddysgwyd yn barhaus a chryfhau'r gefnogaeth ar gyfer cyflawni archwiliadau. | Rydym wedi dysgu o'r broses arloesol o rannu arferion da yn ystod camau cynnar y pandemig i ddatblygu dull newydd ac mae ein Cyfnewidfa Arfer Da wedi parhau i rannu’r hyn a ddysgwyd wrth i sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt ymateb i'r pandemig ac adfer ar ei ôl .<br><br>Mae hyn wedi cynnwys defnyddio podlediad, gan gynnwys – COVID-19 a Newid Ymddygiad; gan ystyried yr angen i lywodraethau a'r sector cyhoeddus ehangach newid eu hymddygiad mewn ffyrdd sylweddol a bychain yn sgil y pandemig. A Safbwyntiau Covid – cyfres o sgyrsiau wedi'u recordio gydag arweinwyr sector cyhoeddus Cymru ynghylch sut mae eu sefydliadau wedi ymateb ac wedi addasu i'r ansicrwydd a'r newid ers yr argyfwng pandemig cychwynnol.<br><br>Dros y flwyddyn ddiwethaf sefydlwyd grŵp llywio i wella gweithio gyda chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad i nodi a sicrhau’r cyfleoedd gorau i rannu’r hyn a ddysgwyd trwy gydol y broses o ddatblygu'r prosiect archwilio neu'r astudiaeth, nid dim ond ar y diwedd pan fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gynhyrchu. Enghraifft o hyn fu digwyddiad ar-lein – Eich Tref, Eich Dyfodol – ar yr ymchwil a arweiniodd at ein hadroddiad Adfywio Canol Trefi yng Nghymru a'r digwyddiad dilynol – Rhan 2 – Eich Tref, Eich Dyfodol, ar ôl ei gyhoeddi.<br><br>Mae'r adnoddau, gan gynnwys sleidiau a chyflwyniadau o'n digwyddiadau ar-lein i gyd ar gael ar ôl y digwyddiad o'n gwefan gan gynnwys y canlynol;<br><br>• Rôl cymunedau yn ystod pandemig COVID-19<br>• Llywodraethu Argyfwng<br>• Strategaeth Ddynamig – effaith COVID-19 ac ymateb Awdurdodau Tân ac Achub<br>• Effaith COVID-19 ar y gweithlu<br>• Cyfathrebu ac ymgysylltu |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Datblygu ystod fwy amrywiol ac effeithiol o ddulliau ar gyfer casglu barn ein rhanddeiliaid ar werth ac effaith ein gwaith. | Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd yr asiantaeth ymchwil Beaufort Research ei hargymhellion i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar ein dull o gasglu adborth gan randdeiliaid yn y dyfodol a sut y gallem fesur effaith ein gwaith yn well. Ar sail yr argymhellion hyn, rydym wedi datblygu rhaglen o ddulliau amrywiol o gasglu data meintiol ac ansoddol gyda thrawstoriad eang o randdeiliaid. Bydd y data cyfoethog a gesglir yn darparu mesurau mwy cadarn ar gyflawni ein huchelgeisiau, yn ogystal â chaniatáu archwilio barn rhanddeiliaid yn fanylach ac ymwybyddiaeth ac effaith ein gwaith archwilio.<br><br>Y bwriad yw cynnal y rhaglen ymgysylltu hon dros gyfnod ein strategaeth pum mlynedd newydd a lansiwyd yn ddiweddar a bydd y canfyddiadau'n ein helpu ni i fesur y gwaith o gyflawni'r conglfeini strategol a nodwyd yn y strategaeth, y credwn fod angen i ni eu blaenoriaethu os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau. |

## Cynnal y busnes

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Blaenoriaethu cefnogaeth barhaus i iechyd a llesiant staff Archwilio Cymru wrth i ni symud o ddull 'ymateb' i ddull 'adfer' o ran pandemig COVID-19. | Mae iechyd a llesiant ein staff wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol dros y 12 mis diwethaf. Yn dilyn hyn, ym mis Gorffennaf 2022 cymeradwyodd y Bwrdd ein Strategaeth Llesiant newydd sy'n cynnwys tri llinyn – 'Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda' – pob un yn seiliedig ar gyfres o nodau. Ers hynny, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i egluro'r camau gweithredu sydd eu hangen a'r amserlenni i gyflawni pob nod a datblygu'r rhain yn gynllun cyflawni.<br><br>Mae grŵp o Hyrwyddwyr Llesiant o bob rhan o'r sefydliad wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd tîm a chlwstwr i gasglu adborth gan staff ynghylch beth a ddylai ffurf llesiant fod yn Archwilio Cymru. Mae'r grŵp hwn wedi cefnogi nodau'r strategaeth yn weithredol drwy ddefnyddio ein mewnrwyd i hyrwyddo mentrau llesiant, podlediadau, blogiau a gweithgareddau i alluogi staff i ymgysylltu'n hawdd â'r strategaeth. Mae tudalen Hwb bwrpasol newydd yn cael ei lansio a fydd yn cynnwys calendr o weithgareddau a mentrau llesiant wedi'u cynllunio ar gyfer staff. |
| Cynnal adolygiad o'r amcanion cydraddoldeb a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd yn llwyr â'n huchelgeisiau sefydliadol cyffredinol. | Rydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed o’i gymharu â’r amcanion cydraddoldeb a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2018 i 2022; ac wedi datblygu cyfres ddiwygiedig o amcanion a ddylai, yn ein barn ni, fod yn sail i'n gwaith ar gyfer y cyfnod 2022 i 2026.<br><br>Ym mis Chwefror 2022, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y cynigion hyn; bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn yr amcanion terfynol a gyhoeddir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2026 yn ddiweddarach eleni. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Gwireddu manteision uwch arweinwyr cryfach drwy ddatblygu gwell perthynas waith rhwng y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol sydd newydd ei sefydlu. | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi bod ar waith ers ychydig dros flwyddyn. Ar ddechrau 2021-22, roedd yr aelodaeth yn cynnwys pedwar o Aelodau sy'n Gyflogeion. Daeth y trefniant hwn i ben ym mis Mai 2021 a chafodd ei olynu gan Banel Staff newydd. Mae'r newid hwn wedi sicrhau bod gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol gyfrifoldebau ac atebolrwydd clir o ran penderfyniadau gweithredol strategol gan gadw ar yr un pryd, y mewnbwn a'r persbectif gwerthfawr y gall aelodau'r staff eu darparu.<br><br>Gwahoddwyd aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, sydd wedi cefnogi datblygu cydweithio agosach rhwng y Tîm a'r Bwrdd ac mae wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio a datblygu'r strategaeth tymor canolig newydd ar gyfer y sefydliad.<br><br>Bu hefyd adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd gan Saxon Bampyfylde, ac adolygiad archwilio mewnol o lywodraethu corfforaethol, a oedd yn cynnwys y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Mae argymhellion yr adroddiadau hyn wedi'u datblygu'n gynllun gweithredu y mae'r Bwrdd wedi cytuno arno a bydd yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynllun drwy gydol 2022. |
| Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu cynigion i ddiwallu ein hanghenion adeiladau yn y dyfodol, er mwyn galluogi penderfyniad gan y Bwrdd yn 2022-23. | Ym mis Mehefin 2021, ystyriodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru y ffordd orau o reoli ansicrwydd ac ystyried dewisiadau eraill wrth i'n ffyrdd o weithio esblygu ar ôl y pandemig, gan gynnwys y posibilrwydd o ymestyn prydles ein swyddfa yng Nghaerdydd am flwyddyn arall hyd at fis Mawrth 2024.<br><br>Rydym yn parhau i fonitro'r farchnad eiddo, i fod yn rhan o drafodaethau ehangach y sector cyhoeddus ynghylch defnyddio'r ystad gyhoeddus ac i ymchwilio i gyfleoedd eraill i dreialu ffyrdd newydd o weithio gan gynnwys lleoliadau a hybiau gweithgareddau. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
| --- | --- |
| Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau mwy helaeth ym mhob un o’n prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y canlynol:<br>• cynnal adolygiad o drefniadau teithio a chynhaliaeth ein staff;<br>• arbrofi gyda ffyrdd newydd, mwy effeithlon a chlyfrach o weithio a'u gwerthuso;<br>• pennu ein map trywydd ar gyfer symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net. | Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau, ac i helpu i gyflawni hyn, mae rheolwr ein rhaglen archwiliadau datblygu cynaliadwy wedi datblygu rhestr wirio ac awgrymiadau ar gyfer y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i'w defnyddio wrth bennu amcanion a gwneud penderfyniadau.<br>Er mwyn ymgorffori ei ddealltwriaeth, cynhaliodd y Bwrdd ymarfer gweithdy ym mis Mawrth 2022 ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio'r awgrymiadau mewn penderfyniadau allweddol a wna yn ystod 2022-23.<br>Roedd ein adolygiad o'r polisi teithio a chynhaliaeth yn cynnwys grŵp gorchwyl a gorffen staff a oedd yn ystyried egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o'u cynigion. Ar ôl i'r Bwrdd a’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ei gymeradwyo, ymgynghorwyd yn helaeth ar y pecyn o gynigion y cytunwyd arno drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â staff ac undebau llafur.<br>Un argymhelliad gan y grŵp gorchwyl a gorffen oedd datblygu Cynllun Teithio i leihau effaith teithio at ddibenion busnes a milltiroedd cymudo fel rhan o'n hymrwymiad tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net. Rydym yn gweithio'n agos gyda chyrff archwilio eraill i rannu gwybodaeth a phrofiadau ynghylch symud tuag at allyriadau sero net, gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o wrthbwyso ar y cyd yn ogystal â gweithio ar waelodlin allyriadau. Yn erbyn cefndir uwchgynhadledd COP26 yn Glasgow, cyhoeddwyd blog gennym yn disgrifio rhywfaint o'r hyn y mae Archwilio Cymru yn ei wneud i graffu ac ysbrydoli gwelliant mewn camau gweithredu ar newid hinsawdd. Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at tua 50 o gyrff cyhoeddus i gychwyn adolygiad sylfaenol o'r camau y maent yn eu cymryd i leihau allyriadau carbon a chyrraedd targedau 2030 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. |

| Y maes y canolbwyntir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio, er enghraifft drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i'n galluogi i fod yn fwy ystwyth a hyblyg mewn amgylchedd sy'n esblygu. | Ers dechrau pandemig COVID, mae ein defnydd o dechnolegau wedi bod yn ganolog i'r ffordd yr ydym wedi gallu cysylltu, gweithio a chydweithio o bell ac yn hyblyg, yn fewnol a gyda'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym. Er enghraifft, rydym wedi cynyddu mynediad o bell at systemau ariannol cyrff a archwilir i gyflawni ein gwaith archwilio a chwblhau gwelliannau seiberddiogelwch ar ein gwefan.<br><br>Datblygiad arall wrth foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio fu sefydlu swyddogaeth Ymchwil a Datblygu bwrpasol. Mae'r tîm hwn yn sicrhau ein bod yn effro i ddatblygiadau mewn archwilio cyhoeddus a'r proffesiwn archwilio ehangach ac yn nodi sut y gall ein rhaglen archwilio a'n ffyrdd o weithio addasu i gynyddu effaith a dylanwad. Mae rhan o hyn yn golygu gwneud gwell defnydd o dechnoleg i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfoeth o wybodaeth sydd gennym ac yr ydym yn ei chreu drwy ein gwaith i ddatblygu cynhyrchion newydd gan sicrhau bod ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf.<br><br>Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar ddatblygu system amser ac adnoddau newydd a fydd yn darparu gwybodaeth reoli fwy cadarn am adnoddau ac yn ein galluogi i ddarparu adnoddau ar gyfer prosiectau archwilio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac ystwyth. |

# Enghreifftiau o astudiaethau achos o'n gwaith

51 Yn yr adran hon, rydym yn darparu enghreifftiau o astudiaethau achos o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod 2021-22 a'r effaith y mae’r gwaith hwnnw wedi'i chael. Mae ein henghreifftiau o astudiaethau achos wedi eu grwpio gyda'i gilydd gan ddibynnu ar eu haliniad â'n huchelgeisiau cyffredinol.

## Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein mewnwelediad


### Astudiaeth achos 1: Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021

Ym mis Medi 2021, cyhoeddwyd Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 gennym. Dyma oedd ein pedwerydd adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' ers 2010. Yn yr adroddiad, rydym yn edrych ar amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys dadansoddiad a dealltwriaeth o bob rhan o'n gwaith archwilio perfformiad ac ariannol, i roi trosolwg o'r tueddiadau allweddol mewn gwariant a darpariaeth gyhoeddus, a'r materion allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r adroddiad yn dangos bod sawl rhan o wasanaethau cyhoeddus Cymru eisoes o dan bwysau cyn i bandemig COVID-19 daro ac mae'n ymdrin ag agweddau allweddol ar ymateb gwasanaethau cyhoeddus Cymru i bandemig COVID-19, gan gynnwys y £5.1 biliwn ychwanegol a ddyrannwyd yn ystod 2020-21.

Er bod ein hadolygiadau ar wahân o elfennau allweddol ymateb y pandemig – cyflenwi a chaffael cyfarpar diogelu personol, y rhaglen Profi Olrhain Diogelu a chyflwyno brechiadau – yn gadarnhaol ar y cyfan, nodwyd yn yr adroddiad fod gwersi i'w dysgu o hyd, ac nad yw canfyddiadau ein hadolygiadau penodol o reidrwydd yn arwydd o'r ymateb ehangach i COVID-19.

Ynghyd ag adroddiad cyffredinol Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 cafwyd cyfres o adroddiadau penodol i sector sy'n rhoi trosolwg manylach o dueddiadau o ran ariannu, gwario a chyflawni gwasanaethau.



## Astudiaeth achos 2: Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn

Mae comisiynu cartrefi gofal yn costio cannoedd o filiynau o bunnau bob blwyddyn i wasanaethau cyhoeddus Cymru ac mae'n effeithio ar filoedd lawer o bobl. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd ein hadroddiad Comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng ngogledd Cymru a oedd yn galw ar gynghorau gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynd i'r afael â materion amrywiol i helpu i ysgogi gwelliant.

Roedd y prosiect hwn yn adeiladu ar waith archwilio blaenorol ar bwysau cyllidebol gwasanaethau cymdeithasol yng nghynghorau Conwy a Sir Ddinbych ac yn gweithio ar drefniadau Gofal Iechyd Parhaus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Daethom â thîm archwilio amlddisgyblaethol at ei gilydd i gynnal amrywiaeth o gyfweliadau a gweithdai ar draws gogledd Cymru. Er iddynt nodi bod partneriaid yn gweithio'n galed yn unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed, mae prosesau cenedlaethol cymhleth yn gwneud y gwaith hwn yn fwy anodd. Yn benodol, gall pwyslais sylweddol ar y gost achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd.

Ymhlith pethau eraill, gwnaethom argymell y dylai'r partneriaid rhanbarthol ddatblygu strategaeth a chynllun cyflawni rhanbarthol i sbarduno newid cadarnhaol a gweithio gwell mewn partneriaeth, yn enwedig mewn cysylltiad â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

Ar ôl nodi materion o arwyddocâd cenedlaethol ehangach o'n gwaith rhanbarthol, roeddem eisiau sicrhau na chollwyd y negeseuon hyn. Felly, cyhoeddwyd chwaer adroddiad gennym, Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn gydag argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gwnaethom herio Llywodraeth Cymru i ystyried yr hyn y mae canfyddiadau ein gwaith yn ei olygu i'w chynigion polisi Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ac a fydd y diwygiadau hyn yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion a nodwyd gennym a sicrhau gwell canlyniadau i bobl ledled Cymru. Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd bellach yn ystyried ein prif ganfyddiadau fel rhan o'i ymchwiliad ei hun.



## Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol

### Astudiaethau achos 3 a 4 – Adroddiadau er budd y cyhoedd

Ym mis Ionawr 2022, gwnaethom gyhoeddi 'adroddiadau er budd y cyhoedd' mewn cysylltiad â dau gyngor yng Nghymru, a thrwy hynny fe wnaethom dynnu sylw'r cyhoedd at bryderon sylweddol ynghylch trefniadau llywodraethu, a'n nod oedd sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried a'u datrys yn briodol fel mater o flaenoriaeth.

Er bod yr adroddiadau'n ymwneud â dau gyngor penodol, maent yn cynnwys negeseuon sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru ar bwysigrwydd sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn.

**Cyngor Sir Penfro**

Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â thaliad a wnaed i gyn Brif Weithredwr Cyngor Sir Penfro ychydig cyn i'w gyflogaeth ddod i ben ym mis Tachwedd 2020. Gwnaethom archwilio'r amgylchiadau a arweiniodd at benderfyniad y Cyngor i wneud y taliad.

Canfuom fod y Cyngor wedi methu ag ymdrin ag anawsterau perthynas rhwng aelodau a swyddogion a'u datrys, ac roedd diffyg eglurder ynglŷn â'u priod rolau a chyfrifoldebau. Roedd swyddogion wedi methu â chyflawni eu dyletswyddau proffesiynol yn briodol, roedd cyngor cyfreithiol allanol wedi'i ddiystyru, ac ni chafodd polisïau a gweithdrefnau mewnol eu dilyn. O ran gwneud penderfyniadau, canfuom fod y broses yn wael ac nad oedd yn dryloyw, ni chofnodwyd rhesymau dros benderfyniadau, ni chydymffurfiwyd â gofynion cyfreithiol, ac ni chafodd aelodau'r Cyngor gyfle i adolygu a chraffu ar y cynnig talu.

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol wyth argymhelliad yn ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd a gynlluniwyd i gryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor wrth symud ymlaen. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod a oedd ar agor i'r cyhoedd ar 1 Chwefror 2022 lle derbyniwyd canfyddiadau'r adroddiad a chytunodd aelodau'r Cyngor ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cyngor bellach wedi paratoi cynllun gweithredu i roi’r argymhellion ar waith.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â diffygion yn nhrefniadau llywodraethu a goruchwylio Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer cwmni gwaredu gwastraff sy'n eiddo'n gyfan gwbl i'r Cyngor. Dechreuodd yr archwiliad yn 2017, ar ôl i bryderon gael eu mynegi gan chwythwr chwiban ynglŷn â'r berthynas rhwng y Cyngor a Silent Valley Waste Services Limited (Silent Valley). Cafodd yr archwiliad ei ymestyn oherwydd cymhlethdod rhai o'r materion dan sylw, nifer y dogfennau hanesyddol a oedd angen eu harchwilio a'u dadansoddi, a'r angen i gael cyngor cyfreithiol allanol ar sawl pwynt cyfreithiol. Roedd hefyd angen gohirio'r archwiliad am 14 mis tra bod yr Heddlu'n cynnal ei ymchwiliad ei hun.

Canfuom fod y Cyngor wedi methu â rhoi trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith mewn cysylltiad â'i berthynas â Silent Valley ers blynyddoedd lawer. Arweiniodd hyn at y canlynol:

- Diffygion yn ymwneud â'r trefniadau penodi, tâl a phensiwn ar gyfer swyddogion y Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley
- Achos o beidio â chydymffurfio â rheoliadau caffael
- Y Cyngor heb drefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod taliadau terfynu a wnaed i gyfarwyddwyr Silent Valley yn gyfreithlon a bod y broses recriwtio ar gyfer penodi Rheolwr Cyffredinol Silent Valley yn gystadleuol ac yn gadarn

Cyn cyhoeddi'r Adroddiad er Budd y Cyhoedd, cymerodd y Cyngor gamau cadarn i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd. Felly, dim ond un argymhelliad a wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol; sef bod y Cyngor yn comisiynu adolygiad i geisio sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio mewn cysylltiad â chwmnïau eraill y mae ganddo fuddiant ynddynt yn ddigonol ac yn effeithiol, ac nad oedd y diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn fwy cyffredin.

Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod a oedd ar agor i'r cyhoedd ar 7 Chwefror 2022 pan dderbyniodd y Cyngor ganfyddiadau'r adroddiad a chytuno i weithredu'r argymhelliad.



## Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd

### Astudiaeth achos 5: Cymryd rhan mewn seminar ar gyfer ymddiriedolwyr ar faterion llywodraethu a chydraddoldeb

Ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd gweminar arferion da o'r enw 'Sut mae Byrddau'n deall Cydraddoldeb' fel rhan o Wythnos Ymddiriedolwyr 2021. Ymddiriedolwyr a staff sefydliadau'r trydydd sector oedd cynulleidfa'r digwyddiad yn bennaf.

Gwahoddwyd ni i siarad am y gwaith yr oedd Archwilio Cymru yn ei wneud fel rhan o astudiaeth yn edrych ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn cyrff cyhoeddus.

Esboniwyd bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth i brofi effaith penderfyniad neu weithred ar wahanol grwpiau o bobl. Mae'n helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall canlyniadau penderfyniad ac osgoi canlyniadau anfwriadol neu wahaniaethu. Mae cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gynhwysfawr hefyd yn helpu cyrff cyhoeddus i ddangos eu bod wedi ystyried effaith eu penderfyniadau ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac i osgoi heriau cyfreithiol.

Gwnaethom rannu rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd gennym yn gynnar am yr hyn y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ei wneud a'r anawsterau y maent yn eu profi, yr oedd llawer ohonynt yn berthnasol i waith y sector gwirfoddol. Gwahoddwyd cyfranogwyr hefyd i ddweud wrthym beth oedd eu barn a'u profiadau o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy gymryd rhan yn ein Galwad am dystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2021 a mis Ebrill 2022.

Yna bu panel arbenigol y weminar yn trafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

- Sut gellir gwneud penderfyniadau'n agosach at y cymunedau yr effeithir arnynt?
- Sut gall ein holl gymunedau gyfrannu eu syniadau, eu gwybodaeth a'u profiad?
- Sut gall Ymddiriedolwyr ddod yn fwy amrywiol?
- Sut mae Byrddau'n deall cydraddoldeb a'u rôl?

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiad wedi ychwanegu at ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth, y disgwylir i ni gyflwyno adroddiad arni yn ddiweddarach yn 2022.

## Astudiaeth achos 6: Rhannu’r hyn y ddysgwyd o archwilio

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae un o'n dangosyddion perfformiad allweddol (rhif 11) yn canolbwyntio ar nifer yr achosion pryd yr ydym yn cyflwyno’r hyn a ddysgwyd o archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol.

O ganlyniad, rydym yn cadw golwg ar achosion pryd yr ydym, y tu hwnt i'n hymgysylltiad 'busnes fel arfer' â chyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill, yn rhannu’r hyn a ddysgwyd gennym o archwilio drwy gyfrannu i ddigwyddiadau eraill, gweithgorau, ymgynghoriadau a gwaith chraffu. Yn ystod 2021-22, roedd 62 o enghreifftiau o'r fath, a oedd yn cynnwys y canlynol:

a cyfrannu ein harbenigedd proffesiynol fel cyfranogwyr mewn sawl fforwm newydd a sefydlwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), sy'n ystyried materion rheoli ariannol a llywodraethu penodol yn ogystal â themâu ehangach yn ymwneud â'r gweithlu cyllid, polisi cyhoeddus a diwygio, a chynaliadwyedd.

b cyflwyniad ar adfywio canol trefi mewn cynhadledd Cymorth Cynllunio Cymru ym mis Mehefin 2021; mae ein canfyddiadau, a adroddwyd yn ffurfiol ym mis Medi 2021, wedi llywio gwaith Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Ganol Trefi Llywodraeth Cymru, a hefyd wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwn mewn digwyddiad ar adfywio ar gyfer aelodau etholedig mewn llywodraeth leol.

c ym mis Rhagfyr 2021, yr Archwilydd Cyffredinol yn trafodi’r brif araith (yn dechrau ar 7 munud 58 eiliad) yng nghynhadledd sector cyhoeddus agoriadol ICAEW – Y Ffordd i Sero Net – digwyddiad rhithwir a ddenodd yn agos at 250 o gynrychiolwyr ledled y DU. Siaradodd am yr heriau llethol a achosir gan yr argyfwng hinsawdd a thynnodd sylw at yr adolygiad sylfaenol yr ydym yn ei gynnal o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i dargedau datgarboneiddio 2030. Bydd y llinell sylfaen hon yn llywio ein rhaglen waith yn y dyfodol ar effaith y newid hinsawdd.

ch ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar bynciau'n cynnwys gofal cymdeithasol, partneriaethau cymdeithasol a chaffael cyhoeddus, pŵer awdurdodau lleol i fasnachu, cynghorau tref a chymuned, cydraddoldeb hiliol, digartrefedd, cyd-bwyllgorau corfforaethol, cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol, a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gwnaethom hefyd ymateb i ymgynghoriadau llywodraeth y DU ar ymddiriedaeth mewn archwilio a diogelu data.

Mae **Atodiad 3** yr adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgarwch perthnasol arall drwy ein mewnbwn i amrywiol bwyllgorau'r Senedd.



## Bod yn sefydliad enghreifftiol i’r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

### Astudiaeth achos 7: Addasu ein harchwiliad o waith cyfrifon

Yr archwiliadau cyfrifon a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hon (y rhai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21) oedd yr ail rownd o archwiliadau a gwblhawyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Dros y 12 mis diwethaf, buom yn adeiladu ar yr hyn yr oeddem wedi'i ddysgu am weithio ac archwilio o bell yn ystod rownd archwilio 2019-20. Cytunwyd ar dargedau diwygiedig ar gyfer ein gwaith archwilio llywodraeth leol a'r GIG gyda Llywodraeth Cymru a gwnaethom berfformio'n gryf iawn o ran cwblhau archwiliadau ar amser o’i gymharu â therfynau amser targed.

| Sector | Dyddiad targed cwblhau'r archwiliad | Cyfran yr archwiliadau a gwblhawyd erbyn y dyddiad taged |
|---|---:|---:|
| GIG | 11 Mehefin 2021 | 100% |
| Llywodraeth Leol (yn cynnwys awdurdodau heddlu, tân, a pharciau cenedlaethol) | 30 Tachwedd 2021 | 97% |

Nid oes gennym un terfyn amser ar gyfer ein harchwiliadau llywodraeth ganolog, ond yr oedd ein perfformiad unwaith eto hefyd yn gryf iawn ar gyfer y cyrff hyn gyda'r holl archwiliadau wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad targed[7].

Ar y cyfan, roedd yn ddarlun calonogol, ond nid oedd yn un a oedd heb ei her. Parhawyd i lynu wrth ein egwyddor o 'hunan, teulu, gwaith – yn y drefn honno' wrth i ni geisio blaenoriaethu iechyd a llesiant ein staff ein hunain a staff y cyrff a archwiliwyd gennym. Ni ddylid tanbrisio pa mor anodd oedd hi i gynifer newid i weithio gartref gan golli cefnogaeth gan gymheiriaid wyneb yn wyneb. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal cynllun treialu 'dychwelyd i'r swyddfa' yn ddiogel gyda chymorth ar gyfer ein harchwiliadau cynnar yn 2021-22 er mwyn archwilio opsiynau gweithio hybrid sy'n galluogi cynnig gwell cymorth a hyfforddiant a oedd wedi’u llesteirio o dan fodel gweithio gartref llawn.

Rydym hefyd yn falch o’r ffaith bod ansawdd cyflawni ein gwaith archwilio wedi'i gynnal er gwaethaf pwysau'r pandemig. O'r ffeiliau a adolygwyd, aseswyd bod 75% yn 'dderbyniol ar y cyfan' a 25% 'angen eu gwella'. Nid oes yr un o ganfyddiadau'r adolygiad ansawdd yn effeithio ar briodoldeb y farn archwilio a roddir. Mae rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio ar gael yn ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio sydd ar gael yn adran Bod yn Agored a Thryloyw ein gwefan.

7 Lle y bo'n berthnasol, mae'r targed mewnol hwn yn ystyried terfynau amser statudol a thargedau gweinyddol a gall hefyd adlewyrchu'r angen am amser ychwanegol i gwblhau'r archwiliad lle nodir diffygion yn y cyfrifon.

## Astudiaeth achos 8: Datblygu cynllun strategol pum mlynedd

Ym mis Mai 2021, cytunodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol y byddai datblygu strategaeth tymor canolig fanylach ar gyfer Archwilio Cymru yn rhoi mwy o eglurder ynghylch ein nodau a'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo, ac yn gwella cysylltedd ymhlith staff â'n pedair uchelgais gorfforaethol gyffredinol.

I ddechrau, asesodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol y cynnydd a wnaed eisoes tuag at gyflawni'r pedair uchelgais. Helpodd yr ymarfer hwn ni i nodi a dathlu llwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf, ond roedd hefyd yn fodd i ddeall rhai bylchau pwysig, blaenoriaethau eithriadol a chyfleoedd pellach i wella ein dull gweithredu a'n heffaith. Yn dilyn yr asesiad cychwynnol hwn, gwnaed gwaith pellach ar y cyd â'r Bwrdd i ddod i gonsensws ynghylch sut efallai y byddai Archwilio Cymru'r dyfodol delfrydol yn edrych ac yn teimlo a'r hyn yr hoffem i'n rhanddeiliaid allanol ddweud amdanom yn 2027.

Wrth wraidd y dull gweithredu roedd gwerthoedd craidd Archwilio Cymru gan ganolbwyntio'n benodol ar gydweithredu, arloesi, canolbwyntio ar y dyfodol, ac uniondeb. Ym mis Rhagfyr 2021, roedd yr holl staff wedyn yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd, gan gynnwys 'map ffordd' o flaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Oherwydd effaith barhaus y pandemig, cynhaliwyd yr ymarfer hwn yn bennaf drwy fforymau ar-lein, gydag aelodau ein Bwrdd Etholedig Cyflogeion a chynrychiolwyr panel staff y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cymryd rhan fawr drwy gydol y broses.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang i'r cyfeiriad teithio arfaethedig, a chyfoeth o syniadau a mewnwelediad sydd wedi helpu i lunio manylion y map ffordd a oedd yn ei dro yn cael ei wirio i weld a yw'n gwneud synnwyr gydag amrywiaeth o randdeiliaid allanol.

Nododd y gwaith o ddatblygu'r strategaeth dri bloc adeiladu a meysydd cysylltiedig i ganolbwyntio arnynt:

- rhaglen archwilio strategol, ddynamig ac o ansawdd uchel
- dull gweithredu ag effaith wedi'i dargedu ar gyfer cyfathrebu a dylanwadu; a
- model diwylliant a gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol



## Ein defnydd o adnoddau

52 Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy[8] yn y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes, ac yn y ffordd yr ydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio. Yn yr adran hon rydym yn darparu rhywfaint o sylwadau lefel uchel ar sut yr ydym wedi rheoli ein defnydd o adnoddau yn ystod 2021-22.

53 Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru yn gyrff cyhoeddus rhestredig at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn dal yn ceisio gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni saith nod llesiant Cymru:

- a Cymru fffyniannus
- b Cymru gydnerth
- c Cymru iachach
- ch Cymru fwy cyfartal
- d Cymru o gymunedau cydlynus
- dd Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- e Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

54 Yn ogystal â hynny, rydym wedi nodi yn yr adran hon (trwy ddefnyddio'r eiconau perthnasol) lle cyfrannodd ein perfformiad yn 2021-22 at un neu fwy o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

8 Fe’i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ymddwyn ‘mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’.

## Rheolaeth ariannol ac effeithlonrwydd

55 Parhaodd rheolaeth ariannol i fod o’r pwys mwyaf yn Archwilio Cymru yn 2021-22 wrth i ni ymdrin ag effaith barhaus COVID-19 ar ein cyrff a archwilir ac ar ein staff ein hunain.

56 Er i ni wneud arbedion sylweddol o dros £1.2 miliwn ar gostau staff yn ystod y flwyddyn, effeithiodd y gostyngiad hwn mewn capasiti staff ar ein gallu i dynnu incwm ffioedd i lawr a oedd dros £1.5 miliwn yn llai na'r hyn a ganiatawyd ar ei gyfer yn ein Hamcangyfrif.

57 Roedd cyfanswm ein gwariant ar gyfer y flwyddyn bron £2.3 miliwn yn llai na'r hyn a ganiatawyd ar ei gyfer yn yr Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn a £1.2 miliwn (5.7%) yn llai na'r hyn a wariwyd gennym yn 2020-21 (cyn caniatáu ar gyfer y costau untro sy'n gysylltiedig â dileu lwfans teithio staff – gan leihau costau teithio yn y dyfodol).

58 Mae llawer o'r gostyngiad hwn mewn gwariant yn gysylltiedig â swyddi gwag staff a'r ffaith nad oedd ein staff yn gallu teithio i gyrff a archwilir o hyd yn ystod y flwyddyn ac nad oedd digwyddiadau'n gallu mynd rhagddynt yn ôl y bwriad.

59 Mae effaith net incwm ffioedd is a llai o wariant yn golygu ein bod yn adrodd am danwariant cyffredinol o £772,000 o’i gymharu â’r Amcangyfrif o adnoddau cymeradwy ar gyfer y flwyddyn. O'r swm hwn, mae £394,000 yn ymwneud â chyllid Amcangyfrif Atodol nas defnyddiwyd a oedd ar gael ar gyfer costau'r lwfans teithio.

60 Buddsoddwyd £212,000 o gyllid cyfalaf gennym yn y meysydd canlynol:

- £31,000 i ddatblygu systemau rheoli archwilio newydd ac offer ansawdd archwilio ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol a pherfformiad
- £70,000 mewn offer TG newydd i alluogi ein staff i weithio mor effeithlon â phosibl o bell ac yn y swyddfa
- £53,000 mewn ehangu darpariaeth y gyflogres
- £37,000 mewn gwaith uwchraddio hanfodol ar gyfer ein swyddfeydd gan gynnwys ansawdd aer a gwella goleuadau
- £21,000 mewn swyddfeydd newydd wrth i ni dreialu ffyrdd newydd o ddefnyddio ein swyddfeydd

## Ymgysylltu â staff a phrofiad y cyflogai

61 Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau i ymgysylltu â'n cyflogeion, gan roi diweddariadau hanfodol iddynt ynghylch y sefyllfa a oedd yn esblygu, gwybodaeth ynghylch sut y gallent gael gafael ar adnoddau a chymorth, a buom yn casglu sylwadau ynghylch eu profiadau er mwyn ein helpu i nodi unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder.

62 Roedd y rhain yn cynnwys:

a Negeseuon rheolaidd i'r holl staff oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol

b Cynnal sesiynau briffio i'r holl staff a sesiynau holi ac ateb gan ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu ar ffurf fideo

c Cynnal arolygon 'pwls' cyfnodol

ch Postio blogiau rheolaidd gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

d Darparu rhaeadrau gwybodaeth rheolaidd i reolwyr llinell

63 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau ffurflen annibyniaeth flynyddol, a thrwy hynny maent yn cytuno i gadw at ofynion ein Cod Ymddygiad, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Fel rhan o'r broses hon, tynnir sylw at amrywiaeth o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys ein Canllawiau ar Wyngalchu Arian a'n Strategaeth Gwrth-dwyll.

64 Ym mis Hydref 2021, gwnaethom gynnal arolwg yr holl staff unwaith eto er mwyn gadw golwg ar brofiad y cyflogeion a nodi lle yr oedd angen i ni wella. Am y bumed flwyddyn yn olynol, seiliwyd ein harolwg ar yr holiadur craidd a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Roedd yr arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad i'r ffordd y mae timau unigol yn gweithredu. Cwblhaodd 84% o'r staff yr arolwg.

65 Ar lefel thematig, roedd canlyniadau ein harolwg yn 2021 wedi gostwng o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol ac roeddent yn gyffredinol yn is na chyfartaledd y CSPS, yn fwyaf nodedig yn y meysydd canlynol:

a Arweinyddiaeth a rheoli newid

b Amcanion a diben y sefydliad

c Dysgu a datblygu

66 Er bod gan y rhan fwyaf o'r staff ddiddordeb yn eu gwaith o hyd a bod ymddiriedaeth ynddynt i gyflawni eu gwaith yn effeithiol, mae eu hymrwymiad emosiynol i'r sefydliad a'i lwyddiant wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at ostyngiad o 70% i 64% yn ein sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol. Gwaethygodd nifer o sgoriau datganiad profiad gweithwyr unigol ar draws yr arolwg i raddau tebyg yn 2021.

67 Yr eithriadau nodedig oedd barn staff ym maes thematig 'cynhwysiant a thriniaeth deg' ac ymateb y sefydliad i'r pandemig, a oedd yn parhau i fod yn gadarnhaol. Roedd sgoriau o’u cymharu â dangosyddion iechyd a llesiant cyffredinol hefyd yn parhau i fod yn gymharol sefydlog.

68 Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2022, cafodd y Bwrdd gyflwyniadau yn amlinellu canlyniadau'r arolwg ac ymateb arfaethedig y rheolwyr. Cadarnhaodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol y byddai'n ceisio cael mewnweledaid dyfnach i dri maes lle yr oedd canlyniadau'r arolwg yn adlewyrchu canfyddiadau staff bod Archwilio Cymru yn tanberfformio.

69 Byddai'r ymchwil yn cynnwys cyfweliadau er mwyn archwilio profiadau staff fel y gall y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ddeall yn well pa gamau y mae angen eu cymryd ar lefelau sefydliadol, cyfarwyddiaeth a thîm. Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn sicr bod y rheolwyr yn cydnabod ac yn deall y materion a godwyd drwy'r arolwg, gan gynnwys themâu rheolaidd a'u bod wedi cynllunio dull gweithredu priodol ar gyfer y dyfodol, gan ystyried cyfleoedd a heriau allweddol.

70 Gellir gweld canlyniadau llawn ein harolwg drwy ein offeryn data rhyngweithiol sydd ar gael ar ein gwefan. Byddwn yn ailadrodd yr arolwg ym mis Hydref 2022.

## Iechyd a llesiant

71 Rydym wedi ymrwymo i annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymhlith ein staff. Rydym hefyd eisiau i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn profi anawsterau, p'un a yw hynny'n effeithio ar eu gallu i ymgymryd â'u swyddogaeth ai peidio.

72 Ategir ein polisi llesiant gan ganllawiau i gefnogi ein hymrwymiadau ac i sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a llesiant sy'n ymwneud â'r staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn modd rhagweithiol a sensitif. Rydym hefyd yn mynd ati'n weithredol i hybu a chefnogi iechyd emosiynol a chorfforol y staff, a'u llesiant, gan gynnwys trwy raglen flynyddol o ddigwyddiadau a thrwy gynnig gwasanaeth sgrinio iechyd.

73 Yn ogystal â hynny, mae rhaglen cymorth i gyflogeion ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein, sy'n darparu cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

74 Ar lefel sefydliadol, yn ein harolwg staff rydym yn cynnwys pedwar cwestiwn a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhan o'u rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol. Rydym hefyd yn cyfrifo'r Mynegai Straen Procsi[9] a mynegai PERMA[10] gan ddefnyddio cwestiynau yn yr holiadur Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil y dangoswyd eu bod yn elfennau pwysig mewn cysylltiad â llesiant. Ym mis Hydref 2021, roedd ymatebion nodweddiadol gan ein staff yn debyg i feincnod canolrifol Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

75 Un eithriad nodedig oedd cyfran y staff a nododd lefelau uchel o bryder, sydd wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd yr ydym wedi cynnal yr arolwg.

76 Rydym hefyd yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn ofalus ac mae gennym amrywiaeth o ddulliau ar waith i gefnogi dychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Collwyd 5.8 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (o'i gymharu â 3.7 diwrnod fesul cyflogai ar gyfer y flwyddyn flaenorol).

9 Sy'n cyd-fynd ag offeryn rheoli straen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

10 Sy'n mesur i ba raddau y mae cyflogeion yn 'ffynnu' yn y gweithle - ceir rhagor o wybodaeth yn Arweiniad Technegol Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

77 Mae'r Archwilydd Cyffredinol mewn sefyllfa gref i nodi cyfleoedd i helpu i ddileu gwahaniaethu a hybu cyfle cyfartal wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, ac wrth wneud argymhellion, mae'n gallu annog newidiadau buddiol o ran cydraddoldeb.

78 Fel cyflogwr staff Archwilio Cymru, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, sef ein staff ein hunain a'r rhai y deuwn i gysylltiad â nhw yn ein gwaith. Rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

79 Mae'n ofynnol i ni ddilyn y fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

80 Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u rhwymo gan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, rydym serch hynny'n ceisio gweithredu yn unol ag ysbryd y Ddyletswydd. Rydym yn ymwybodol o'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein penderfyniadau strategol, o ran y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes, ac wrth gynllunio a chyflawni ein rhaglen o waith archwilio.

81 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2018-2022 yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2020-21 ar gael ar ein gwefan ac mae'n dod gydag offeryn data rhyngweithiol sy'n cyflwyno data amrywiaeth ein gweithlu a'r bylchau cyflog. Cyhoeddir ein hadroddiad ar gyfer 2021-22 yn ddiweddarach yn 2022.

82 Tua diwedd 2021, gwnaethom ddatblygu cynigion cychwynnol ar gyfer yr hyn y dylai ein hamcanion cydraddoldeb fod ar gyfer 2022-2026, ar ôl adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion blaenorol. Cynlluniwyd y cynigion newydd hyn i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma ac ymestyn ein dull gweithredu.

83 Yna cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion rhwng 31 Ionawr 2022 a 4 Mawrth 2022. Cyhoeddwyd yr Ymgynghoriad ar ein gwefan a'i hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac fe'i dosbarthwyd yn uniongyrchol i nifer o randdeiliaid a oedd yn cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchodedig. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth i ni gwblhau cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, a gyhoeddir yn ddiweddarach yn 2022.







## Hybu defnydd o'r Gymraeg

84 Rydym yn ymfalchïo mewn cyflawni gwasanaeth archwilio dwyieithog. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog, a thrwy gydol 2021-22 fe wnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff a archwilir, a'r cyfryngau yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn mynd ati i annog staff i ddysgu Cymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith ac yn gymdeithasol. Mae ein Strategaeth Gymraeg yn amlinellu'r camau yr ydym eisiau eu cymryd i gryfhau ein gwasanaeth archwilio drwy recriwtio, dysgu a datblygu, a deall anghenion iaith ein cyrff a archwilir.

85 Rydym wedi ymrwymo i weithredu a chynnal Safonau'r Gymraeg, a welwn fel lefel sylfaenol ar gyfer gwasanaeth dwyieithog, yn hytrach na tharged. Mae ein Hysbysiadau Cydymffurfio i'w gweld ar ein gwefan, ochr yn ochr â'n Hadroddiad Iaith Gymraeg blynyddol diweddaraf.

## Gwaith cymunedol ac elusennol

86 Rydym yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu cynnig i'r gymuned ehangach ac rydym yn cymeradwyo ein staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff gymhwyso'r sgiliau y maent wedi'u datblygu yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

87 Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi gweithwyr sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal cymunedol, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

88 Yn ystod y flwyddyn ac yn eu hamser eu hunain, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi a rhoi arian.

## Stiwardiaeth amgylcheddol

89 Yn 2021-22, gwnaethom gynnal ein hachrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar Lefel 5 (y lefel uchaf), gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Gwnaethom hefyd barhau â'n gwaith cynllunio ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu tuag at gyflawni nodau carbon sero net tymor hwy Cymru.

90 Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, i gefnogi'r gostyngiad byd-eang mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, rydym yn gwrthbwyso[11] ein holl allyriadau carbon deuocsid ($tCO_2e$), gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'n teithiau busnes, drwy gefnogi mentrau plannu coed ac atal datgoedwigo.

91 Mae'r meysydd gwaith allweddol dros y 12 mis diwethaf wedi cynnwys:

a gostwng ymhellach y maint o wastraff a gynhyrchwn, gan gynyddu cyfran ein gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Ymdrechwyd yn arbennig i sicrhau bod ein cyflenwyr gwastraff yn cefnogi ein mentrau ac yn lleihau faint o'n gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

b parhau i leihau faint o adnoddau cyfyngedig a ddefnyddir, gan gynnwys papur, dŵr a’r defnydd o ynni. Er bod effeithiau'r pandemig a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi dylanwadu’n sylweddol ar ein gostyngiadau yn 2001-22 pan oedd llawer llai o defnydd yn cael ei wneud o swyddfeydd, er hynny, gwnaethom welliannau sylweddol drwy uwchraddio i oleuadau LED mwy effeithlon yn ein swyddfa fwyaf.

11 Gwrthbwyso carbon yw'r defnydd o gredydau carbon er mwyn galluogi sefydliadau i wneud iawn am rai o'u hallyriadau. Gall sefydliadau wneud iawn am rai o'r allyriadau carbon trwy brynu credydau mewn prosiectau ac ariannu arbediad carbon deuocsid cyfatebol mewn mannau eraill.

c treialu trefniadau desg a lleoliadau gweithgareddau newydd yn ein swyddfeydd, fel rhan o dreialon i alluogi gweithio hybrid. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi addasu dodrefn at ddibenion gwahanol, wedi defnyddio paent wedi'i ailgylchu, ac wedi rhoi dodrefn a oedd y tu hwnt i'w hoes defnyddiol i'r Ministry of Furniture i'w huwchgylchu i gynhyrchu cypyrddau bach a meinciau ar gyfer ysgolion lleol.

ch cynhyrchu dogfen ganllaw (gan gynnwys rhestr wirio arferion da) i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn well wrth gontractio ar gyfer nwyddau a gwasanaethau.

d lleihau ein defnydd o ddeunydd pacio plastig untro, ac o ran llawer o'n danfoniadau, peidio â defnyddio deunydd pacio o gwbl.

dd cynnig cynllun beicio i'r gwaith er mwyn hybu teithio llesol, cefnogi cynllun prydlesu ar gyfer defnyddio cerbydau trydan, a gwella mynediad at bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn ein swyddfeydd.

e cymryd rhan mewn grwpiau rhwydwaith 'sero net' a datblygu cynllun gweithredu a systemau ar gyfer adrodd ar allyriadau i gefnogi gofynion adrodd newydd yng Nghymru.

92 Eleni, rydym wedi cyhoeddi offeryn data rhyngweithiol newydd sy'n galluogi’r darllenydd i archwilio sut yr ydym wedi perfformio dros y blynyddoedd diwethaf o gymharu â’n mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol. Paratowyd yr offeryn yn unol â chanllawiau diweddaraf Trysorlys EM ar gyfer cyrff cyhoeddus ar adrodd ar gynaliadwyedd.

93 Fodd bynnag, ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r methodolegau adrodd gofynnol eto i gefnogi ei chanllawiau ar adroddiadau di-garbon net. O ganlyniad, am y tro, mae'r ffigurau a adroddwyd gennym yn ein hofferyn data wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio ein methodoleg flaenorol, nad yw, er enghraifft, yn ystyried effaith sylweddol gweithio gartref. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn cwblhau'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru dros y misoedd nesaf, felly ein bwriad yw cyhoeddi ein ffigurau diweddaraf ar gyfer 2021-22 yn ein Hadroddiad Interim ym mis Hydref 2022.

94 Hefyd, mae wedi ymrwymo i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny'n gyson â'n swyddogaethau. Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar gydymffurfio â Deddf yr amgylchedd (Cymru) 2016 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi chwe amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd yn well yn y dyfodol. Mae gwaith ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn wedi parhau drwy gydol y tair blynedd diwethaf ac mae ein hail adroddiad ar gydymffurfio â'r Ddyletswydd, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2022, wedi'i gynnwys fel **Atodiad 4** i'r Adroddiad hwn.

13 CLIMATE ACTION

15 LIFE ON LAND

# Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

9 Mehefin 2022

02

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Ein Bwrdd



**Adam Marshall**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Alison Gerrard**
Aelod anweithredol



**Anne Beegan**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**David Francis**
Aelod anweithredol



**Elinor Gwynn**
Aelod anweithredol



**Ian Rees**
Aelod anweithredol



**Kevin Thomas**
Aelod penodedig sy'n gyflogai



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd anweithredol y Bwrdd

## Ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Anne-Louise Clark**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid



**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol

95 Mae'r arddangosion yn yr adran hon yn dangos cyfansoddiad y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar 1 Mehefin 2022. I gael rhestr lawn o unigolion sydd wedi bod yn aelodau o'r Bwrdd, ei bwyllgorau, neu'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystod y flwyddyn, gweler y tabl Presenoldeb yn y Datganiad Llywodraethu.

96 Gellir gweld cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol o'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol drwy ddefnyddio'r dolenni 'Darllenwch Fwy' ar dudalen Pwy yw pwy ein gwefan.

## Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

97 Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis yn dechrau ar 1 Tachwedd 2018.

98 Yn ogystal â'u gwaith i lunio barn ar y datganiadau ariannol a rheoleidd-dra, gall yr archwilydd gynnal archwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddynt ddefnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau a gosod adroddiad sy'n cynnwys unrhyw archwiliadau o'r fath gerbron y Senedd.

99 Datgelir manylion cost gwasanaethau archwilio allanol yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

100 O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:

a cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn cysylltiad â nhw; a

b pharatoi datganiad o gyfrifon ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Senedd.

101 Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, yn Government Functional Standard: Finance a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

102 Disgrifir cyfrifoldebau ychwanegol yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Senedd.

103 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Government Financial Reporting Manual, ac yn benodol, mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:

a Cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson

b Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol

c Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn y llawlyfr, Government Financial Reporting Manual, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon

ch Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

104 Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i Hincwm a'i Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a Llifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

105 Yn rhinwedd fy swydd yn Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau’r canlynol:

a mae'r Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon hyn yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymeraf gyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

b rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a

c hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni.

## Datganiad llywodraethu

106 Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ac yn rhoi cyfrif o lywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ochr yn ochr â disgrifiad o'r prif risgiau a wynebir gennym. Mae systemau a fframwaith yn y datganiad hwn wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

107 Nodir fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, rhaid i mi geisio sicrhau’r canlynol:

a y cynhelir system rheolaeth fewnol gadarn yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol gadarn, er mwyn cefnogi'r gwaith o arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a

b bod rheolaeth cyfleoedd a risgiau Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

108 Crynhoir fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a gwaith ei bwyllgorau, yn yr arddangosyn drosodd.

109 Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n gyflogai a benodwyd ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

110 Mae Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan nad yw’n gallu gweithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; cael datgeliadau gan chwythwyr chwiban y tu allan i'r gadwyn rheoli llinell arferol; a goruchwylio'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

111 Rheolir y berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol gan God Ymarfer a gymeradwyir gan y Senedd ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

112 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n gweithredu mewn swyddogaeth ymgynghorol:

a Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod allanol annibynnol

b Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai

## Pwyllgor Cyllid y Senedd

Yn craffu ar ddefnydd adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru, yn argymell penodiad yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn monitro'r broses o arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
Yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol.
Yn cyflogi staff ac yn darparu adnoddau fel bod modd arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
Yn codi tâl am waith sydd wedi'i wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol.
Yn cydweithio â'r Archwilydd Cyffredinol i amcangyfrif incwm a threuliau, y cynllun ffioedd, y cynllun blynyddol, adroddiad/adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol.

## Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Yn cynghori'r Bwrdd trwy herio a chraffu ar dri maes cyffredinol o'r gwaith rheoli a datblygu adnoddau dynol:

a llywodraethu;
b perfformiad; a
c pholisi a thaliadau cydnabyddiaeth.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn cynghori'r Bwrdd trwy:

a adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ffynonellau sicrwydd corfforaethol;
b adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon; a
c chyflwyno barn ar y cymorth sydd ar gael fel bod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gallu cyflawni eu dyletswyddau perthnasol.

## Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwylio gweithrediad yr amcanion strategol a'r rhaglenni gwaith a ddisgrifir yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Cymru.

Yn gweithredu fel bwrdd rhaglen rheoli newid, gan osod cyfeiriad y rhaglen a darparu adnoddau ar gyfer ei gweithredu.

113 Nid yw aelodau etholedig y Bwrdd sy'n gyflogeion yn aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nac yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel uwch ac eithrio yn rhinwedd swyddogaeth y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn aelodaeth y Pwyllgor a, phan fo gwrthdaro'n codi, cânt eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.

114 Rwy'n cadeirio Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i gyfarwyddo, goruchwylio a monitro'r gwaith o weithredu'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac mae'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr Gweithredol. Ar ddechrau 2021-22, roedd aelodaeth o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol hefyd yn cynnwys pedwar Aelod a oedd yn Gyflogeion a oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd ar sail gylchdroadol. Yn dilyn newid i'r cylch gorchwyl, daeth y trefniadau hynny i ben ar 19 Mai 2021, ac yn ystod gweddill 2021-22, roedd aelodau Panel Staff newydd yn bresennol yn y cyfarfodydd, unwaith eto ar sail gylchdroadol[12].

115 Cefnogir y Bwrdd a'i bwyllgorau gan Ysgrifennydd Bwrdd. Ceir blaenraglen fusnes sy'n llywio eu hagenda dros dro, a gynlluniwyd er mwyn sicrhau y cynhelir busnes mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

116 Ceir rhagor o wybodaeth am aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

12 O 20 Mai 2021 ymlaen, cyfyngwyd aelodaeth y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i’r Archwilydd Cyffredinol a'r tri Chyfarwyddwr Gweithredol, gyda'r panel staff yn dod â phersbectif gweithiwr er mwyn llywio trafodaethau'n well. Mae gan y panel staff drefniadau ar waith i rannu unrhyw wybodaeth a dealltwriaeth perthnasol, er mwyn eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

**Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2021-22**

Tabl yn dangos nifer y cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau a gynhaliwyd yn 2021-22, a nifer y cyfarfodydd yr oedd aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd yn bresennol ynddynt.

| | Y Bwrdd[13] | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol | Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **8** | **5** | **4** | **27** |
| **Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau** | | | | |
| Adam Marshall[14] | 7 | 1 | 2 | |
| Adrian Crompton[15] | 8 | 4 | 4 | 27 |
| Alison Gerrard, Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol | 7 | | 3 | |
| Amanda Hughes[16] | 1 | | 1 | |
| Andrew Clark, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg[17] | 1 | 4 | | |

13 Ar 3 Medi 2021, cynhaliodd y Bwrdd weithdy hefyd i adolygu y risgiau strategol sy'n wynebu Archwilio Cymru, gan ystyried ffactorau mewnol ac allanol sy'n dylanwadu ar ei amgylchedd gweithredu.

14 Cafodd Adam Marshall ei benodi yn aelod etholedig sy'n gyflogai o'r Bwrdd ar 20 Gorffennaf 2021. Roedd yn bresennol mewn un cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel arsyllwr.

15 Bu Adrian Crompton yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn rhinwedd ei swydd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

16 Ymddiswyddodd Amanda Hughes fel aelod etholedig sy'n gyflogai o'r Bwrdd ar 17 Mehefin 2021.

17 Penodwyd Andrew Clark yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 1 Gorffennaf 2021. Bu'n bresennol mewn un cyfarfod o'r Bwrdd fel arsyllwr.

| | Y Bwrdd[13] | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol | Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **8** | **5** | **4** | **27** |
| Anne Beegan[18] | 8 | 5 | 1 | |
| David Francis, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol[19] | 8 | 5 | 1 | |
| Dianne Thomas[20] | | 1 | | |
| Elinor Gwynn | 8 | | 4 | |
| Ian Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg[21] | 7 | 5 | 1 | |
| Kevin Thomas[22] | 7 | 5 | 3 | 24 |
| Lindsay Foyster | 8 | | 4 | |

18 Bu Anne Beegan mewn un cyfarfod o’r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol fel arsyllwr yn rhinwedd ei swydd yn aelod etholedig sy’n gyflogai o'r Bwrdd.

19 Bu David Francis mewn un cyfarfod o'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol fel arsyllwr yn rhinwedd ei swydd yn aelod anweithredol o'r Bwrdd.

20 Daeth tymor swydd Dianne Thomas i ben fel Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 30 Mehefin 2021.

21 Bu Ian Rees mewn un cyfarfod o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel arsyllwr yn rhinwedd ei swydd yn aelod anweithredol o'r Bwrdd.

22 Bu Kevin Thomas yn bresennol mewn cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rhinwedd ei swydd yn Gyfarwyddwr Cyllid.

23 Bu’r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd yr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol fel y bo'n briodol i roi sesiynau briffio, cymryd rhan mewn trafodaethau neu i gymryd eu cyngor. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i ddod i gyfarfodydd y Bwrdd.

| | Y Bwrdd[13] | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol | Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **8** | **5** | **4** | **27** |
| **Aelodau y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd[23]** | | | | |
| Anne-Louise Clark | 8 | 4 | 1 | 25 |
| Ann-Marie Harkin | 7 | 3 | 2 | 25 |
| Clare James, Aelod Sy'n Gyflogai | | | | 2 |
| Emma Woodcock, Aelod sy'n Gyflogai | | | | 3 |
| Harrie Clemens, Aelod sy'n Gyflogai | | | | 2 |
| Matthew Edwards, Aelod sy'n Gyflogai | | | | 3 |

### Cyfrif llywodraethu corfforaethol

117 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni trwy:

a Adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau perfformiad a sesiynau briffio amserol

b Adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

c Adroddiadau archwilio allanol

118 Mae lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau cysylltiedig o risg a aseswyd.

119 Mae'r Bwrdd yn fodlon ar ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael, er bod lle i wella ei bwyslais a'i linellau amseroldeb. Mae aelodau anweithredol y Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau bod gwaith y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi'u halinio.

120 Wrth gyflawni ein gwaith, mae Swyddfa Archwilio Cymru a minnau (yn rhinwedd fy swydd yn Archwilydd Cyffredinol a Swyddog Cyfrifyddu) yn cymhwyso Cynlluniau Dirprwyo ffurfiol. Mae'r cynlluniau dirprwyo yn llywio cylch gorchwyl y Bwrdd, ei bwyllgorau, a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, a adolygir yn flynyddol.

121 Mae'r Bwrdd yn gweithredu Cod Ymddygiad pan fo Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cofrestrau buddiannau aelodau a adolygir yn flynyddol ac a ddiwedderir yn ystod y flwyddyn er mwyn casglu unrhyw newidiadau a hysbysir gan aelodau. Mae hyn yn sicrhau bod gwrthdaro buddiannau posibl, gan gynnwys risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cael ei nodi'n barhaus a bod camau priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru. Rydym yn cyhoeddi'r Cofrestrau ar ein gwefan[24].

122 Mae gan Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei bwyllgorau hawl mynediad, a gallant roi gwybod yn uniongyrchol i Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

123 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol yn parhau i gael mynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob cyfarfod pwyllgor.

124 Yn wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu ei threfniadau o'u cymharu â gofynion Code of Good Practice for Corporate Governance in central government departments. Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol ac yn ymarferol o ystyried yr angen i gadw annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r trefniadau'n cydymffurfio â gofynion y Cod mewn cysylltiad â'r agweddau canlynol:

a Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn adran weinidogol, ac nid yw'n adrodd i weinidogion neu eu swyddogion nac yn cael cyfarwyddiadau ganddynt

b Mae swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i aelodaeth wedi eu pennu mewn statud

c Nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor enwebiadau, ond y Bwrdd a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol sy'n ymgymryd â'r swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod

24 Gellir gweld cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol ein Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol drwy ddefnyddio'r dolenni 'Darllenwch Fwy' ar dudalen Pwy yw pwy ein gwefan.

## Adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

125 Yn 2020-21, comisiynodd y Bwrdd werthusiad annibynnol o'i effeithiolrwydd yn unol ag arferion da ac i gyflawni ymrwymiad a wnaed i'r Senedd. Ystyriodd y Bwrdd y canlyniadau ym mis Medi 2021. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol, gyda meysydd o gryfder a oedd wedi ei alluogi i lywio'r sefydliad drwy gyfnod heriol unigryw. Roedd yr adroddiad yn cydnabod ymrwymiad y Bwrdd i welliant parhaus ac yn gwneud argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus i wella:

a Ei effeithiolrwydd fel tîm

b Ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol

c Prosesau'r bwrdd

126 Datblygodd y Bwrdd gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer eu gwella a chytunodd i gynnal hunanasesiad o'i effeithiolrwydd yn ddiweddarach yn 2022.

127 Fel rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pwyllgorau'r Bwrdd i gyd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn asesu ei hun o gymharu â'r egwyddorion arferion da a ddisgrifir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r asesiad hwnnw i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gymesur â'i anghenion. Mae'r Bwrdd yn fodlon â chadernid yr asesiadau a'r cynnwys nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder.

128 Mae gan y Bwrdd broses ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau perfformiad aelodau sy'n gweithredu ar gylch 12 i 18 mis. Fe'u cwblhawyd ddiwethaf ym mis Awst 2021. Mae'r Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol yn cwblhau arfarniad o berfformiad y Cadeirydd ar yr un cylch, gyda'r arfarniad hwnnw wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2021.

129 Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant cynefino ac ar gyfer diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a nodwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy'r broses arfarnu perfformiad.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

130 Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2022, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaed ganddo yn ystod 2021-22.

131 Rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y canlynol:

- a mae'n ymddangos bod y trefniadau asesu risg a rheoli risg yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith polisi clir;
- b mae'r adroddiadau ariannol yn gyson â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a pharatoir adroddiadau yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol;
- c mae ei adolygiadau strategol o'r gofrestr risg yn awgrymu bod y fframwaith rheolaeth fewnol yn gweithredu'n effeithiol;
- ch mae'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer nodi ac adrodd am gamweddau megis twyll a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn unol ag arferion da;
- d mae trefniadau gwrth-dwyll yn gadarn ac mae'r broses o integreiddio risgiau twyll o fewn y fframwaith risg a sicrwydd wedi'i chwblhau;
- dd mae trefniadau seiberddiogelwch ymarferol yn gadarn ond rhoddwyd sicrwydd pellach drwy gael ardystiad allanol sef Cyber Essentials; ac
- e mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cynnig her adeiladol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

132 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafodd gan y rheolwyr a'r archwilwyr mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn a bydd yn parhau i fonitro unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill ac yn olrhain cynnydd â'i olrheiniwr.

133 O ran cryfder ei waith yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

- a bod y Pwyllgor yn monitro'r gwaith o gyflawni'r rhaglen archwilio mewnol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt, yn cydnabod natur unigryw ein busnes, ac yn darparu ehangder a dyfnder sicrwydd priodol; a
- b bod y Pwyllgor yn monitro'r broses o gymhwyso a gweithredu'r risg strategol a ddiweddarwyd a'r fframwaith sicrwydd, a'r canllawiau a'r dangosfwrdd cysylltiedig, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu fframwaith rheoli cadarn ac addas i'r diben sy'n adlewyrchu gweithrediad ac uchelgeisiau Archwilio Cymru.

## Adroddiad y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

134 Yn 2021-22, craffodd y Pwyllgor ar ystod eang o faterion ar draws sbectrwm llawn ei gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- a ystyried ac argymell strategaeth gyflogau mewn hinsawdd o chwyddiant cynyddol ac ymatebion i'r arolwg staff a ddangosodd ostyngiad mewn boddhad â phecyn cyflogau a buddion Swyddfa Archwilio Cymru;
- b ystyried cynigion terfynol ar gyfer cynllun teithio a chynhaliaeth diwygiedig a oedd yn bodloni'r paramedrau gwerth am arian a bennwyd gan y Bwrdd;
- c monitro cyfyngiadau capsiti yn y tîm Adnoddau Dynol a oedd wedi effeithio ar y broses o gyflawni ei waith, yn enwedig gweithgareddau o fewn cynllun cyflawni strategaeth y gweithlu; a
- ch chynnal adolygiad o drefniadau dysgu a datblygu i archwilio'r rhesymau dros sgoriau isel yn arolygon staff 2019 a 2020 a pha un a yw dull Archwilio Cymru o ddysgu a datblygu yn parhau i fod yn addas i'r diben.

135 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y rheolwyr wedi:

- a ymgysylltu'n agored â'r Pwyllgor a mynd ati i geisio gwaith craffu a herio'r Pwyllgor;
- b ymateb yn gadarnhaol i adborth ac awgrymiadau'r Pwyllgor.

136 Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan bod trefniadau taliadau cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol Swyddfa Archwilio Cymru:

- a yn cefnogi nodau strategol y Bwrdd;
- b yn galluogi’r busnes i gael ei chynnal yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus gan gynnwys recriwtio, ysgogi a chadw staff; ac
- c yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr adroddiad taliadau cydnabyddiaeth blynyddol yn unol â gofynion cyfreithiol.

137 Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod rhagor i'w wneud yma i sicrhau bod manteision y trefniadau hyn yn cael eu gwireddu'n llawn, gan gynnwys:

a monitro'r gwaith o ddatblygu a chyflawni strategaeth y gweithlu a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r strategaeth bum mlynedd a'i chanlyniadau;

b monitro gweithrediad ac effaith y strategaeth lesiant a'r cynllun cyflawni ar draws y busnes er mwyn sicrhau bod gweithlu cryf a diogel ar waith i gyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol;

c monitro a meincnodi taliadau cydnabyddiaeth a datblygu cyfres gadarn a deniadol o fanteision staff i ddenu a chadw staff talentog; ac

ch ystyried cynlluniau ar gyfer datblygu rheolwyr llinell i sicrhau bod staff yn cael eu rheoli'n dda yn gyson drwy alluoedd arweinyddiaeth cryfach.

138 Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw'r adolygiad hunanasesu o'i effeithiolrwydd wedi datgelu unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

**Adroddiad yr Archwilydd Mewnol**

139 Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd o dan Fframwaith Ymgynghori ym Maes Rheoli Gwasanaethau Masnachol y Goron, penodwyd PricewaterhouseCoopers LLP yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am y cyfnod tair blynedd 2018-19 i 2020-21. Cafodd y contract hwnnw ei ymestyn wedyn am flwyddyn arall ar gyfer 2021-22.

140 Paratôdd y Pennaeth Archwilio Mewnol strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2021-22 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2021. Yn ystod 2021-22, cyhoeddwyd chwe adroddiad archwilio mewnol gan PricewaterhouseCoopers LLP.

141 Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cynnal olrheiniwr er mwyn dilyn argymhellion archwilio a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

## Lefelau'r sicrwydd a ddarperir mewn barnau adroddiadau archwilio mewnol

Tabl sy'n rhestru'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2021-2 2 gan nodi dosbarthiad yr adroddiad o ran lefelau sicrwydd ar gyfer pob adolygiad, ochr yn ochr â chrynodeb o arsylwadau allweddol.

| Adolygiad archwilio mewnol | Dosbarthiad yr adroddiad | Arsylwadau archwilio mewnol |
|---|---|---|
| Rheolaeth ariannol: y gyflogres ac asedau sefydlog | Risg isel | Mae prosesau'r gyflogres ac asedau sefydlog Archwilio Cymru yn gweithredu'n effeithiol ar hyn o bryd, ac ni welsom unrhyw broblemau wrth brofi dyddlyfrau y gyflogres, gwariant cyfalaf, cysoniadau asedau sefydlog, ychwanegiadau asedau sefydlog a gwarediadau, a phrofion a gwblhawyd dros fonitro gwariant. |
| Rheoli adnoddau | Risg isel | Mae rheoli adnoddau yn dibynnu'n drwm ar ddau unigolyn, eu profiad a'u gwybodaeth, gan arwain at ddibyniaeth ar unigolyn allweddol o fewn y sefydliad. Pe na bai'r naill neu'r llall ar gael, gallai hyn arwain at arafu neu amharu ar y broses fusnes ymhellach gan effeithio ar allbwn ymgysylltu ac enw da Archwilio Cymru.<br>Hefyd, nid oes gan Archwilio Cymru broses eto i fonitro perfformiad gwirioneddol fesul cam ym mhob ymgysylltiad archwilio er mwyn penderfynu a yw'r rhagolygon adnoddau gwreiddiol yn parhau i fod yn ddilys ar sail amser real, er bod menter wedi'i chefnogi gan y Bwrdd i gyflwyno monitro a fydd yn gwneud hyn. |
| Seiberddiogelwch | Risg uchel | Roedd dau gam i'r asesiad: asesiad gliniadur ac adolygiad adeiladu. Cynhaliodd cam asesu'r gliniadur 90 o brofion gwahanol, gan ddefnyddio meincnod Centre for Internet Security Windows 10 ac arferion gorau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC): nodwn pe bai Archwilio Cymru yn cydymffurfio â holl ganllawiau'r NCSC, y byddai'n rhagori ar y safon sy'n ofynnol ar gyfer ardystiad Cyber Essentials Plus.<br>Nododd ein hadolygiad un canfyddiad o risg uchel, tri o risg ganolig a thri o risg isel, nad ydynt yn anarferol yng nghyd-destun sefydliadau eraill yr ydym wedi cynnal adolygiadau tebyg ar eu gyfer. |

| Adolygiad archwilio mewnol | Dosbarthiad yr adroddiad | Arsylwadau archwilio mewnol |
|---|---|---|
| Rheoli newid | Risg ganolig | Mae Archwilio Cymru wedi llwyddo i ddechrau gweithredu tîm Rheoli Newid i alluogi'r sefydliad i fanteisio ar lefel o arbenigedd ar brosiectau newid. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn gweithredu cynllun strategol hirdymor sy'n dibynnu ar dîm Rheoli Newid cadarn ac integredig, a sefydliad 'wedi'i alluogi gan Newid', er mwyn bod yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael ei lesteirio gan rai heriau diwylliannol a gwrthwynebiad i newid sy'n llesteirio gallu'r tîm Rheoli Newid i weithredu'n effeithiol. |
| Caffael | Risg isel | Cynhaliwyd cyfweliadau a phrofion gennym mewn nifer o feysydd, gan ymdrin â'r rheolaethau allweddol o fewn y broses gaffael. Mae templedi manwl ar gael sy'n ymwneud â chamau'r broses gaffael, o achos busnes hyd at adroddiad tendr.<br><br>Gwelsom fod y gweithgareddau ymgysylltu â'r farchnad a gynhaliwyd cyn i ymarfer caffael ddechrau yn achlysurol ac yn gyfyngedig i brosiectau mawr yn unig. Nid oes methodoleg ddiffiniedig ar gyfer yr hyn y dylid ei wneud fel rhan o'r gwaith cyn ymgysylltu hwn. Gellid gwella'r dogfennau allweddol sy'n nodi'r prif ofynion caffael hefyd er mwyn darparu mwy o wybodaeth neu wybodaeth gliriach am y defnydd o fframweithiau. |
| Llywodraethu corfforaethol | Risg isel | Ar lefel gyffredinol, ni nododd yr adolygiad hwn unrhyw ganfyddiadau sylweddol na risg uchel. Roedd yn ymddangos bod y meysydd llywodraethu corfforaethol a adolygwyd gennym wedi'u cynllunio'n briodol, wedi'u gweithredu'n ddigonol, ac roedd ganddynt drylwyredd da o ran meysydd arferion da.<br><br>Nodwn fod arfer mewn rhai achosion yn fwy trylwyr nag y byddem yn ei ddisgwyl gan sefydliad o faint Archwilio Cymru. Fodd bynnag, o ystyried swyddogaeth a phroffil Archwilio Cymru yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fel esiampl i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ei dilyn, efallai na fydd hyn yn amhriodol. |

142 Yn ei ddatganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2021-22, dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol:

'Mae trefniadau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth o ran meysydd sy'n bwysig i'r busnes yn foddhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir rhai meysydd gwendidau a/neu ddiffyg cydymffurfio yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth a allai achosi risg o ran cyflawni amcanion. Mae angen rhai gwelliannau yn y meysydd hynny i wella digonolrwydd a/neu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.'

## Risk appetite and management

143 Wrth gynnal ein busnes, rydym wedi ymrwymo i gymhwyso'r egwyddorion arferion gorau a'r canllawiau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Orange Book Llywodraeth y DU ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau'n gosteffeithiol.

144 Parodrwydd i dderbyn risg yw faint o risg yr ydym yn barod i'w chymryd wrth geisio cyflawni ein diben a'n huchelgeisiau yn effeithiol. Drwy sefydlu ein parodrwydd i dderbyn risg, gallwn sicrhau bod yr adnodd a ddefnyddir ar gyfer risgiau lliniarol yn gymesur.

145 O ystyried natur ein busnes, mae ein parodrwydd i gymryd risgiau mewn meysydd fel annibyniaeth ac ansawdd archwilio, safonau moesegol a phriodoldeb, llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch, cyfreithlondeb, parhad busnes, iechyd a llesiant staff, a rheolaeth ariannol ein hunain, yn gymharol isel.

146 Mewn meysydd eraill, megis ceisio cynyddu ein perthnasedd, ein dylanwad a'n heffaith, a datblygiad proffesiynol ein gweithlu, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg i fanteisio ar gyfleoedd i ddilyn ein huchelgeisiau.

147 Ceir crynodeb lefel uchel o'n parodrwydd i dderbyn risg yn yr arddangosyn isod, sy'n darparu'r pwynt cyfeirio y byddwn yn cymharu meincnodi gweithgarwch rheoli risg a lliniaru o fewn y sefydliad ag ef.

| Categorïau parodrwydd i dderbyn risg | Sgoriau parodrwydd i dderbyn risg | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ein hawydd i gymryd camau neu benderfyniadau (o bosibl wrth geisio buddion eraill) a allai effeithio ar y canlynol: | **Osgoi**<br><br>Mae osgoi risg yn amcan allweddol. Rydym yn fodlon derbyn risg gyfyngedig iawn yn unig. | **Gochelgar**<br><br>Dewis opsiynau diogel sydd â lefel isel o risg gweddilliol. Gallai'r opsiynau hyn gynnig potensial cyfyngedig yn unig o ran gwobr. | **Agored**<br><br>Yn barod i ystyried pob opsiwn posibl a dewis un sy'n cydbwyso risg gweddilliol â lefel ddymunol o wobr. | **Awyddus**<br><br>Yn awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau uchel er gwaethaf y posibilrwydd o risg gynhenid. |
| Annibyniaeth ac ansawdd archwilio | ✓ | | | |
| Safonau moesegol a phriodoldeb | ✓ | | | |
| Llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch | ✓ | | | |
| Cydymffurfiaeth gyfreithiol | ✓ | | | |
| Parhad busnes | | ✓ | | |
| Iechyd a llesiant staff | | ✓ | | |
| Rheolaeth ariannol a gwerth am arian | | ✓ | | |
| Cynllunio a datblygu'r gweithlu | | | ✓ | |
| Perthnasedd, dylanwad ac effaith | | | | ✓ |

## Rheoli risg a fframwaith rheolaeth

148 Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r gwaith o reoli risg yn Archwilio Cymru ac mae'n derbyn ac yn ystyried cofrestr risg strategol ac adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newidiadau arwyddocaol i broffil risg y sefydliad ym mhob un o'i gyfarfodydd.

149 Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys adolygu a chynghori'r Bwrdd ar:

- a Ei strategaeth risg, gan gynnwys dull Archwilio Cymru o bennu ei pharodrwydd i dderbyn risg
- b Y prosesau asesu risgiau cyffredinol sy'n llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau gweithredol
- c Ymatebolrwydd y rheolwyr i asesiadau risg

150 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn gyfrifol am gynnal polisïau a systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn, ac am reoli risgiau strategol o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a/neu Swyddfa Archwilio Cymru. Ar gyfer pob un o'r prif risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn asesu lefelau'r risg weddilliol yr ydym yn barod i'w goddef.

151 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system rheolaeth fewnol ac fe'i cefnogir i wneud hynny gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

## Asesiad risg

152 Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2021-22, ystyriodd y Bwrdd grynodeb o'r risgiau strategol allweddol a wynebir gan y sefydliad, ochr yn ochr ag adroddiad cofrestr risgiau strategol rhyngweithiol manylach wnaeth y canlynol:

- a darparu asesiad o lefelau cynhenid o risg a neilltuo targedau risg;
- b disgrifio'r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith i liniaru tebygolrwydd o risg ac effaith risg, ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd cysylltiedig;
- c darparu asesiad o’r lefelau risg gweddilliol a lefelau sicrwydd;
- ch nodi symudiadau risg a thynnu sylw at newidiadau a wnaed i’r rheolaethau lliniaru ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd; a
- d chrynhoi cynnwys y gofrestr trwy broffiliau a mapiau gwres risgiau cynhenid a gweddilliol.

153 Roedd nifer o risgiau strategol allweddol yn amrywio yn ystod y flwyddyn gan beri i'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol roi llawer o'u hamser i ymdrin â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â:

a datblygu cynllun strategol pum mlynedd ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau;

b rheoli pwysau llwyth gwaith a chefnogi cydnerthedd a llesiant staff drwy gydol y pandemig;

c sefydlu cynnig dysgu a datblygu cadarn a chynllunio olyniaeth mwy effeithiol;

ch seiberddiogelwch, ein seilwaith TG a sicrhau parhad busnes; a

d chwblhau cynllun teithio a chynhaliaeth amgen sy'n addas i'r diben ar gyfer ffyrdd 'normal newydd' o weithio ac sy'n cynrychioli gwerth da am arian.

154 Rwy'n fodlon bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

155 Yn 2021-22, parhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyflawni'r gwaith o graffu ar y cofrestrau risg strategol a gweithredol, gan gynnwys drwy brofi risgiau unigol, rheolaethau a ffynonellau sicrwydd, er mwyn penderfynu a oedd y trefniadau rheoli risgiau yn gadarn yn gyffredinol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei adolygiadau manwl yn dangos yr ymddengys fod trefniadau rheoli risgiau Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu'n effeithiol.

156 Cafodd nifer o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu oddi ar y gofrestr risgiau strategol yn ystod 2021-22. Roedd y risgiau naill ai wedi'u cau'n llwyr neu wedi'u hail-fframio a'u dad-ddwysáu ar y gofrestr risgiau gweithredol er mwyn eu rheoli'n barhaus gan yr arweinydd risgiau perthnasol.

157 Rydym hefyd yn wynebu nifer o risgiau sydd newydd eu nodi wrth i ni symud ymlaen i 2022-23, ac adlewyrchir y rhain yn ein cofrestr risg strategol. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

a dysgu o'n profiadau gweithio o bell, gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio fel Archwilio Cymru effeithlon a chysylltiedig, a sicrhau'r cyfleoedd gorau ar gyfer y ffyrdd o weithio yn y dyfodol;

b sicrhau bod ein trefniadau rheoli ansawdd yn cydymffurfio â safonau rheoli ansawdd newydd a bod ein gwaith archwilio yn parhau i fod yn unol ag arfer proffesiynol gorau;


c sicrhau bod trefniadau archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hystyried yn briodol mewn unrhyw newidiadau a gynigir ar gyfer proffesiwn archwilio ehangach y DU; ac

ch ein gallu i recriwtio a chadw'r staff archwilio gofynnol gyda'r sgiliau angenrheidiol ar bob gradd, gan ystyried prinder yn y farchnad leol, genedlaethol a rhyngwladol.

158 Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, y bydd camau priodol ar waith i fynd i'r afael â nhw lle bo gwendidau, a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

## Ein proffil risgiau strategol

159 Darperir crynodeb o'n proffil risg strategol ar 1 Mehefin 2022 yn y 'map gwres' canlynol, sy'n amlygu nifer y risgiau strategol a'r lefelau risg gweddilliol a aseswyd ar ôl cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.



## Llywodraethu gwybodaeth

160 Yn rhinwedd fy swydd yn Archwilydd Cyffredinol, mae gennyf fynediad eang at wybodaeth er mwyn gallu cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Mae'r hawliau mynediad statudol pwerus hyn yn dod â chyfrifoldeb gyda nhw i sicrhau bod yr wybodaeth a gaf i ac y caiff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cael ei diogelu'n briodol.

161 Yn fy swyddogaeth yn Brif Weithredwr, rwy'n atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â bod yn rheolwr data fy hun fel Archwilydd Cyffredinol. Rwyf wedi dirprwyo'r ddwy swyddogaeth i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.

162 Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion diogelu data a chyfrifoldebau eraill dros ddiogelu gwybodaeth, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth a Pholisi Diogelu Gwybodaeth. Mae'r polisïau hyn yn nodi cyfrifoldebau staff, gofynion prosesu, trefniadau monitro ac adrodd, a gwybodaeth am sut y gall staff gael cymorth ac arweiniad pellach.

163 Daeth adroddiad blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer 2021-22 i'r casgliad bod ein trefniadau llywodraethu gwybodaeth cyffredinol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai gwendidau o ran deall rolau a chyfrifoldebau a allai danseilio'r sefyllfa honno. Yn benodol, mae rôl y Perchennog Asedau Gwybodaeth yn faes lle mae diffyg gwybodaeth eang, ac mae angen gwerthfawrogi a deall y cyfrifoldeb am asesu'r effaith ar ddiogelu data yn ehangach. Ym mis Mehefin 2022, cymeradwyodd y Bwrdd gyfres o argymhellion i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn.

### Diogelu data

164 Mae diogelu data personol yn arbennig o bwysig, ac yn ystod y flwyddyn mae'r sefydliad wedi parhau i weithio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data – Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- a darparu hyfforddiant a chanllawiau diogelu data i staff ar draws y sefydliad;
- b sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw am yr wybodaeth bersonol a brosesir gan Swyddfa Archwilio Cymru, dibenion y gwaith prosesu, y sail gyfreithiol dros brosesu, y manylion cadw data yn ogystal â manylion mesurau diogelwch technegol a sefydliadol;
- c mynd i'r afael â materion cydymffurfio a nodir gan raglen fonitro'r Swyddog Diogelu Data; a
- ch chynnal asesiadau o’r effaith diogelu data ar ffurfiau newydd a ffyrdd newydd o brosesu data, gan gynnwys, er enghraifft, dulliau newydd o gael gafael ar wybodaeth ar gyfer archwiliad ariannol yn unol â datblygu safonau cyfrifyddu.

165 Rydym yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, megis mynediad at wybodaeth heb awdurdod neu golli gwybodaeth yn ddamweiniol. Mae pob digwyddiad yn ystod y flwyddyn wedi bod o natur fach, ac nid ydym wedi gwneud unrhyw adroddiadau am achosion o dorri rheolau risg uchel i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rydym yn annog staff i adrodd cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o doriad, ac rydym yn parhau i weithio i gynnal a gwella ein prosesau mewnol a chryfhau ein diogelwch technegol er mwyn mynd i'r afael â gwendidau posibl.

**Bod yn agored ac yn dryloyw**

166 Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd yr ydym yn gweithredu fel busnes ac rydym wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol, fel cofnodion y Bwrdd, ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd.

167 Ym mlwyddyn ariannol 2021-22, cawsom 48 o geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys pedwar cais gan unigolion a oedd yn arfer eu hawliau mynediad gan y testun o dan gyfreithiau diogelu data. Gwnaethom fodloni'r dyddiad cau statudol o 20 diwrnod gwaith ar gyfer 39 o geisiadau a oedd yn ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gohiriwyd dau gais y tu hwnt i'r amserlen statudol oherwydd absenoldeb staff ac oedi mewnol wrth gydnabod gohebiaeth fel cais rhyddid gwybodaeth. Ni wnaethom ymateb i dri chais gan eu bod yn dod o fewn yr eithriad yn ymwneud â cheisiadau blinderus. Gwnaethom ymateb i dri o'r pedwar cais mynediad gan y testun am wybodaeth o fewn mis. Ar gyfer y cais sy’n weddill, gohiriwyd ein hymateb oherwydd maint a chymhlethdod y deunydd dan sylw, ynghyd â chyfyngiadau o ran adnoddau.

168 Er ein bod yn deall bod un a wnaeth gais wedi cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2021-22 o ran ein ffordd o ymdrin â cheisiadau.

## Chwythu'r chwiban (mewnol)

169 Anogir holl staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi materion sy'n peri pryder ynghylch camweddau sy'n dod i'w sylw tra byddant yn y gwaith. Mae'r Bwrdd o'r farn bod nodi camweddau yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

170 Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, yn nodi'r mecanwaith ar gyfer codi materion o'r fath, ac yn berthnasol i staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl gontractwyr ac eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw swydd.

171 Yn 2021-22 cawsom dri datgeliad o faterion sy'n peri pryder, ac mae'r rhain ar wahanol gamau ymchwilio.

172 Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban, rydym yn ystyried hyder staff yn y trefniadau, a'r hyn rydym wedi'i ddysgu o ddatgeliadau blaenorol.

173 Ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn olynol, gofynnwyd i staff yn ein harolwg staff ym mis Hydref 2021 (yr ymatebodd 84% o'r staff iddo), i raddio eu hymateb i'r datganiad canlynol ar raddfa o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf: 'Rwy'n hyderus, pe bawn yn codi pryder o dan drefniadau chwythu'r chwiban fy sefydliad, y byddai'n cael ei ymchwilio'n briodol. ' Atebodd 78% o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg 'yn cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' i'r cwestiwn hwn, a gwnaeth 13% arall nodi 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' (yn arolwg Hydref 2019, y ffigurau cyfatebol oedd 79% ac 14% yn y drefn honno). Er bod y canlyniad hwn yn dangos bod y trefniadau'n parhau i fod yn hyderus, mae'n awgrymu bod angen parhaus am waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau hynny ac yn hyderus ynddynt.

174 Er gwaethaf y pandemig yn ei gwneud yn ofynnol i staff weithio o bell am y rhan fwyaf o 2021-22, gwnaethom barhau i flaenoriaethu codi ymwybyddiaeth ar gyfer ein trefniadau chwythu'r chwiban o fewn ein rhaglen hyfforddi i ddechreuwyr newydd.

# Cydnabyddiaeth Ariannol ac adroddiad staff

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

175 Y Senedd sy'n pennu tâl yr Archwilydd Cyffredinol ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, caiff ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael ei dalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn dryloyw, datgelir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad hwn ar gydnabyddiaeth ariannol. Yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

176 Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Adrian Crompton, gan y Frenhines a daeth i'w swydd ar 21 Gorffennaf 2018 am gyfnod anadnewyddadwy o wyth mlynedd.

**Costau cyflog a phensiwn yr Archwilydd Cyffredinol**

| | 2021-22 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn cyflogwr | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn cyflogwr |
| | £ | £ | £ | £ |
| Adrian Crompton | 150,000 | 45,450 | 150,000 | 45,450 |

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

177 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Senedd, dau aelod etholedig sy'n gyflogeion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i aelod enwebedig sy’n gyflogai, sef Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn o bryd.

178 Nid yw cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy ac fe'i pennir gan y Senedd. Yn achos y Cadeirydd, telir y gost yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, datgelir tâl y Cadeirydd yn yr adroddiad hwn.

179 Penodwyd y ddau aelod etholedig sy’n gyflogeion gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn dilyn pleidlais staff. Pennir y lwfans a gânt ar gyfer eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd gan aelodau anweithredol y Bwrdd a'u datgelu yn yr adroddiad hwn.

180 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol ar gyfer eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd.

## Mae'r wybodaeth ar dudalennau 86 i 95 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn destun archwiliad

### Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | Tâl/Lwfans | | Treuliau treth-gynhwysol[25] | | Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth** | | | | | | |
| Lindsay Foyster (Chair)[26] | 25,000 | 18,212 | – | – | 25,000 | 18,212 |
| David Francis | 12,500 | 12,500 | – | – | 12,500 | 12,500 |
| Alison Gerrard | 12,500 | 12,500 | | 33 | 12,500 | 12,533 |
| Elinor Gwynn[27] | 12,500 | 6,250 | – | – | 12,500 | 6,250 |
| Ian Rees[28] | 12,500 | 5,712 | 59 | – | 12,559 | 5,712 |
| Anne Beegan[29] | 4,167 | 4,167 | – | – | 4,167 | 4,167 |
| Adam Marshall[29] | 2,912 | – | | – | 2,912 | – |

25 Gall aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgor anweithredol wneud cais am gostau teithio a threuliau ar gyfer busnes sy'n gysylltiedig ag Archwilio Cymru. Caiff atebolrwydd treth personol y treuliau hyn ei bennu gan Swyddfa Archwilio Cymru.

26 Penodwyd Lindsay Foyster yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ar 17 Hydref 2020. Talwyd ei chydnabyddiaeth ariannol fel aelod o'r Bwrdd (£6,787) gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd ei chydnabyddiaeth ariannol fel Cadeirydd (£11,425) ei dalu'n uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru.

27 Penodwyd Elinor Gwynn i'r Bwrdd ar 1 Hydref 2020.

28 Penodwyd Ian Rees i'r Bwrdd ar 17 Hydref 2020.

29 Anne Beegan ac Adam Marshall yw aelodau'r Bwrdd sy'n gyflogeion. Mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau aelodau'r Bwrdd yn unig. Etholwyd Adam Marshall yn Aelod o'r Bwrdd sy'n gyflogai yn Gorffennaf 2021 yn dilyn ymadawiad Amanda Hughes.

| | Tâl/Lwfans | | Treuliau treth-gynhwysol[25] | | Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Aelodau blaenorol y Bwrdd** | | | | | | |
| Isobel Everett (Cyn Gadeirydd)[30] | – | 13,575 | – | – | – | 13,575 |
| Bill Richardson[31] | – | 6,250 | – | – | – | 6,250 |
| Amanda Hughes[32] | 891 | 4,167 | – | – | 891 | 4,167 |
| **Cyfanswm** | **82,970** | **83,333** | **59** | **33** | **83,029** | **83,366** |

30 Daeth cyfnod swydd Isobel Everett fel Cadeirydd i ben ar 16 Hydref 2020.

31 Ymddiswyddodd Bill Richardson o'r Bwrdd ar 30 Medi 2020.

32 Roedd Amanda Hughes yn aelod o'r Bwrdd cyflogedig nes iddi adael Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2021. Mae'r lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau aelodau'r Bwrdd yn unig.

## Aelodau anweithredol o'r pwyllgor

181 Penododd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC).

**Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau ARAC**

| | Tâl/Lwfans | | Treuliau treth-gynhwysol | | Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Dianne Thomas[33] | 1,250 | 5,000 | – | – | 1,250 | 5,000 |
| Andrew Clark[34] | 3,750 | – | – | – | 3,750 | – |
| **Cyfanswm** | **5,000** | **5,000** | **–** | **–** | **5,000** | **5,000** |

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

182 Mae polisi cyflog Swyddfa Archwilio Cymru a manylion ystodau cyflog yr holl staff ar gael ar ein gwefan.

183 Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar unrhyw delerau ac amodau a benderfynir gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth ariannol pob aelod o staff yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd o dan strategaethau a bennir gan y Bwrdd ac mewn ymgynghoriad ag undebau llafur o dan gytundeb cyfunol. Mae tâl yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

184 Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal penodiadau sy'n benagored, oni bai eu bod ar gontractau cyfnod penodol. Byddai terfynu'n gynnar, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

33 Ymddiswyddodd Dianne Thomas fel aelod annibynnol o ARAC ym mis Mehefin 2021.

34 Penodwyd Andrew Clark yn aelod annibynnol o ARAC ar 1 Gorffennaf 2021.

185 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu taliadau bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelod o staff ond mae ganddo drefniadau arfarnu perfformiad sy'n atal cynyddrannau cyflog os yw perfformiad yn llai na boddhaol nes iddynt gyrraedd brig eu band cyflog.

186 Yn ystod 202 1-22, ni wnaed unrhyw daliadau i aelodau blaenorol o staff y byddai eu tâl wedi'i ddatgelu. (2020-21: Dim).

**Cyfanswm y tâl ar gyfer uwch reolwyr**

187 Details of the remuneration and pension interests of Director members of the Executive Leadership Team are provided in the following table. Employee members attend meetings of the Executive Leadership Team on a rotational basis, receive no additional remuneration for these duties and membership of the Executive Leadership Team does not form a substantive part of their role, and hence their salaries are not disclosed here.

**Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022**

| | Cyflog[35] | Budd Pensiwn[36] | Cyfanswm y ffigur unigol o gydnabyddiaeth ariannol |
|---|---|---|---|
| | Bandiau o £5,000 | I'r £1,000 agosaf | Bandiau o £5,000 |
| Kevin Thomas | 120-125 | 21 | 140-145 |
| Ann-Marie Harkin | 100-105 | 93 | 195-200 |
| Anne-Louise Clark | 95-100 | 39 | 135-140 |

35 Cyflog yn cynnwys misol lwfans gweithio gartref di-dreth o £26 a delir i bob gweithiwr.

36 Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog[37] | Treuliau Trethadwy[38] | Budd Pensiwn | Cyfanswm y ffigur unigol o |
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | I'r £1,000 agosaf | Bandiau o £5,000 |
| Aelodau presennol y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol | | | | |
| Kevin Thomas | 120-125 | 1,400 | 53 | 175-180 |
| Ann-Marie Harkin[39] | 95-100 | – | 56 | 150-155 |
| Anne-Louise Clark[40] | 10-15 | – | 5 | 15-20 |
| Cyn-aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol | | | | |
| Anthony Barrett[41] | 60-65 | – | 27 | 85-90 |
| Mike Usher[42] | 50-55 | – | 28 | 80-85 |
| Steve O'Donoghue[43] | 85-90 | – | 81 | 170-175 |

188 Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar ein gwefan.

37 Yn cynnwys cyflog gros a lwfans teithio yn 2020-21.

38 Sef gwerth treth-gynhwysol taliadau ar gyfer teithio i brif le gwaith (2020-21 yn unig).

39 Penodwyd Ann-Marie Harkin yn Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ar 1 Mawrth 2021. Cyn y dyddiad hwnnw roedd yn aelod Gyfarwyddwr o'r Tîm Arwain Gweithredol.

40 Ymunodd Anne-Louise Clark ag Archwilio Cymru ar 15 Chwefror 2021 (cyflog cyfwerth â blwyddyn gyfan yn yr ystod 95-100).

41 Gadawodd Anthony Barrett Archwilio Cymru ym mis Medi 2020 (cyflog cyfwerth â blwyddyn gyfan yn yr ystod 120-125). Yn ogystal â'r cyflog a ddatgelwyd uchod, derbyniodd daliad iawndal ymadael gwirfoddol o £178,449.

42 Gadawodd Mike Usher Archwilio Cymru ym mis Medi 2020 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn yr ystod 105-110). Yn ogystal â'r cyflog a ddatgelwyd uchod, derbyniodd daliad iawndal ymadael gwirfoddol o £140,000.

43 Gadawodd Steve O'Donoghue Archwilio Gadawodd Steve O'Donoghue Archwilio Cymru ym mis Chwefror 2020 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn yr ystod 100-105).

### Hawliau pensiwn ar gyfer aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

189 Fel pob aelod o staff, mae gan aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol fynediad i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae manylion y cynllun hwn i'w gweld yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

190 Mae hawliau pensiwn aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i'w gweld isod.

| | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2022 | CETV ar 31 Mawrth 2021 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Kevin Thomas | 70-75 | 0-2.5 | 1,220 | 1,151 | 3 |
| Ann-Marie Harkin | 40-45 a chyfandaliad o 105-110 | 2.5-5 a chyfandaliad o 5-7.5 | 922 | 791 | 80 |
| Anne-Louise Clark | 0-5 | 0-2.5 | 37 | 4 | 26 |

### Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)

191 Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol a asesir gan actiwari. Y buddion a gaiff ei brisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

192 Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Caiff CETV eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

193 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Datgelu tâl teg**

194 Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng y Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn Archwilio Cymru a chydnabyddiaeth gyfartalog ein gweithlu[44].

195 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, lwfans teithio a lwfans gweithio gartref. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, taliadau diswyddo na CETV pensiynau.

| | 2021-22 | 2020-21 | % newid |
|---|---|---|---|
| Pwynt canol o gyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (£'000) | £113,631 | £112,831 | 0.7% |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth gyfartalog yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn | £47,938 | £47,701 | 0.5% |

196 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf a thâl canolrif, 25ain a 75fed canradd ein gweithlu.

44 Gofyniad newydd ar gyfer 2021-22 fesul FReM 6.3.19

| Blwyddyn | Cymhareb cyflog 25ain canradd | Cymhareb cyflog canolrifol | 75fed cymhareb cyflog canradd |
|---|---|---|---|
| 2021-22 | 4.10 | 2.62 | 2.00 |
| 2020-21 | 4.16 | 2.67 | 2.05 |

197 Mae'r gostyngiad yn y cymarebau cyflog rhwng 2020-21 a 2021-22 yn adlewyrchu newid i gydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn dilyn ailstrwythuro'r rheolwyr ym mis Chwefror 2021.

198 Yn 2021-22, ni dderbyniodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth ariannol yn fwy na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (2020-21: dim).

199 Er mwyn bod yn dryloyw, roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol o £150,000 (ac eithrio cyfraniadau pensiwn) yn cynrychioli 3.18 gwaith cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Archwilio Cymru (cymhareb 2020-21: £150,000: 3.24).

**Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres**

200 Nid fu gennym unrhyw gontractau yn ystod 2021-22 a oedd yn bodloni diffiniad Trysorlys EM o ymrwymiadau oddi ar y gyflogres (2020-21: dim)[45].

**Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar, a diswyddiadau**

201 Mae trefniadau diswyddo gwirfoddol yn cael eu gweithredu yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil a gofynion cynllunio'r gweithlu.

202 Ystyrir ceisiadau i adael yn wirfoddol gan ddefnyddio templed achos busnes sy'n sgorio'r ad-daliad a ragwelir, gofynion y gweithlu yn y dyfodol ac unrhyw risgiau posibl o ran parhad busnes. Caiff achosion busnes eu hystyried a'u llunio gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol cyn i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol benderfynu arnynt. Mae ceisiadau gan uwch gyfarwyddwyr, ac unrhyw geisiadau a gynigir i'w cymeradwyo gyda chost o £95,000 neu uwch, yn destun craffu pellach gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a chymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd.

203 Cost y cynllun yn 2021-22 oedd £DIM (2020-21: £430,012).

204 Yn ystod 2021-22, ni chytunodd unrhyw gyflogeion (2020-21: wyth) ar becynnau ymadael cymeradwy fel y nodir isod.

205 Ni chafwyd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2021-22 (2020-21: dim).

45 Ddim yn destun archwiliad.

| | Nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|
| | **2021-22** | **2020-21** |
| Llai na £25,000 | – | 2 |
| £25,001-£50,000 | – | 2 |
| £50,001-£100,000 | – | 4 |
| £100,001-£150,000 | – | – |
| £150,001-£200,000 | – | – |
| **Cyfanswm** | **–** | **8** |

# Adroddiad staff

## Uwch arweinwyr

206 Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch staff yn ôl band cyflog ar 31 Mawrth 2022.

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| Band A (£98,664-£122,275) | 3 | 3 |
| Band C (£75,418-£93,890) | 7 | 6 |
| **Cyfanswm** | **10** | **9** |

## Niferoedd staff

207 Gostyngodd nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn o dri, gan adlewyrchu cynnydd yn nifer y swyddi gwag yn ystod y flwyddyn.

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn, yn y DU a gyflogir yn ystod y flwyddyn | 200 | 200 |
| Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn, yn y DU, ar gontractau cyfnod penodol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn | 59 | 63 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn) | 4 | 3 |
| **Cyfanswm** | **263** | **266** |

## Staff a chostau cysylltiedig

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau staff | 11,833 | 11,866 |
| Staff ar secondiad | – | – |
| Staff contract tymor byr | 132 | 111 |
| Cydnabyddiaeth pwyllgor anweithredol | 63 | 63 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,306 | 1,354 |
| Costau pensiwn (PCSPS) | 3,223 | 3,130 |
| Costau pensiwn (pensiynau cyfranddeiliaid) | 32 | 40 |
| | **16,589** | **16,564** |
| Lwfans teithio | 1,735[46] | 642 |
| Tanysgrifiadau[47] | 59 | 66 |
| | **18,383** | **17,272** |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 59 | 185 |
| | **18,442** | **17,457** |
| Costau diswyddo, ymddeol yn gynnar, a diswyddo[48] | (20) | 124 |
| Gan dynnu arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau tuag allan | – | (31) |
| | **18,422** | **17,550** |

46 Mae'n cynnwys £1.086 miliwn o daliad ymlaen llaw i ddileu'r hawl i Lwfans Teithio o fis Ebrill 2022.

47 Ffioedd am aelodaeth cyrff proffesiynol (£42,000), yswiriant bywyd (£17,000) a sgrinio iechyd (£DIM).

48 Yn cynnwys taliadau yn ystod y flwyddyn a rhyddhau darpariaeth yn rhannol a grëwyd yn 2020-21 (gweler Nodyn 11).

### Gwasanaethau prynu i mewn[49]

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | (4)[50] | 573 |
| Costau ymchwil ac ymgynghori eraill | 161 | 242 |
| | **157** | **815** |

208 Mae'r costau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau archwilio, arolygu, cyngor neu ymchwil. Yn 2020-21, roeddent hefyd yn cynnwys costau ddwywaith y flwyddyn ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol[51].

209 Mae'r costau ymgynghori ar gyfer 2021-22 yn cynnwys[52]:

- £41,000 mewn perthynas â thaliadau i Swyddfa'r Cabinet am gostau sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol
- £56,000 ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

210 Yn 2019-20 a 2020-21 cwblhaodd ein harchwilwyr allanol adolygiad gwerth am arian ar ein cynllun teithio. Ni chafwyd unrhyw wariant yn 2021-22. (2020-21: £11,000)[53]

**Nid yw'r wybodaeth ganlynol ar dudalennau 97 i 101 yn yr Adroddiad Ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn destun archwiliad**

### Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth

211 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y fframwaith amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

212 Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff ein hunain a'r rhai y deuwn i gysylltiad â nhw yn ystod ein gwaith, ac rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

49 Heb gynnwys TAW.

50 Gwrthdroi croniad y flwyddyn flaenorol.

51 Ddim yn destun archwiliad.

52 Ddim yn destun archwiliad.

53 Cost lawn £35,000 rhwng 2019-20 a 2020-21.

213 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Adroddiad Cydraddoldeb blynyddol ar gyfer 2020-21yn rhoi gwybodaeth am faterion cyflogaeth megis materion amrywiaeth a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth. Cyhoeddir ein hadroddiad ar gyfer 2021-22 yn ddiweddarach yn 2022 a bydd yn cynnwys manylion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y flwyddyn.

214 Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau triniaeth deg a chyfartal i'r holl staff sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi'n darparu ar gyfer cydraddoldeb o ran dethol ar gyfer cyflogaeth, recriwtio, hyrwyddo, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig ar ddawn a gallu yn unig yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

**Cyfansoddiad staff (nifer y bobl a gyflogir ar 31 Mawrth 2022**

| | Gwryw | Benyw | Gwell ganddynt beidio â dweud | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Uwch arweinwyr | 7 | 3 | – | 10 |
| Gweithwyr eraill | 116 | 144 | 8 | 268 |
| **Cyfanswm** | **123** | **147** | 8 | **278** |

**Absenoldeb oherwydd salwch**

| | 2021-22 Dyddiau | 2020-21[54] Dyddiau |
|---|---|---|
| Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul aelod o staff | 5.8 | 5.6 |
| • Oherwydd absenoldeb tymor byr | 2.5 | 2.1 |
| • Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau > 21 diwrnod) | 3.3 | 3.5 |

54 Ailddatganwyd oherwydd problemau gydag adroddiadau data yn 2020-21.

215 Cynyddodd lefelau salwch staff yn 2021-22 ychydig o 2020-21 i ychydig o fewn ein targed o chwe diwrnod. Yn benodol, gwelsom gynnydd mewn absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID (gan gynnwys effaith COVID hir ) o 0.45 diwrnod fesul aelod o staff yn 2020-21 i 1.36 diwrnod fesul aelod o staff yn 2021-22.

216 Er mwyn helpu ein gweithwyr i reoli eu hiechyd, mae gennym Sgrinio Iechyd[55], brechiadau ffliw blynyddol, Rhaglen Cymorth i Weithwyr, Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, a rhaglen o ddigwyddiadau llesiant.


217 Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gydnabod effaith y pandemig ar les staff, gwnaethom roi cymorth llesiant ychwanegol ar waith a phwysleisiwyd y mantra 'hunan, teulu, gwaith', yn y drefn honno, ar gyfer yr holl staff.

**Ein gweithlu**

| | **2021-22 %** | **2020-21 %** |
|---|---|---|
| Patrymau gweithio | | |
| Gweithwyr rhan-amser fel canran o'r cyfanswm yn ôl rhyw | 16.9 | 17.1 |
| • Ar gyfer dynion | 8.9 | 9.0 |
| • Ar gyfer menywod | 23.8 | 24.0 |
| • Y rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud | 12.5 | – |
| Math o gontract cyflogaeth | | |
| Canran y staff ar gontractau parhaol | 77.2 | 76.0 |
| Trosiant | | |
| Canran cyfradd trosiant staff blynyddol | 10.09 | 9.23 |

55 Cafodd sgrinio iechyd ei ohirio yn 2020-21 a 2021-22 oherwydd effaith pandemig COVID.

Mae'r graff canlynol yn dangos y cyfrannau perthnasol o weithwyr rhan-amser a llawn-amser yn ôl rhyw ar draws y gweithlu cyfan.




218 Mae cyfran y gweithwyr rhan-amser wedi aros yr un fath yn fras ag ar gyfer 2020-21.

219 Cynyddodd canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol ychydig yn 2021-22. Mae cyfran y staff sydd â chontractau nad ydynt yn rhai parhaol yn cynnwys hyfforddeion graddedig a phrentisiaid yn bennaf ar gontractau hyfforddi cyfnod penodol a'n staff archwilio tymhorol.

220 Mae ein cyfradd trosiant staff flynyddol yn 2021-22 wedi cynyddu i dros 10%. Mae llawer o'n trosiant yn ymwneud â hyfforddeion graddedig a phrentisiaid a gyflogir ar gontractau cyfnod penodol sy'n dod i ben ac sy'n cael eu disodli gan ddechreuwyr newydd ynghyd ag ymadawiadau gwirfoddol y cytunwyd arnynt yn 2020-21.

### Amser Cyfleuster Undebau Llafur

221 Mae polisi Swyddfa Archwilio Cymru ar amser Undebau Llafur yn ymrwymo i amser â thâl ar gyfer dyletswyddau undebau llafur sy'n cyfateb i 0.6 diwrnod fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn[56].

222 Ar gyfer 2021-22, roedd hyn yn cyfateb i ddyraniad o 158 diwrnod ar gyfer gweithgareddau undebau llafur. Yn 2021-22, roedd yr amser gwirioneddol a dreuliwyd yn cyfateb i 203 diwrnod. Roedd yr amser ychwanegol hwn yn ymwneud â gwaith a wnaed gan yr Undebau Llafur i ymateb i ymgynghoriad ar ddileu Lwfans Teithio ar gyfer ein staff archwilio.

56 Yn seiliedig ar 263 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd.

223 Ceir data ar amser a chostau yn 2021-22 fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleusterau) 2017 isod.

**Swyddogion undeb perthnasol**

| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod 2021-22 | Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 4 | 3.5 |

**Canran yr amser a dreulir ar amser cyfleusterau**

| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| 1-50% | 4 |

**Canran y bil cyflog a dreulir ar amser cyfleusterau**

| | |
|---|---|
| Cost amser cyfleuster | £76,368 |
| Cyfanswm y bil cyflog | £16.589 miliwn |
| Canran cyfanswm y bil cyflog a wariwyd ar amser cyfleusterau | 0.46% |

# Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

## Crynodeb o alldro adnoddau 2021-22

**Mae'r wybodaeth ar dudalennau 102 i 107 yn destun archwiliad.**

224 Mae'r datganiad hwn yn rhoi cymhariaeth o'r Amcangyfrif[57] ar gyfer 2021-22, fel y pleidleisiodd y Senedd, gydag incwm a gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn.

**Crynodeb o alldro adnoddau 2021-22**

| | | Amcangyfrif 2021-22 | | | Alldro 2021-22 | | | | Alldro 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodyn | | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Alldro net o'i gymharu a'r Amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 |
| SORO1 a 2 | Cyllid | 23,739 | 14,461 | 9,278 | 21,448 | 12,942 | 8,506 | (772) | 7,633 |
| SORO1 | Cyfalaf | 350 | – | 350 | 212 | | 212 | (138) | 229 |
| | Cyfanswm yr Adnoddau | 24,089 | 14,461 | 9,628 | 21,660 | 12,942 | 8,718 | (910) | 7,862 |
| SORO3 | Gofyniad arian parod net | 8,368 | – | 8,368 | 8,292 | | 8,292 | (76) | 7,173 |

57 Gan gynnwys Amcangyfrif Atodol 2021-22.

225 Yn deillio o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22:

- roedd cyfanswm net yr alldro ar adnoddau refeniw £772,000 yn llai na'r adnoddau net cymeradwy o £9,278,000;
- roedd yr alldro ar wariant cyfalaf £138,000 yn llai na'r gyllideb gyfalaf gymeradwy o £350,000; a
- dangosir bod gweddill yr arian parod a ddelir gan Swyddfa Archwilio Cymru (£76,000) yn ganlyniad i Gronfa Gyfunol Cymru a chaiff ei ddychwelyd drwy addasiad gweinyddol yn 2022-23.

226 Ceir esboniad o effeithlonrwydd cost yn Swyddfa Archwilio Cymru yn y crynodeb rheolaeth ariannol ar dudalen 50.

227 Rheolir incwm ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae dadansoddiad o'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

## Nodiadau i'r crynodeb o alldro adnoddau

### Nodyn SORO1: dadansoddiad o alldro adnoddau net 2021-22

| Alldro 2020-21 £'000 | | Amcangyfrif 2021-22[58] £'000 | Alldro 2021-22 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiadau sylweddol o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Treuliau** | | | | |
| 16,317 | Costau staff | 17,303 | 16,201 | (1,102) | Yn cynnwys arbedion o swyddi gwag uwch na'r disgwyl |
| 296 | Staff contractio | 311 | 191 | (120) | |
| 642 | Lwfans teithio[59] | 746 | 649 | (97) | Yn cynnwys arbedion o swyddi gwag staff |
| | Taliad ymlaen llaw lwfans teithio | 1,480 | 1,086 | (394) | Llai na'r hyn a ganiateir ar gyfer hawlio taliad ymlaen llaw. |
| 23 | Teithio a chynhaliaeth | 257 | 33 | (224) | Roedd yr amcangyfrif yn rhagweld y byddai rhywfaint o ddychwelyd i deithio, ond cyfyngwyd ar hyn oherwydd COVID. |
| 862 | Llety | 964 | 852 | (112) | Arbedion o ganlyniad i gau swyddfeydd a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw is na'r disgwyl. |
| 684 | Cwmnïau'r sector preifat | – | | | |
| 461 | TAW anadferadwy | 500 | 413 | (87) | Yn gysylltiedig â llai o wariant ar gostau nad ydynt yn gostau staff |
| 575 | TGCH | 602 | 493 | (109) | Arbedion ar gostau meddalwedd |
| 295 | Llywodraethu Archwilio Cymru | 295 | 295 | – | |
| 279 | Hyfforddiant allanol | 278 | 245 | (33) | |
| 138 | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 222 | 204 | (18) | |

58 Amcangyfrif Atodol 2021-22.

59 Yn cynnwys taliad ymlaen llaw y cytunwyd arno ar gyfer 2021-22.

| Alldro 2020-21 £'000 | | Amcangyfrif 2021-22[58] £'000 | Alldro 2021-22 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiadau sylweddol o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| 70 | Cyfieithu dogfennau | 120 | 87 | (33) | Canlyniad adroddiadau byrrach sy'n cael eu gyrru gan ddata |
| 953 | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 661 | 699 | 38 | |
| **21,595** | **Cyfanswm y Treuliau** | **23,739** | **21,448** | **(2,291)** | |
| | **Incwm** | | | | |
| (13,009) | Ffioedd archwilio | (13,671) | (11,884) | 1,787 | Gostyngiad mewn incwm ffioedd sy'n gysylltiedig â swyddi gwag staff yn ystod y flwyddyn. |
| (913) | Ffioedd ardystio grantiau | (790) | (1,052) | (262) | Yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol sydd ei angen ar nifer o hawliadau grant. |
| (40) | Incwm arall | – | (6) | (6) | |
| **(13,962)** | **Cyfanswm yr incwm** | **(14,461)** | **(12,942)** | **1,519** | |
| **7,633** | **Adnoddau refeniw net** | **9,278** | **8,506** | **(772)** | |
| **229** | **Adnoddau cyfalaf** | **350** | **212** | **(138)** | |

### Nodyn SORO 2 – Amcangyfrif Atodol 2021-22

Cymeradwyodd y Senedd Amcangyfrif Atodol o £1.48 miliwn ar gyfer 2021-22 i ariannu taliad ymlaen llaw i staff cymwys fel iawndal am ddileu eu hawl gytundebol i gael Lwfans Teithio. Cytunwyd ar hyn yn dilyn ymgynghoriad â'r staff mewn ymateb i adolygiad gwerth am arian ein Cynllun Teithio a gynhaliwyd yn 2019 gan ein harchwilwyr allanol.

Roedd y staff yn cael dewis rhwng taliad ymlaen llaw neu barhau i dderbyn Lwfans Teithio tan fis Mawrth 2024. Roedd yr Amcangyfrif Atodol yn darparu i'r holl staff dderbyn y taliad ymlaen llaw hwn heb unrhyw gyfraniad o unrhyw danwariant gan Archwilio Cymru. Dewisodd 67% o'r staff cymwys daliad ymlaen llaw am gost o £1.086 miliwn a thalodd Archwilio Cymru £378,000 o'r gost o danwariant ar feysydd cyllideb eraill. Caiff y balans ei ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru drwy gyfrwng Amcangyfrif Atodol yn 2022-23 ac addasiad i'n Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24 fel y nodir isod.

| | **£’000** |
|---|---|
| Amcangyfrif Atodol 2021-22 | 1,480 |
| Taliadau ymlaen llaw | (1,086) |
| Tanwariant ar gyllidebau eraill Archwilio Cymru | 378 |
| Tanwariant Cronfa Gyfunol Cymru 2021-22 | 772 |
| Gostyngiad yn nifer y ceisiadau am adnoddau 2022-23 a 2023-24 | 708 |
| **Cyfanswm** | **1,480** |

## Nodyn SORO3: cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | 2021-22 | | | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Amrywiant | Alldro |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau refeniw | 9,278 | 8,506 | (772) | 7,633 |
| Adnoddau cyfalaf | 350 | 212 | (138) | 229 |
| **Addasiadau** | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (dibrisiant a cholled wrth waredu ased) | (280) | (217) | 63 | (283) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod: | | | | |
| • Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy a gwaith sydd ar y gweill | 500 | 1,767 | 17 | (866) |
| • (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy ac incwm gohiriedig | | (1,250) | | (3) |
| • Gostyngiad/(cynnydd) mewn darpariaethau | (1,480) | (726) | 754 | 463 |
| **Cyfanswm y gofyniad arian parod net** | **8,368** | **8,292** | **(76)** | **7,173** |

228 Mae'r Senedd yn pleidleisio'n flynyddol ar wariant ac incwm Swyddfa Archwilio Cymru a gyllidebwyd yn y dyfodol.

229 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau amodol o bell a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

230 Datgelir unrhyw daliadau arbennig a cholledion y gellir eu datgelu yn 2021-22 yn **Nodyn 14** i'r Datganiadau Ariannol.

# Adroddiad archwilwyr annibynnol i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

231 Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifau Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys polisïau cyfrifyddu sylweddol. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio.

232 Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

233 Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o'i chost weithredol net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Barn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

234 Rydym wedi ymgymryd â gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i gael sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i dynnu'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu a'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, heb ei wario heblaw at y diben neu'r dibenion hynny.

235 Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae’r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- nid yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hynny.

## Sail y farn ar y datganiadau ariannol

236 Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

237 Rydym hefyd yn archwilio'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y disgrifir yn yr adroddiad ei bod wedi'i harchwilio.

238 Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

## Sail y farn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

239 Mae'n ofynnol i ni gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 archwiliad o ddatganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

240 Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

241 Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

242 Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

243 Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad perfformiad a'r adroddiad atebolrwydd. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

244 Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

245 Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

246 Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

247 Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 52, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath fel Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru penderfynu yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

248 Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Senedd yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb barhau â'i gweithrediadau.

249 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i dynnu'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

250 Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

251 Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, i gyflawni gweithdrefnau archwilio i helpu i nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol, ac ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio a nodwyd neu yr amheuir ei fod yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

252 Mewn perthynas â thwyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad perthnasol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, cael digon o dystiolaeth archwilio briodol ynghylch y risgiau a aseswyd o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll drwy ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

253 Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb rheoli, gyda goruchwylio'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

254 Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, y tîm ymgysylltu archwilio:

- cael dealltwriaeth o rôl Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu ynddo a sut y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu gwaith nodi ac asesu eu hunain o risgiau afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll; a
- thrafod materion yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

255 O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym o'r farn mai'r cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n cwmpasu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM 21/22) sy'n cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU. Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau archwilio i ganfod achosion o beidio â chydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu datgeliadau datganiadau ariannol.

256 Y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith anuniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018. Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau archwilio i holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r rheoliadau hyn, wedi arolygu cofnodion pwyllgorau ac wedi adolygu datgeliadau datganiadau ariannol ar gyfer unrhyw achosion posibl o dorri amodau.

257 Nododd y tîm ymgysylltu archwilio y risg y byddai rheolwyr yn diystyru rheolaethau a chydnabyddiaeth refeniw fel y meysydd lle'r oedd y datganiadau ariannol yn fwyaf agored i gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd yn cynnwys ond nid oeddent yn gyfyngedig i brofi cofnodion cyfnodolion â llaw ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion a thrafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i'r cwrs busnes arferol, asesu a herio'r amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr o ran eu hasesiad a'u penderfyniad ar ganran y gwaith cytundebol a gwblhawyd a digonolrwydd y darpariaethau ar gyfer symiau na ellir eu hadennill, sy'n cynnwys adolygu a yw digwyddiadau sy'n digwydd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd yn cefnogi'r meini prawf cydnabod diwedd blwyddyn ac yn profi cywirdeb a dibynadwyedd y data y mae'r rheolwyr wedi dibynnu arno.

258 Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am farn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

259 Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd resymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i dynnu'n gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario heblaw at y diben neu'r dibenion hynny.

**Defnydd o'n hadroddiad**

260 Gwneir yr adroddiad hwn i Senedd Cymru yn unig yr ymdrinnir ag ef yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i'r Senedd y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw Swyddfa Archwilio Cymru na'r Senedd am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Mae RSM UK Audit LLP wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw hwn. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid RSM UK Audit LLP.

RSM UK Audit LLP
14 Mehefin 2022
Archwilwyr Statudol
Trydydd Llawr
Un Sgwâr Llundain
Cross Lanes
Guildford
GU1 1UN

# Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol o ran Swyddfa Archwilio Cymru, yn gyfochrog â nodiadau ategol ac esboniadol.

03

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | Adroddiad staff[60] | 18,422 | 17,550 |
| Gwasanaethau prynu i mewn | Adroddiad staff | 157 | 815 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 2,869 | 3,230 |
| | | **21,448** | **21,595** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm ffioedd archwilio | 1 | (12,936) | (13,922) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (6) | (40) |
| | | (12,942) | (13,962) |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **8,506** | **7,633** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 121 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

261 Nid oedd unrhyw weithrediadau, caffaeliadau na gwarediadau wedi'u terfynu yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion nas cydnabyddir.

60 Nodyn costau staff ar dudalen 86 o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 4 | 352 | 390 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 268 | 235 |
| | | **620** | **625** |
| Asedau cyfredol | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sydd ar y gweill | 6 | 4,070 | 2,375 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 580 | 508 |
| Arian parod ac arian cyfatebol | 8 | 76 | 1,270 |
| | | **4,726** | **4,153** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **5,346** | **4,778** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 9 | (2,019) | (2,051) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (3,635) | (2,353) |
| Darpariaethau | 11 | (1,026) | (367) |
| Cronfa Gyfunol Cymru | SORO | (76) | (1,270) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,756)** | **(6,041)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,410)** | **(1,263)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (713) | (646) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | **(713)** | **(646)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau** | | **(2,123)** | **(1,909)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (2,123) | (1,909) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **(2,123)** | **(1,909)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 121 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 116 i 140 gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 9 Mehefin 2022 ac fe'u llofnodir ar ei ran gan:



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

9 Mehefin 2022

# Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodi | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (8,506) | (7,633) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod: dibrisiant, amorteiddiad a cholled wrth waredu asedau | 3 | 217 | 283 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau | 11 | 726 | (463) |
| **Newidiadau mewn cyfalaf gweithio** | | | |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy, gwaith sydd ar y gweill a symiau derbyniadwy eraill | 6,7 | (1,767) | 699 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 9 | (32) | 8 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn incwm gohiriedig | 10 | 1,282 | 162 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(8,080)** | **(6,944)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 4 | (128) | (96) |
| Prynu asedau anniriaethol | 5 | (84) | (133) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(212)** | **(229)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 8,368 | 8,443 |
| Ad-dalwyd Cronfa Gyfunol Cymru | | (1,270) | (1,604) |
| **Ariannu net** | | **7,098** | **6,839** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | **(1,194)** | **(334)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 121 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

# Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | **£'000** |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **(1,449)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2020-21 | |
| Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr | (7,633) |
| Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 8,443 |
| | **(639)** |
| Oherwydd Cronfa Gyfunol Cymru | (1,270) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **(1,909)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2021-22 | |
| Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr | (8,506) |
| Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 8,368 |
| | **(2,047)** |
| Oherwydd Cronfa Gyfunol Cymru | (76) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **(2,123)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 121 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

# Nodiadau i'r datganiadau ariannol

262 Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FreM) 2021-22, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

## Sail y gwaith paratoi

263 Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u haddaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

264 Paratoir datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigurau mewn punnoedd sterling, sef arian gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u talgrynnir i'r £1,000 agosaf.

265 Paratoir y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir isod:

- mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio i drefniadau ariannu blynyddol yn ôl statud. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd yr adnoddau hyn ar gael gan y Senedd (cyllid y pleidleisir arno).
- mae'r ddeddfwriaeth yn datgan ymhellach bod yn rhaid i'r Senedd ystyried Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru yn flynyddol a rhaid iddo ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru os yw am newid yr Amcangyfrif hwn.
- ymdrinnir ag unrhyw newidiadau nas cynlluniwyd i incwm a gwariant mewn blwyddyn ariannol drwy gyfrwng Amcangyfrif Atodol y mae'n rhaid i'r Senedd ei ystyried.
- er mai dim ond am naw mis ar ôl dyddiad llofnodi'r datganiadau hyn y cymeradwywyd cyllid y pleidleisiwyd arno, bydd Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn hydref y flwyddyn gyfredol. Disgwylir, felly, y bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru ddigon o arian i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

266 Ni dderbyniodd Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw incwm a fyddai wedi bod yn atebol am dreth gorfforaeth yn 2021-22.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu beirniadol a meysydd barn

Mae **cydnabyddiaeth refeniw** yn seiliedig ar yr amser a godir ar brosiectau a addaswyd lle bo hynny'n berthnasol i adlewyrchu'r cam o gwblhau'r gwaith a wnaed. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn i ystyried rhesymoldeb yr incwm a gydnabyddir gan ystyried cost cwblhau prosiectau archwilio.

Cydnabyddir incwm yn gynyddol gan fod y rhwymedigaethau perfformiad sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau archwilio wedi'u bodloni dros amser.

Mae'r polisi cyfrifyddu hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar brisio incwm ffioedd archwilio (**Nodyn 1**) gwaith sydd ar y gweill (**Nodyn 6**) ac incwm gohiriedig (**Nodyn 10**) yn y datganiadau ariannol hyn.

Gwneir **darpariaethau** pan fo'n fwy tebygol na pheidio, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, bod atebolrwydd ariannol yn bodoli na ellir ei amcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd.

Mae'r ddarpariaeth dadfeilio yn amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru eu hysgwyddo wrth atgyweirio ei heiddo ar brydles ar ddiwedd y prydlesau.

Mae hyn wedi'i gronni drwy dâl dadfeiliad blynyddol, wedi'i gyfrifo drwy gymhwyso cyfradd dadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr asedau ar brydles ynghyd â'r gost amcangyfrifedig o adfer addasiadau a wnaed i eiddo ar brydles.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lwfans teithio yn cynrychioli, ar y cyfan, daliadau y cytunwyd arnynt yn 2021-22 a delir yn 2022-23. Mae'n cynnwys swm amcangyfrifedig bach i'w ddarparu ar gyfer newidiadau cytundebol ar ôl mis Ebrill 2022.

Gweler **Nodyn 11** am ragor o wybodaeth.

## Safonau cyfrifyddu newydd

267 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datgelu safonau cyfrifyddu nad ydynt wedi'u cymhwyso eto ac yn asesu'r effaith bosibl y byddai'r cais cychwynnol yn ei chael ar y datganiadau ariannol.

268 Mae un safon nad yw'n effeithiol eto a fydd yn effeithio ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, sef Prydlesi IFRS 16. Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob prydles arwyddocaol gael ei chydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol er mwyn cynyddu amlygrwydd ymrwymiadau prydlesu ac adlewyrchu realiti economaidd yn well. Mae'r broses o fabwysiadu'r safon hon gan yr FReM wedi'i ohirio tan 2022-23. Datgelir yr effaith a ragwelir ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru yn Nodyn 12 – Prydlesi.

**Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu**

269 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd ar gostau ac incwm ar draws ei thri segment gweithredu yn seiliedig ar wariant uniongyrchol heb unrhyw ddosrannu gorbenion. Ariennir y gost net sy'n deillio o hynny yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

270 O 2021-22, rydym yn adrodd ar incwm a gwariant yn unol â strwythur rheoli Gwasanaethau Archwilio, Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfathrebu a Newid a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2021 ac fel yr adroddwyd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

271 Mae'r Gwasanaethau Archwilio yn cynnwys y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r is-adrannau Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad blaenorol ynghyd â swyddogaethau cymorth uniongyrchol megis Datblygu Archwilio a Chanllawiau.

272 Mae'r Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys ein timau Gwasanaethau Busnes, y Gyfraith a Moeseg, Adnoddau Dynol, Cyllid a TGCh. Mae hefyd yn cynnwys costau swyddfeydd a darpariaeth TGCh.

273 Mae Cyfathrebu a Newid yn cynnwys y timau Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus, Cynllunio ac Adrodd a Newid.

274 Mae adroddiadau segmentaidd wedi'u hailddatgan ar gyfer 2020-21 i adlewyrchu'r newid hwn.

**2021-22**

| | Gwasanaethau Archwilio £'000 | Gwasanaethau Corfforaethol £'000 | Cyfathrebu a Newid £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ffioedd archwilio[61] | (12,936) | | | (12,936) |
| Incwm arall | | (6) | | (6) |
| Cyfanswm yr incwm | (12,936) | (6) | | (12,942) |
| Costau staff | 15,002 | 2,134 | 1,286 | 18,422 |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 493 | 2,252 | 281 | 3,026 |
| Cyfanswm Gwariant | 15,495 | 4,386 | 1,567 | 21,448 |
| Gwariant Net | 2,559 | 4,380 | 1,567 | 8,506 |

61 Gweler nodyn 1(b).

**2020-21 (Wedi'i ailddatgan[62])**

| | Gwasanaethau Archwilio | Gwasanaethau Corfforaethol | Cyfathrebu a Newid | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ffioedd archwilio | (13,922) | – | – | (13,922) |
| Incwm arall | (38) | (2) | – | (40) |
| Cyfanswm yr incwm | (13,960) | (2) | – | (13,962) |
| Costau staff | 14,713 | 1,652 | 1,185 | 17,550 |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 1,277 | 2,518 | 250 | 4,045 |
| Cyfanswm Gwariant | 15,990 | 4,170 | 1,435 | 21,595 |
| Gwariant Net | 2,030 | 4,168 | 1,435 | 7,633 |

**Nodyn 1 (b): Dadansoddiad o incwm ffioedd archwilio**

| | 2021-22 | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwiliad Ariannol | Archwiliad Perfformiad | Cyfanswm | Archwiliad Ariannol | Archwiliad Perfformiad | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwiliad Llywodraeth Leol | (4,791) | (2,328) | (7,119) | (5,410) | (2,367) | (7,777) |
| Ardystiad Grant Llywodraeth Leol | (1,052) | | (1,052) | (913) | – | (913) |
| Archwiliad y GIG | (1,921) | (1,147) | (3,068) | (1,888) | (1,396) | (3,284) |
| Archwiliad Llywodraeth Ganolog | (1,697) | | (1,697) | (1,948) | – | (1,948) |
| | (9,461) | (3,475) | (12,936) | (10,159) | (3,763) | (13,922) |

62 Er mwyn adlewyrchu'r newid yn strwythur rheoli yn effeithiol Chwefror 2021.

275 Pennir y ffioedd a godir am waith archwilio yn unol â Chynllun Ffioedd y cytunwyd arno gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

276 Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall ar werth gwaith trethadwy heb gynnwys TAW. Asesir y gwerth hwn drwy gyfeirio at daliadau amser a chwblhau prosiectau fesul cam.

277 Caiff incwm gweithredu ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff anfonebau a godir cyn i'r gwaith gael ei wneud eu hystyried yn incwm gohiriedig (gweler **Nodyn 10**). Mae gwaith a wneir cyn yr incwm a dderbynnir yn cael ei ystyried yn waith sydd ar y gweill (gweler **Nodyn 6**).

278 Nid yw cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth ac mae'n cael ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

279 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymhwyso gofynion IFRS 15 i incwm a enillir o archwiliadau talu ffioedd a gwasanaethau eraill.

280 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod un rhwymedigaeth perfformiad unigol ar gyfer pob ymgysylltiad a nodir fel amcan yr aseiniadau hyn yn y Llythyr Ymgysylltu. Yn achos archwiliadau, cynhyrchir allbynnau eraill, megis adroddiadau interim ac adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r corff a archwilir, yn ystod aseiniadau archwilio, ond mae'r allbynnau eraill hyn yn rhan annatod o'r farn archwilio: maent yn gysylltiedig iawn â chyflawni'r dystysgrif neu'r adroddiad archwilio, felly nid ydynt yn gymwys fel rhwymedigaethau perfformiad penodol.

281 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod y rhwymedigaethau perfformiad a ddisgrifir uchod wedi'u bodloni dros amser yn hytrach nag ar adeg. Y rheswm am hyn yw nad yw perfformiad yr ymgysylltu yn creu ased gyda defnydd amgen i Swyddfa Archwilio Cymru ac mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hawl orfodadwy i dalu am berfformiad a gwblhawyd hyd yma. Mae'r rhan fwyaf o'r archwiliadau ar gylch blynyddol. Cytunir ar y ffi (sy'n seiliedig ar gostau amcangyfrifedig) a'r amserlen anfonebu rhwng y timau aseinio unigol a'r cleient. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hawl i adennill costau mewn perthynas â gwaith a gwblhawyd hyd yma ar unrhyw adeg o'r archwiliad.

282 Cydnabyddir refeniw mewn perthynas â chwblhau canrannol yn erbyn costau a gyllidebwyd. Cydnabyddir incwm wrth i'r gwasanaethau gael eu darparu, a bennir drwy gyfeirio at gyfran y costau a gyllidebwyd a wariwyd hyd yma ar gyfer pob ymgysylltiad, llai darpariaeth ar gyfer unrhyw symiau na ellir eu hadennill. Mae hyn yn rhoi darlun ffyddlon o drosglwyddo gwasanaethau oherwydd natur y gwaith yw bod costau amser staff yn cynrychioli cynnydd tuag at foddhad y rhwymedigaeth perfformiad. Mae perthynas uniongyrchol rhwng y mewnbynnau hyn a throsglwyddo gwasanaethau i'r cleient archwilio.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall[63] | (6) | (40) |
| | (6) | (40) |

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | | |
| • Costau prydles rhent | 473 | 457 |
| • Costau llety eraill | 379 | 405 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau[64] | 1,351 | 1,539 |
| Recriwtio | 21 | 103 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 217 | 283[65] |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| • Gwasanaethau archwilio mewnol | 61 | 42 |
| • Gwasanaethau archwilio allanol | 46 | 45 |
| • Ffioedd proffesiynol eraill | 43 | 54 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | 33 | 23 |
| Dysgu a datblygu staff | 245 | 279 |
| | **2,869** | **3,230** |

63 Yn cynnwys ad-daliadau ac ad-daliadau ar gyfer costau hyfforddi ac incwm CJRS (ffyrlo) ar gyfer staff contract tymhorol (2020-21 yn unig).

64 Yn cynnwys TAW na ellir ei hadennill. Mae'r holl gyfansymiau eraill yn y nodyn hwn yn net o TAW.

65 Yn cynnwys £5,000 colled wrth waredu asedau (2020-21 yn unig).

## Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2021-22** | | | | |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,345 | 756 | 160 | 2,261 |
| Ychwanegiadau | 50 | 70 | 8 | 128 |
| Gwarediadau | (31) | (45) | (37) | (113) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 1,364 | 781 | 131 | 2,276 |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,158 | 606 | 107 | 1,871 |
| Codir tâl yn ystod y cyfnod | 74 | 69 | 22 | 165 |
| Gwarediadau | (30) | (45) | (37) | (112) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 1,202 | 630 | 92 | 1,924 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 162 | 151 | 39 | 352 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 187 | 150 | 53 | 390 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 162 | 151 | 39 | 352 |

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2020-21** | | | | |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 1,339 | 674 | 160 | 2,173 |
| Ychwanegiadau | 14 | 82 | – | 96 |
| Gwarediadau | (8) | – | – | (8) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 1,345 | 756 | 160 | 2,261 |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 1,096 | 477 | 83 | 1,656 |
| Codir tâl yn ystod y cyfnod | 70 | 129 | 24 | 223 |
| Gwarediadau | (8) | – | – | (8) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 1,158 | 606 | 107 | 1,871 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 187 | 150 | 53 | 390 |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 243 | 197 | 77 | 517 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 187 | 150 | 53 | 390 |

283 Mae gwariant o dros £5,000 ar offer a meddalwedd cyfrifiadurol, adnewyddu swyddfeydd ac offer arall yn cael ei gyfalafu. Caiff gwariant dilynol ar asedau sy'n bodloni'r meini prawf hyn ei gyfalafu ymhellach. Caiff gwariant ar eitemau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn ei drin fel gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn.

284 Nodir PPE ar gost hanesyddol llai dibrisiant a nam cronedig ac nid yw'n cynnwys TAW.

285 Darperir dibrisiant ar bob ased cyfalaf o'r dyddiad y bydd yr ased yn dechrau ar ei fywyd defnyddiol. Cyfrifir hyn i ddileu'r gost mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal dros ei fywyd economaidd ar gyfer pob ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn, ffitiadau a seilwaith TG | Deng mlynedd (neu fyrrach o fywyd asedau neu hyd y brydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau ar brydles) |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

286 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd cyfredol ac ar eu cost dibrisiedig. Cynhelir asesiad blynyddol o nam i gadarnhau bod hyn yn parhau i fod yn wir.

287 Mae asedau PPE yn cael eu hadolygu ar gyfer nam pryd bynnag y bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos na ellir adennill y swm cario. Cydnabyddir colled o ran lleihad mewn gwerth y swm y mae swm cario'r ased yn fwy na'r swm adenilladwy. Swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg ased llai costau gwaredu a gwerth mewn defnydd.

## Nodyn 5: Asedau anniriaethol[66]

| | £'000 |
|---|---|
| **2021-22** | |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 687 |
| Ychwanegiadau | 84 |
| Gwarediadau | (15) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 756 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 451 |
| Codwyd tâl yn y cyfnod | 52 |
| Gwarediadau | (15) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 488 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 268 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 235 |
| **Cyllido asedau** | |
| Mewn perchnogaeth | 268 |

66 Meddalwedd gyfrifiadurol yn bennaf.

| | £'000 |
|---|---|
| **2020-21** | |
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 572 |
| Ychwanegiadau | 133 |
| Gwarediadau | (19) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 686 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 410 |
| Darparwyd yn y cyfnod | 55 |
| Gwarediadau | (14) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 451 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 235 |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 162 |
| **Cyllido asedau** | |
| Mewn perchnogaeth | 235 |

288 Caiff asedau anniriaethol eu datgan fel cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio heb gynnwys TAW. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros y byrraf o gyfnod y drwydded neu bum mlynedd. Cyfrifir amorteiddiad o'r dyddiad y mae'r ased yn cychwyn ei oes ddefnyddiol.

289 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd cyfredol ac ar eu cost wedi'i dibrisio. Cynhelir asesiad blynyddol o amhariad i gadarnhau bod hyn yn dal i fod yn wir.

290 Adolygir asedau anniriaethol ar gyfer amhariad pryd bynnag y bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos na ellir adennill y swm cario ymlaen. Cydnabyddir colled drwy amhariad yn ôl faint yn fwy y maer swm cario ymlaen yr ased na'r swm adenilladwy. Y swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg ased ar ôl tynnu costau gwaredu a gwerth mewn defnydd.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith ar y gweill

| | 31 Mawrth 2022 £’000 | 31 Mawrth 2021 £’000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 465 | 66 |
| • Llywodraeth Leol | 1,105 | 514 |
| • Y GIG | 1,233 | 308 |
| • Y tu allan i'r llywodraeth | 116 | 7 |
| Gwaith ar y gweill | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 455 | 813 |
| • Llywodraeth Leol | 652 | 577 |
| • Y GIG | 44 | 90 |
| | 4,070 | 2,375 |

### Symiau masnach derbyniadwy

291 Caiff symiau derbyniadwy eu prisio ar sail gwerth teg wrth eu cydnabod yn wreiddiol a chânt eu mesur wedi hynny ar sail cost wedi’i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw lwfans ar gyfer colledion credyd disgwyliedig. Ar gyfer 2021-22 mae'r ffigurau'n net o golledion credyd disgwyliedig o £33,000 (2020-21: Dim).

292 Mae cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru fwy neu lai i gyd yn adrannau llywodraeth neu'n gyrff cyhoeddus eraill a ariennir yn bennaf gan y Senedd – ffynhonnell ariannu ddibynadwy heb unrhyw hanes o ddiffygdaliadau o ran ffioedd archwiliad. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei hamlygu i risgiau credyd sylweddol felly.

293 Nid oes unrhyw symiau perthnasol a fydd yn ddyledus ar ôl un flwyddyn wedi’u cynnwys yn y ffigurau uchod.

### Gwaith ar y gweill

294 Mae'r gwaith ar y gweill yn ymwneud â gwaith a gwblhawyd cyn cyflwyno’r anfoneb. Caiff hwn ei ddatgan fel cost lawn namyn darpariaeth ar gyfer colledion y gellir eu rhagweld a symiau a filiwyd ar gyfrif.

### Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2022 £’000 | 31 Mawrth 2021 £’000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus[67] | 570 | 504 |
| Benthyciadau i gyflogeion[68] | 10 | 4 |
| | 580 | 508 |

295 Nid oes unrhyw symiau sy'n ddyledus ar ôl i flwyddyn gael ei chynnwys yn y ffigurau uchod.

### Nodyn 8: Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2022 £’000 | 31 Mawrth 2021 £’000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 1,270 | 1,604 |
| Newid net mewn arian parod a phethau sy’n cyfateb i arian parod | (1,194) | (334) |
| Balans ar 31 Mawrth | 76 | 1,270 |

| | 31 Mawrth 2022 £’000 | 31 Mawrth 2021 £’000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth) | 76 | 1,270 |
| | 76 | 1,270 |

296 Mae arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gyllid a ddelir mewn cyfrifon y mae gan Swyddfa Archwilio Cymru fynediad uniongyrchol atynt.

297 Dangosir bod balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

67 Rhagdaliadau ar gyfer rhent a chostau eraill sy’n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.

68 Cynllun beicio i'r gwaith.

## Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 206 | 9 |
| TAW | 136 | 205 |
| Costau trethiant a nawdd cymdeithasol | 356 | 345 |
| Croniad ar gyfer hawl gwyliau na chymerwyd eto[69] | 585 | 666 |
| Croniadau eraill[70] | 736 | 826 |
| | 2,019 | 2,051 |

298 Mae'r symiau hyn yn cynrychioli rhwymedigaethau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarperir cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac sydd heb eu talu. Oherwydd eu natur tymor byr, cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio ac nid ydynt yn symiau gostyngol. Nid yw'r symiau wedi'u gwarantu.

299 Ein nod yw talu 90% o anfonebau cyflenwyr diamheuol o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn. Yn 2020-21, talwyd 76% o fewn deg diwrnod, a thalwyd 90% o fewn 30 diwrnod. Roedd y perfformiad gwaeth hwn o ganlyniad i weithio o bell a oedd yn golygu bod oedi cyn derbyn anfonebau a bostiwyd.

## Nodyn 10: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 3,635 | 2,353 |
| | 3,635 | 2,353 |

300 Caiff incwm ffioedd a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu trwy gyfeirio at dâl am amser a godwyd ac adolygiad o'r gwaith a gwblhawyd. Caiff llawer o'n hincwm ei anfonebu ar sail rhandaliadau drwy'r flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli incwm sydd wedi'i filio ond nid ei gydnabod eto.

69 Yn seiliedig ar ben-blwyddi gwyliau unigol.

70 Yn cynnwys £391,000 o ran anfonebau a dalwyd ar ôl diwedd y flwyddyn, a £345,000 o ran cyfraniadau pensiwn ar gyfer Mawrth 2022 a dalwyd ym mis Ebrill 2022.

## Note 11: Provisions for liabilities and charges

| | Dadfeiliadau[71] | Ymddeoliad cynnar a diswyddo | Lwfans Teithio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 646 | 367 | – | 1,013 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 7 | | 1,086 | 1,093 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | – | (346) | – | (346) |
| Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn | – | (21) | – | (21) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 653 | 0 | 1,086 | 1,739 |

### Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliad cynnar a diswyddo | Lwfans Teithio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | – | – | 1,026 | 1,026 |
| Hwyrach nag un flwyddyn ac nid yn hwyrach na phum mlynedd | 653 | – | 60 | 713 |
| | **653** | **–** | **1,086** | **1,739** |

301 Caiff darpariaethau eu mesur ar sail yr amcangyfrif gorau o'r symiau sy’n ofynnol i dalu rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol.

302 Pan fydd effaith gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei seilio ar werth presennol y symiau hynny, wedi'u gostwng ar y gyfradd ostyngol cyn treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth. Cydnabyddir dad-ddirwyniad y gostyngiad hwn yn y draul berthnasol.

71 Rydym yn defnyddio cyfradd ostyngol Trysorlys EM fel y nodir yn PES(2021)10 ar gyfer balansau o sero i bum mlynedd o 0.47% i gyfrif i'r balans hwn.

## Dadfeiliadau

303 Mae'r ddarpariaeth o ran dadfeiliadau yn cynrychioli amcangyfrif o'r costau y gallem eu hysgwyddo wrth dalu am atgyweirio ein heiddo ar brydles ar ddiwedd y lesoedd.

304 Caiff rhwymedigaethau dadfeiliadau yn ymwneud â chost adfer addasiadau a wnaed i adeiladau ar brydles eu cyfrifyddu trwy ddarpariaeth a roddir o’r neilltu yn y flwyddyn y nodwyd y gost.

305 Yn ogystal â hyn, rhoddir i naill ochr dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i ardal llawr asedau a brydlesir i ganiatáu ar gyfer traul cyffredinol ar eiddo a brydlesir.

## Ymddeoliad cynnar a diswyddiad

306 Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar a diswyddiad yn cynrychioli'r rhwymedigaeth yn y dyfodol o ran aelodau staff sydd wedi’u hymrwymo trwy gontract i adael o dan gynlluniau dileu swydd, ymddeoliad cynnar a diswyddiad. Mae'r ddarpariaeth ar ddiwedd 2020-21 naill ai wedi cael ei defnyddio neu ei rhyddhau yn ystod 2021-22. Nid oes angen darpariaeth ar gyfer 2021-22.

## Lwfans teithio

307 Cymeradwyodd y Senedd Amcangyfrif Atodol o £1.48 miliwn ar gyfer 2021-22 i ariannu taliad ymlaen llaw i staff cymwys fel iawndal am ddileu eu hawl gytundebol i Lwfans Teithio. Cytunwyd ar hyn yn dilyn ymgynghoriad staff mewn ymateb i adolygiad Gwerth am arian o'n Cynllun Teithio a gynhaliwyd yn 2019 gan ein harchwilwyr allanol.

308 Roedd y staff yn cael dewis rhwng taliad ymlaen llaw neu barhau i dderbyn Lwfans Teithio tan fis Mawrth 2024. Roedd yr Amcangyfrif Atodol yn darparu i'r holl staff gael y taliad ymlaen llaw hwn heb unrhyw gyfraniad o unrhyw danwariant gan Archwilio Cymru. Fel y digwyddodd, dewisodd 67% o'r staff cymwys daliad ymlaen llaw am gost o £1.086 miliwn.

309 Bydd taliadau sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn cael eu gwneud i staff ym mis Ebrill 2022. Delir balans y ddarpariaeth (£88,000) tra byddwn yn aros am newidiadau i delerau cyflogaeth staff.

## Nodyn 12: Lesoedd gweithredu

### Isafswm taliadau prydles cyfanredol – swyddfeydd gweithredol

| | 31 Mawrth 2022 | | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **Nifer yr eiddo** | **£'000** | **Nifer yr eiddo** |
| O fewn blwyddyn | 428 | 3 | 464 | 3 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 89 | 1 | 503 | 3 |
| Dros bum mlynedd | | | – | – |
| | **517** | | **967** | |

310 Cydnabyddir lesoedd fel cost ar linell syth dros gyfnod y les.

311 Mae gan Archwilio Cymru lesoedd ar gyfer tair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele. Mae'r lesoedd hyn yn destun adolygiadau rhent cyfnodol.

312 Mae dyddiadau terfyn y lesoedd ar gyfer y tri eiddo fel a ganlyn:

- Caerdydd 25 Mawrth 2023
- Penlle'r-gaer 18 Ebrill 2023
- Abergele 21 Mawrth 2026 (Cymal terfynu ym mis Medi 2023)

313 Mae TEM wedi cadarnhau y daeth Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 i rym ar 1 Ionawr 2022. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob prydles â chyfnod prydles o fwy na 12 mis gael ei chydnabod fel ased a rhwymedigaeth yn y datganiadau ariannol. Pe bai hyn wedi bod yn weithredol yn 2020-21, byddai wedi gofyn am addasiad o £0.96 miliwn ar gyfer asedau Hawl i Ddefnyddio[72] a rhwymedigaethau les.

72 Ein swyddfeydd ar les.

### Nodyn 13: Ymrwymiadau cyfalaf

314 Roedd ymrwymiadau cyfalaf heb eu talu o £5,580 ar 31 Mawrth 2022: (31 Mawrth 2021: £3,520).

### Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig

315 Ni wnaed unrhyw golledion na thaliadau arbennig adroddadwy yn 2021-22: (2020-21: Dim).

### Nodyn 15: Deilliadau ac offerynnau ariannol

316 Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 (Datgeliadau Offerynnau Ariannol) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am arwyddocâd offerynnau ariannol i endid, a natur a maint risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, o safbwynt ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa yn cael ei hamlygu i lefel sylweddol o risg ariannol ac ni ddelir unrhyw ddeilliadau.

317 Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyca cyllid at ddibenion ariannu tymor byr, ni fu angen i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

318 Gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fuddsoddi arian dros ben. Gan fod balansau arian parod yn cael eu dal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ni wnaed hyn yn ystod y flwyddyn.

### Risg hylifedd

319 O gofio natur ein busnes a'r ffordd yr ariennir y cyrff yr ydym yn codi ffioedd arnynt, mae ein goddefiant o risg mewn meysydd rheoli ariannol yn isel.

320 Yng ngoleuni'r parodrwydd hwn i dderbyn risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei hamlygu i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg cyfradd llog

321 Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hamlygu i risg cyfraddau llog.

### Risg arian cyfred tramor

322 Mae amlygiad Swyddfa Archwilio Cymru i risg arian cyfred tramor yn ddibwys gan mai dim ond blaen-bryniannau bach iawn o arian cyfred tramor sy'n cael eu gwneud yng nghyswllt teithio tramor a chostau cysylltiedig eraill fel gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd a gynhyrchir o waith neu secondiadau tramor eu cyfnewid pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

### Risg credyd

323 Llywodraeth Cymru, ei chyrff cyhoeddus a noddir a chysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru yn bennaf. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd o dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n cael ei amlygu i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

### Gwerthoedd teg

324 Nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng y gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2022 (31 Mawrth 2021: dim).

### Nodyn 16: Trafodiadau partïon cysylltiedig

325 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gorff corfforaethol a sefydlwyd o dan statud ac mae wedi cyflawni trafodiadau perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a gyda chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y datgelir yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth.

326 Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod o'r Bwrdd, nac unrhyw aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi cyflawni unrhyw drafodiadau perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth Ariannol (tudalen 86).

### Nodyn 17: TAW

327 Dim ond cyfran fach o TAW ar ei gwariant gros y gall Swyddfa Archwilio Cymru ei hadennill sef y gyfran o incwm ffioedd anstatudol o'i chymharu â chyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn.

# Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Sail groniadau** | Cydnabyddir effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill pan fyddant yn digwydd (ac nid wrth i arian parod, neu rywbeth sy'n cyfateb iddo, gael ei dderbyn neu ei dalu) a chânt eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu a'u hadrodd yn y datganiadau ariannol o'r cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt. |
| **Amorteiddiad** | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Asedau** | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio e.e. offer neu hawliau meddalwedd. |
| **Gwariant cyfalaf** | Gwariant ar asedau anghyfredol (sefydlog). |
| **Asedau cyfredol** | Ased y disgwylir iddo gael ei droi'n arian parod o fewn y flwyddyn nesaf. |
| **Rhwymedigaeth gy-fredol** | Rhwymedigaeth y disgwylir iddi gael ei thalu o fewn y flwyddyn nesaf. |
| **Incwm gohiriedig** | Yn cynrychioli incwm sydd wedi'i filio ond nid wedi ei gydnabod eto yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. |
| **Dibrisiant** | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Amcangyfrif** | Caiff yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau ei gymeradwyo yn y cyfarfod llawn gan y Cynnig Cyllidebol. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn darparu adroddiad i gefnogi hyn. Cyfeirir ato hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| **Asedau sefydlog** | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus yng ngweithgareddau'r endid adrodd. Mae offer, cerbydau, tir ac adeiladau yn enghreifftiau. |
| **Sail busnes gweithredol** | Caiff datganiadau ariannol eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy. |
| **Ased sefydlog an-niriaethol** | Ased, fel hawl, nad oes ganddo unrhyw sylwedd ffisegol. |
| **Lesio** | Caffael y defnydd o ased drwy gytundeb rhent. |
| **Rhagdaliadau** | Swm a delir ymlaen llaw megis premiymau yswiriant neu rent ymlaen llaw. Fe'i cydnabyddir i ddechrau fel ased cyn ei drosglwyddo i draul yn y cyfnod pan fydd y budd yn cael ei fwynhau. |
| **Darpariaeth** | Rhwymedigaeth a amseriad neu swm ansicr. |

| | |
|---|---|
| **Tal cydnabyddiaeth** | Y cyflog, neu’r iawndal arall, a ddarperir am wasanaethau cyflogai. |
| **Ecwiti trethdalwyr** | Asedau net y sefydliad. |
| **Symiau masnach taladwy** | Symiau sy'n ddyledus i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. |
| **Symiau masnach derbyniadwy** | Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid. |
| **Ased sefydlog diriaethol** | Ased sefydlog (sydd hefyd yn cael ei alw yn ased anghyfredol) sy’n bodoli’n ffisegol. Fe'i defnyddir i'w wahaniaethu oddi wrth ased sefydlog anniriaethol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y gronfa a ddefnyddir gan y Senedd i ddal symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd a ddyrennir trwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| **Gwaith ar y gweill** | Gwaith sy’n cael ei wneud a'i gydnabod fel incwm yn y cyfrifon nad yw wedi'i anfonebu i gleientiaid eto. |

Mae diffiniadau llawn ar gael yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM).

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol

4 Adroddiad bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

# 1 Gwaith archwilio lleol

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol waith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2021-22. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[73] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[74] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 Cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[75] |
| 22 Cyngor (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |

73 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd mae gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

74 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

75 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[73] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| 9 Cronfa Bensiwn | ✓ | | |
| Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Bargeinion Dinas | ✓ | ✓ | |
| Sawl corff llywodraeth leol llai gan gynnwys Cyd- bwyllgorau, ardaloedd draenio ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[76] | | |

76 Ar sail sicrwydd cyfyngedig

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno o’r canfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws cyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol lluosog.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder cyhoeddus a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol trwy ohebiaeth. Mae’r allbynnau o lawer o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Yn ystod 2021-22, adolygwyd ein cynlluniau yn rheolaidd, gan ystyried y sefyllfa COVID ehangach a'n blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein darpariaeth o adnoddau ein hunain a gallu ein cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni.

| Gwaith a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth yn 2021- 22 | |
|---|---|
| Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Yn ôl eich doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol |
| Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at 31 Mawrth 2021 |
| Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru | Cyllid myfyrwyr |
| Adfywio Canol Trefi yng Nghymru | Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus[77] |
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – Effaith COVID-19, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol | Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru |
| Gofalu am y Gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19 | Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn |
| Cydweithio Rhwng y Gwasanaethau Brys | Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol |
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | |

77 Pecyn o ddeunyddiau yw hwn. Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi 2021 ac fe'i dilynir gan gyfres o bump o sylwadau sector ar Iechyd, gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, ysgolion, addysg uwch ac addysg bellach.

| Gwaith a ddechreuwyd yn 2021-22 ac ar y gweill | |
|---|---|
| Gofal Heb ei Drefnu – Adolygiad o'r System Gyfan[78] | Y Cwricwlwm newydd i Gymru |
| Mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal arfaethedig yng Nghymru (adroddiad ac offeryn data) | System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) |
| Offeryn data cyllid GIG Cymru – hyd at 31 Mawrth 2022 | Ymateb ac adferiad COVID-19 – cymorth y trydydd sector (briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) |
| Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio | Llywodraeth Cymru yn gosod amcanion llesiant |
| Gweithlu Llywodraeth Cymru | Sylwadau cyfrifon Llywodraeth Cymru |
| Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol - Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Llywodraethu ansawdd y GIG |
| Gwasanaethau orthopedig | Rheoli perygl llifogydd |
| Cydnerthedd seiber | Menter Twyll Genedlaethol (adroddiad cryno) |
| Seilwaith band eang/cynhwysiant digidol | Anghenion cymhleth a thlodi – yr her i lywodraeth leol |
| Meithrin cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth | Mentrau cymdeithasol |
| Ymateb ac adferiad COVID-19 – cymorth busnes | Tai fforddiadwy |

78 Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddwyd sylwebaeth gychwynnol gennym ar ffurf blog estynedig ac offeryn data ategol ond gyda gwaith ychwanegol ar y pwnc hwn yn mynd rhagddo drwy 2022-23.

# 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Parhaodd ein gwaith yn 2021-22 i chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn ei ystyriaeth o'r defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cefnogodd yr allbynnau o'n gwaith 10 cyfarfod o'r Pwyllgor.

Fe wnaethom hefyd gefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor a/neu adroddiadau ar bynciau amrywiol, gan fanteisio pan fo'n berthnasol ar waith archwilio blaenorol.

Mae ein gwaith hefyd wedi llywio gwaith pwyllgorau Senedd eraill y mae eu cylchoedd gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan ddwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

Yn ystod 2021-22, gwnaethom ymateb i bum ymgynghoriad a lansiwyd gan bwyllgorau craffu polisi'r Senedd, i gefnogi'r gwaith o ystyried blaenoriaethau eu rhaglen waith yn y dyfodol. Roedd ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2021 ar Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru hefyd yn fan cychwyn ar gyfer ymchwiliad gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Trafodwyd ein gwaith gyda'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2022.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, buom yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio, yn bennaf drwy lwyfannau cyfathrebu fideo.

Gwnaethom barhau i ddarparu sesiynau briffio ac adroddiadau ar ein gwaith archwilio ynghyd â chyngor a chymorth i gryfhau effeithiolrwydd llywodraethu.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch stiwardiaeth o arian cyhoeddus ac asedau.

Yn ystod 2021-22, cawsom 79 eitem o ohebiaeth a sicrhawyd ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Hefyd, cysylltodd 27 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn dynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Pan oedd angen i dimau archwilio wneud gwaith ymchwilio pellach mewn ymateb i unrhyw bryderon a godwyd drwy ohebiaeth neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban, cymerodd y gwaith hwn ychydig yn hwy fel rheol na’r hyn y gellid ei ddisgwyl fel arfer yn 2021-22, oherwydd yr angen i weithio o bell. Pe na baem yn gallu rhoi ateb terfynol i'r gohebydd/datgelydd o fewn 30 diwrnod gwaith, ymdrechwyd i ddarparu ymateb dros dro gan gynnwys amcangyfrif o'r amserlen ar gyfer darparu ateb llawn.

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgeliadau gwybodaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban am gyflawni busnes cyhoeddus a thwyll yn briodol, gwerth am arian, a llygredd yng nghyswllt y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. Mae Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgeliadau Gwybodaeth) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn nodi:

- a Nifer y datgeliadau a wnaed i'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn honno y mae'n credu eu bod yn ddatgeliadau cymwys[79].
- b Nifer y datgeliadau cymwys lle mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu gweithredu.
- c Crynodeb o'r mathau o gamau y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u cymryd.
- ch Crynodeb o sut mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

Crynhoir prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu crynhoi yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ac fe'u disgrifir yn fanylach yn ein Canllawiau ar ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru.

Yn 2021-22, fe wnaeth 27 o unigolion ffonio neu ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru yn mynegi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dim ond mewn 14 o achosion yr oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol sail resymol i gredu bod y datgeliad yn gymwys ac yn cyd-fynd â’r materion y mae wedi ei ragnodi yn eu cyswllt. Roedd hyn oherwydd nad oedd unigolion naill ai'n rhoi manylion am eu sefyllfa gyflogaeth, neu roedd yn amlwg nad oeddent yn gyflogeion nac yn weithwyr cymwys eraill.

79 Datgeliadau sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 43B o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac sy'n gweithredu’r amddiffyniad rhag niwed a ddarperir gan y Ddeddf honno.

O'r 14 o ddatgeliadau yr oedd yn ymddangos eu bod yn gymwys, adolygwyd y materion a godwyd gan y tîm archwilio perthnasol mewn saith achos materion a godwyd, ond ni chanfuwyd eu bod yn gyfystyr â materion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau eraill yn eu cylch. Yn nhri o'r saith achos arall, ar ôl i staff archwilio eu hystyried am y tro cyntaf, mae gwaith adolygu pellach sylweddol wedi'i wneud neu ar y gweill. Yn un o'r pedwar achos arall, mae staff archwilio yn aros am adborth o'u hymholiadau cychwynnol cyn penderfynu a oes materion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau eraill yn eu cylch.

Yn gyffredinol, pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol wedi derbyn gwybodaeth sydd wedi bod yn berthnasol i'w swyddogaethau, mae hyn wedi helpu i lywio ei waith, ac mewn o leiaf dri achos, mae'r wybodaeth hon wedi arwain at nodi materion sy'n deilwng o archwiliad sylweddol.

# 4 Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio ac adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Wrth wneud y gwaith hwn, rydym yn ystyried pa mor dda y caiff cyrff cyhoeddus eu rhedeg ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau. Felly wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, a gwneud argymhellion, gall yr Archwilydd Cyffredinol annog newidiadau buddiol o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn berchen ar dir nac yn rheoli unrhyw dir, felly mae llai o gyfle iddi gyflawni gweithgareddau er budd bioamrywiaeth o'i chymharu â sefydliadau sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod yn llawn yr angen i gefnogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan gynnwys trwy wneud y canlynol:

a Lleihau a gwrthbwyso ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

b Lleihau'r pellter yr ydym yn ei deithio at ddibenion busnes a dewis opsiynau teithio mwy cynaliadwy.

c Lleihau ein defnydd o bapur a dŵr gymaint â phosibl.

ch Lleihau faint o wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu gymaint â phosibl a chynyddu ein cyfran o wastraff a gaiff ei ailgylchu gymaint â phosibl.

d Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff o faterion bioamrywiaeth a chynaliadwyedd.

dd Ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes, a chyfrannu gymaint â phosibl at gyflawni saith nod llesiant Cymru, gan gynnwys 'Cymru Gydnerth'[80].

80 Disgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid hinsawdd)'.

Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys ein hail adroddiad ar gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2022.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22, gwnaethom gymryd ystod eang o gamau a'n helpodd i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynnal nifer o archwiliadau ac astudiaethau archwilio a oedd yn cynnwys ystyriaethau ac argymhellion sy'n berthnasol i gynnal a gwella bioamrywiaeth.
- Cynnal ein hachrediad ar Lefel 5 (y lefel uchaf) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli'r amgylchedd yn effeithiol.
- Lleihau nifer ein teithiau at ddibenion busnes, lleihau cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynhyrchu llai o wastraff a lleihau ein defnydd o bapur a dŵr, a gwneud gwaith i wrthbwyso carbon i wneud iawn am ein hallyriadau drwy ariannu prosiectau arbed carbon deuocsid cyfatebol mewn mannau eraill.
- Cefnogi grŵp staff hyrwyddwyr amgylcheddol sy'n hyrwyddo'r egwyddor o gynaliadwyedd ac sy'n codi ymwybyddiaeth o fentrau bioamrywiaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddwyd Cynllun gennym yn cynnwys chwe amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn well. Yng ngweddill yr atodiad hwn, rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hyn.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, yng ngoleuni'r Adroddiad hwn, byddwn yn adolygu ein hamcanion ac yn diwygio fel y bo'n briodol, gan roi sylw i’r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, sy'n nodi blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwrthdroi’r dirywiad i fioamrywiaeth yng Nghymru.

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Byddwn yn ystyried yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, ac yn ymgysylltu â phobl a sefydliadau â diddordeb mewn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru wrth ystyried:<br>• pa raglenni archwilio ac astudio gwerth am arian y byddwn yn eu defnyddio; a<br>• pha ddull i'w ddefnyddio mewn archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian ag iddynt brif bwyslais sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. | Yn ystod hanner cyntaf 2021-22, dechreuwyd 'adolygiad sylfaenol' fel rhan o'n hymrwymiad i raglen waith archwilio hirdymor ar newid hinsawdd. Rydym wedi bod yn edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i leihau allyriadau carbon a chyrraedd targedau datgarboneiddio 2030.<br><br>Gwnaethom ymgysylltu â Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol a chynrychiolwyr Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wrth i ni ddatblygu ein gwaith. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn un o'r cyrff y cafwyd tystiolaeth ganddo. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y gwaith hwn yn fuan ac yn cynnal gweminar ym mis Mai 2022 i drafod ein prif negeseuon sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Gan ddefnyddio'n rhannol yr adolygiad sylfaenol, byddwn hefyd yn adolygu cynlluniau lleihau carbon pob un o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru fel rhan o'n rhaglen archwilio perfformiad lleol. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith archwilio lleol manylach yn y maes hwn yn y tri awdurdod tân ac achub – Canolbarth a Gorllewin Cymru, De Cymru a Gogledd Cymru. Hefyd, rydym wedi trafod yn ddiweddar gyda Llywodraeth Cymru, CNC, CLILC, a Chadeirydd Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru, ein cynlluniau ar gyfer adroddiad cyffredinol ar reoli perygl llifogydd yng Nghymru, i'w gyhoeddi yn ystod hydref 2022.<br><br>Yn ystod 2021-22, gwnaethom gwblhau gwaith archwilio lleol yn edrych ar dwristiaeth gynaliadwy ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru – Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog – ac arolygu busnesau twristiaeth fel rhan o'n gwaith. Ac adroddwyd ar y cynnydd yr oedd Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud o ran cyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol. Ym mis Medi 2022, gwnaethom hefyd gynhyrchu adroddiad ac offeryn data ar Adfywio Canol Trefi yng Nghymru, sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu polisi'n barhaus drwy Grŵp Gweithredu Canol Trefi Llywodraeth Cymru.<br><br>Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd ymgynghoriad ffurfiol gennym i lywio'r gwaith o ddatblygu ein rhaglen waith ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Gwnaethom gynnwys fel rhan o'r dosbarthiad ymgynghori nifer amrywiol o sefydliadau sydd â diddordeb mewn cynnal a gwella bioamrywiaeth. Nododd ein hymgynghoriad 'Byd sy'n newid', gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd a natur, fel un o'r themâu y byddwn yn eu defnyddio i helpu i lunio ein rhaglen waith a nodi nifer o feysydd cysylltiedig posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol. |

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Byddwn yn:<br>• cynnwys, yn y diwygiad nesaf o God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a’r canllawiau cysylltiedig, ragnodiad ynghylch sut y dylai archwilwyr gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau;<br>• diweddaru ein templed dogfen 'cychwyn prosiect' archwilio i’w gwneud yn ofynnol yn benodol i dimau archwilio ac astudio gwerth am arian nodi pryd y gallai archwiliad penodol gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'r Ddyletswydd. | Nid yw Cod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i ddiwygio'n sylweddol ers i ni ddatblygu ein Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn 2019. Fodd bynnag, mae'n cael ei adolygu ar ddechrau 2022-23 a bydd rhagnodiad ynghylch sut y dylai archwilwyr gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r adolygiad hwnnw.<br>Mae ein 'dogfen cychwyn prosiect' archwilio ar gyfer ein harchwiliadau a'n hastudiaethau gwerth am arian mwy eang yn annog timau archwilio i ystyried sut y gallai gwaith o'r fath helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys o bosibl yng nghyd-destun y nod o 'Gymru Gydnerth'. Fel y nodir isod o dan yr Amcan nesaf, rydym hefyd wedi diweddaru ein canllawiau archwilio ac wedi darparu hyfforddiant ychwanegol i staff i helpu i ymgorffori ystyriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ein gwaith. Fodd bynnag, mae ein templedi cynllunio a'n canllawiau ategol yn destun adolygiad mwy sylfaenol ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith o adnewyddu prosesau a gweithdrefnau ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad wrth i ni fabwysiadu'n ffurfiol safonau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Bydd ystyriaeth o sut y dylai archwilwyr gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw a fydd yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2022-23, gyda hyfforddiant i staff archwilio perthnasol i ddilyn. |

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Wrth gynnal archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol yn unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddwn yn ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn iddynt allu cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru gydnerth' | Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2019 i fis Mai 2020, gwnaethom gwblhau cyfres o archwiliadau ar draws y cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf, gan arwain at ein hadroddiad statudol cyffredinol a'i lywio ym mis Mai 2020, 'Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau Prif Arholiadau Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol'.<br>Roedd ein harchwiliadau archwilio lleol mewn cyrff unigol dros y cyfnod yn cynnwys adroddiadau yn edrych ar faterion sy'n arbennig o berthnasol i 'Gymru Gydnerth'. Roedd y rhain yn cynnwys:<br>• Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol – Cyngor Sir y Fflint<br>• Rhaglenni adfywio strategol - Cyngor Castell-nedd Port Talbot<br>• Chwe Phrosiect Adfywio Allweddol – Cyngor Sir Penfro<br>• Dylunio 'Datganiadau Ardal' wedi'u cyd-gynhyrchu – Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Casglu gwastraff cartref – Cyngor Sir Ddinbych<br>• Gwella mynediad i fannau agored a gwella eu hansawdd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>• Datblygu a Lansio Gweledigaeth Trafnidiaeth ac Aer Glân Newydd ar gyfer y Ddinas – Cyngor Caerdydd<br>• Adfywio mewn adfywio yn y Barri ac Ynys y Barri – Cyngor Bro Morgannwg<br>Ar gyfer y cyfnod adrodd, 2020-2025, rydym yn bwriadu ymgorffori ein gwaith archwilio datblygu cynaliadwy yn ein rhaglen ehangach o waith archwilio gwerth am arian. Datblygwyd canllawiau archwilio newydd gennym i gefnogi'r uchelgais hwn yn ystod 2021, a chyflwynwyd rhaglen hyfforddi ar gyfer staff perthnasol i gefnogi hyn hefyd. |

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Byddwn yn ymestyn cwmpas ein trefniadau ar gyfer asesu effaith debygol polisïau ac arferion Swyddfa Archwilio Cymru (diwygiedig neu newydd) i gynnwys bioamrywiaeth a chydnerthedd ystyriaethau ecosystemau pan fo hynny'n briodol. Mae prosiectau perthnasol sydd ar ddod yn cynnwys:<br>• gweithredu trefniadau gweithio doethach a mwy hyblyg;<br>• ein strategaeth ar gyfer ad-drefnu ystadau; ac<br>• argymhellion adolygiad archwiliad allanol o'n cynllun teithio. | Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2019-20, a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn honno gwnaethom ymgorffori cwestiynau sgrinio a dadansoddiad pellach pan oedd hynny'n berthnasol yn ein trefniadau asesu effaith er mwyn sicrhau y rhoddir sylw dyledus i ystyriaethau datblygu a bioamrywiaeth cynaliadwy a chydnerthedd ecosystemau.<br>Dros y cyfnod adrodd, roedd prosiectau penodol pryd rhoddwyd ystyriaeth sylweddol i effeithiau bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau yn cynnwys y canlynol:<br>• symud tuag at drefniadau gweithio doethach a mwy hyblyg, gan gynnwys ffyrdd hybrid o weithio;<br>• ein prosiect ad-drefnu ystadau 'gweithleoedd yn y dyfodol', pryd, fel rhan o adolygiad trylwyr o leoliadau swyddfeydd, yr oedd ystyriaethau amgylcheddol a bioamrywiaeth yn feini prawf allweddol wrth helpu i ddatblygu dull o nodi lleoliadau swyddfeydd addas yn y dyfodol; a'r<br>• adolygiad o'n cynllun teithio a chynhaliaeth, pryd yr oedd yr argymhellion yn cynnwys caniatáu i bawb gael mynediad at gynllun fflyd pryd y gallai staff brynu ceir hybrid a thrydan, a rhoi cynllun teithio diwygiedig ar waith i leihau effaith teithio at ddibenion busnes a lleihau milltiroedd cymudo, fel rhan o'n hymrwymiad i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net. |

| Amcan Bioamrywiaeth | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Wrth gaffael gwasanaethau, byddwn yn:<br>• cynnwys gofynion sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ein meini prawf dyfarnu tendrau; ac yn<br>• cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau wrth bennu'r safonau perfformiad sydd i'w cynnwys yn y contract. | Dros y cyfnod adrodd, datblygwyd dogfen ganllaw a rhestr wirio arferion da a ddefnyddir bellach wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau a allent fod ag effaith bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.<br>Mae'r canllawiau hyn yn rhan o'n dull ehangach o gaffael cynaliadwy pryd yr ydym yn rhoi sylw dyledus i gynaliadwyedd drwy wahanol gamau'r cylch caffael.<br>Un o brif themâu ein Strategaeth Gaffael newydd a'n cynllun gweithredu cysylltiedig yw caffael cyfrifol a chynaliadwy. Dros y pum mlynedd nesaf, ein nod yw sicrhau'r canlynol:<br>• bod gweithgaredd caffael yn gynaliadwy ac yn gyfrifol, a bod staff sy'n cymryd rhan yn y broses gaffael wedi cael eu hyfforddi'n briodol;<br>• bod caffael yn cyfrannu'n fesuradwy at leihau carbon a'n nodau sero net;<br>• bod ein gweithgareddau Caffael yn dilyn hierarchaeth gaffael sy'n blaenoriaethu osgoi, ailddefnyddio, adnewyddu ac ailgylchu cyn prynu o'r newydd;<br>• ein bod yn dangos ein bod yn gweithredu'n ystyrlon ac yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a deddfwriaethau cynaliadwyedd eraill. |
| Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ein grŵp staff hyrwyddwyr amgylcheddol i godi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad ynghylch sut y gall pob swyddogaeth effeithio a dylanwadu ar fioamrywiaeth | Drwy gydol y cyfnod adrodd, rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff, o bwysigrwydd cynnal a gwella bioamrywiaeth, ond mae mwy i'w wneud. Yn ddiweddar rydym wedi sefydlu gweithgor sero net a fydd yn cynnwys ystyriaethau cydnerthedd ecosystemau yn ein cynlluniau gweithredu.<br>Mae gennym grŵp cyfryngau cymdeithasol mewnol gweithredol o'r enw 'Blue Planet and Beyond' sydd â 78 o aelodau staff ac sy'n gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu syniadau ar gyfer ailddefnyddio/ailgylchu a materion amgylcheddol eraill, ac sy'n postio erthyglau newyddion rheolaidd ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghyd ag awgrymiadau a gwybodaeth i gefnogi bioamrywiaeth. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

# Wales Audit Office




## Audit findings report
## year ended 31 March 2022

7 June 2022



RSM

# Contents

Executive Summary ... 3
Risks identified at the planning stage ... 4
Matters identified during the audit ... 6
Other matters to be reported ... 7
Update on matters communicated at the planning stage ... 8
Appendix ... 9

# Executive Summary

This report summarises our key findings in connection with the audit of the financial statements of Wales Audit Office in respect of the year ended 31 March 2022.

The scope of our work was communicated to you via our Audit Plan document. We believe that the audit approach adopted will provide the Audit and Risk Assurance Committee with the required confidence that a thorough and robust audit has been carried out. Our audit work is substantially complete, and we anticipate issuing an unmodified audit opinion on the group's financial statements in line with the agreed timetable.

## Final materiality

Materiality was confirmed at £439,000, using total expenditure incurred as the benchmark. Our materiality figure represents an effective rate of 2.0% of expenditure.

## Unadjusted audit misstatements

One misstatement was identified during our audit however this related to a classification difference within payables. Further detail is included within the Appendix of this report.

# Risks identified at the planning stage

| Risk | Description | Response | Findings |
|---|---|---|---|
| Revenue recognition<br>- WIP and deferred income | Revenue is a presumed risk under the International Standards on Auditing. The recognition of income, WIP and deferred income is considered to be a significant risk due to the level of judgement applied to the stage of completion of an audit assignment and any provisions required. | We will:<br>1. Select a sample of projects that have commenced throughout the year and test the revenue recognised with reference to the stage of completion of the assignment to determine that the revenue recognition is appropriate and, consequently, whether the WIP and deferred income are appropriately stated.<br>2. Review correspondence with audit managers and discuss any relevant matters directly with the engagement manager. We will do this to establish the estimated costs to complete and any required provisions at the year end, considering the impact of any time spent after the year end on these estimations.<br>3. Review assessments made in the prior financial period and compare the final total costs to the assessment made at year end, to assess the accuracy of the estimations made in the prior period.<br>4. Evaluate projects that are reasonably expected to be concluded at a deficit and confirm that an appropriate provision has been recorded in the financial statements. | Our work indicated that the organisation has appropriate systems and controls for assessing the stage of completion of its ongoing contracts, and hence for determining the amount of revenue that should be reported at the year end.<br>We have followed up on our sample of engagements selected during the 2021 audit. We have noted differences between the 2021-year end cost to complete assessment and the final costs incurred. However, these differences were highly immaterial and supportive of the overall assessment taken at year end.<br>We have compared the stage of completion based on costs completed to the stage of completion based on hours posted. There were only trivial errors noted which is expected given staff mix varies by engagement.<br>We reviewed April 2022 audit assessments to confirm that there was no material indicators of a provision being required at year end.<br>We have tested the reliability of the underlying time recording system and did not note any errors in our sample testing with the completeness or accuracy of the data.<br>Where deficits are expected on audits, we have noted no errors on the calculation of such provisions. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Management override of internal controls | The risk exists that the internal controls within the group could be overridden by management, resulting in transactions or judgements arising which have not received appropriate approval or consideration, and for significant transactions outside the normal course of business to distort the reported results. | We will:<br><br>1. Review controls over journal entries and, using data analytic software and based on our risk assessment, test a sample of journals to ensure they are valid and appropriately supported.<br><br>2. Obtain an understanding of the business rationale of significant transactions that we become aware of during the audit process that appear to be outside of the normal course of business or that appear to be unusual, given our understanding of the entity's operating environment.<br><br>3. Consider estimates and judgements made by management in the preparation of the statutory accounts and conclude on their appropriateness. | We have tested journal entries posted during the year on a sample basis, using risk analysis and data analytics to identify 'at-risk' transactions. This did not highlight any erroneous entries, or any items indicative of undue management bias.<br>We have reviewed the significant estimates adopted in the preparation of the financial statements, such as those relating to provisions. We have not identified any areas where there appears to be indication of management bias. |
| Reputational risk | Given the public interest in the financial statements, there is a risk that accounting judgements may be influenced by the desire to demonstrate good financial management and remain within the Estimate. | We will:<br><br>1. Undertake internal specialist technical reviews of both the accounts and also our audit work, including regularity, given the increased reputational risk associated with the audit.<br><br>2. Review the judgemental aspects of year-end balances, particularly focusing on any round sum provisions, estimates, recoverability of debtors, disclosure of remuneration, and related party transactions. | During the course of our audit, we have not noted any areas of inappropriate activity, or areas where the Office has been acting inappropriately.<br>Our internal technical reviews have been completed and subsequent conclusions are reflected in this report. Our regularity opinion is unmodified. |

# Matters identified during the audit

| Issue | Response |
|---|---|
| **Quorate of board meetings** | |
| The Public Audit (Wales) Act 2013 states that in order for the board meeting to meet the Quorum requirement, the majority of members present at Board meetings must be non-executive directors (Schedule 1, part 7, section 28).<br>During our regularity audit, we noted that at the October 2021 board meeting, one non-executive member was absent. In order to be quorate, employee board members recused themselves from any decisions on the Travel and Subsistence review, however they were still physically present during board discussions, leaving the meeting only for the decision and voting.<br><br>We also noted that another non-executive member was absent from the board meeting on 16 March 2022. Therefore, Kevin Thomas attended the session in his capacity as EDCS to ensure the meeting was quorate. | The Board's terms of reference make provision for a quorum to be met in accordance with the legislation. A pre-meeting check is made for expected member attendance to establish whether the meeting is expected to be quorate. If this is not the case, arrangements are made for an employee board member to step down from that meeting as a Board member and attend in an executive/observer capacity only, which happened during October 2021 as noted opposite.<br><br>Previous legal advice on similar matters concluded that the requirement per the Act is for the majority of non-executive members to be "Present" rather than "present and voting". The advice recommended that moving forward, the Wales Audit Office updates its procedures to ask one or more employee members not to attend each meeting if needed, to ensure that there is a majority of non-executive members present. However, given employee board members were still physically present during the discussions, there is a risk that any decisions may be invalidated by the presence of employee members (although they did leave the meeting for the decision and voting).<br><br>We recommend that in such instances, the relevant persons are not present where relevant. But this does not impact our regularity opinion. |
| **Classification of travel allowance provision** | |
| A £1.086m provision has been made in the financial statements relating to compensation owed to employees for the removal of their contractual entitlement to a Travel Allowance. The amount was agreed with employees following a consultation and paid via payroll in April 2022.<br><br>Under IAS 37, a provision represents a liability of uncertain timing or amount. However both the timing and amount of the Travel Allowance settlement was known as at 31 March 2022. | We have discussed the classification of this matter with management. There is a small variable element of the settlement which was not agreed as at 31 March 2022. Disclosure as a provision also allows additional narrative explanation as to what the amount represents and was therefore considered best practice to disclose as a provision and provide narrative detail for the £1.086m. As a material amount, given there is sufficient disclosure of the amount in the financial statements (specifically regarding timing and amount), we concur with the recognition and disclosure basis. |

# Other matters to be reported

## Management judgements and accounting estimates

The following areas are considered to be the principal accounting estimates. The graphic below visually represents the impact (lower or higher) on the financial statements of a change in management's estimate. In overview, a reasonably possible change in estimate that has a low impact means that such a change will have limited impact on the financial statements. Conversely a reasonably possible change that has a higher impact, means that such a change can have a significant impact.



| Estimates | Low impact | | High impact |
|---|---|---|---|
| Provision for bad debts | ● | | |
| Revenue recognition – stage of completion | | | ● |
| Dilapidations provision | | ● | |
| Depreciation and amortisation | ● | | |

As part of our audit, we review the significant accounting estimates contained within the financial statements of the WAO. We note the following:

**Costs to complete/work in progress**
Our work indicates that the historical estimates of costs to complete are materially accurate, and that estimates made by the Resource Managers are an appropriate basis to determine percentage completion.

**Dilapidations provision**
These continue to be derived using latest available third-party surveyor reports, and there is no evidence that these are not an appropriate source of evidence to derive such provisions. Previous surveyor reports provided have not identified any significant issues that would necessitate a material increase in the value of the reported provision.

**Receivable provision**
Wales Audit Office has recognised a receivable provision of £33k in the current period, which is an immaterial amount and specific to one engagement. Therefore, no disclosure is made in the financial statements section "Key areas of estimate and judgement". The financial statements also consider the impact of IFRS 9 but conclude that any expected credit loss model is not relevant for the above-mentioned reasons.

**Fixed asset depreciation/amortisation**
Each asset has a Useful Economic Life over which it is depreciated/amortised. These policies are disclosed in the financial statements as expected.

## Going concern

The financial statements are prepared on a going concern basis. The accounting policies contain adequate consideration of the reasons behind this; specifically, that Wales Audit Office works to annual funding arrangements by statute, and those resources are made available by the Senedd for the exercise of the Auditor General's functions. We have considered the 2022-23 Estimate and any matters identified during the course of our audit which may impact the going concern assessment. No material uncertainty has been identified.

## Recommendation on controls

We have identified no matters regarding internal controls which came to our attention during the course of our audit work. This does not constitute a comprehensive statement of all internal control matters or of all improvements which may be made and has addressed only those matters which have come to our attention as a result of the audit procedures performed. An audit is not designed to identify all matters that may be relevant to you and accordingly the audit does not ordinarily identify all such matters.

## Representations requested

In addition to those representation which we request on all audit assignments (http://www.rsmuk.com/standard-representations) we will be seeking no specific representations from the Board.

# Update on matters communicated at the planning stage

| Matter communicated | Update |
|---|---|
| **Fees** | We confirm that the fees charged during the year in respect of services performed are consistent with those contained within our Audit Plan submitted to you. |
| **Independence** | In accordance with International Standard on Auditing (UK) 260 “Communication with those charged with governance”, there are no changes to the details of relationships between RSM UK Audit LLP including its related entities and persons in a position to influence the conduct or outcome of the audit and Wales Audit Office and its connected parties that may reasonably be thought to bear on our independence, integrity and objectivity and the related safeguards from those disclosed in the Audit Plan. |

*This report has been prepared for the sole use of Wales Audit Office and must not be disclosed to any third party, or quoted or referred to, without our written consent. No responsibility is assumed to any other person in respect of this report.*

# APPENDIX

## Accounting misstatements

A summary of the unadjusted misstatements identified during the course of our work is set out below, analysed between misstatements of fact and differences in judgement.

We have not disclosed below those items that we consider to be "clearly trivial" in the context of our audit. For this purpose, we consider "clearly trivial" to be any matter less than £22,000.

| Adjustment | Type | Classification | Account | Value £'000 | Description |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Unadjusted | Reclassification | Accruals | 71 | Reclassification of supplier invoices received pre year end but recognised within accruals |
| | | | Trade payables | (71) | |

# Communication of audit matters to those charged with governance

| Our communication plan | Audit plan | Audit findings |
|---|---|---|
| Respective responsibilities of auditor and management/those charged with governance | ● | |
| Overview of the planned scope and timing of the audit, form, timing, materiality and expected general content of communications including significant risks and key audit matters | ● | |
| Confirmation of independence and objectivity | ● | ● |
| Significant matters in relation to going concern (if any) | | ● |
| Views about significant qualitative aspects of accounting practices including accounting policies, accounting estimates and financial statement disclosures (if any) | | ● |
| Significant findings from the audit | | ● |
| Significant matters and issues arising during the audit and written representations that have been sought | | ● |
| Significant difficulties encountered during the audit (if any) | | ● |
| Unadjusted accounting misstatements and material financial statement disclosure omissions | | ● |
| Expected modifications to the auditor's report, or emphasis of matter (if any) | | ● |

Tudalen y pecyn 328

ISA (UK) 260, as well as other ISAs (UK), prescribes matters which we are required to communicate with those charged with governance, and which we set out in the table here.

The Audit Plan outlined our audit strategy and plan to deliver the audit, while the Audit Findings presents key issues, findings and other matters arising from the audit, together with an explanation as to how these have been resolved.

## Respective responsibilities

As auditor we are responsible for performing the audit in accordance with ISAs (UK), which is directed towards forming and expressing an opinion on the financial statements that have been prepared by management with the oversight of those charged with governance.

The audit of the financial statements does not relieve management or those charged with governance of their responsibilities.

## Financial statement disclosures

During the course of our audit, we reviewed the adequacy of the disclosures contained within the financial statements and their compliance with both relevant accounting standards and the requirements of the FReM 2021-22.

The following disclosure matters were brought to your attention and subsequently adjusted/not adjusted in the revised financial statements.

| **Unadjusted disclosures** | |
|---|---|
| | Potential reclassification of provision into accruals (see other matters section) |
| | |

Tudalen y pecyn 329

# Financial reporting updates

## Important updates

A full list of financial reporting updates can be found by clicking the link below:




Tudalen y pecyn 330




**Keep up to date on the latest news and legislation changes by signing up to receive our alerts and newsletters.**



**RSM UK Audit LLP**

Second Floor
1 The Square
Temple Quay
Bristol
BS1 6DG
United Kingdom
**T** +44 (0)117 945 2000
rsmuk.com

Our Report is prepared solely for the confidential use of Wales Audit Office and solely for the purpose of explaining the scope of the audit, our proposed audit approach, and to highlight the key risks that we will be focusing our audit work upon, forming part of the ongoing communications we are required to make under International Standard on Auditing (UK and Ireland) 260 – Communication of audit matters with those charged with governance. Therefore, the report may not, without our express written permission, be relied upon by Wales Audit Office for any other purpose whatsoever, be referred to in whole or in part in any other external document or made available (in whole or in part) or communicated to any other party. RSM UK Audit LLP neither owes nor accepts any duty to any other party who may receive our Report and specifically disclaims any liability for any loss, damage or expense of whatsoever nature, which is caused by their reliance on our Report.

The UK group of companies and LLPs trading as RSM is a member of the RSM network. RSM is the trading name used by the members of the RSM network. Each member of the RSM network is an independent accounting and consulting firm each of which practises in its own right. The RSM network is not itself a separate legal entity of any description in any jurisdiction.

The RSM network is administered by RSM International Limited, a company registered in England and Wales (company number 4040598) whose registered office is at 50 Cannon Street, London EC4N 6JJ. The brand and trademark RSM and other intellectual property rights used by members of the network are owned by RSM International Association, an association governed by article 60 et seq of the Civil Code of Switzerland whose seat is in Zug.

RSM UK Corporate Finance LLP, RSM UK Restructuring Advisory LLP, RSM UK Risk Assurance Services LLP, RSM UK Tax and Advisory Services LLP, RSM UK Audit LLP, RSM UK Consulting LLP, RSM Northern Ireland (UK) Limited and RSM UK Tax and Accounting Limited are not authorised under the Financial Services and Markets Act 2000 but we are able in certain circumstances to offer a limited range of investment services because we are licensed by the Institute of Chartered Accountants in England and Wales. We can provide these investment services if they are an incidental part of the professional services we have been engaged to provide. RSM UK Legal LLP is authorised and regulated by the Solicitors Regulation Authority, reference number 626317, to undertake reserved and non-reserved legal activities. It is not authorised under the Financial Services and Markets Act 2000 but is able in certain circumstances to offer a limited range of investment services because it is authorised and regulated by the Solicitors Regulation Authority and may provide investment services if they are an incidental part of the professional services that it has been engaged to provide. Before accepting an engagement, contact with the existing accountant will be made to request information on any matters of which, in the existing accountant's opinion, the firm needs to be aware before deciding whether to accept the engagement.

© 2022 RSM UK Group LLP, all rights reserved

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Blynyddol 2022-23

Yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol

Mae’r Cynllun Blynyddol hwn yn cwmpasu’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac mae’n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau tymor hwy a’n dangosyddion perfformiad allweddol. Fe’i paratowyd ar y cyd, ac fe’i gosodir gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae’r Senedd wedi gwneud darpariaeth i’w Phwyllgor Cyllid fod yn gyfrifol am ystyried y Cynllun Blynyddol hwn ac adrodd amdano i’r Senedd.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain.  Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn y Cynllun hwn, rydym yn cyfeirio’n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen manylder cyfreithiol.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion isod.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @WalesAudit |

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

# Cynnwys


Rhagair 4

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud 6

Ein huchelgeisiau a sut y bwriadwn eu cyflawni 9

Ein hamgylchedd gweithredu 12

Ein rhaglenni gwaith 13

Cyflawni archwiliadau 14

Rhedeg y busnes 18

Mesur ac adrodd ar ein perfformiad 21

## Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol 25

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 26

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol 27

4 Ein cyllid 29

# Foreword

## Rydym yn falch o gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23

## We are pleased to present our Annual Plan for 2022-23

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf, o ran ein gwaith archwilio a rhedeg y busnes. Mae archwilio'n chwarae rhan hanfodol o ran darparu'r wybodaeth a'r sicrwydd y mae eu hangen ar y cyhoedd, gwleidyddion, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a dylanwadwyr ynghylch pa mor dda y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario. Wrth inni ddechrau dod allan o'r pandemig, mae'n anochel y bydd ei effaith yn parhau i gael dylanwad sylweddol ar ein gwaith yn 2022-23. Byddwn yn blaenoriaethu gwaith sy'n archwilio'r arian ychwanegol sydd wedi'i wario yng Nghymru a'r gwerth am arian a gyflawnwyd.

Mae llawer o'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru heddiw – mewn meysydd fel anghydraddoldeb, iechyd y cyhoedd, a'r argyfwng hinsawdd – yn gymhleth, yn gydgysylltiedig ac yn peri pryder i amrywiaeth o sefydliadau. Yn ystod y pandemig rydym wedi gweld cyrff cyhoeddus yn gweithio'n agos mewn partneriaeth. Hyd yn oed cyn i hyn ddigwydd, yr oeddem yn gweld cynnydd yn nifer y modelau cyflenwi cydweithredol, megis partneriaethau, dinas-ranbarthau a'r defnydd cynyddol o gyrff hyd braich ac is-gwmnïau i ddarparu gwasanaethau.

Felly, mae'n hanfodol bod ein ffocws archwilio yn parhau i esblygu i adlewyrchu sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn trefnu eu hunain i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Yn ystod y 12 mis nesaf, bwriadwn roi mwy o bwyslais yn ein cynnyrch archwilio ar adroddiadau thematig, cymariaethau ar draws cyrff a archwilir a nodi arfer da i ategu gwasanaethau cyhoeddus i wella. Byddwn hefyd yn parhau i ymgorffori ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum ffordd o weithio' ar draws ein gwaith archwilio.

Mae'r maes unigol mwyaf o'n gwaith yn ategu cyflwyno barn flynyddol ar ddatganiadau ariannol. Yn ystod 2022-23 byddwn yn canolbwyntio ar gyflwyno'r amserlen adrodd i batrymau cyn y pandemig heb beryglu ein hymrwymiad llwyr i ansawdd archwilio. Er mwyn gwella effaith ein cynnyrch archwilio, byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod eu ffurf a'u cyflwyniad yn fwy deniadol ac ysbrydoledig gydag iaith gliriach a beiddgar i bwysleisio'r negeseuon yr ydym am eu cyfleu.

Ni ellir cyflawni unrhyw un o'n hamcanion ar gyfer archwiliad cyhoeddus o ansawdd uchel heb fod â'r staff a'r adnoddau cywir ar waith. Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithredu newidiadau i'n model gweithredu i ategu ein hamcanion archwilio a chynnal ansawdd archwilio. Gan ddysgu o'n profiad drwy'r pandemig, byddwn yn dychwelyd i rywfaint o weithredu yn y swyddfa tra'n cynnal hyblygrwydd gweithio o bell. Yn 2022 byddwn yn gwneud penderfyniadau ar ein hystâd swyddfeydd ar gyfer y dyfodol. Ein nod yw dod o hyd i'r man melys sy'n darparu gwaith o ansawdd uchel, effeithlonrwydd ac amgylchedd dysgu rhagorol tra'n rhoi gwerth uchel ar iechyd a lles staff Archwilio Cymru a chyfrannu at leihau ein heffaith amgylcheddol. Yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gynnwys ein costau gweithredu ein hunain, rydym wedi gosod targedau arbedion heriol o ran rheoli swyddi gwag a meysydd gwariant eraill. Rydym wrthi'n cwblhau adolygiad sylweddol o'n cynllun teithio a fydd yn sicrhau arbedion sylweddol yn y blynyddoedd i'w dod.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno'n flynyddol. Caiff elfennau sylweddol o'r cyllid hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

2 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

3 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tuag £21 biliwn o incwm a gwariant, sydd dros chwarter cynnyrch domestig gros Cymru.

## Beth rydyn ni'n ei wneud



**Sicrhau**
pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



**Egluro**
sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl



**Ysbrydoli**
a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

4 Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cefnogi'r gwaith o graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr etholedig lleol. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

5 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gellir arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd, os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.


6 Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth adnoddau dynol a naturiol, ochr yn ochr ag ystyried adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyfrif am eu defnyddio.

7 Nodwn arfer da o bob rhan o'n gwaith archwilio cyn ei ledaenu drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu a rennir.

8 Rydym yn ymgymryd â'n gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai swyddogaethau eraill ac mae'n ymgorffori'r arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol.

9 Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a chyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

# Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru[1]




1 Nid yw'r ffynonellau ariannu a amlygwyd yn yr arddangosyn yn cynnwys gweithgareddau cynhyrchu incwm mewn cyrff cyhoeddus unigol.

2 Yn cynnwys derbyniadau gan Swyddfa Cymru, Dosbarthiad CThEM o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn perthynas â Nawdd Cymdeithasol, a Chyfradd Treth Incwm Cymru.


# Ein huchelgeisiau a sut y bwriadwn eu cyflawni



Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein dirnadaeth



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

10 Fel y nodwyd gyntaf yn ein Cynllun Blynyddol 2019-20 rydym wedi nodi pedwar uchelgais eang ar gyfer ein busnes. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn tuag at gyrraedd ein potensial llawn fel sbardun newid a gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

11 Yn fwy diweddar, rydym wedi nodi tri bloc adeiladu lle credwn fod angen inni flaenoriaethu camau gweithredu os ydym am gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Bydd y blociau adeiladu hyn yn ganolbwynt i'n hymdrechion am y pum mlynedd nesaf, ochr yn ochr â chyflawni ein cyfrifoldebau statudol craidd.

## Rhaglen archwilio strategol, deinamig ac o ansawdd uchel

| | | |
|---|---|---|
| Taro'r cydbwysedd cywir o ran cael banc o brosiectau archwilio a gynlluniwyd ymlaen llaw a digon o hyblygrwydd i ymateb i feysydd o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg | Sefydlu gallu a chapasiti ymchwil a'i ddefnyddio i lunio ein rhaglen archwilio | Mabwysiadu dull mwy cyfannol o gyflawni archwiliadau, sy'n defnyddio arbenigedd a gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad |
| Sefydlu proses drylwyr a thryloyw ar gyfer rheoli ein rhaglenni archwilio lleol a chenedlaethol | Gwneud mwy o ddefnydd o waith blaenorol perthnasol wrth ymateb i feysydd o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg | Hyrwyddo gwelliant parhaus yn ansawdd ein gwaith drwy gymhwyso'r safonau archwilio rhyngwladol perthnasol |

## Defnyddio dull wedi'i dargedu o gyfathrebu a dylanwadu er mwyn sicrhau effaith

| | | |
|---|---|---|
| Mabwysiadu dull ymgyrchu o gyfathrebu'n allanol, a gynlluniwyd ar ddechrau prosiectau | Miniogi ein negeseuon a'n dulliau o gyflwyno a chryfhau ein presenoldeb digidol | Bod yn rhagweithiol o ran nodi cyfleoedd i arddangos ein gwaith ac i ail-deilwrio ein hallbynnau yn briodol |
| Arfogi staff i fanteisio'n well ar gyfleoedd i ddylanwadu ar ystod o gynulleidfaoedd | Cymryd rôl fwy amlwg yn y broses o lunio dyfodol archwilio cyhoeddus | |

## Diwylliant a model o weithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol

| | | |
|---|---|---|
| Ymgorffori diwylliant lle mae pawb yn teimlo bod ganddynt lais a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, a lle mae llwyddiannau'n cael eu dathlu'n eangg | Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu, arloesi a rhannu syniadau | Sicrhau bod ein ffyrdd o weithio yn arwain at ddull o wneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol mewn modd agored a thryloyw |
| Datblygu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol drwy drefniadau ystwyth ar gyfer rheoli perfformiad a thalent | Cryfhau galluoedd arweinyddiaeth ar draws y sefydliad | Gweithio mewn ffordd glyfar a chynaliadwy er mwyn gwneud y mwyaf o botensial ein pobl ac asedau ffisegol |


# Ein hamgylchedd gweithredu

12 Fel y nodir yn ein Hymgynghoriad sy'n gwahodd sylwadau i lywio ein rhaglen waith archwilio yn y dyfodol, ac yn ein dadansoddiad diweddar Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus, rydym o'r farn mai'r canlynol yw'r cyfleoedd a'r heriau allweddol a fydd yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn cyflawni ein huchelgeisiau tymor hwy ac yn cyflawni ein rhaglenni gwaith dros y blynyddoedd nesaf.



**Byd sy'n newid**

- Newid yn yr hinsawdd: sicrhau trosglwyddiad teg a chyfiawn
- Cydraddoldebau: ymateb i alwadau am gymdeithas decach a mwy cyfartal
- Cyfansoddiad: rheoli cyfleoedd a risgiau perthnasoedd newydd o fewn y DU



**Y pandemig sy'n parhau**

- Costau uniongyrchol yr ymateb
- Effeithiau economaidd ar gyllid cyhoeddus
- Costau etifeddol effeithiau tymor hir



**Trawsnewid y modd y cyflwynir gwasanaeth**

- Systemau a diwylliant i gefnogi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau
- Cydweithio pwrpasol
- Cynllunio ac atal hirdymor
- Harneisio technoleg lle bo hynny'n briodol
- Defnyddio data i ddysgu ar draws y system gyfan

13 Byddwn yn defnyddio'r themâu hyn i helpu i lunio ein rhaglenni gwaith, ochr yn ochr â'n dadansoddiad ehangach o'r risgiau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, polisïau a rhaglenni mawr, gwariant ar wasanaethau cyhoeddus a'u perfformiad.

14 Byddwn yn ystyried cydbwysedd cyffredinol ein gwaith archwilio ar draws gwahanol feysydd polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 a chyd-destun ehangach y saith nod llesiant i Gymru. Byddwn hefyd yn ystyried cyfleoedd i'n gwaith lywio gwaith craffu gan bwyllgorau'r Senedd.

# Ein rhaglenni gwaith

15 Gellir rhannu ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2022-23 yn fras yn ddwy adran – sef cyflawni archwiliadau a rhedeg y busnes.

16 Mae’r adran gyntaf ar gyflawni archwiliadau yn cynnwys rhaglen waith a blaenoriaethau’r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022-23 wrth arfer ei swyddogaethau. Mae’r ail adran ar redeg y busnes yn crynhoi rhaglen waith a blaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23 wrth arfer ei swyddogaethau.

17 Ar gyfer y ddwy adran, nodwyd rhai blaenoriaethau gwella a fydd yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau dros y flwyddyn i ddod. Bydd y cynnydd a wneir tuag at gyflawni’r camau blaenoriaeth hyn yn cael ei arwain gan ein Tîm Arwain Gweithredol a’i fonitro’n agos gan ein Bwrdd.

18 Defnyddir yr adnoddau sydd ar gael, ac a all ddod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â’r Amcangyfrif o Incwm a Threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023 a gymeradwywyd, wrth gyflenwi’r rhaglenni gwaith hyn.

# Cyflwyno archwiliadau

## Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus



Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**




Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£1.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1.5 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd



Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 1 – Gwaith archwilio lleol

Atodiad 2 – Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

19 Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol, mae pedair egwyddor a gydnabyddir yn eang yn sail i'n gwaith archwilio:

**Y pwyslais cyhoeddus**

Cynhelir archwiliad ar ran y cyhoedd ac fe'i gwneir er budd y cyhoedd

**Atebol**

Caiff archwilwyr y sector cyhoeddus eu hariannu'n gyhoeddus ac maent yn atebol am eu defnydd o arian cyhoeddus

**Annibynnol**

Mae'n rhaid i archwiliadau fod, ac ymddangos, yn annibynnol, wrth iddynt gael eu cynnal mewn ffordd sy'n wrthrychol ac yn ddiduedd

**Cymesur**

Mae angen rhoi digon o le i ddarparwyr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau o safon uchel, wrth fod yn destun lefelau craffu digonol, ond nid gormodol

20 Mae'r gwaith archwilio a wnawn mewn cyrff cyhoeddus unigol yn cynnwys:

- rhoi barn am y cyfrifon.
- ystyried sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy (rheoleidd-dra).
- ystyried sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal (priodoldeb).
- ystyried a oes trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian.
- asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

21 Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU drwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a chyda'n cydweithwyr yn y prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio cyhoeddus ac effaith gyfunol ein gwaith. Rydym yn falch o gynrychioli Cymru ar adegau ar y llwyfan archwilio rhyngwladol, gan gynnwys yn EURORAI[3].

22 Gallwn hefyd drefnu gyda mathau penodol o gyrff, yn y DU a thramor, ymgymryd â gwaith a gomisiynwyd[4]. Mae hyn yn cynnwys archwilio tua £90 miliwn o arian Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru[5] a bod yn Brif Archwilydd i Lywodraeth Anguilla ac archwilio ei chyfrifon.

23 Bydd y rhan fwyaf o'n hadnoddau archwilio yn parhau i ganolbwyntio ar ein gwaith craidd. Er enghraifft, mae'r maes unigol mwyaf o'n gwaith yn ategu cyflawni barn flynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatganiadau ariannol. Yn ystod 2022 a 2023 byddwn yn canolbwyntio ar ddwyn ein hamserlen adrodd ymlaen i batrymau cyn y pandemig heb beryglu ein hymrwymiad llwyr i ansawdd archwilio.

24 Fodd bynnag, mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac fel rhan o'n strategaeth tymor hwy ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau, rydym wedi nodi chwe cham blaenoriaeth i ategu gwaith cyflawni archwilio yn 2022-23.

3 Mae'r Sefydliad dros Sefydliadau Archwilio Rhanbarthol Ewrop (EURORAI) yn brosiect cydweithredu ymhlith sefydliadau archwilio'r sector cyhoeddus ledled Ewrop.

4 Lle'r ydym yn darparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu'n arfer eu swyddogaethau, rydym yn ymwybodol y dylai pob gweithgaredd o'r fath fod yn hunangyllidol ac na ddylid ei wneud ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

5 Ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

| **Camau blaenoriaeth i ategu cyflawni archwiliadau yn 2022-23** |
| --- |
| Datblygu ein model gweithredu ymhellach, gan gynnwys drwy:<br>• sefydlu strwythurau gweithredu newydd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;<br>• sefydlu swyddogaeth ymchwil a datblygu newydd; ac<br>• egluro'r addasiadau angenrheidiol i'n ffyrdd o weithio mewn byd ôl-bandemig. |
| Datblygu ein rhaglen waith, gan gynnwys:<br>• nodi rhaglen tymor canolig fwy strategol, gan ystyried ein hymgynghoriad presennol a'n hymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg;<br>• ymgynghori ar newidiadau posibl i'n model ariannu;<br>• mabwysiadu'r safonau proffesiynol gorau, ac ymgorffori model rheoli ansawdd archwilio newydd;<br>• datblygu ein hallbynnau archwilio i sicrhau eu bod yn gyfathrebol ac yn effeithiol. |
| Datblygu prosesau gwybodaeth reoli mwy effeithlon, hygyrch a, lle bo'n briodol, awtomataidd, gan gynnwys gweithredu system rheoli amser ac adnoddau newydd. |
| Datblygu elfen cyflawni archwiliadau ein cynllun gweithlu er mwyn iddo gefnogi'r gwaith o gyflawni ein rhaglen waith yn fwy effeithiol ac atgyfnerthu ein strategaeth dysgu a datblygu. |
| Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddylanwadu ar y ddadl am ddyfodol archwilio cyhoeddus yn y DU ac ehangu ein mewnbwn i ddatblygiadau archwilio a chyfrifyddu proffesiynol eraill. |
| Defnyddio technoleg a dadansoddeg data i barhau i foderneiddio'r ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith archwilio, cynyddu ein heffaith, gwella ansawdd, a chadw i fyny â disgwyliadau'r diwydiant. |

# Rhedeg y busnes

## Gwaith craidd




Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£23.7 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **280 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo


Am ragor o wybodaeth gweler:
Atodiad 4 – Ein Cyllid

25 Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am bennu a goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad a sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgeisiau. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol, ynghyd â dau aelod a etholwyd gan gyflogeion sy'n darparu dimensiwn ychwanegol o ddirnadaeth a phrofiad.

26 Mae'r Tîm Arwain Gweithredol, sy'n cynnwys tri Chyfarwyddwr Gweithredol ac sy'n cael ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei gynghori yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

27 Ceir gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Datganiad Llywodraethu ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## Cyd-ddibyniaeth rhwng ein Cynllun Blynyddol a chynlluniau a strategaethau mewnol allweddol eraill ar gyfer rhedeg y busnes, y mae pob un ohonynt yn rhan o'n strategaeth gyffredinol ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau




28 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac yn rhan o'n strategaeth tymor hwy ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau, rydym wedi nodi pum cam blaenoriaeth i'n hategu i redeg y busnes yn 2022-23.

**Camau blaenoriaeth ar gyfer rhedeg y busnes yn 2022-23**

Penderfynu beth fydd ein ffyrdd ‘normal newydd’ o weithio wrth i ni symud i gyfnod adfer o ran y pandemig, ac wrth wneud hynny parhau i flaenoriaethu iechyd a lles parhaus staff Archwilio Cymru.

Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu strategaeth pum mlynedd a ‘map ffyrdd’ ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol, gan gynnwys sicrhau:

- ymgysylltu ar draws y sefydliad â datblygu’r map ffyrdd;
- bod camau blaenoriaeth ar gyfer y strategaeth yn cael eu hadlewyrchu a’u hymgorffori mewn cynlluniau eraill ar lefel y sefydliad cyfan, unedau busnes a thîm;
- alinio ac integreiddio priodol â’n trefniadau rheoli risg a pherfformiad; a
- bod cysylltiadau clir rhwng y strategaeth a’r prosiect ac amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt ar gyfer unigolion.

Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu cynigion i ddiwallu ein hanghenion adeiladau yn y dyfodol, er mwyn galluogi penderfyniad gan y Bwrdd yn ddiweddarach yn 2022-23.

Ymgorffori’r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ein holl brosesau penderfynu, gan gynnwys wrth:

- Weithredu ein trefniadau teithio a chynhaliaeth staff diwygiedig
- Arbrofi gyda ffyrdd newydd, mwy effeithlon a chraffach o weithio, a’u gwerthuso
- Pennu ein map trywydd ar gyfer symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net

Cyhoeddi a gweithredu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb sy’n addas i’r diben ac sy’n rhan allweddol o’n strategaeth i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol.

# Mesur ac adrodd ar ein perfformiad

29 Yn 2022-23, byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, adrodd a myfyrio ar ein perfformiad, gwerth am arian a risgiau, ac i geisio tystiolaeth ar effaith ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys adrodd yn rheolaidd i'n Tîm Arwain Gweithredol a'n Bwrdd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein camau blaenoriaethu a chyflawni ein targedau dangosydd perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

30 Ar gyfer pob un o'n rhaglenni gwaith, rydym wedi nodi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel a fydd yn ein helpu i fesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol. Byddwn yn pwysleisio gwerthuso ein cyfeiriad teithio a chyflymder y gwelliant, ochr yn ochr â chymharu â meincnodi priodol.

31 Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn allanol drwy ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'n Hadroddiad Interim, a thrwy ddarparu tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Senedd. Dylid nodi bod ein dangosyddion perfformiad allweddol yn is-set o gyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad gweithredol a chorfforaethol, y mae llawer ohonynt hefyd yn destun adrodd allanol yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon a chyhoeddiadau corfforaethol eraill.

32 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, gwnaethom adolygu ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol gan gyfeirio at lefelau perfformiad cyfredol a meincnodau allanol priodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau cyffredinol a'n strategaeth ar gyfer eu cyflawni.

# Dangosyddion perfformiad allweddol cyflawni archwiliadau

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 1 | Dyddiadau cau statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflenwir erbyn y dyddiad cau statudol gofynnol. | 100% |
| 2 | Mewn pryd | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a ddarperir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% |
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd sy'n cael eu darparu yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | Aseswyd 100% o'r sampl fel bod yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% |
| 5 | Darparu dirnadaeth | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi magu dirnadaeth ddefnyddiol na fyddent wedi'i chaffael fel arall. | O leiaf 80% |
| 6 | Sbarduno gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% |
| 7 | Arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl, incwm, enillion cynhyrchiant a manteision ariannol eraill a nodwyd drwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2020-2023 |
| 8 | Digwyddiadau arfer da | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei pherfformio, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 35,000 bob blwyddyn |
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymrwymiadau cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithio â'n hysbysiadau fel hoffi, sylw, neu ail-drydar/rhannu. | 3,000 bob blwyddyn |
| 11 | Rhannu gwersi archwilio a ddysgwyd | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno gwersi archwilio a ddysgwyd i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 bob blwyddyn |

# Dangosyddion perfformiad allweddol rhedeg y busnes

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â gweithwyr | Canran sgôr mynegai ymgysylltu arolwg blynyddol staff cadarnhaol (yn cyd-fynd â'r sgôr ar gyfer Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil). | O leiaf y sgôr meincnod canolrif ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil |
| 13 | Profiad gweithwyr | Canran[6] sgoriau profiad gweithwyr thematig arolwg blynyddol staff cadarnhaol. | O leiaf y sgoriau meincnod canolrifol ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil |
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollir fesul aelod o staff y flwyddyn. | Llai na chwe diwrnod |
| 15 | Cydbwysedd ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | O fewn 2% o'r gyllideb |
| 16 | Arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd | Gwerth arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes. | £1.4 miliwn |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm allyriadau cywerth â $CO_2$. | Gostyngiad o 20% ar waelodlin 2019-20 wedi'i hailgyfrifo[7] |
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo'r tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90% |

6 Y themâu allweddol o ran profiad gweithwyr yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yw: amcanion a phwrpas y sefydliad; arwain a rheoli newid; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; a thâl a buddion.

7 Sy'n ystyried y Canllaw diweddaraf ar adrodd ar garbon sero-net a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

4 Ein cyllid

# 1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[8] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[9] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 o gwmnïau Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 o Gomisiynwyr, Arolygiaethau a Rheoleiddwyr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[10] |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | ✓ | ✓ | |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa bensiwn | ✓ | | |
| Cydbwyllgorau Corfforaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Bargeinion twf dinas-ranbarth | ✓ | ✓ | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau, ardaloedd draenio ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[11] | | |

8 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob un o'r cyrff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd, mae gwaith archwilio perfformiad a wneir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

9 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

10 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno o ganfyddiadau gwaith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol drwy ohebiaeth. Mae allbynnau llawer o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Yn ein diweddar Ymgynghoriad sy'n gwahodd sylwadau i lywio ein rhaglen waith archwilio ar gyfer 2022-23 a'r tu hwnt, rydym yn nodi meysydd ffocws posibl ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol o 2022-23 ymlaen ochr yn ochr â rhyw ddisgrifiad o'r gwaith a wnaed eisoes neu sydd eisoes ar y gweill neu a gynlluniwyd. Rydym hefyd yn gwahodd barn am bynciau yr ydym wedi adrodd arnynt o'r blaen y gallem eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith dilynol.

Efallai y bydd rhai o'r meysydd ffocws y byddwn yn dewis eu datblygu yn addas ar gyfer gwahanol fathau o allbwn – sesiynau briffio byr, blogiau, offer data neu hwyluso cyfnewid syniadau ac ymarfer drwy ddulliau eraill – yn hytrach nag adroddiad llawn.

Yn 2022-23, byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru.

Wrth i ni geisio gweithio'n effeithlon, lleihau dyblygu gwaith a lleihau'r pwysau ar gyrff a archwilir, byddwn hefyd yn ystyried gwaith a wnaed neu a gynlluniwyd gan gyrff adolygu allanol eraill. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, y gwahanol gomisiynwyr yng Nghymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn hefyd yn cysylltu â chyrff eraill sy'n canolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus, megis Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Llywodraethiant Cymru.

# 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a phwyllgorau eraill y Senedd

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) wrth iddo ystyried defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ein gwaith hefyd, lle y bo'n berthnasol, lywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

Yn 2022-23 byddwn yn darparu sesiynau briffio rheolaidd i PAPAC ar gynnwys adroddiadau cyhoeddedig yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd yn helpu'r Pwyllgor i benderfynu ar ei gamau gweithredu dilynol. Byddwn hefyd yn rhoi cyngor a chymorth pellach i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn, yn enwedig mewn perthynas â:

- Datblygu sesiynau briffio aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill
- Datblygu adroddiadau'r Pwyllgor
- Rhoi cyngor ar ddigonolrwydd ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor

Rydym wedi cynnwys holl Aelodau'r Senedd a thimau clercio'r rhan fwyaf o bwyllgorau'r Senedd wrth ddosbarthu'r Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer ein rhaglen waith yn y dyfodol, ac rydym wedi trafod yr ymgynghoriad yn fanylach gyda PAPAC.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff a archwilir gennym i ddarparu sesiynau briffio rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

Byddwn hefyd yn rhoi cyngor a chymorth pellach i'r pwyllgorau archwilio a chraffu, lle bo'n berthnasol, a hynny'n enwedig mewn perthynas â:

- Rhoi cymorth ac arweiniad i gadeiryddion pwyllgorau i'w cynorthwyo i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl
- Darparu cyfleoedd dysgu arfer da a sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau'r pwyllgor ar faterion arbennig o berthnasol.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Cawn ohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer cael datgeliadau chwythu'r chwiban am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn 2022-23, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod:

- Yn ymateb i bryderon o'r fath yn brydlon ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol
- Yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i'r rhai sydd wedi rhoi o'u hamser i dynnu sylw atynt
- Yn cyhoeddi adroddiadau archwilio lle credwn fod y rhain yn deilwng
- Yn sicrhau nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus yn edrych ar faterion nad ydynt yn berthnasol i'n gwaith archwilio nac yn treulio gormod o amser ar fân faterion

# 4 Ein cyllid

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys drwy ystyried y Cynllun hwn, ein Hadroddiad Interim a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Daw tua dwy ran o dair o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â Chynllun Ffioedd wedi'i gymeradwyo[12] gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru (WCF), y mae ein defnydd ohoni'n destun craffu gan y Bwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Nodir y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2022-23 yn ein Hamcangyfrif o Incwm a Threuliau diweddaraf a'r Wybodaeth Ategol, a gafodd eu hystyried a'u cymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2021. Mae £19.0 miliwn o'n gwariant arfaethedig yn ymwneud ag adnoddau sydd i'w rhyddhau i'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith[13]. Mae £4.4 miliwn arall yn darparu amrywiaeth o wasanaethau corfforaethol, gan gynnwys adeiladau a gwasanaethau cymorth eraill, megis cyngor cyfreithiol, TGCh ac Adnoddau Dynol[14].


Mae'r Bwrdd yn adolygu ein perfformiad ariannol bob tro y mae'n cyfarfod drwy gydol y flwyddyn. Bob mis, mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn ystyried asesiad risg o'n hiechyd ariannol gyda'r nod o sicrhau gwerth am arian ac alldro diwedd blwyddyn o fewn y gyllideb.

12 Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyrff rydym yn eu harchwilio a rhanddeiliaid allweddol eraill.

13 Dyma uchafswm yr adnoddau sydd ar gael, ac a all ddod ar gael, y rhagwelir y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymgymryd â'i raglen waith.

14 Y rhain yw'r adnoddau sydd eu hangen i gyflegi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

# Ein gwariant refeniw a'n cyllid 2022-23



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

Ebost: post@archwilio.cymru

www.archwilio.cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd 2023-24

Awst 2022

# Sut i ymateb

Ymatebwch erbyn 16 Medi 2022.

Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad Graddfeydd Ffioedd
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Neu gellir eu cwblhau'n electronig a'u hanfon drwy e-bost i:

post@archwilio.cymru

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod neu drwy ein ffonio ar 029 2032 0500.

# Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam mae'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n wybodaeth gyfrinachol yn eich tyb chi. Os cawn gais yn gofyn i ni ddatgelu gwybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob math o amgylchiadau. Ni ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd a grëwyd yn awtomatig gan eich system TG, ohono'i hun, yn rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol nac Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael eu prosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Lle mae data o'r fath o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau deddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu tra bo enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu cadw'n ôl.

# Cynnwys


Sut i ymateb 2

Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data 2

Ymgynghoriad 4

Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data) 9

Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol 10

- Awdurdodau unedol 11
- Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol 12
- Awdurdodau Tân ac Achub 12
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 13
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 14
- Cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn 15
- Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol 16

# Ymgynghoriad

Byddwch yn gyfarwydd â'n hymgynghoriad blynyddol ar y graddfeydd ffioedd, y mae'n ofynnol i ni ei gynnal ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol ond yn dewis ymgynghori'n fwy eang fel bod yr holl randdeiliaid yn cael cyfle i ymateb i'n cynigion ar gyfer ffioedd.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod y ffioedd a godir gennym **yn methu â bod yn uwch** na chost lawn cyflawni'r swyddogaeth y mae a wnelo'r ffi â hi. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n sylfaen gostau, y cymysgedd o sgiliau yr amcangyfrifir y bydd ei angen ar gyfer gwaith archwilio a nifer y diwrnodau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym yn gwneud ac ni chawn wneud elw o'n gwaith.

Mae Archwilio Cymru'n dal i fod yn benderfynol o gyfyngu ar ffioedd archwilio gan hefyd sicrhau bod ansawdd ein gwaith archwilio'n parhau i gyrraedd safonau trylwyr.

Ar gyfer 2023-24, rydym yn wynebu pwysau costau sylweddol o ran costau staff a rhai nad ydynt yn ymwneud â staff, ac er bod gennym fentrau amrywiol ar waith i leihau ein sail gostau gyffredinol, yn anffodus bydd angen trosglwyddo rhywfaint o'r cynnydd hwn ar ffurf ffioedd uwch.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i adnabod arbedion effeithlonrwydd ac wedi nodi meysydd a fydd yn sicrhau arbedion o £2 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf ar gostau teithio a llety.

Fodd bynnag, mae angen i ni gydnabod pwysau costau byw ar ein staff a gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd i gyflog yn unol â gweddill y sector cyhoeddus.

Fel y nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23, rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn ansawdd archwilio i ymateb i adolygiadau diweddar ar lefel y DU gyfan[1] o safonau archwilio a phroffesiynol newydd. Mae'r adolygiadau amrywiol hyn yn adlewyrchu disgwyliadau cynyddol o archwilio ac ansawdd yr archwilio hwnnw. I gynnal y buddsoddiad hwn yn 2023-24, ac i ymateb i bwysau cyflogau a phrisiau, bydd angen i ni gynyddu ein cyfraddau ffioedd 5.5% ar gyfartaledd yn 2023-24.

Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad at y Fenter Twyll Genedlaethol am ddim.

1 Adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Adolygiad Kingman; ac Adolygiad Brydon

Nodir cyfraddau arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2023-24 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2023-24**

| Gradd | Cyfradd (£ yr awr) 2023-24 | Cyfradd (£ yr awr) 2022-23 |
|---|---|---|
| Archwilyd Ymgysylltu | 170 | 163 |
| Rheolwr Archwilio | 130 | 122 |
| Arweinydd Archwilio | 107 | 100 |
| Uwch Archwilydd | 86 | 84 |
| Archwilydd | 62 | 60 |
| Hyfforddai graddedig | 54 | 51 |
| Prentis | 40 | 39 |

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu arnom o ran ein gwariant, ein perfformiad a'n cynlluniau ar gyfer y gyllideb ac mae'r tybiaethau yn yr ymgynghoriad hwn yn amodol ar ei gymeradwyaeth o'n Hamcangyfrif yn ystod hydref 2022 a'r Cynllun Ffioedd yn gynnar yn 2023.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n gwariant yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22.

**Hwyluso adolygiadau thematig a thraws-sector**

Yn yr wybodaeth ategol ar gyfer ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23, gwnaethom nodi yn rhan o'n strategaeth newydd, y byddem yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid newid y cyllid ar gyfer rhywfaint o'n gwaith archwilio perfformiad ym meysydd llywodraeth leol ac iechyd o ffioedd archwilio i Gronfa Gyfunol Cymru yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24.

Yn benodol, bydd y newid hwn yn berthnasol i'r 22 prif gyngor a saith bwrdd iechyd ond nid i gyrff Llywodraeth Leol eraill nac Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.

Yn ei adroddiad o fis Tachwedd 2021 ar ôl craffu ar yr Amcangyfrif, nododd y Pwyllgor Cyllid ein cynnig. Fodd bynnag, pwysleisiodd y bydd 'cael barn cyrff archwiliedig yn hanfodol i gael cefnogaeth y Pwyllgor'.

Mae elfennau ein ffi archwilio perfformiad yr ydym yn ceisio eu newid i Gronfa Gyfunol Cymru yn ymwneud â darparu adolygiadau 'thematig' neu benodol i bwnc sydd fel rheol yn golygu gwaith archwilio ar draws nifer o gyrff archwiliedig (ar lefel Cymru gyfan a/neu ranbarthol) ac yn aml â phwyslais traws-sector neu system gyfan. Efallai hefyd y byddwn yn dymuno ystyried materion fel arweinyddiaeth system Llywodraeth Cymru ar y thema sy'n cael ei harchwilio, na ellir ei ariannu o ffioedd archwilio.

Rydym o'r farn bod adolygiadau o'r fath yn ychwanegu gwerth at ein trefn archwilio gyda'u gallu i gynnig golwg system gyfan, gan helpu i wella ansawdd gwasanaethau a ddarperir i drethdalwyr, a darparu adborth ar ddatblygiadau 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' Llywodraeth Cymru. Rydym yn awyddus felly i wneud darpariaeth yr adolygiadau hyn mor hyblyg ac effeithlon â phosibl. Roedd y cyfyngiadau allweddol a bwysleisiwyd gennym am y model ariannu presennol yn ymwneud ag:

- anhyblygrwydd posibl yn y ffordd yr ydym yn rhannu canfyddiadau – yn deillio o unrhyw ddisgwyliad gan gyrff archwiliedig sy'n talu ffioedd y byddai allbwn sy'n benodol i'r corff hwnnw fel rheol; a
- chymhlethdod trafodiadol – o gofio'r angen i gydbwyso codi am amser ar draws codau taflenni amser lluosog â gofynion 'codi dim mwy na'r gost lawn' Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, sy'n golygu bod yn rhaid i ni fod yn ofalus nad oes unrhyw draws-sybsideiddio o un corff i'r llall.

Wrth benderfynu faint o gyllid y byddem yn bwriadu ei newid i Gronfa Gyfunol Cymru, ein nod yw sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwaith a ariennir yn lleol a'r hyn a ariennir drwy Gronfa Gyfunol Cymru, a chydnabod bod ffrydiau cyllid eraill presennol Cronfa Gyfunol Cymru eisoes yn cynnig cyfle ar gyfer gwaith trawsbynciol. Dyma'r egwyddorion allweddol:

- cadw ffi archwilio leol ddigonol i gefnogi'r ddarpariaeth o waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyrff archwiliedig unigol, gan gynnwys asesu risg, archwilio materion llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol (gan gynnwys gwaith Deddf LlCD), a phrosiectau archwilio unigol wedi'u teilwra sy'n deillio o'n hasesiad lleol o risgiau;
- sicrhau y cedwir ffi archwilio leol ddigonol i gefnogi ein hymgysylltiad lleol mater o drefn â chyrff archwiliedig, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd ag uwch arweinwyr mewn cyrff archwiliedig, a phresenoldeb mewn cyfarfodydd bwrdd, cyngor a phwyllgor yn ôl yr angen; a
- defnyddio'r cynnig ar gyfer cyrff archwiliedig mwy (prif gynghorau a byrddau iechyd) y mae ein gwaith thematig yn fwy perthnasol iddynt yn nodweddiadol.

Rydym ni'n rhagweld y byddwn ni'n lleihau'r ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad lleol tua thraean (£1.3 miliwn) ac yn newid cyllid ar gyfer y gwaith hwn i Gronfa Gyfunol Cymru. Er mwyn cynnal Cronfa Gyfunol Cymru yn ddiniwed am y newid hwn, byddai Llywodraeth Cymru'n cael ei gofyn, gan gymryd bod y newidiadau a gynigir yn cael eu cytuno, i addasu penderfyniadau'r gyllideb yn unol â hynny.

Rydym o'r farn y bydd newid i'n model ariannu yn cefnogi'r trywydd yr ydym yn dymuno ei ddilyn gyda'n rhaglen waith – drwy roi gwell hyblygrwydd i ni archwilio mwy o faterion trawsbynciol a system gyfan – ac hefyd gwneud y daith honno yn fwy syml i'w gweinyddu o safbwynt rheoli ariannol.

**ISA315 ac ansawdd archwilio**

Bydd ein harchwiliadau o gyfrifon a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn cael eu cynnal yn unol â safon archwilio ddiwygiedig (ISA 315 Nodi ac Asesu Risgiau o Gamddatganiad Perthnasol). Bydd y safon ddiwygiedig yn cael effeithiau arwyddocaol a phellgyrhaeddol ar sut mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwiliad cyffredinol. Disgwylir y bydd angen ar archwiliadau – yn enwedig yn y flwyddyn weithredu gyntaf (archwiliadau 2022-23) – i ni ddefnyddio mwy o staff cymwys i ymdrin â'r lefel uwch o feirniadaeth sy'n angenrheidiol o dan y safon.

Ein hasesiad cychwynnol o effaith y cymysgedd sgiliau mwy cyfoethog hwn yw cynnydd cyfartalog posibl i'r graddfeydd ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol o rhwng 12% a 18%. Amcangyfrif yw hwn ar hyn o bryd a bydd yn cael ei adolygu ar ôl gweithredu ein dull diwygiedig yn ystod hanner cyntaf 2023. Rydym yn ymwybodol bod cwmnïau archwilio sector preifat wedi ysgrifennu at gleientiaid yn eu hysbysu bod ffioedd yn debygol o gynyddu 20% o ganlyniad i'r gofyniad newydd hwn.

Rydym yn cydnabod y pryder y bydd y cynnydd hwn yn ei achosi, ond mae'n anochel fod y safonau newydd yn golygu costau uwch, ac er y byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gadw costau i lawr, rhaid i ni sicrhau bod ein harchwiliadau yn parhau i fod o ansawdd uchel. Bydd ein Cyfarwyddwyr Ymgysylltu yn trafod ffioedd penodol i archwiliadau gyda phob corff wrth i ni gwblhau ein hasesiad risg archwilio ar gyfer 2022-23.

**Ein graddfeydd ffioedd drafft ar gyfer cyrff llywodraeth leol**

Mae gweddill y ddogfen hon yn darparu'r graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff llywodraeth leol a'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r graddfeydd yn dangos yr ystod o ffioedd yr ydym yn disgwyl eu codi ar gorff nodweddiadol a archwilir yn y sector hwnnw gydag union ffioedd yn cael eu pennu mewn ymateb i amgylchiadau lleol. Nid oes angen y graddfeydd hyn ar gyfer unrhyw sector arall.

Byddwn yn croesawu eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 16 Medi 2022 i lywio adolygiad y Senedd o'n Hamcangyfrif a'n Cynllun Ffioedd Drafft ar gyfer 2023-24.

Mae'n ofynnol i Archwilio Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n darparu ar gyfer peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ceir rhagor o wybodaeth am ein trefniadau o ran y Gymraeg ar ein gwefan. Wrth adolygu'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu eich barn ar ôl ystyried a oes unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn sy'n tanseilio neu'n ategu'r gofyniad hwn. Byddem hefyd yn croesawu eich meddyliau ynglŷn ag unrhyw ddiwygiadau y gellid eu gwneud i ategu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diolch yn fawr



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

1 Rydym yn gwahodd eich barn ar barhau i gyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol am ddim.

2 Mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd a'u rhagnodi ar gyfer paru data i gyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio'i bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

3 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn hynod effeithiol ar gyfer canfod ac atal twyll a gordaliadau. Canfu ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £8 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu'r arbedion cronnus i £42.9 miliwn ers 1996.

4 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi ariannu costau cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol drwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gyfranogi ar sail wirfoddol ac i symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth, caiff y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol eu dangos yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol**

| | Ffi 2023-24 |
|---|---|
| Awdurdodau unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |

| | Ffi 2023-24 |
|---|---|
| Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad at Wiriwr Ceisiadau’r Fenter Twyll Genedlaethol (App Check). | Dim |

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

5 Rydym yn gwahodd eich barn ar raddfeydd ffioedd arfaethedig a fydd yn berthnasol i gyrff Llywodraeth Leol ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23 ac ar gyfer gwaith archwilio Perfformiad 2023-24.

6 Mae ein graddfa ffioedd archwilio cyfrifon yn ystyried cynnydd cyfartalog o 15% yn gysylltiedig â gweithredu ISA315 fel y trafodwyd uchod. Rydym yn parhau i adolygu effaith y safon newydd hon a bydd yn adlewyrchu’r canlyniad yn ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2023-24 a fydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023.

7 Mae ein graddfa ffioedd archwilio perfformiad arfaethedig yn ystyried y newid cyllid arfaethedig ar gyfer tua thraean o’n gwaith perfformiad lleol mewn Awdurdodau Unedol i Gronfa Gyfunol Cymru o fis Ebrill 2023.

## Awdurdodau unedol

### Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23

| | Ystod y ffioedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| 100 | 135 | 159 | 182 | 139 |
| 200 | 162 | 191 | 219 | 167 |
| 300 | 181 | 212 | 244 | 186 |
| 400 | 195 | 229 | 264 | 200 |
| 500 | 207 | 243 | 280 | 213 |
| 600 | 217 | 255 | 294 | 223 |
| 700 | 226 | 266 | 306 | 233 |
| 800 | 234 | 276 | 317 | 241 |
| 900 | 242 | 285 | 327 | 249 |
| 1,000 | 249 | 293 | 337 | 256 |
| 1,100 | 255 | 300 | 345 | 262 |
| 1,200 | 261 | 307 | 353 | 268 |

**Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

| Ystod y ffioedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod unedol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| | 70 | 74 | 84 | 105 |

## Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

**Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| Ystod y ffioedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pob cronfa bensiwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| | 36 | 48 | 57 | 41 |

## Awdurdodau Tân ac Achub

**Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| Ystod y ffioedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| 20 | 40 | 46 | 53 | 41 |
| 40 | 48 | 56 | 64 | 49 |
| 60 | 53 | 62 | 72 | 54 |
| 80 | 57 | 67 | 77 | 59 |
| 100 | 61 | 71 | 82 | 62 |

**Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

| Ystod y ffioedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod tân ac achub | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| | 17 | 17 | 17 | 17 |

## Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

**Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| Ystod y ffioedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| 2 | 24 | 29 | 33 | 25 |
| 4 | 29 | 35 | 40 | 30 |
| 6 | 33 | 39 | 44 | 34 |
| 8 | 35 | 42 | 48 | 36 |
| 10 | 38 | 44 | 51 | 39 |

**Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

| | Ystod y ffioedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| | 22 | 22 | 27 | 21 |

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

8 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol yn ardal pob heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCC) a'r Prif Gwnstabliaid (CC). Mater i archwilwyr ei bennu fydd sut i rannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddir ar waith gan y ddau gorff.

**Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ddrafft ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Ystod ffioedd cyfunol ar gyfer PCC a CC | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros Cyfunol y PCC a'r CC £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif y Flwyddyn Flaenorol £'000 |
| 50 | 68 | 78 | 89 | 69 |
| 100 | 80 | 92 | 105 | 81 |
| 150 | 88 | 102 | 116 | 90 |
| 200 | 94 | 110 | 125 | 96 |
| 250 | 100 | 116 | 132 | 102 |
| 300 | 104 | 121 | 138 | 106 |
| 350 | 108 | 126 | 144 | 111 |

## Cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn

9 Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru'n ddarostyngedig i gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig.

10 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur a oedd yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel y nodir yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11: cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned**

| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | Profi trafodiadau | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 2 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodiadau | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 3 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodiadau |

11 Mae taliadau am y gwaith hwn yn seiliedig ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad yn ôl y cyfraddau ffioedd a nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 5.

12 O dan amgylchiadau lle mae angen tystiolaeth bellach ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n iawn, gan gynnwys yn dilyn cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, bydd gwaith profi ychwanegol yn cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

13 Pwysleisir y bydd y ffi wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn ddibynnol ar yr amser a weithiwyd mewn gwirionedd ar yr archwiliad penodol hwnnw. Mae'r ystod ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 12** at ddibenion dangosol yn unig.

**Arddangosyn 12: taliadau amcangyfrifedig ar sail amser ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23 cynghorau tref a chymuned**

| | Band 1 (<£10k) | Band 2 (<£25k) | Band 3 (<£50k) | Band 4 (<£100k) | Band 5 (<£500k) | Band 6 (>£500k) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio trafodiadau | £145 – £185 | £170 – £200 | £235 – £285 | £360 – £440 | £640 – £765 | £850 – £1,100 |
| Gweithdrefnau cyfyngedig | £110 – £135 | £140 – £165 | £140 – £165 | £210 – £265 | £210 – £255 | £210 – £255 |

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol

14 Ac eithrio'r mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer fel y dangosir uchod, ceir nifer bach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae ein dull o ragnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau'n ffioedd yn seiliedig yn uniongyrchol ar gostau gwneud y gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a nodir yn Arddangosyn 1. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o'r Cydbwyllgorau Corfforedig. Mae'n dal i fod yn wir ar gyfer archwiliadau o'r cyrff hyn ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio archwiliadau.

15 Ar gyfer pob math o gorff llywodraeth leol, i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae'n angenrheidiol weithiau i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol (y rhai a nodir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn cysylltiad â herio gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol.

16 Gall archwilwyr wneud gwaith ardystio grantiau yng nghyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol hefyd. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn ddibynnol ar nifer y cynlluniau y mae'n rhaid eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cyfranogi yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn fesul awr ac maent yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a/neu unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r grant dan sylw fel y nodir yn Arddangosyn 13.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o'r cyfrannau perthynol o raddau staff archwilio i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith ardystio grantiau.**

| Gradd staff | Cymysgedd o staff ar gyfer grantiau cymhleth % | Cymysgedd o staff ar gyfer yr holl grantiau eraill % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd Archwilio | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Archwilydd/hyfforddai graddedig/ prentis | 71 i 77 | 81 i 87 |

17 Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Drwy e-bost

**Cyfeirnod**: LF22005/AC/319/caf
**Dyddiad cyhoeddi**: 7 Medi 2022

Annwyl Peredur

## Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol

Yn ein cyfarfod â'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mai 2022, gwnaethom drafod gyda'r aelodau y tebygolrwydd y byddem yn gofyn am Amcangyfrif Atodol i ariannu'r costau sy'n gysylltiedig ag adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i safle llai yn unol â'n gofynion presennol a'r dyfodol.

Ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd ein Bwrdd argymhelliad i adleoli'r swyddfa i Gwr y Ddinas Caerdydd, a leolir yn y Parth Menter, a fydd, yn ogystal â darparu arbedion ariannol sylweddol, yn gwella ein perfformiad amgylcheddol ac yn diwallu ein hanghenion busnes esblygol ar gyfer gweithio cyfoes a mwy clyfar. Rydym yn bwriadu gwneud y symudiad hwn ym mis Mawrth 2023.

Er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn, bydd angen i ni ofyn am Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23. Mae'r llythyr hwn yn nodi cefndir penderfyniad y Bwrdd ac yn mesur y gofynion ariannu disgwyliedig ynghyd â'r arbedion cost sy'n deillio o hynny ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Mae'r angen i ofyn am Amcangyfrif Atodol yn hytrach na chyllid drwy'r prif Amcangyfrif ar gyfer 2023-24 yn codi oherwydd na fu'n bosibl trafod estyniad cost-effeithiol i brydles Ffordd y Gadeirlan. Mae'r Amcangyfrif Atodol i bob pwrpas yn gofyn am ddwyn ymlaen arian a nodwyd ar gyfer 2023-24.

Mae’r holl oblygiadau cyllid a nodir yn y llythyr hwn – gwariant cyfalaf, cyflenwad arian parod ar gyfer dadfeilio ar Ffordd y Gadeirlan ac effaith IFRS16 – yn rhai sy'n gysylltiedig yn arferol â dechrau a diwedd cytundebau prydles. Maent unrhyw sefydliad sy'n pontio rhwng eiddo rhent yn eu hwynebu.

## Rhywfaint o gefndir

Ers 2008, bu safle Archwilio Cymru yng Nghaerdydd yn 24 Heol y Gadeirlan. Daliwyd yr eiddo hwn ar brydles 15 mlynedd sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2023. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dod i'r amlwg, ac yntau dros 24,000 troedfedd$^2$, fod yr eiddo'n rhy fawr i'n hanghenion – yn enwedig ar gyfer ein trefniadau gweithio hybrid esblygol. Mae perfformiad amgylcheddol yr eiddo hefyd yn wael ac ni fyddai'n ein galluogi i gyrraedd ein huchelgais o gyflawni carbon sero net erbyn 2030.

Mae gan Archwilio Cymru ddwy swyddfa arall – un yn Abergele ac un ym Mhenllergaer. O'u cymharu â swyddfa Caerdydd, mae'r rhain yn llawer llai, sef 2,650 a 3,000 troedfedd$^2$ yn y drefn honno, ac felly maent yn elfen llai sylweddol o'n costau llety a'n hallyriadau cyffredinol. Bydd prydlesi ar yr eiddo hyn yn dod i ben yn ystod y blynyddoedd nesaf a byddwn yn parhau i ystyried a ydynt yn cynrychioli gwerth da am arian, yn cefnogi ein dyheadau amgylcheddol ac yn diwallu ein hanghenion busnes.

## Yr achos dros symud

Mae Archwilio Cymru wedi cydnabod ers tro nad oedd modd cyfiawnhau cost ein swyddfa yng Nghaerdydd o ystyried cyfraddau isel o feddiannaeth cyn y pandemig. Ym mis Medi 2019, cytunodd y Bwrdd ar strategaeth ystadau a amlygwyd gyda'r Pwyllgor. Dechreuodd y prosiect Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol yn gynnar yn 2020 a gosododd darged i gyflawni arbedion blynyddol o 20% (tua £180,000) ar ein costau llety yn y dyfodol yn ogystal â gwelliannau amgylcheddol a lles. Bydd ein cam arfaethedig yn sicrhau arbedion blynyddol o £220,000 – sy'n well na'r targed a osodwyd gan y Bwrdd.

Bu'r prosiect hwn yn destun llywodraethu trylwyr ers y cychwyn gan gynnwys sefydlu grŵp llywio prosiect, adrodd yn rheolaidd i'n Bwrdd Rhaglen Newid ac ymgynghori â staff ac Undebau Llafur. Mae Bwrdd SAC wedi cael diweddariadau rheolaidd ar ein cynlluniau ac wedi darparu craffu cadarn i dri arfarniad opsiynau ailadroddol ar wahân, er mwyn sicrhau bod y cynnig terfynol yn bodloni'r targed arbedion ariannol gofynnol ond hefyd ei uchelgeisiau ar gyfer gweithle mwy cynaliadwy – gan ystyried perfformiad amgylcheddol yr adeiladau yr oeddem yn eu hystyried a hefyd yr effaith ar deithio staff gyda mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn faen prawf allweddol.

Nodir yr opsiynau eraill a ystyriwyd isod.

### Oes angen swyddfa?

Er bod y rhan fwyaf o'n staff corfforaethol yn gwneud llawer o'u gwaith o bell, mae ein profiad dros y blynyddoedd diwethaf wedi ein dysgu bod ein timau archwilio yn gweithio'n well wyneb yn wyneb. Rhennir y farn hon gan bob un o swyddfeydd archwilio eraill y DU a'r proffesiwn cyfrifeg ac archwilio ehangach. Mae gweithio'n bersonol, rhan o'r amser, yn helpu i sicrhau ein bod yn cynnal safonau uchel o

ansawdd archwilio ac yn cefnogi ein hyfforddeion a'n prentisiaid yn effeithiol. Drwy ddefnyddio ein lle swyddfa ein hunain, gallwn ddefnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol – lleihau'r gost a'r amser a gollir wrth deithio i gyrff archwiliedig, a oedd yn nodweddu ein model gweithredu cyn y pandemig.

Ers mis Mawrth eleni mae ein timau archwilio ariannol wedi bod yn gweithio yn y swyddfa am 2 ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lle, mae hyn wedi bod ar sail rota gyda gwahanol dimau yn mynychu ar wahanol ddiwrnodau. Mae adborth yr arolwg ar y dull hwn wedi bod yn hynod gadarnhaol gydag adroddiadau o welliannau o ran ansawdd archwilio, profiad hyfforddeion a lles staff.

Yn seiliedig ar y prosiectau treialu hyn a thrwy adolygiad deiliadaeth eraill rydym wedi dod i'r casgliad bod angen lle sy'n cyfateb i tua hanner yr hyn sydd ar gael yn Heol y Gadeirlan ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ymwybodol y gallai hyn newid wrth i'n patrymau gwaith newydd gael eu gwreiddio ac felly rydym yn edrych ar drefniadau prydles hyblyg yn y safle newydd.

**A allem ni aros yn Heol y Gadeirlan?**

Unwaith eto, ystyriwyd yr opsiwn hwn, ond am y rhesymau a nodwyd uchod cafodd ei ddiystyru. Mae costau ynni uwch ynghyd â chynnydd disgwyliedig o 12% mewn costau prydles yn golygu y byddai hyn yn opsiwn drud iawn ac na fyddai'n darparu'r perfformiad amgylcheddol gwell yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Hefyd, byddai angen buddsoddiad sylweddol o tua £360,000 i sicrhau diogelwch a chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, gan gynnwys adnewyddu'r lifft, systemau tân a diogelwch, a systemau gwresogi/HVAC.

Ystyriwyd hefyd opsiwn arall, i leihau faint o le rydym yn ei ddefnyddio yn Heol y Gadeirlan, ond byddai angen buddsoddiad sylweddol ar hyn hefyd, gan y byddai'r landlord ond yn gwneud gwaith adnewyddu yn y lle a ryddhawyd ac maent yn disgwyl cyfraniad cyfalaf ar gyfer hynny, yn ogystal â methu â chynhyrchu'r targed arbedion a osodwyd gan y Bwrdd, a'r gwelliannau amgylcheddol yr ydym wedi ymrwymo iddynt. Roedd hefyd yn dal yn ddrytach na phob swyddfa arall ar ein rhestr fer.

**A allem ni adleoli y tu allan i Gaerdydd?**

Ers dechrau 2020 rydym wedi ystyried gwahanol opsiynau ledled de Cymru, gan gynnwys Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd, ac Abertawe. Diystyriwyd y rhain yn bennaf oherwydd diffyg adeiladau addas o'r maint cywir gyda pherfformiad amgylcheddol da a'r effaith sylweddol ar deithio staff. Roedd ein rhestr hir wreiddiol yn ystyried 32 o eiddo, ond wrth weithio drwy ein meini prawf sgorio ochr yn ochr â lles ac effeithiau teithio cysylltiedig, eiddo yng Nghaerdydd gyrhaeddodd y rhestr fer.

**A allem ni rannu â chorff cyhoeddus arall?**

Rhoddwyd cryn ystyriaeth i p'un a allem ni rannu lle swyddfa â chyrff cyhoeddus eraill sydd hefyd yn ceisio lleihau eu gofynion llety. Rydym wedi adolygu'r lle dros ben, wedi twrio trwy'r ystâd gyhoeddus drwy Ystadau Cymru, ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, ac wedi cysylltu â sawl corff cyhoeddus yn uniongyrchol. Yn anffodus, nid oes unrhyw opsiynau addas ar gael ar hyn o bryd, ond nid ydym yn diystyru hyn yn y tymor hwy a byddwn yn archwilio opsiynau cyn seibiant prydles fel rhan o'n cynlluniau. Bydd angen i ni hefyd ystyried annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol cyn ystyried ymrwymo i berthynas gytundebol ag unrhyw un o'n cyrff archwiliedig.

**Opsiynau a ystyriwyd**

Ystyriwyd dros 30 o eiddo sydd ar gael fel rhan o'r broses hon ac fe'u sgoriwyd ar sail y canlynol:

- Diwallu anghenion busnes;
- Cost;
- Perfformiad amgylcheddol; a
- Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a pharcio

Yr eiddo a gyflawnodd y sgôr ansawdd cyffredinol uchaf oedd ein hopsiwn a ffefrir sef Cwr y Ddinas. Bwriedir prydles deng mlynedd ar gyfer swyddfa o ychydig llai na 15,000 troedfedd2 (gostyngiad o 40% mewn maint o'i gymharu â Heol y Gadeirlan) – mae'r lle dros ddau lawr, gyda seibiant ar bob un 5 mlynedd i mewn i roi hyblygrwydd i leihau maint y swyddfa ymhellach os oes angen.

Mae'r achos busnes ariannol ar gyfer yr opsiwn hwn wedi'i nodi isod ac mae'n dangos y bydd symud i Gwr y Ddinas dros y deng mlynedd nesaf yn arbed tua £2 miliwn o'i gymharu ag aros yn Heol y Gadeirlan.

## Yr achos ariannol

Er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, bydd angen buddsoddiad ymlaen llaw i gyfarparu swyddfa Cwr y Ddinas yn y flwyddyn ariannol bresennol. Byddai angen rhywfaint o fuddsoddiad hanfodol yn 2023-24 wrth aros yn Heol y Gadeirlan yn y tymor hwy hefyd (fel y nodwyd uchod).

Nodir y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â phob opsiwn isod. Gydag arbedion blynyddol o £220,000 drwy symud i Gwr y Ddinas, byddai'r buddsoddiad cychwynnol yn cael ei adennill mewn llai na 3 blynedd.

| | Heol y Gadeirlan | | | Cwr y Ddinas | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2023-24 | Parhaus | 2022-23 | 2023-24 | Parhaus |
| Buddsoddiad Cyfalaf | - | 360 | - | 575 | - | - |
| Costau rhedeg | 874 | 930 | 930 | 100 | 710 | 710 |
| Net | 874 | 1,290 | 930 | 675 | 710 | 710 |
| Cost / Arbediad | | | | 675 | (580) | (220) |

Amcangyfrifir bod £575,000 o gostau cyfalaf sy'n gysylltiedig â symud i Gwr y Ddinas yn cynnwys:

- Cyfarparu ac uwchraddio amgylcheddol £405,000
- Costau adleoli a sefydlu £60,000
- Treth Dir y Dreth Stamp £40,000
- Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol £40,000
- Costau staff ychwanegol £30,000

Rydym mewn trafodaethau gyda'r landlord ynghylch a fydd rhai o'r costau cyfarparu yn cael eu hariannu ganddyn nhw yn y lle cyntaf ac yna eu cynnwys yn ein costau prydles parhaus. Os cadarnheir yr opsiwn hwn byddai unrhyw danwariant yn erbyn ein cyllideb gyfalaf yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

## Yr achos amgylcheddol

Mae safle Cwr y Ddinas yn cael ei raddio'n dda iawn gan BREAAM (Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac mae ganddo Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) gradd B ar gyfer ei berfformiad amgylcheddol. Rydym wedi adolygu buddion disgwyliedig ac wedi amcangyfrif y byddai arbedion allyriadau ynni tua £100,000 (heb gynnwys taliadau sefydlog) net o werth cymdeithasol presennol a 265 tunnell o Co2e (allyriadau nwyon tŷ gwydr). Bydd y lleoliad hefyd yn gwella'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod yn agos i Orsafoedd Caerdydd Canolog a Stryd y Frenhines ac yn helpu i annog teithio'n wyrddach wrth i ni weithio tuag at ein nod ar y cyd ar gyfer sero net. Bydd ei agosrwydd i lwybr beicio a cherdded di-draffig, a beiciau i'w llogi a chyfleusterau cawod hefyd yn annog ac yn hyrwyddo teithio llesol.

## Cyllideb gyfalaf 2022-23 i 2025-26

Bydd y Pwyllgor yn cofio bod ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn cynnwys arwydd o gostau ychwanegol ar gyfer symud swyddfa yn 2023-24 o £500,000. Cafodd hyn ei briodoli i symud o Heol y Gadeirlan ym mis Mawrth 2024 yn amodol ar gytuno estyniad blwyddyn i'r brydles ar y safle hwnnw.

Roedd ein Hamcangyfrif yn 2022-23 yn cynnwys £200,000 ar gyfer ein Rhaglen Newid a oedd yn cynnwys £50,000 ar gyfer gwaith paratoi sy'n gysylltiedig â symud swyddfa, gan gynnwys newidiadau i'r eiddo presennol i dreialu gosodiadau swyddfa newydd – mae'r gwaith hwn wedi bod yn parhau trwy 2022-23 a bydd yn llywio dyluniad yr adeilad newydd.

Nid ydym wedi gallu sicrhau estyniad blwyddyn i brydles Heol y Gadeirlan am gost resymol, felly mae'r Bwrdd wedi penderfynu symud cyn i'r brydles bresennol ddod i ben ym mis Mawrth 2023. Ar yr un pryd, fel y gwnaethom ei amlygu i'r Pwyllgor yn ein cyfarfod ym mis Mai 2022, mae costau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol felly mae ein hamcangyfrif o gost gyfalaf bellach yn £575,000.

Mae'r tabl canlynol yn adlewyrchu'r newidiadau o ran amseru a'r cwantwm cyffredinol sydd ei angen i'r gyllideb gyfalaf a nodir yn ein Hamcangyfrif 2022-23. Nid yw hyn yn cynnwys effaith safon gyfrifyddu newydd (IFRS16) y manylir arno yn ddiweddarach yn y llythyr hwn.

| | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 | 2024-25 £'000 | 2025-26 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf yn ôl Amcangyfrif 2022-23 | 310 | 760 | 510 | 510 | 2,090 |
| Amcangyfrif Atodol Arfaethedig 2022-23 | 885 | 310 | 510 | 510 | 2,215 |
| Newid | 575 | (450) | - | - | 125 |

## Cyllideb refeniw 2022-23

Yn ogystal â'r costau cyfalaf a nodir uchod, bydd angen swm bach o arian refeniw ychwanegol arnom hefyd yn 2022-23 i dalu costau sy'n gysylltiedig â symud, gan gynnwys £60,000 ar gyfer costau rhent y swyddfa newydd o fis Rhagfyr 2022. Rydym wedi amcangyfrif gofyniad refeniw ychwanegol o £100,000 yn y flwyddyn hon yn unig.

## Darpariaeth ar gyfer dadfeilio

Yn unol ag arfer cyfrifyddu safonol, rydym wedi bod yn gwneud darpariaeth dros oes y brydles ar gyfer cost dychwelyd ein hystad swyddfa i'w chyflwr wreiddiol (darpariaeth ar gyfer dadfeilio). Felly mae ein fantolen bellach yn cynnwys darpariaeth o £650,000 ar gyfer dadfeilio. Bydd rhywfaint o hyn yn cael ei ddefnyddio yn 2023-24 i fodloni ein rhwymedigaethau o dan y brydles o ran Heol y Gadeirlan a bydd y Pwyllgor yn gweld hynny'n cael ei adlewyrchu yn y gofyniad arian parod a nodwyd yn ein Hamcangyfrif 2023-24. Ni fydd angen cyllid adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn.

## Ystyriaethau IFRS16

Roedd ein Hamcangyfrif Atodol Cyntaf ar gyfer 2022-23 yn cynnwys addasiadau heb fod yn arian parod sydd eu hangen i adlewyrchu effaith safon cyfrifyddu newydd, IFRS 16, sy'n mynnu bod costau prydles yn y dyfodol yn cael eu cynnwys ar ein mantolen fel Ased 'Hawl i Ddefnyddio'. O ystyried y cyfnod byr sy'n weddill ar brydles Heol y Gadeirlan, roedd yr addasiadau ar gyfer Archwilio Cymru yn ddibwys.

Ar gyfer prydles newydd (naill ai ar gyfer Heol y Gadeirlan neu Gwr y Ddinas) bydd angen i ni gynnwys darpariaeth ar gyfer gwerth y brydles honno a dibrisiant cysylltiedig yn ein cyllidebau ar gyfer y flwyddyn. Amcangyfrifir mai effaith IFRS16 o symud i Gwr y Ddinas yw £2.85 miliwn yn 2022-23 sy'n cynnwys sefydlu darpariaeth ar gyfer dadfeilio strwythurol yn y dyfodol. Wrth lofnodi prydles newydd ar gyfer ein swyddfa Ffordd y Gadeirlan, byddai angen cael addasiad IFRS16 a amcangyfrifir yn £3.5 miliwn yn 2022-23.

Nodir goblygiadau IFRS16 o ran Cwr y Ddinas isod. Sylwer mai addasiadau cyfrifyddu yn unig yw'r rhain ac ni fydd angen arian ychwanegol.

| | Gofyniad arian parod £'000 | Addasiadau IFRS16 £'000 | Cyfanswm yr Adnodd £'000 |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | | | |
| Buddsoddiad cyfalaf | 575 | 2,850 | 3,425 |
| **2023-24 ymlaen** | | | |
| Taliadau rhent prydles | 261 | (261) | - |
| Dibrisiad | - | 258 | 258 |
| Taliadau llog | - | 3 | 3 |
| Cyfanswm | 261 | 261 | 261 |

Byddai llofnodi prydles newydd ar gyfer ein swyddfa yn Heol y Gadeirlan hefyd wedi golygu bod angen addasiad IFRS16 a amcangyfrifir yn £3.0 miliwn yn 2023-24.

## Crynodeb o'r cyllid sydd ei angen

I grynhoi, bydd ein Hamcangyfrif Atodol arfaethedig ar gyfer 2022-23 yn ceisio cynyddu ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru fel a ganlyn:

Mwy o adnodd cyfalaf ac arian parod cysylltiedig: £575,000
Mwy o adnodd refeniw ac arian parod cysylltiedig: £100,000
Mwy o adnodd dim ond o ran IFRS16: £2,850,000 (amcangyfrif)

Bydd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24 yn ceisio cyflenwad arian parod sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeilio presennol (uchafswm o £650,000).

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes eglurhad pellach y gallwn ei ddarparu i fod o gymorth.

Yn gywir

**LINDSAY FOYSTER**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch Amrywio Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023

Cyhoeddwyd: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3139A2022

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid y Senedd i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35.

Adrian Crompton
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Lindsay Foyster
Cadeirydd, ar ran **Swyddfa Archwilio Cymru**

# Cynnwys

Memorandwm esboniadol

Cyflwyniad 4

Rheswm dros newid 4

Addasiadau i gyllidebau adnoddau 5

Atodiadau

Atodiad 1 – Crynodeb o ofynion cyllideb 2022-23 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 7

# Memorandwm esboniadol

## Cyflwyniad

1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'n rhaid i'r pwyllgor cyfrifol archwilio'r Amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Senedd ar ôl gwneud unrhyw welliannau sy'n briodol yn ei dyb.

2 Cafodd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23 ei gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Blynyddol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 20.26 a'i gymeradwyo yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ar 8 Mawrth 2022 yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Cyllid.

3 Roedd y cynnig cyllideb yn awdurdodi Swyddfa Archwilio Cymru i gadw £15.082 miliwn o adnoddau cronnus, a gynhyrchwyd drwy ffioedd a godwyd ar gyrff archwiliedig, gan gyflenwi £8.608 miliwn arall o adnoddau eraill i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, defnyddir y £23.69 miliwn hwn i dalu costau Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

4 Ym mis Mehefin 2022, fe wnaeth Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid leihau'r alwad ar adnoddau eraill o £354,000 sy'n gysylltiedig â newidiadau i'n trefniadau teithio a chynhaliaeth yn 2021-22 a gweithredu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Prydlesi (IFRS 16).

5 Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

## Rheswm dros newid

### Newidiadau i'n swyddfa

6 Mae Archwilio Cymru wedi cydnabod ers tro na ellid cyfiawnhau cost ein swyddfa yng Nghaerdydd o ystyried cyfraddau isel o feddiannaeth cyn y pandemig. Ym mis Gorffennaf 2022, yn dilyn gwerthusiad manwl o opsiynau, cytunodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar argymhelliad i adleoli swyddfa Heol y Gadeirlan i adeiladau sylweddol llai yng Nghwr y Ddinas Caerdydd.

7 Ymysg yr opsiynau a ystyriwyd oedd p'un a oedd angen lle swyddfa o gwbl yn y dyfodol, ac a oedd achos dros leoli'r swyddfa y tu allan i Gaerdydd. Gan ystyried profiad o'n prosiectau treialu ein hunain a chyrff archwilio eraill yn y DU, fe wnaethom gytuno bod angen lle swyddfa i ganiatáu i'n timau archwilio weithio'n fwy effeithiol, ond y byddai lle llai yn fwy cost effeithiol. Roedd diffyg llety addas y tu allan i Gaerdydd ynghyd â chost ac effaith amgylcheddol teithio i staff yn golygu mai swyddfa newydd yng Nghaerdydd oedd yr opsiwn a ffefrir.

8 Bydd y symud hwn yn sicrhau arbedion ariannol sylweddol, yn gwella ein perfformiad amgylcheddol ac yn diwallu ein hanghenion busnes esblygol ar gyfer

gweithio cyfoes a mwy clyfar. Rydym yn bwriadu gwneud y symudiad hwn ym mis Mawrth 2023.

9 Mae disgwyl arbedion blynyddol o tua £220,000 o’r symudiad hwn. Er mwyn cyflawni’r arbedion hyn, bydd angen buddsoddi ymlaen llaw i gyfarparu swyddfa Cwr y Ddinas yn y flwyddyn ariannol bresennol.

10 Nodir isod yr arbedion amcangyfrifedig, o’u cymharu ag aros yn swyddfa Heol y Gadeirlan. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hyn, byddai’r buddsoddiad cychwynnol yn cael ei adennill mewn llai na thair blynedd.

11 Byddai aros yn Heol y Gadeirlan hefyd yn gofyn am fuddsoddiad mewn gwelliannau diogelwch hanfodol ond ni fyddai’n sicrhau arbedion yn y dyfodol.

**Arddangosyn 1: arbedion amcangyfrifedig**

| | Heol y Gadeirlan | | | Cwr y Ddinas | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2023-24 | Parhaus | 2022-23 | 2023-24 | Parhaus |
| Buddsoddiad Cyfalaf | – | 360 | – | 575 | – | – |
| Costau rhedeg | 874 | 930 | 930 | 100 | 710 | 710 |
| Net | 874 | 1,290 | 930 | 675 | 710 | 710 |
| Cost/Arbediad | | | | 675 | (580) | (220) |

12 Yn ogystal, mae safle Cwr y Ddinas yn cael ei raddio’n dda iawn gan BREAAM (Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac mae ganddo Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) gradd B am ei berfformiad amgylcheddol. Rydym wedi adolygu buddion disgwyliedig ac wedi amcangyfrif y byddai arbedion allyriadau ynni tua £100,000 (heb gynnwys taliadau sefydlog) net o werth cymdeithasol presennol a 265 tunnell o $CO_2e$ (allyriadau nwyon tŷ gwydr). Bydd y lleoliad hefyd yn gwella’r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod agos i Orsafoedd Caerdydd Canolog a Stryd y Frenhines ac yn helpu i annog teithio’n wyrddach, wrth i ni weithio tuag at ein nod ar y cyd ar gyfer sero net. Bydd ei agosrwydd i lwybr beicio a cherdded di-draffig, a beiciau i’w llogi a chyfleusterau cawod hefyd yn annog ac yn hyrwyddo teithio llesol.

# Addasiadau i gyllidebau adnoddau

13 Fel yr eglurwyd uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio cyflawni cynnydd o £575,000 a £100,000 yn y drefn honn o i’w hadnoddau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2022-23 a £675,000 i’w ofyniad arian parod net.

14 Mae angen addasiad heb fod yn arian parod mewn cysylltiad ag IFRS16 o £2,585,000 hefyd – mae hyn at ddibenion cyfrifyddu yn unig.

15 Nodir y newidiadau cyllideb cysylltiedig ar gyfer 2022-23 yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: newidiadau i'r gyllideb 2022-23**

| | Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23 £'000 | Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000 | Amcangyfrif Diwygiedig 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Adnodd refeniw | 7,944 | 100 | 8,044 |
| Adnodd cyfalaf | 310 | 575 | 885 |
| Adnodd cyfalaf (IFRS16) | – | 2,850 | 2,850 |
| Adnoddau cronnus | 15,082 | – | 15,082 |
| Cyfanswm y gwariant | 23,336 | 3,525 | 26,861 |
| Gofyniad arian net | 8,684 | 675 | 9,359 |

# Atodiad 1

## Crynodeb o ofynion cyllideb 2022-23 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), caiff Gweinidogion symud Cynnig Cyllideb Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi:

- swm yr adnoddau sydd i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- swm yr adnoddau cronnus i Swyddfa Archwilio Cymru y gellir ei gadw (yn hytrach na'i dalu i'r Gronfa Gyfunol); a'r
- swm y ceir ei dalu allan o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Crynhoir y gofynion hyn, a all fod yn amcangyfrifon yn unig oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn **Nhablau 1 a 2** isod.

**Tabl 1: crynodeb o ofynion cyllideb amcangyfrifedig 2022-23**

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol, ac wrth weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: | |
| • Refeniw | 8,044 |
| • Cyfalaf | 3,735 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig; adenillion eraill o gostau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau a darpariaeth gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 15,082 |
| Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 9,359 |

**Tabl 2: cysoni gofyniad adnoddau â gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru**

| | Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23 £'000 | Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000 | Newid net £'000 |
|---|---|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 8,254 | 11,779 | 3,525 |
| Addasiad heb fod yn arian parod – dibrisiant a thaliadau llog | (704) | (704) | – |
| Taliadau rhent y brydles | 424 | 424 | – |
| Addasiad heb fod yn arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gwaith | 710 | 710 | – |
| Addasiad heb fod yn arian parod IFRS16 | – | (2,850) | (2,850) |
| Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn | 8,684 | 9,359 | 675 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon